



Ministry
of Justice

Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: Y Camau Nesaf

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 5 Medi 2013
Mae'r ymgynghoriad hwn yn gorffen ar 1 Tachwedd 2013



**Ministry
of Justice**

Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol:

Y camau nesaf

**Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael ar wefan
y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn
<https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid>**

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

- At:** Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at ddarparu'r gwasanaethau cyfreithiol sydd wedi'u hariannu gan y cyhoedd ac eraill sydd â diddordeb yn y system gyfiawnder.
- Hyd:** O 05 Medi 2013 tan 1 Tachwedd2013
- Ymholiadau (yn cynnwys ceisiadau am gael y papur mewn fformat amgen) at:** Annette Cowell
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3555
E-bost: LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk
- Sut i ymateb:** Anfoner eich ymateb erbyn 1 Tachwedd2013 at:
Annette Cowell
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 3555
E-bost: LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk
- Papur ymateb:** Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn dilyn eu hystyried. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn:
<https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid>

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	3
Chapter 1. Cyflwyniad a'r Achos dros Ddiwygio	5
Rhan Un: Y Rhaglen Ddiwygio	11
Chapter 2. Ymateb i'r ymgynghoriad	12
Rhan Dau: Ymgynghoriad Pellach	24
Atodlen y Cwestiynau Ymgynghori	25
Chapter 3. Caffael Gwasanaethau Cymorth Cyfreithiol Troseddol	26
Chapter 4. Diwygio Ffioedd Adfocatiaeth Troseddol	49
Chapter 5. Asesiad Effaith	55
Amdanoch chi	56
Manylion Cyswllt Cyd-lynydd yr Ymgynghoriad	57
Atodiadau	59
Atodiad A: Geirfa	60
Atodiad B: Ymateb i'r ymgynghoriad	66
Atodiad C: Cynigion Amgen	152
Atodiad D: Canlyniad y tendr cymorth cyfreithiol sifil 2013	162
Atodiad E: Ffioedd Newydd Sifil, Teulu ac Arbenigol	163
Atodiad F: Datganiad Cydraddoldeb	170
Atodiad G: Data i gefnogi'r model diwygiedig o gaffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol	234
Atodiad H: Cynllun Adfocatiaeth Diwygiedig 1	274
Atodiad I: Cynllun Adofacatiaeth Diwygiedig 2	276

Rhagair y Gweinidog



Mae cymorth cyfreithiol yn rhan hanfodol o'n system gyfiawnder - mae'n sicrhau fod gan y sawl sy'n cael eu cyhuddo o drosedd bob amser yr hawl i amddiffyniad. Mae hyn wrth galon cymdeithas wâr, ac yn tanategu'r mynediad at gyfiawnder. Mae ymrwymiad y Llywodraeth hon i gymorth cyfreithiol yn golygu fod yn rhaid i ni sicrhau fod gan y cyhoedd hyder ynnddo, a'i fod yn cael ei roi ar sylfaen gynaliadwy, o ran y rhai sydd ei angen, y rhai sy'n ei ddarparu, a'r rhai sy'n talu amdano yn y pen draw - y trethdalwr.

Mae'r Llywodraeth hon wedi cychwyn ar broses o unioni cyllid cyhoeddus wedi blynyddoedd o fenthycy anghyfrifol ac argyfwng ariannol dan y weinyddiaeth flaenorol. Bydd lleihad o yn agos i draean yng nghyllideb y Weinyddiaeth Gyfiawnder rhwng 2010 a 2016. Nid yw unrhyw faes gwariant wedi'i eithrio o gael ei

archwilio'n fanwl dan yr amgylchiadau hyn. Mae ein system cymorth cyfreithiol yn rhan fawr o gyllideb fy Adran i, ac mae'n briodol felly ein bod yn chwilio am arbedion yma hefyd.

Ym mis Ebrill, cyhoeddodd fy Adran set o gynigion er mwyn cyflawni'r arbedion hyn, sicrhau marchnad cymorth cyfreithiol troseddol gynaladwy a system cymorth cyfreithiol gredadwy ac effeithlon. Ers hynny rydym wedi bod yn ymgynghori'n eang, sydd wedi ein cynorthwyo i fireinio'r cynigion hyn yn unol â'n nodau. Hoffwn ddiolch i'r rhai hynny sydd wedi cymryd rhan adeiladol yn y broses hon.

Yn arbennig, rydym wedi bod yn trafod yn fanwl gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, rwyf wedi dod i gytundeb â hwy ar set synhwyrol o gynigion ar gyfer marchnad cymorth cyfreithiol gynaladwy mewn ymgyfreitha troseddol. Mae'r cynigion hyn yn golygu y byddai pawb sydd wedi'u cyhuddo o drosedd yn cael cynrychiolaeth gyfreithiol o safon; bod diffynyddion yn rhydd i ddewis eu cyfreithwyr, p'un ai eu bod am gael cwmni mawr, eu cyfreithiwr lleol ar y stryd fawr neu arbenigwr penodol; fod pawb sydd ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn gallu parhau i wneud hynny, ar yr amod eu bod yn cwrdd â lleiafswm y safonau ansawdd; a bod mynediad at gyfiawnder wedi'i warantu drwy'r wlad drwy ddull newydd o gontractio darparwyr dyletswydd gan sefydliadau sydd â'r modd a'r gallu i ddarparu'r gwasanaeth hwn ar sail barhaus. Mae'r cynigion hyn hefyd yn cwrdd â'r cyfyngiadau ariannol a wynebwr gan fy Adran i, ac felly'n cynrychioli ffordd ymlaen hirdymor a chynaliadwy i'r Llywodraeth a'r proffesiwn. Rydym heddiw yn gwahodd barn ar y cynigion hyn.

Yng nghyswllt ffioedd eiriolaeth, rydym yn cyhoeddi dau opsiwn ar gyfer diwygio. Mae un o'r rhain yn adeiladu ar y cynigion y gwnaethom eu rhoi gerbron ym mis Ebrill, ac mae'r llall yn seiliedig ar gynllun a roddwyd gerbron gan Gyngor y Bar, sy'n tynnu ar yr un a ddefnyddir gan Wasanaeth Erllyn y Goron. Mae'r ddau yn cynrychioli ffordd synhwyrol o leihau ffioedd, yn ogystal â chyflymu gweinyddiad y system cymorth cyfreithiol a'i symleiddio. Fe gawn ein harwain gan farn y proffesiwn a deiliaid diddordeb eraill wrth ddod i benderfyniad terfynol ar ba gynllun i'w weithredu.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cydnabod nad trefniadau ffioedd yn unig sy'n penderfynu llwyddiant a hyfywdra proffesiwn y gyfraith, ac rwy'n cymryd cyfres o gamau sy'n dangos fod y Llywodraeth hon o ddifrif ynghylch cynnal proffesiwn y gyfraith yn y wlad hon yn arweinydd

byd. Yn gyntaf, rwy'n deall yr heriau ariannol y mae busnesau drwy'r DU yn eu hwynebu, a byddwn felly'n cyflwyno gwell system o daliadau interim ar gyfer achosion sy'n para dros gyfnod hir, i gynorthwyo gyda llif arian busnesau cyfreithiol ac adfocadau hunan gyflogedig. Yn ail, rwyf am sicrhau fod y system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithlon fel na fydd achosion yn hawlio mwy o adnoddau nag sy'n angenrheidiol, o ran arian cyhoeddus ac o ran amser cyfreithwyr. Rydym felly'n rhoi panel o gyfreithwyr troseddol at ei gilydd i fwrw golwg ar y broses gyfreithiol, gan nodi lle gellir ei gwella a llunio cynigion ar gyfer diwygio. Yn olaf, mae'n amlwg i mi fod eiriolaeth yn wynebu nifer o heriau, o dwf gwahanol lwybrau i mewn i'r proffesiwn, cyflenwad cynyddol ond galw sy'n lleihau, newidiadau rheoli, yn ogystal â heriau ariannol. Rwyf felly, ar y cyd a Chymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor y Bar, wedi gofyn i Syr William Jeffrey gynnal adolygiad annibynnol o ddyfodol eiriolaeth droseddol annibynnol yng Nghymru a Lloegr, i adrodd ymhen chwe mis. Credaf y bydd y tair gweithred hyn yn gymorth i sicrhau cynaladwyedd y proffesiynau yn y tymor hir yn yr amgylchedd ariannol anoddach yr ydym yn ei wynebu.

Rwyf wedi penderfynu bwrw ymlaen gyda'r rhan fwyaf o'r mesurau a gynigiwyd gennym yn Ebrill, cymryd camau llym i ddelio â chost cymorth cyfreithiol a sicrhau hyder y cyhoedd yn y system cymorth cyfreithiol. I fod yn gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, fe fydd yn rhaid i bobl yn y dyfodol fod â chysylltiad cryf â'r DU; ni fydd cymorth cyfreithiol sifil ar gael bellach ar gyfer achosion sydd â siawns ffiniol yn unig o fod yn llwyddiannus - os na fydd unigolyn preifat yn debygol o ariannu'r achos, ni ddylai'r trethdalwr ychwaith; ni fydd diffynyddion mwyaf cyfoethog llys y Goron yn derbyn cymorth cyfreithiol troseddol yn awtomatig ddim mwy ac ni fydd gan droseddwyr ychwaith fynediad at gymorth cyfreithiol troseddol yn unig er mwyn cael bywyd brafach mewn carchar arall. Rydym hefyd yn bwrw ymlaen gyda'r newid yn y ffioedd sifil a ffioedd arbenigwyr gyda rhai addasiadau bychain.

Mae hwn yn becyn cynhwysfawr o ddiwygiadau sy'n seiliedig ar ymgynghori eang. Credaf ei fod yn cynnig gwerth i'r trethdalwr, sefydlogrwydd i'r proffesiynau, a mynediad at gyfiawnder i bawb.



Chris Grayling
Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Chapter 1. Cyflwyniad a'r Achos dros Ddiwygio

- 1.1 Mae gan y system cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr enw da dros y byd i gyd am fod yn ddiduedd ac am degwch, ac mae'n fodel ar gyfer llawer o systemau eraill dros y byd. Mae darpariaeth cymorth cyfreithiol ble mae ei angen yn rhan annatod o'r system honno.
- 1.2 Fodd bynnag, mae angen i unrhyw gynllun cymorth cyfreithiol gael ei dargedu yn iawn at yr achosion a'r bobl sydd fwyaf mewn angen. Rhaid i unrhyw wasanaethau a gyllidir gan y cyhoedd gael ei ddarparu mewn dull mor effeithiol ag sy'n bosibl i sicrhau gwerth i'r trethdalwr ar y naill law ac argaeledd gwasanaethau safon uchel cynaliadwy i gleientiaid ar y llall. Mae'r amcanion hyn yn mynd gyda graen dulliau ehangach y Llywodraeth i alluogi Prydain i lwyddo yn yr 21ain Ganrif. Rhaid i wasanaethau cyhoeddus fod yn deg ac i'r trethdalwr a'r derbynydd; rhaid i safonau fod yn uchel ac mae'n rhaid i ni ostwng costau er mwyn i'r wlad allu byw oddi fewn i'w gallu wrth i ni adeiladu economi gref, gynaliadwy.
- 1.3 Ar gwaethaf y gwahanol ymdrechion gan Lywodraethau blaenorol i atal cost gwario ar gymorth cyfreithiol, mae'n dal i fod yn wir bod gennym, drwy gost flynyddol o £2 biliwn, un o'r lefelau uchaf o wario ar gymorth cyfreithiol yn y byd, gyda tua £1 biliwn o hyn yn cael ei wario ar gymorth cyfreithiol troseddol. Mae'n costio mwy y pen nag unrhyw wlad arall, gan gynnwys rhai â thraddodiadau cyfreithiol a barnwrol tebyg i ni.
- 1.4 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gwtogi gwariant ac ni all y cynllun cymorth cyfreithiol fod yn rhydd o hynny. Yn gyffredinol, erbyn 2015/16 bydd cyllideb y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gostwng o draean ers 2010, a bydd ein diwygiadau i gynllun cymorth cyfreithiol, unwaith wedi eu gweithredu, yn gweld y gyllideb benodol honno yn disgyn o gyfartaledd tebyg.
- 1.5 Os ydym am gynnal hygredd cymorth cyfreithiol fel rhan hanfodol o'n system gyfreithiol bydd raid i ni allu dangos i'r cyhoedd a theuluoedd sy'n gweithio'n galed, y rhai mae eu trethi yn cynnal y system hon, ein bod wedi craffu ar bob agwedd o wario ar gymorth cyfreithiol i sicrhau y gall gael ei gyfiawnhau a bod y gwasanaethau yn cael eu cyflwyno mor effeithlon â phosibl. Os nad yw cynllun cymorth cyfreithiol yn cael ei dargedu at y bobl a'r achosion ble mae mwyaf o angen arian, ni fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ac ni fydd yn gredadwy.
- 1.6 Dyna pam, pan ddaeth y Llywodraeth i rym yn 2010 y cadarnhaodd y byddai'n cyflawni arolwg sylfaenol o'r cynllun cymorth cyfreithiol i wneud iddo weithio'n fwy effeithlon¹ i'r pwrpas hwnnw.
 - a. Yn Nhachwedd 2010 cyhoeddodd y Llywodraeth ei *Cynigion i Ddiwygio Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr*² a arweiniodd at y mesurau cymorth cyfreithiol a gynhwysir yn y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi

¹ Y Glymblaid: ein rhaglen i lywodraethu:
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/78977/coalition_programme_for_government.pdf

² Cynigion i Ddiwygio Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr:
<http://www.justice.gov.uk/consultations/633.htm>

Troseddwyr (LASPO) 2012³. Canolbwyntiodd y mesurau hynny ar newid cwmpas cymorth cyfreithiol sifil, a chyflwyno diwygiad ystod eang pan ddaeth i rym yn Ebrill 2013, gan dargedu cymorth cyfreithiol ar yr achosion mwyaf difrifol sydd â digon o flaenoriaeth i gyfiawnhau'r defnydd o arian y wlad a chyflwyno arbedion sylweddol i'r cynllun a gwell gwerth i'r treth dalwr.

- b. Yn Ebrill 2013 dechreuodd y Llywodraeth ar y cam nesaf o ddiwygio, gan ganolbwyntio'r tro hwn ar gymorth cyfreithiol troseddol, gydag ymgynghoriad *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: cyflwyno system mwy credadwy ac effeithiol*. Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad hwn ar yr angen i sicrhau fod gwario yn fwy credadwy yng ngoleuni dull ehangach y Llywodraeth at wario cyhoeddus a diwygio economaidd ac ar yr angen i sicrhau yn benodol fod gwasanaethau amddiffyn troseddwyr yn cael eu darparu mewn dull cost effeithiol drwy strwythurau busnes a ffioedd mwy effeithiol.

- 1.7 Mae'r ddogfen hon yn gosod allan manylion yr ymatebion a dderbyniasom i'r ail ymgynghoriad ac yn disgrifio sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu mynd rhagddi.

Y broses ymgynghori

- 1.8 Rydym yn cydnabod fod y penderfyniadau sydd i'w gwneud yn rhai anodd. Rydym felly wedi canfasio a derbyn ystod eang o safbwyntiau. Cyhoeddasom ymgynghoriad – gyda 36 cwestiwn manwl – oherwydd ein bod ni'n ddiffuant am glywed oddi wrth y rhai oedd â diddordeb yn y cynigion a'r rhai sy'n cyflwyno gwasanaethau ar hyn o bryd. Cynhaliodd swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder bedwar ar ddeg o ddigwyddiadau rhanddeiliaid o gwmpas y wlad a fynychwyd gan amcangyfrif o 2,500 o bobl. Cyfarfu tîm y weinyddiaeth â llawer o gynrychiolwyr o'r proffesiynau. Bu i ni ymateb a dysgu oddi wrth ddadleuon Seneddol a gwrandawriadau pwyllgorau dethol, cwestiynau a cheisiadau am wybodaeth. Derbyniodd ein ymgynghoriad bron i 16,000 o ymatebion. Cawsom ymatebion hir a manwl gan gyrff a grwpiau proffesiynol perthnasol; ymarferwyr cymorth cyfreithiol; aelodau o'r farnwriaeth; elusennau; ac uniongion. Rydym wedi eu hystyried i gyd yn ofalus.
- 1.9 Mae'n anochel fod newidiadau o'r math hwn yn mynd i greu diddordeb enfawr fel roedd yn amlwg oddi wrth yr ymatebion a dderbyniwyd gennym. Mae'r Llywodraeth yn adnabod cryfder y teimladau a godwyd gan ein cynigion yn arbennig ymhlith y rhai sy'n cael eu effeithio'n fwyaf uniongyrchol, darparwyr y gwasanaethau a'u cynrychiolwyr.

Y canlyniad

- 1.10 Cred y Llywodraeth fod ein ymgynghoriadau a'r ymatebion a grëwyd ganddynt wedi dangos yn eglur y gall gwasanaethau amddiffyn troseddol sy'n derbyn cymorth cyfreithiol gyfreithiol gael eu gweithredu'n fwy effeithiol. Cadarnhaodd ein safbwynt fod angen cyfnerthu arwyddocaol ac ail strwythuro ar y farchnad gwasanaethau cyfreithiad amddiffyn troseddol os yw am weithredu'n effeithiol ar gost is. A thra rydym yn bwriadu gwneud peth newid i'n cynigion gwreiddiol yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd, mae wedi cadarnhau ein safbwynt fod angen newidiadau pellach i sicrhau fod gwario cymorth cyfreithiol yn cael ei dargedu'n gywir ar faterion sy'n flaenoriaeth. Cred y Llywodraeth hefyd ei fod yn iawn i bwysu ymlaen gyda'r gostyngiadau yn y ffioedd mewn rhai achosion sifil a'r ffioedd a delir i arbenigwyr.

³ LASPO: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/10/contents/enacted>

- 1.11 Ein casgliad cyffredinol felly yw fod achos cymhellol dros drawsffurfio cymorth cyfreithiol gyda'r amcanion hyn mewn golwg. Yng ngoleuni'r adborth a dderbyniasom rydym wedi penderfynu i fynd rhagom gyda rhai diwygiadau mewn ffurf addasedig tra gyda rhai eraill rydym wedi datblygu ein hagweddau ac rydym bellach yn ceisio safbwyntiau pellach. Ynglŷn â rhai diwygiadau rydym wedi penderfynu mynd rhagom gyda'r cynnig llawn gwreiddiol.

Ymgynghori Pellach

- 1.12 O safbwynt caffael gwasanaethau amddiffyn troseddol, mae'r Llywodraeth yn sicr y gellir cymryd camau pellach sylweddol at fod yn fwy effeithlon. Fodd bynnag, awgryma'r ymatebion fod angen newidiadau i'r model o gaffael a gynigir i annog cywasgu a datblygu modelau busnes newydd a dulliau newydd o sicrhau gwasanaeth cyson o ansawdd uchel. Penderfynasom felly ymgynghori ymhellach ar **fodel diwygiedig o gaffael ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol**. Rydym wedi cael llawer o gymorth gan gyfraniad cadarnhaol Cymdeithas y Gyfraith ac eraill wrth ymateb i'r ymgynghoriad a chredwn fod ein model diwygiedig a gynigiwn yn gallu cyflawni'n hamcanion yn well o ganlyniad.
- 1.13 Rydym wedi gwrandao ar farn ymatebwyr, gan gynnwys y pryder nad yw'r farchnad mewn sefyllfa dda ar hyn o bryd i gymryd rhan mewn cystadleuaeth lle gofynnir iddynt ymgeisio ar sail pris, ac rydym wedi cael ein perswadio y gallwn gyflawni'n hamcanion trwy broses o dendro cystadleuol lle na ddefnyddir pris fel maen prawf dyfarnu. Cydnabyddwn hefyd bwysigrwydd dewis cleientiaid mewn unrhyw fodel o wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn y dyfodol. Felly, o dan y model diwygiedig, cynigiwn gynnal yr un lefel o ddewis ag ar hyn o bryd i gleientiaid sy'n ceisio cymorth cyfreithiol troseddol ac na fyddai'r broses gaffael a gynigir yn defnyddio pris fel maen prawf dyfarnu. Yn hytrach, disgwylir i ddarparwyr ddangos bod ganddynt y cynhwysedd iawn i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd iawn.
- 1.14 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cyflenwad digonol o wasanaethau trwy bob gorsaf heddlu a llys ynadon i'r unigolion rheini sydd heb eu darparwr eu hunain. Felly, cynigiwn gynnal cynllun darparwr dyletswydd. Fodd bynnag, er mwyn i'r cynllun hwnnw fod yn gynaliadwy ar y cyfraddau tâl a gynigir, awgrymwn leihau'r nifer presennol o gontractau i ddarparu Gwaith Darparwr Dyletswydd trwy redeg proses o dendro cystadleuol i'r gwasanaethau gael eu darparu ym mhob ardal ddaearyddol (gweler Pennod 3). Credwn y bydd y broses hon yn cefnogi'r cywasgu sydd ei angen yn y farchnad.
- 1.15 Fodd bynnag, cydnabyddwn nad yw pob darparwr yn dymuno ymuno ag eraill na thyfu eu busnesau i'r graddau sy'n ofynnol i gyflawni'r lefel o waith a fydd yn cael ei gynnig o dan y cynllun darparwr dyletswydd. Felly, cynigiwn y byddai unrhyw ddarparwr sy'n bodloni Gofynion y Broses Dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol)⁴ yn gymwys i gontract gael ei ddyfarnu iddynt gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i gyflwyno gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol i'r cleientiaid hynny sy'n dewis eu darparwr eu hunain wrth wneud y cais (Gwaith eu Cleientiaid eu Hunain) yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr.

⁴ Mae'r cyfeiriad at 'Gofynion y Broses Dendro' drwy gydol y ddogfen hon yn golygu gofynion y broses dendro a nodir yn yr 'Holiadur cyn-cymhwyso', y ddogfennaeth 'gwybodaeth i Ymgeiswyr' (a fydd yn cynnwys telerau ac amodau'r tendr) a'r 'gwahoddiad i Dendro' – gweler Pennod 3 am wybodaeth bellach.

- 1.16 Credwn y byddai'r model diwygiedig hwn yn sicrhau y gall unrhyw ddarparwr (mawr neu fach) sy'n bodloni Gofynion y Broses Dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol) barhau i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol, tra'n rhoi i'r darparwyr hynny sy'n dymuno ehangu eu busnes trwy fynediad at Waith Darparwr Dyletswydd y cyfle i gystadlu i wneud hynny.
- 1.17 Ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, cynigiwn redeg cystadleuaeth am nifer cyfyngedig o gontractau ym mhob ardal gaffael lle caiff tendrau eu gwerthuso yn erbyn Gofynion y Broses Dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol).
- 1.18 Er mai ardaloedd Cyfiawnder Troseddol fydd yr ardal gaffael fwyaf ymarferol ar gyfer cystadlu am Waith Darparwr Dyletswydd yn y rhan fwyaf o'r wlad, fel y cynigiwyd o'r blaen, byddwn yn addasu hyn mewn rhai ardaloedd i roi ystyriaeth i ddaearyddiaeth lleol penodol.
- 1.19 Rydym yn cynnig rhoi mwy o amser i gwmnïau baratoi ar gyfer y broses gaffael ddiwygiedig hon a'n cynnig ni yw y bydd pob gwasanaeth – Darparwr eu Cleientiaid eu Hunain a Darparwr Dyletswydd – o dan y contractau newydd yn cychwyn yng ngwanwyn 2015. Law yn llaw â hyn, cynigiwn ddull graddol o gyflwyno'r lleihad cyffredinol mewn tâl. Byddai hyn yn golygu toriad ffi interim o 8.75% yn gynnar yn 2014 i'w ddilyn gan leihad pellach o 8.75% mewn ffioedd yng ngwanwyn 2015. Byddai'r ail leihad hwn yn cael ei osod yn weinyddol (yn erbyn y trefniadau tâl newydd arfaethedig a drafodir isod) ac yn cael ei weithredu i Waith Darparwr Dyletswydd a Gwaith eu Cleientiaid eu Hunain o dan y contract cymorth cyfreithiol troseddol newydd (yn gysylltiedig â lefelau presennol ffioedd).
- 1.20 Ar **ffioedd eiriolaeth troseddol**, rydym wedi gwrandao ar yr adborth gan ymatebwyr ac wedi adolygu cynllun ffioedd diwygiedig a gynigiwyd gan Gyngor y Bar ac rydym bellach yn ymgynghori ar ddau gynnis gwahanol o ffioedd graddedig: model cysoni a thapro diwygiedig a system sy'n seiliedig ar yr amrywiad o fodel Gwasanaeth Erlyn y Goron a gynigir gan Gyngor y Bar. Model diwygiedig yw'r cynnis cyntaf o fersiwn o'r model ymgynghori cynt sy'n symleiddio'r cynllun er mwyn cefnogi'r nod o gyfiawnder effeithlon ac annog y tîm amddiffyn i roi ystyriaeth gynnar i ble trwy gysoni'r Ffioedd Sylfaenol am ble oedd euog a threialon chwâl ar lefel rhwng y cyfraddau presennol, a chyflwyno lleihad graddol i bresenoldeb dyddiol mewn treialon a fyddai'n destun isafswm pris na fyddai cyfraddau'n gostwng oddi tano. Mae'r ail gynnis yn seiliedig ar yr amrywiad a gynigir gan Gyngor y Bar ar fodel Gwasanaeth Erlyn y Goron lle mae strwythur y cynllun ffioedd yn cael ei symleiddio a Ffioedd Sefydlog Safonol ac Uwch yn cymryd lle'r Ffioedd Sylfaenol a'r codiad ar sail Tudalennau o Dystiolaeth yr Erlyniad. Byddai achosion yn symud o Ffi Safonol i Ffi Uwch os byddent yn mynd y tu hwnt i drothwy Tudalennau o Dystiolaeth yr Erlyniad. Byddai taliadau presenoldeb dyddiol yn cael eu gwneud ar gyfer treialon ac ni fyddent yn cael eu graddoli.

Y ffordd ymlaen

- 1.21 Yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill, mae'n dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'n hargyhoeddi y dylem bwysu ymlaen gyda'n cynigion gwreiddiol heb unrhyw addasu, neu addasu cyfyngedig yn unig.
- 1.22 O safbwynt y pecyn o fesurau ar gymhwysedd, cwmpas a theilyngdod, mae'r Llywodraeth felly'n bwriadu gweithredu heb unrhyw addasu, y diwygiadau sy'n ymwneud â gorfodi **trothwy cymhwysedd ariannol** yn Lllys y Goron a chael gwared ar Gymorth Cyfreithiol ar gyfer **achosion ymylol** fel rhan o'r prawf teilyngdod sifil.

- 1.23 Rydym wedi gwneud addasiadau i rai cynigion eraill er mwyn sicrhau bod eu gweithredu'n gwbl gyson â'n hamcanion ehangach. Felly, ar **gyfraith carchar**, rydym wedi diwygio'n cynigion er mwyn sicrhau bod cymorth cyfreithiol troseddol yn parhau i fod ar gael ar gyfer pob achos gerbron y Bwrdd Parôl lle mae ganddo'r grym i gyfarwyddo rhyddhau, yn wahanol i'r holl achosion sy'n ymwneud ag Erthygl 5.4 o Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol. Bwriadwn hefyd gadw achosion cyfrifo dedfrydau lle mae anghydfod ynghylch y dyddiad rhyddhau. Cytunwn hefyd gyda'r ymatebwyr hynny sydd wedi pwysleisio'r pwysigrwydd o sicrhau bod system ddibynadwy o ymdrin â chwynion carcharorion ar waith, ac yn y manylion a ganlyn rydym yn disgrifio'r ffyrdd yr ydym yn atgyfnerthu cydymffurfiad â'r trefniadau presennol.
- 1.24 Rydym wedi adolygu'r **prawf preswyllo** arfaethedig fel na fydd angen i blant o dan 12 mis oed fodloni'r gofyniad o isafswm o 12 mis o breswyllo gyfreithlon flaenorol, a chynnwys eithriadau am fathau penodol o achosion, lle'r ydym yn derbyn na ddylai fod unrhyw ofyniad i unigolyn ddangos cysylltiad cryf â'r Deyrnas Unedig.
- 1.25 O safbwynt **tâl am waith caniatâd mewn achosion adolygiad barnwrol**, yng ngoleuni'r ymatebion i'r cynnig hwn, bwriadwn ymgynghori ymhellach ar ddewis amgen a fydd yn cyflawni'n nod a ddeisyfwn o rwystro cymorth cyfreithiol rhag cael ei ddefnyddio i ariannu achosion gwan nad ydynt yn cael fawr o effaith heblaw achosi oedi ac arwain at gost dianghenraid. Bwriadwn gyflwyno manylion pellach o'r cynnig hwn yn fuan mewn papur ar wahân.
- 1.26 Ar ein hamrywiol gynigion eraill ar gyfer diwygio ffioedd mewn **cymorth cyfreithiol troseddol a chymorth cyfreithiol sifil**, cynigiwn symud ymlaen gyda chyflwyno lleihad o 30% i ffioedd ymgyfreitha ac eirioli mewn Achosion Costus lawn (Troseddu), lleihau'r defnydd o eiriolwyr lluosog, lleihau'r ffi cynrychioli sefydlog a delir i gyfreithwyr mewn achosion teulu o dan y Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Gofal, cysoni ffioedd a delir i fargyfreithwyr hunangyflogedig â'r rheini a delir i eiriolwyr eraill sy'n ymddangos mewn achosion sifil (heb fod yn rhai teuluol) a chael gwared ar y codiad yn y gyfradd a delir am achosion Tribiwnlysoedd Uwch mewn fudo a lloches.
- 1.27 Ar **ffioedd arbenigwyr** rydym wedi penderfynu symud ymlaen gyda'n diwygio i ffioedd, ond gan gadw'r cyfraddau sy'n daladwy i arbenigwyr yn yr ardaloedd hynny lle mae codiadau diweddar wedi cael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cyflenwad marchnad. Rydym hefyd wedi penderfynu cadw'r ffioedd presennol sy'n daladwy i gyfieithwyr yn Llundain a byddwn yn cyfyngu'r lleihad mewn graddau sy'n daladwy i gyfieithwyr y tu allan i Lundain er mwyn sicrhau nad yw'r rhain yn disgyn yn is na chyfraddau a delir gan Wasanaeth Eryl y Goron.

Gwaith yn y Dyfodol

- 1.28 Fel yr arwyddwyd yn ein dogfen ymgynghori, byddwn yn dod â chynigion ymlaen i ymgynghori arnynt yn yr hydref ar sut i addasu'r meini prawf cymhwysedd am gymorth cyfreithiol ac yng ngoleuni cyflwyno graddol y Credyd Cynhwysol. Bydd hyn yn cymryd lle'r budd-daliadau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd fel 'pasbortau' i drwyddedu derbynwyr trwy'r cyfan neu ran o'r prawf moddion cymorth cyfreithiol⁵. Byddwn yn cynnig system newydd sy'n deg i bawb, boed hwy mewn gwaith neu beidio, ac nad yw'n torri ar draws unrhyw gymhelliannau i fod mewn gwaith.

⁵ O 2013, yn ystod y cyfnod o gyflwyno graddol, mae Credyd Cynhwysol yn cael ei drin yn yr un ffordd â budd-daliadau 'pasbort' eraill.

Bwriadwn hefyd, yn hwyrach yn yr hydref, symud ymlaen â chynnig ynghylch sut i addasu'r cynllun ffioedd teulu presennol i adlewyrchu creu'r llys teulu sengl ym mis Ebrill 2014.

- 1.29 Ym mis Mehefin 2013 cyhoeddodd y Llywodraeth *Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol: Strategaeth a Chynllun Gweithredu i Ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol*. Mae'n cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o waith a fydd yn gyrru gwelliant drwy'r holl system wrth gyflawni cyfiawnder troseddol. Rydym yn parhau i weithio gyda chyrrff cynrychioliadol o'r proffesiynau cyfreithiol i gyflawni ymrwymadau'r cynllun gweithredu ac archwilio syniadau ehangach a godwyd trwy'r ymgynghoriad hwn ar sut i gael gwared ar broses a gweithdrefn aneffeithlon. Rydym yn sefydlu panel o gyfreithwyr amddiffyn profiadol i gynghori ar ddiwygio'r system i gefnogi gwell gwerth am arian i'r trethdalwr. Byddai sicrhau gwelliant o'r math hwn yn cefnogi ymarferwyr amddiffyn sy'n gweithio'n galed ac yn dod â buddion i bawb o'r rheini sy'n gweithio ac yn chwarae rhan yn y system cyfiawnder troseddol.

Effaith Cyffredinol ar Wariant

- 1.30 Amcangyfrifir bod ein rhaglen ddiwygio gyntaf, a gafodd ei lansio yn 2010 ac a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar gymorth cyfreithiol sifil, wedi arbed tua £320 miliwn yn 2014/15 ac, wrth i'r arbedion ddechrau cael effaith, rydym wedi gweld lleihad bychan yng nghyllideb gyffredinol cymorth cyfreithiol rhwng 2011/12 a 2012/13. Mae'n diwygiadau pellach yn sicrhau y gallwn barhau i wthio costau gwariant cymorth cyfreithiol i lawr. Mae'r penodau a ganlyn yn amlinellu sut y bwriadwn gyflawni arbedion ychwanegol. Amcangyfrifwn y byddai'r diwygiadau hyn yn arbed £220 miliwn y flwyddyn yn 2018/19 ar ben yr arbedion y disgwyliwn eu cyflawni o ganlyniad i'n diwygiadau blaenorol a newidiadau mewn llwyth achosion a gwariant. Nodir manylion llawn yn yr Asesiad Effaith, a gyhoeddir law yn llaw â'r ymateb hwn gan y Llywodraeth.⁶
- 1.31 Fel yr ydym wedi eu gwneud hi'n eglur, cydnabyddwn bwysigrwydd parhaus darparu mynediad at gyfiawnder, a hynny wedi'i gefnogi gan gyllid cyhoeddus yn yr achosion hynny y barnwn eu bod yn flaenoriaeth. Nodwn y bydd yn dal i fod gan Gymru a Lloegr, hyd yn oed ar ôl gweithredu'n holl gynigion, un o'r cynlluniau cymorth cyfreithiol mwyaf hael yn y byd, gyda chyllideb o tua £1.5 biliwn y flwyddyn.

⁶ <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid>

Rhan Un: Y Rhaglen Ddiwygio

Chapter 2. Ymateb i'r ymgynghoriad

- 2.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb y Llywodraeth i'r papur ymgynghoriad, *Trawsnewid cymorth cyfreithiol: darparu system fwy credadwy ac effeithiol.*
- 2.2 Rydym yn amcangyfrif y bydd y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn, ar ôl eu gweithredu'n llawn, yn cyflawni arbedion o £220m y flwyddyn erbyn 2018/19.
- 2.3 Mae crynodeb manwl o'r materion allweddol a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'n hymateb manwl i'r materion hynny i'w gweld yn Atodiad B.

Cymhwyster, Cwmpas a Theilyngdod

- 2.4 Roedd Pennod 3 y ddogfen ymgynghoriad Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol (LAT) yn gofyn am farn ar nifer o gynigion a oedd yn anelu at dargedu adnoddau cyfyngedig ar achosion sydd wirioneddol yn eu cyfiawnhau, gan sicrhau y gall y cyhoedd gael hyder yn y cynllun cymorth cyfreithiol. Gweler y materion manwl a godwyd yn yr ymgynghoriad ac ymateb ystyriol y Llywodraeth yn Atodiad B.

Cyfyngu cwmpas cymorth cyfreithiol i gyfraith carchardai

- 2.5 Bwriedir i'r cynigion ar ddiwygio cwmpas cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer y gyfraith carchardai ganolbwyntio adnoddau cyhoeddus ar achosion sydd o flaenoriaeth ddigonol i gyfiawnhau'r defnydd o arian cyhoeddus. Dylai dulliau eraill o wneud iawn megis y system gwynion carcharorion fod yn fan galw cyntaf ar gyfer materion a dynnir oddi ar y cwmpas cymorth cyfreithiol. Yn unol â'r egwyddorion hyn yr ydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r cynigion gwreiddiol, yn amodol ar nifer o addasiadau. Rydym yn bwriadu cadw arian ar gyfer achosion gerbron y Bwrdd Parôl, lle mae gan y Bwrdd Parôl bŵer i ryddhau'n uniongyrchol, yn hytrach nag i bob achos sy'n ymgysylltu Erthygl 5.4 ECHR. Rydym hefyd yn bwriadu cadw materion cyfrifo dedfryd o fewn cwmpas lle ceir anghydfod yn eu cylch, gan fod y ddau fater hwn yn cael effaith uniongyrchol a syth ar y dyddiad rhyddhau.
- 2.6 Rydym yn ystyried bod darpariaeth ddigonol yn ei lle i alluogi carcharorion â phroblemau iechyd meddwl ac/neu anabledau dysgu a throeddwy'r ifanc ddefnyddio'r systemau cwynion; mae gwasanaethau eiriolaeth ar gael i gefnogi troeddwy'r ifanc. Mae carcharorion/troeddwy'r ifanc mewn Sefydliadau Troeddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yn gallu cyfeirio cwynion i'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO) (neu'r Monitor statudol neu Awdurdodau Lleol yn achos troeddwy'r ifanc mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Diogel i Blant yn y drefn honno) os nad ydynt yn cael eu datrys yn foddhaol trwy ddefnyddio prosesau cwyno. Dylai materion categoreiddio ac achosion amod trwydded gael eu datrys drwy ddefnyddio'r system gwynion i garcharorion, neu sylwadau gan garcharorion ar gyfer carcharorion Categori A. Efallai y bydd cymorth cyfreithiol sifil ar gael ar gyfer adolygiad barnwrol, yn amodol ar fodd a theilyngdod. Rydym yn hyderus y bydd y system gwynion a'r PPO yn cael yr adnoddau priodol i ddelio â'r materion hyn.

- 2.7 Bwriedir i'r newidiadau hyn gael eu cyflwyno ar ffurf diwygiadau i ddeddfwriaeth eilaidd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, a diwygiadau contract yn ddiweddarach eleni.

Gosod trothwy cymhwyster ariannol yn Llys y Goron

- 2.8 Bwriad y cynnig i gyflwyno trothwy cymhwyster ariannol o incwm gwariant aelwyd o £37,500 neu fwy yn Llys y Goron yw sicrhau nad yw diffynyddion cyfoethocaf Llys y Goron, sy'n gallu talu'n breifat, yn cael darpariaeth awtomatig o gymorth cyfreithiol ar draul y trethdalwr. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithredu'r cynnig hwn. Rydym wedi cynnal dadansoddiad pellach o gyfraddau preifat ac yn ystyried y dylai costau amddiffyn preifat fod yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o ddiffynyddion a fyddai'n destun i'r trothwy. Lle gall diffynnydd ddangos mewn adolygiad caledi na allant mewn gwirionedd fforddio talu'n breifat, byddant yn parhau i fod yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol, yn destun i gyfraniad o dan gynllun prawf modd presennol Llys y Goron.
- 2.9 Rydym o'r farn bod prosesau gweinyddol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) yn ddigonol i leihau'r potensial ar gyfer oedi ychwanegol, ac y bydd yr adolygiad caledi yn golygu na fydd diffynyddion yn cael eu gorfodi i gynrychioli eu hunain, fel y mae rhai ymatebwyr yn honni. Mae ad-dalu diffynyddion dieuog ar gyfraddau cymorth cyfreithiol yn hytrach na chyfraddau preifat yn unol â'r sefyllfa yn y llysoedd ynadon yn dilyn newidiadau i gronfeydd canolog, a gymeradwywyd gan y Senedd ac a ddaeth i rym ym mis Hydref 2012.
- 2.10 Bwriedir i'r diwygiad hwn gael ei gyflwyno trwy is-ddeddfwriaeth, yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth seneddol, yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Cyflwyno prawf preswyllo

- 2.11 Pwrpas y cynnig hwn yw sicrhau mai dim ond unigolion sydd â chysylltiad cryf â'r DU sy'n gallu hawlio cymorth cyfreithiol sifil ar draul trethdalwyr y DU. Rydym yn bwriadu gwneud hyn drwy gyflwyno prawf preswyllo cyfreithlon ar gyfer ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil. Yn dilyn ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi nodi'r angen am nifer o addasiadau.
- 2.12 Mae'r Llywodraeth yn parhau i gredu y dylai unigolion, mewn egwyddor, fod â chysylltiad cryf â'r DU er mwyn elwa ar y cynllun cymorth cyfreithiol sifil. Rydym yn credu bod gofyniad i fod yn breswyllydd cyfreithlon ar adeg gwneud cais am gymorth cyfreithiol sifil, ac wedi bod yn preswyllo'n gyfreithlon am 12 mis yn y gorffennol, yn ffordd deg a phriodol i ddangos y fath gysylltiad cryf. Felly, byddwn yn mynd ymlaen i gyflwyno prawf preswyllo er mwyn cael cymorth cyfreithiol sifil, fel mai dim ond y rhai sydd:
- yn preswyllo'n gyfreithlon yn y DU, Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron neu Dirioagaethau Tramor Prydain ar adeg gwneud y cais am gymorth cyfreithiol sifil; ac
 - wedi preswyllo'n gyfreithlon yn y DU, Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron neu Dirioagaethau Tramor Prydain am gyfnod di-dor o 12 mis o leiaf ar unrhyw bwynt yn y gorffennol
- fyddai'n gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol sifil, yn destun i'r addasiadau ac eithriadau a nodir ym mharagraffau 2.13-2.16 isod. Y bwriad yw y bydd y diwygiad

hwn yn cael ei gyflwyno drwy ddeddfwriaeth eilaidd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, i ddod i rym yn gynnar yn 2014.

- 2.13 Yn ogystal â'r eithriadau a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer aelodau cyfredol Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi a'u teuluoedd agos ac ar gyfer ceiswyr lloches, byddwn yn gweithredu'r cynigion fel na fydd yn ofynnol i blant o dan 12 mis oed fod ag o leiaf 12 mis o breswyllo cyfreithlon blaenorol.
- 2.14 Rydym hefyd wedi dod i'r casgliad bod amgylchiadau cyfyngedig pellach lle na fyddai angen i ymgeiswyr ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil ar faterion penodol o gyfraith fodloni'r prawf preswyllo. Felly, ni fydd y prawf yn berthnasol i gategoriâu o achosion sydd yn fras yn ymwneud â rhyddid unigolyn, os yw'r unigolyn yn arbennig o agored i niwed neu os yw'r achos yn ymwneud ag amddiffyn plant.
- 2.15 Rydym hefyd yn cytuno y bydd y cyfnod di-dor o breswyllo cyfreithlon, sy'n ofynnol o dan y prawf yn achos ceiswyr lloches llwyddiannus, yn dechrau o'r dyddiad y maent yn cyflwyno eu cais am loches yn hytrach na'r dyddiad pan fydd y cais yn cael ei dderbyn.
- 2.16 Rydym yn ystyried y byddai'n briodol a chymesur caniatáu ar gyfer toriadau byr mewn preswyllo. Rydym felly yn bwriadu na fyddai toriad o hyd at 30 diwrnod mewn preswyllo cyfreithlon (p'un a gaiff ei gymryd fel toriad sengl neu nifer o doriadau byrrach) yn torri'r gofyniad am i 12 mis o breswyllo blaenorol fod yn barhaus.
- 2.17 Bwriedir i'r newidiadau hyn gael eu cyflwyno drwy is-ddeddfwriaeth, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn gynnar yn 2014.

Talu am waith caniatâd mewn achosion adolygiad barnwrol

- 2.18 Pwrpas y cynnig hwn yw atal cymorth cyfreithiol rhag cael ei ddefnyddio i ariannu achosion gwan nad ydynt yn cael fawr o effaith ar wahân i fynd i gostau diangen i awdurdodau cyhoeddus a'r cynllun cymorth cyfreithiol. Gwnaethom gynnig na ddylai darparwyr ond cael eu talu am waith a wnaed ar gais a gyhoeddwyd am ganiatâd am adolygiad barnwrol (gan gynnwys cais i ailystyried y cais mewn gwrandawriad, y gwrandawriad adnewyddu neu ganiatâd apêl ymlaen i'r Llys Apêl), os yw'r llys yn rhoi caniatâd. Byddai treuliau rhesymol, megis ffioedd arbenigwyr a ffioedd llys (ond nid ffioedd y cwmsler) sy'n codi wrth baratoi'r cais am ganiatâd, yn parhau i gael eu talu, hyd yn oed os nad yw'r llys yn rhoi caniatâd. Byddai cymorth cyfreithiol yn parhau i gael ei dalu ar gyfer cam cyn-gweithredu'r achos.
- 2.19 Roedd yr ymatebwyr yn bryderus, yn ogystal ag effeithio ar achosion gwan, y byddai'r cynnig hefyd yn effeithio ar nifer fawr o achosion teilwng sy'n dod i derfyn cyn caniatâd; na fyddai modd adennill costau ym mhob achos o'r fath; bod prawf teilyngdod eisoes yn bodoli i chwynnu allan achosion gwan; ac na fyddai darparwyr yn fodlon cymryd y gwaith hwn ymlaen os y gorfodir hwy i weithredu mewn perygl yn yr achosion hynny lle mae'n anodd rhagweld y canlyniad.
- 2.20 Mae'n parhau yn nod gan y Llywodraeth i sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn canolbwyntio ar achosion adolygiad barnwrol lle mae wirioneddol ei angen. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried y cynnig hwn unwaith eto yng ngoleuni'r ymatebion. Felly, rydym yn bwriadu ymgynghori cyn bo hir ar gynnig arall lle na fyddai darparwyr yn cael eu talu oni bai eu bod yn cael caniatâd, yn destun i daliad dewisol mewn rhai achosion sy'n dod i ben cyn gwneud penderfyniad am ganiatâd, heb orchymyn

costau neu gytundeb. Rydym yn bwriadu nodi rhagor o fanylion ynghylch y cynnig hwn cyn bo hir mewn papur ar wahân.

Prawf teilyngdod sifil - dileu cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion ffiniol

- 2.21 Pwrpas y cynnig hwn yw cyfeirio'r gyllideb cymorth cyfreithiol gyfyngedig ar yr achosion sy'n wirioneddol cyfiawnhau ariannu cyhoeddus drwy fynnu bod gan achos o leiaf 50% o ragolygon o lwyddo er mwyn gwarantu arian cyhoeddus. Roeddem yn bwriadu gwneud hyn drwy roi'r gorau i ariannu achosion oedd â rhagolygon 'ffiniol' o lwyddiant.
- 2.22 Mae'r prawf teilyngdod am gymorth cyfreithiol sifil yn fras yn anelu at ailadrodd y penderfyniadau y byddai rhywun sy'n talu breifat yn eu gwneud wrth benderfynu a ddylid dod ag achos, amddiffyn achos, neu barhau i fynd ar drywydd achos. Nid ydym yn credu y byddai person rhesymol gyda modd cyffredin yn dewis mynd i gyfraith mewn achosion sydd ddim ond â gobaith ffiniol o lwyddiant ac nid ydym yn credu ei bod yn deg disgwyl i drethdalwyr ariannu achosion o'r fath chwaith.
- 2.23 Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu mynd ymlaen i gael gwared â chymorth cyfreithiol ar gyfer yr holl achosion a aseswyd fel rhai sydd â rhagolygon 'ffiniol' o lwyddiant. Y bwriad yw y bydd y diwygiad hwn yn cael ei gyflwyno drwy is-ddeddfwriaeth, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn hwyr yn 2013.

Cyflwyno Cystadlu yn y Farchnad Cymorth Cyfreithiol Troseddol

- 2.24 Ym Mhennod 4 o'r ymgynghoriad gwreiddiol, gofynnwyd am sylwadau ar fodol arfaethedig o dendro cystadleuol ar gyfer contractau cymorth cyfreithiol troseddol yng Nghymru a Lloegr. Dyluniwyd y model hwnnw er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian trwy gynnig mwy o gyfleoedd i ddarparwyr raddio'i fyny fel y gallent gael arbedion maint a darparu gwasanaeth mwy effeithlon, gan roi hyder iddynt fuddsoddi yn yr ailstrwythuro a fyddai ei angen, yn y wybodaeth y byddent yn derbyn dychweliadau mwy, a mwy pendant.
- 2.25 Ar ôl ystyried yr ymatebion yn ofalus, mae'r Llywodraeth yn glir y gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol pellach mewn ffordd sy'n sicrhau darpariaeth gwasanaeth cyson, drwy ddefnyddio model caffael newydd i annog atgyfnerthu a datblygu modelau a dulliau busnes newydd. Cawsom ein cynorthwyo'n fawr gan gyfraniad cadarnhaol Cymdeithas y Gyfraith ac eraill wrth ymateb i'r ymgynghoriad, a chredwn bod ein model addasedig arfaethedig - a ddisgrifir isod - yn fwy abl i gyflawni ein hamcanion o'r herwydd.
- 2.26 Gweler crynodeb o'r materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac ymateb y Llywodraeth ar bob cwestiwn yn Atodiad B. Caiff y model addasedig arfaethedig ei drafod yn y bennod nesaf.

Dewis y Cleient

- 2.27 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod llawer o ymatebwyr yn ystyried fod dewis cleientiaid yn hanfodol i gyflwyno cymorth cyfreithiol troseddol yn effeithiol. Yn ymarferol, byddai'r model addasedig yn cadw'r un lefel o ddewis i gleientiaid sydd eisiau cymorth cyfreithiol troseddol fel sy'n bodoli yn awr.

Pris fel maen prawf dyfarnu

- 2.28 Ar ôl gwranddo ar farn yr ymatebwyr, mae'r Llywodraeth wedi'i darbwyllio y byddai model o gystadleuaeth lle mae'r pris yn cael ei osod yn weinyddol yn dal i'n galluogi i gyflawni'r amcanion polisi cyffredinol o wasanaeth cynaliadwy, mwy effeithiol, ar gost y gall y trethdalwr ei fforddio. Felly, rydym wedi dylunio model nad yw'n cynnwys gwerthuso tendrau ar bris.

Nifer y contractau

- 2.29 Mae'r Llywodraeth yn argyhoeddedig bod angen cymryd camau i gefnogi ailstrwythuro ac atgyfnerthu'r farchnad. Mae hon yn farn a rennir gan nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Cyfreithwyr. Mae'r Llywodraeth yn parhau i gredu heb unrhyw ymyriad gan y Llywodraeth, na fydd y farchnad yn cymryd unrhyw gamau i atgyfnerthu ac mai'r ffordd orau bosibl i ennill marchnad gynaliadwy o'r fath yw trwy broses gaffael sy'n cynnwys elfen o gystadleuaeth.
- 2.30 Felly, mae'r model addasedig y mae'r Llywodraeth yn awr yn ymgynghori arno'n golygu bod unrhyw sefydliad sy'n ateb y Gofynion y Broses Dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol), yn gallu cyflawni Gwaith Dewis y Cleient⁷ yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr. Ni fyddai unrhyw gyfyngiad ar y nifer o gontractau i gyflenwi'r gwaith hwn.
- 2.31 Fodd bynnag, er mwyn sicrhau gwasanaeth darparwr dyletswydd cynaliadwy (darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yng ngorsaf yr heddlu a'r llysoedd ynadon gyfer y cleientiaid hynny nad oes ganddynt eu cyfreithiwr eu hunain) ar y cyfraddau tâl sydd ar gael, rydym yn bwriadu symud ymlaen gyda chynlluniau i gystadlu Gwaith Darparwr Dyletswydd⁸. Wrth benderfynu ar nifer y contractau, yr ydym yn bwriadu rhoi sylw i'r un pedwar ffactor a nodwyd yn y papur ymgynghoriad blaenorol yn ogystal ag un ffactor pellach. Rydym yn anelu at wneud y contractau i gyflawni Gwaith Darparwr Dyletswydd, cyn belled ag y bo modd, yn ddigon mawr o ran nifer a gwerth i fod yn gynaliadwy yn ôl eu teilyngdod eu hunain. Er mwyn helpu i lywio ein penderfyniad terfynol ar y nifer o gontractau ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, rydym yn bwriadu comisiynu darn arall o ymchwil ar y cyd gyda Chymdeithas y Gyfraith i archwilio maint y contract sy'n angenrheidiol er mwyn iddo fod yn gynaliadwy.

Ardaloedd daearyddol ar gyfer caffael a chyflenwi Gwaith Darparwr Dyletswydd

- 2.32 Mae'r Llywodraeth yn parhau i gredu bod y defnydd o ardaloedd caffael y System Cyfiawnder Troseddol (CJS) ar gyfer gosod contractau Gwaith Dyletswydd Darparwr yn briodol i'r rhan fwyaf o'r wlad. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, am resymau daearyddol lleol penodol, rydym yn bwriadu seilio ein hardaloedd caffael ar gyfuniadau o ardaloedd y cynllun dyletswydd gorsaf heddlu presennol. Byddai darparwyr sy'n cyflwyno Gwaith Dewis y Cleient yn gallu darparu gwasanaethau yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr.

⁷ Gwaith Dewis y Cleient yw yr holl gyngor troseddol cymorth cyfreithiol, ymglyfreitha (ac eithrio VHCCs) a gwasanaethau adfocatiaeth llysoedd ynadon a ddarperir i gleientiaid sy'n dewis eu darparwr eu hunain ar y pwynt cais cyntaf.

⁸ Gwaith Darparwr Dyletswydd yw yr holl gyngor cymorth cyfreithiol troseddol, cyfreitha (ac eithrio VHCC) a gwasanaethau adfocatiaeth llysoedd ynadon a roddir i gleientiaid sy'n dewis y Darparwr Dyletswydd ar y pwynt cais cyntaf.

Y broses gaffael

- 2.33 Ar wahân i'r newidiadau angenrheidiol i'r broses gaffael er mwyn hwyluso dull lle y gallai darparwr wneud cais i gyflenwi Gwaith Dewis y Cleient, ac i wneud cais i gyflenwi Gwaith Darparwr Dyletswydd, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith ein bod wedi dylunio model addasedig lle mae'r pris yn cael ei osod yn weinyddol. Byddai hyn yn golygu y byddai'r cyfraddau tâl yn cael eu gosod yn weinyddol, ar gyfer y Gwaith Darparwr Dyletswydd y cystedlir amdano ac ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient. Felly, ar gyfer y Gwaith Darparwr Dyletswydd, rydym yn cynnig cynnal cystadleuaeth ar gyfer nifer cyfyngedig o gontractau ym mhob ardal caffael lle mae tendrau yn cael eu gwerthuso yn erbyn Gofynion y Broses Dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol). Rydym yn gofyn am farn ar y model addasedig.

Dyfarnu/ gweithredu contract

- 2.34 Mae'r Llywodraeth yn cytuno ei bod yn bwysig bod yr amserlen ar gyfer gweithredu unrhyw broses dendro gystadleuol yn rhoi digon o amser i ddarparwyr sicrhau'r holl adnoddau angenrheidiol i gyflenwi gwasanaethau'n effeithiol ar y pwynt pan fo'r gwasanaeth yn cychwyn. Felly, rydym yn cynnig amserlen weithredu newydd. Byddai hyn yn golygu y byddem yn dechrau ar y broses gaffael yn gynnar yn 2014, dyfarnu contractau ar ddiwedd 2014/ 2015 cynnar, ac y byddai'r gwasanaeth yn cychwyn yn y gwanwyn 2015.

Cwmpas y contract

- 2.35 Awgrymodd nifer o ymatebwyr ein bod yn ystyried gadael i ddarparwyr sydd ond yn dymuno cyflwyno cyfraith carchardai ac/neu wasanaethau apeliadau ac adolygiadau yn gallu gwneud hynny. Rydym yn cytuno, a byddai'r model addasedig yr ydym yn ymgynghori arno'n galluogi hyn.

Hyd y contract

- 2.36 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr angen i daro cydbwysedd rhwng darparu cymaint o sicrwydd ag y bo modd ar gyfer darparwyr er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt fuddsoddi yn eu busnesau; a pheidio â rhwymo darparwyr a'r Llywodraeth i gontract am gyfnod rhy hir. Felly, yn y model addasedig rydym yn bwriadu ymestyn tymor contract Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd i bedair blynedd, gyda'r opsiwn i'r Llywodraeth ymestyn tymor y contract hyd at un flwyddyn arall (yn amodol ar hawliau terfynu cynnar).

Tâl

- 2.37 Roedd ein model gwreiddiol yn cynnig cap pris oedd yn 17.5% o dan y cyfraddau a dalwyd yn 2012/13. Mae ein model addasedig, yr ydym yn gofyn am farn arno, yn sicrhau'r un gostyngiad cyffredinol mewn ffioedd, ond rydym yn cynnig dull graddedig o ymdrin â'r gostyngiad, gan ddechrau gyda thoriad ffi interim o 8.75% yn gynnar yn 2014 ac yna gostyngiad pellach o 8.75% (o gymharu â lefelau ffioedd cyfredol ac yn erbyn y trefniadau talu arfaethedig a drafodir isod) ar gychwyn y contractau newydd yn y gwanwyn 2015.
- 2.38 Rydym yn parhau o'r farn fod y mecanwaith tâl presennol yn ddiangen o gymhleth, ac y byddai cyflwyno ffioedd sefydlog i symleiddio prosesau gweinyddol yn helpu torri costau ar gyfer darparwyr a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. O dan y model addasedig, rydym yn cynnig cynnal y mecanwaith dianc ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai safonol yn y llys ynadon; a chyflwyno cyfres o ffioedd sefydlog ar gyfer

ymgyfreitha Llys y Goron (achosion gyda llai na 500 o PPE) yn seiliedig ar y math a bandiau trosedd PPE, yn hytrach nag un ffi sefydlog ar gyfer pob math o achos yn Llys y Goron gyda llai na 500 o PPE. Bydd ein dull addasedig hefyd yn darparu ar gyfer talu am waith dyletswydd llys ynadon ar ffurf cyfraddau fesul awr a byddwn yn talu treuliau teithio a chynhaliaeth ar wahân i'r ffioedd sefydlog.

Casgliad

- 2.39 Ar ôl ystyried, a rhoi pwysau dyledus i ymatebion yr ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu ymgynghori ar fodel addasedig o gymorth cyfreithiol troseddol sy'n ceisio ymdrin â llawer o'r pryderon a fynegwyd mewn ymateb i'r cynnig gwreiddiol. Mae manylion y model newydd yn cael eu nodi yn y bennod nesaf, ac rydym yn gofyn am farn ar y cynnig.

Taliadau Interim

- 2.40 Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r awgrym a gyflwynwyd gan ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar, i wella llif arian ar gyfer ymgyfreithwyr ac adfocadau. Bydd yr LAA yn gweithio gyda chyrrff cynrychioliadol y proffesiwn i ystyried ymhellach sut orau i ddarparu cyfleuster neu wella'r mecanwaith presennol ar gyfer ymdrin â materion llif arian i ymgyfreithwyr ac adfocadau.

Diwygio Ffioedd mewn Cymorth Cyfreithiol Troseddol

- 2.41 Roedd Pennod 5 y ddogfen ymgynghoriad yn edrych ar ddiwygio'r ffioedd mewn cymorth cyfreithiol troseddol er mwyn sicrhau arbedion pellach. Mae adfocatiaeth Llys y Goron⁹ yn cynrychioli tua £245m y flwyddyn o gymorth cyfreithiol troseddol, ond gellid gwella'r strwythur ffioedd presennol i gefnogi datrysiad effeithlon achosion yn well. Mae Achosion Costus lawn (Trosedd) (VHCCs) yn achosion maith sy'n costio swm anghymesur o fawr i'r cynllun. Bydd y diwygiadau arfaethedig yn ategu gwaith yn y system cyfiawnder troseddol ehangach i ymgorffori'r egwyddor o "iawn y tro cyntaf", gan sicrhau bod achosion yn cael eu datrys yn gyflym ac mewn modd cost effeithiol. Mae'r cynigion yn cynnwys ailstrwythuro Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau (AGFS), gostwng ffioedd ymgyfreithiwr ac adfocadau mewn materion VHCC (Trosedd) o 30%, a lleihau'r defnydd o adfocadau lluosog.

Ailstrwythuro Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau

- 2.42 Pwrpas y cynnig hwn oedd ailstrwythuro'r AGFS cyfredol i annog datrys achosion ynghynt a gweithio'n fwy effeithlon drwy gysoni ple euog, cyfraddau ffioedd treial chwâl a chyfraddau ffioedd treial sylfaenol ar y gyfradd treial chwâl, a gostyngiad mewn a gostwng yn raddol y cyfraddau mynychu treial dyddiol o ddiwrnod tri ymlaen.
- 2.43 Rydym wedi cael eu perswadio gan ymgynghoreion bod y bwlbch rhwng y gwaith paratoi a wnaed a'r ffioedd sy'n daladwy o fewn yr AGFS o ganlyniad i gysoni'r Ffi Sylfaenol ar gyfer treialon gyda'r rheiny ar gyfer pleon euog a threialon chwâl efallai'n rhy fawr i gael ei reoli gan adfocadau, o ystyried y dosbarthiad cyfredol o waith.

⁹ Ac eithrio gwariant ar Achosion Costus lawn.

- 2.44 Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn credu bod angen symleiddio'r strwythurau ffioedd ymhellach, sydd serch hynny yn cymryd i ystyriaeth faint o waith paratoi sydd ei angen yn gyffredinol mewn gwahanol fathau o achosion. Felly, rydym yn cynnig ymgynghori ar ddau wahanol dull o ailstrwythuro'r AGFS fel yr amlinellwyd ym Mhennod 4.

Gostwng ffioedd ymglyfreithwyr ac adfocadau mewn Achosion Cost Uchel lawn (Trosedd)

- 2.45 Yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r ymatebion i'n cynnig ar gyfer VHCCs, ein casgliad yw bod angen trefn ar wahân i reoli tâl yr achosion hyn. Mae dadansoddiad yr LAA o dwyll VHCCs yn dangos bod gwerth cyfartalog y contract yn £1m, a bod contractau yn rhedeg am 3-4 blynedd ar gyfartaledd. Bydd VHCCs yn parhau'n achosion gwerth uchel, cyfnod hir, oherwydd y ffordd y mae'r achosion hyn yn cael eu rheoli gan yr LAA, gyda thaliadau rheolaidd fesul cam, yn dod â sicrwydd incwm i ddarparwyr am y cyfnod estynedig y maent yn cael eu cyfarwyddo yn y materion hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig i adfocadau hunangyflogedig.
- 2.46 Mewn perthynas â ffioedd ar gyfer VHCCs, nid ydym yn derbyn bod gwahaniaeth rhwng cyfraddau cymorth cyfreithiol a chyfraddau CPS ar gyfer VHCCs yn tansilio'r egwyddor o "gydraddoldeb arfau". Rydym yn hyderus y bydd diffynyddion yn parhau i dderbyn cynrychiolaeth effeithiol o dan y cyfraddau diwygiedig. Ar ôl ystyried, a rhoi ystyriaeth ddyledus i ymatebion yr ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r gostyngiad arfaethedig o 30% yn y ffioedd sy'n daladwy i bob VHCC troseddol newydd, ac i waith i'r dyfodol mewn achosion sy'n bodoli eisoes, ac eithrio achosion cyn-panel.
- 2.47 Bwriedir i'r newidiadau hyn gael eu cyflwyno ar ffurf diwygiadau i ddeddfwriaeth eilaidd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, a diwygiadau contract yn ddiweddarach eleni.

Lleihau'r defnydd o adfocadau lluosog

- 2.48 Gwnaethom gynnig i dynhau'r meini prawf sy'n llywodraethu'r penderfyniad i benodi cwnsleriaid lluosog mewn achos, gan newid contractau ymglyfreitha i'w wneud yn ofynnol i'r tîm ymglyfreitha roi mwy o gymorth i'r cwnsler, a chyflwyno system fwy cadarn a chyson o wneud penderfyniadau.
- 2.49 Yn dilyn ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn parhau i bryderu bod achosion lle mae adfocadau lluosog yn cael eu penodi yn ddiangen, yn enwedig mewn achosion gyda diffynyddion lluosog.
- 2.50 Rydym yn derbyn na fydd Barnwyr Llywyddol mor agos at fanylion achos ag y byddai barnwr preswyl unigol neu'r barnwr treial. Fodd bynnag, byddai goruchwyliaeth Barnwyr Llywyddu ar sail cylch-eang yn caniatáu iddynt sicrhau bod cysondeb rhwng canolfannau llys. Rydym yn bwriadu rhoi'r pŵer i Farnwyr Llywyddol ddirprwyo eu swyddogaeth lle maent yn ystyried ei bod yn briodol i ddarparu hyblygrwydd er mwyn sicrhau y gellir lleihau biwrocratiaeth ac oedi gymaint ag y bo modd.
- 2.51 Wedi ystyried, a rhoi sylw dyledus i ymatebion yr ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu newid y meini prawf ar gyfer penodi adfocadau lluosog. Byddwn hefyd angen penderfyniadau i ganiatáu i Gwnsler y Frenhines (QC) neu adfocadau lluosog gael eu cadarnhau gan Farnwr Llywyddol (neu enwebai).

- 2.52 Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y newidiadau i'r meini prawf, ynghyd â'r newidiadau i'r broses o wneud penderfyniadau, yn cael eu gweithredu drwy newidiadau i ddeddfwriaeth eilaidd sydd i gael ei gosod gerbron yn ddiweddarach eleni.
- 2.53 O ran y cwestiwn o fwy o gymorth ymglyfreitha i adfocadau, rydym yn ystyried ei bod yn briodol gohirio gwneud penderfyniad hyd nes y penderfynir ar delerau'r contractau ymglyfreitha troseddol newydd yn gyffredinol.

Diwygio Ffioedd Cymorth Cyfreithiol Sifil

- 2.54 Roedd Pennod 6 y papur ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gyfres o gynigion a oedd wedi'u dylunio i sicrhau arbedion pellach cyn cyflwyno'r tendro cystadleuol ar gyfer gwasanaethau mewn achosion sifil a theulu.

Gostwng ffioedd cynrychiolaeth sefydlog i gyfreithwyr mewn achosion teulu a gynhwysir dan y cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Gofal

- 2.55 Pwrpas y cynnig hwn yw sicrhau bod y ffi cynrychiolaeth mewn achosion teulu cyfraith gyhoeddus yn adlewyrchu'n fwy cywir y gwaith sydd ynghlwm ag achosion o'r fath, yn arbennig, y manteision sy'n deillio o symleiddio a chyflymu'r system cyfiawnder teulu o ganlyniad i weithredu'r diwygiadau Adolygiad Cyfiawnder Teulu. Mae'r drefn ffioedd sefydlog presennol yn seiliedig ar gyfundrefniad cyfartaledd y biliau a dalwyd ar gyfraddau fesul awr mewn achosion gofal yn 2007. Wrth i'r diwygiadau i'r system cyfiawnder teulu ddod i rym, mae'r Llywodraeth yn parhau o'r farn nad yw'r ffioedd hyn yn gynyddol yn cynrychioli gwerth am arian. Ar ôl ystyried, a rhoi ystyriaeth ddyledus i ymatebion yr ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth felly wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig fel y'i nodwyd yn y papur ymgynghoriad, er mwyn gostwng o 10%:
- y ffi gynrychiolaeth sefydlog; a'r
 - cyfraddau fesul awr sy'n berthnasol pan fo achos yn cyrraedd y trothwy dianc.
- 2.56 Bydd y cyfraddau fesul awr diwygiedig yn cael eu defnyddio i ddiben cyfrifo'r trothwy dianc o'r cynllun ffioedd sefydlog.
- 2.57 Bwriedir i'r cyfraddau diwygiedig gael eu gweithredu trwy is-ddeddfwriaeth ym mis Ebrill 2014, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. Bwriedir i'r amseru gyd-fynd â newidiadau sydd eu hangen i'r Cynllun Adfocatiaeth Teulu i hwyluso cyflwyno'r Llys Teulu Sengl newydd, y bydd y Llywodraeth yn ymgynghori arno'n ddiweddarach eleni.

Cysoni ffioedd a delir i fargyfreithwyr hunangyflogedig gyda'r rhai a delir i adfocadau eraill sy'n ymddangos mewn achosion sifil (heb fod yn rhai teulu)

- 2.58 Mae'r cynnig hwn yn ceisio sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr drwy sicrhau y byddai bargyfreithwyr hunangyflogedig a oedd yn ymddangos mewn achosion cymorth cyfreithiol sifil yn cael eu talu ar yr un sail ag adfocadau eraill, os oeddynt yn gwneud gwaith tebyg.
- 2.59 Mae'r Llywodraeth yn parhau i gredu ei bod yn egwyddor bwysig y dylai'r un cyfraddau tâl gael eu defnyddio ar gyfer yr un gwaith sylfaenol, waeth beth yw cangen y proffesiwn cyfreithiol y mae'r ymarferydd yn perthyn iddi. Felly, ar ôl ystyried a rhoi sylw dyledus i ymatebion yr ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu

bwrw ymlaen â'r cynnig fel y'i nodwyd yn y papur ymgynghoriad, i gysoni'r ffioedd sy'n daladwy i fargyfreithwyr mewn achosion sifil nad ydynt yn rhai teulu gyda rhai adfocadau eraill.

- 2.60 Bwriedir i'r cyfraddau diwygiedig gael eu gweithredu trwy is-ddeddfwriaeth, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn ddiweddarach eleni.

Cael gwared â'r cynnydd yn y gyfradd a delir ar gyfer achosion mewnfudo a lloches yr Uwch Dribiwnlys

- 2.61 Pwrpas y cynnig hwn yw sicrhau bod y tâl ariannol ar gyfer achosion Mewnfudo a Lloches yr Uwch Dribiwnlys yn adlewyrchu newidiadau yn y cynllun ehangach drwy gael gwared â'r cynnydd o 35% yn y gyfradd ar gyfer achosion apêl Mewnfudo a Lloches yr Uwch Dribiwnlys.
- 2.62 Ar ôl ystyried a rhoi sylw dyledus i ymatebion yr ymgynghoriad, barn y Llywodraeth o hyd yw nad oes cyfiawnhad dros barhau i dalu'r cynnydd. Y bwriad yw y bydd y diwygiad hwn yn cael ei gyflwyno trwy is-ddeddfwriaeth, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn ddiweddarach eleni.

Ffioedd Arbenigol mewn Achosion Sifil, Teuluol a Throseddol

- 2.63 Roedd Pennod 7 y papur ymgynghoriad yn gofyn am farn ar ostyngiad arfaethedig o 20% yn y ffioedd sy'n daladwy i arbenigwyr mewn achosion sifil, teuluol a throseddol er mwyn sicrhau bod y ffioedd a delir i arbenigwyr o dan gymorth cyfreithiol yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr ac yn adlewyrchu'n fwy cywir y ffioedd a delir i arbenigwyr mewn manau eraill. Mae'r Llywodraeth yn credu mai'r egwyddor sylfaenol yw mai dim ond y ffioedd hynny sy'n gwbl angenrheidiol i sicrhau lefel y gwasanaethau sydd eu hangen y dylai eu talu. Felly, ar ôl ystyried a rhoi sylw dyledus i ymatebion yr ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig i ostwng y ffioedd sy'n daladwy i'r rhan fwyaf o arbenigwyr mewn achosion sifil, teuluol a throseddol o 20%, fel y cynigiwyd yn y papur ymgynghoriad. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r newidiadau diweddar i sicrhau cyflenwad y farchnad, rydym wedi penderfynu newid y cynnig o ran:

- Niwrolegwyr, niwrrodiologwyr a neonatolegyddion mewn achosion esgeuluster clinigol (parlys yr ymennydd), lle bydd y cyfraddau uwch a nodwyd yn ddiweddar yn y canllawiau i'r LAA yn cael eu codeiddio;
- Syrfewyr mewn achosion tai cyflwr gwael lle bydd y cyfraddau cyfredol sydd wedi'u codeiddio yn y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau) 2013 yn cael eu cadw; a
- Chyfieithwyr ar y pryd, lle bydd:
 - y cyfraddau cyfredol sy'n daladwy i gyfieithwyr yn Llundain yn cael eu cadw; a'r
 - cyfraddau sy'n daladwy i gyfieithwyr tu allan i Lundain yn cael eu gostwng o 12.5%.

- 2.64 Bwriedir i'r cyfraddau diwygiedig gael eu gweithredu trwy is-ddeddfwriaeth, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, yn ddiweddarach eleni.

Rhan Dau: Ymgynghoriad Pellach

Derbyniwyd bron i 16,000 o ymatebion yn dilyn yr ymgynghoriad *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol* a gyhoeddwyd ym mis Ebrill. Yn ogystal â'r rhain, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder 14 o ddigwyddiadau rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn Atodiad B.

Mae'r holl sylwadau a fynegwyd wedi cael eu hystyried yn ofalus ac ar y sail hon y pennwyd y cynigion a geir yn Rhan 1. Yn achos dau o'r cynigion *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol* gwreiddiol – sef y rhai i gyflwyno tendro cystadleuol a'n diwygiadau arfaethedig i ffoedd adfocatiaeth droseddol - penderfynwyd cynnal ail gyfnod o ymgynghori ar gynigion wedi'u mireinio. Nodir y rhain yma, yn Rhan 2 o'r ddogfen.

Atodlen y Cwestiynau Ymgynghori

Pennod 3: Caffael Gwasanaethau Cymorth Cyfreithiol Troseddol

- C1. A ydych yn cytuno â'r model addasedig a ddisgrifiwyd ym Mhennod 3? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C2. A ydych yn cytuno ardaloedd caffael arfaethedig o dan y model addasedig (a ddisgrifir ym mharagraffau 3.20 i 3.24)? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C3. A ydych yn cytuno â'r fethodoleg arfaethedig (gan gynnwys y ffactorau a nodwyd) i benderfynu ar y nifer o gontractau ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd (a ddisgrifir ym mharagraffau 3.27 i 3.35)? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C4. A ydych yn cytuno â'r mecanweithiau tâl arfaethedig o dan y model addasedig (fel y disgrifir ym mharagraffau 3.52 i 3.73)? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C5. A ydych yn cytuno â'r gostyngiad ffi interim arfaethedig (fel y disgrifir ym mharagraffau 3.52-3.55) ar gyfer pob dosbarth o waith yng nghwmpas y Contract Troseddol Safonol 2010 (ac eithrio Gwaith Sifil cysylltiedig)? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Pennod 4: Diwygiadau i ffioedd adfocatiaeth

- C6. A yw'n well gennych y dull yn:
- Opsiwn 1 (cynnig cysoni a gostwng yn raddol wedi'i ddiwygio); neu,
 - Opsiwn 2 (y model cynllun ffioedd adfocatiaeth CPS a addaswyd)
- Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Pennod 5: Aseidiadau Effaith

- C7. A ydych yn cytuno ein bod wedi dynodi'n gywir yr amrediad o effeithiau dan y cynigion a amlinellir yn y papur ymgynghoriad hwn?
Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C8. A ydych yn cytuno ein bod wedi dynodi'n gywir raddau'r effeithiau dan y cynigion hyn?
Rhowch resymau os gwelwch yn dda.
- C9. A oes ffurfiau o liniaru mewn perthynas â'r effeithiau nad ydym wedi eu hystyried?

Chapter 3. Caffael Gwasanaethau Cymorth Cyfreithiol Troseddol

Cyflwyniad

- 3.1 Bwriedir i gynigion y Llywodraeth ar gyfer diwygio caffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol gefnogi'r farchnad i symud tuag at fwy o fodolau busnes cost effeithiol a modern, gan leihau costau swyddfa er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd i ddefnyddwyr ar y gost isaf i'r trethdalwr.
- 3.2 Mae ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (gweler Atodiad B) a'r trafodaethau manwl a gawsom gyda darparwyr a'u cyrff cynrychioliadol wedi ein hargyhoeddi y gellir cyflenwi gwasanaethau amddiffyn troseddwr yn fwy effeithlon a bod angen atgyfnerthu sylweddol o'r farchnad er mwyn galluogi cwmnïau i weithredu'n effeithiol ar gostau is. Rydym yn parhau i gredu y bydd y ffordd y mae'r Llywodraeth yn trefnu caffael y gwasanaethau hyn yn rhan bwysig o'r broses atgyfnerthu. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymgysylltiad defnyddiol pellach y mae hyn wedi ei ysgogi, rydym yn gwneud nifer o newidiadau i'r dull caffael arfaethedig y credwn y bydd yn ffordd fwy diogel o gyflawni ein hamcanion. Rydym yn credu y bydd hyn yn well ar gyfer darparwyr a'u cleientiaid, yn ogystal ag ar gyfer y trethdalwr. Felly, rydym yn ceisio barn bellach yn y ddogfen hon ar fodel caffael diwygiedig.
- 3.3 Byddai'r model addasedig a nodir isod yn rhoi cyfle i ddarparwyr wneud cais am un o nifer digyfngiad o gontractau i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol i'w cleientiaid eu hunain yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr. Ar gyfer y rhai sy'n hefyd eisiau darparu gwasanaethau i gleientiaid nad ydynt â chyfreithiwr eu hunain, rydym yn bwriadu cynnal proses dendro gystadleuol ar gyfer nifer cyfyngedig o gontractau er mwyn cael mynediad i'r gwaith hwn. Credwn fod hyn yn cadw cydbwysedd priodol rhwng darparu cyfleoedd ar gyfer atgyfnerthu - a thrwy hynny sicrhau darpariaeth gynaliadwy o'r gwasanaeth darparwr dyletswydd sy'n sylfaenol i effeithiolrwydd cymorth cyfreithiol troseddol - heb gyfyngu ar fynediad i'r farchnad yn ddiangen.

Cynigion newydd

Model Addasedig

- 3.4 Mae'r model ar gyfer caffael gwasanaethau amddiffyn troseddwr a ddisgrifir isod wedi cael ei gynllunio i gyflawni'r un amcanion polisi â'r model arfaethedig a nodir yn y papur ymgynghoriad, sef:
- Arbedion maint - byddai gan ddarparwyr fwy o gyfleoedd i raddio'i fyny er mwyn sicrhau arbedion maint a darparu gwasanaeth mwy effeithlon.
 - Arbedion cwmpas - byddai rhaid i ddarparwyr ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau ymglyfreitha, yn ogystal ag adfocatiaeth yn y llys ynadon. Byddai hyn yn galluogi darparwyr i sicrhau adnoddau ar gyfer eu contract yn y ffordd fwyaf effeithlon.

- Symleiddio a mwy o hyblygrwydd - byddai systemau a phrosesau ar gyfer gweithredu'r cynllun yn cael eu symleiddio i gyflwyno ffioedd sefydlog lle bo'n bosibl; a byddai darparwyr yn cael mwy o hyblygrwydd ynglŷn â'r modd maent yn strwythuro eu busnesau a mynd i mewn i berthynas gytundebol.
 - Amcan arbedion – byddai'r cynigion yn gostwng y gwariant cymorth cyfreithiol troseddol drwy wasanaeth a strwythur mwy effeithlon.
- 3.5 Mewn ymateb i adborth i'r ymgynghoriad, rydym wedi ystyried sut i ddatblygu model o dendro cystadleuol sy'n cynnwys dewis y cleient. Er enghraifft, rydym wedi ailedrych ar y ffordd orau o strwythuro'r cynllun ffioedd sefydlog arfaethedig; cwmpas y gwaith cystadlu; maint priodol yr ardaloedd caffael; a nifer y contractau er mwyn darparu ar gyfer dewis y cleient.
- 3.6 Rydym hefyd wedi gwrandao ar farn ymatebwyr a thrafod yn helaeth gyda Chymdeithas y Gyfraith ynglŷn â'r pryderon a godwyd am y broses dendro gystadleuol sy'n defnyddio pris fel prif faen prawf. Ar ôl ystyried y safbwyntiau hyn, yr ydym yn argyhoeddedig y gallwn gyflawni ein hamcanion drwy broses dendro gystadleuol lle nad yw pris yn cael ei ddefnyddio fel maen prawf dyfarnu.
- 3.7 Felly mae'r model addasedig yn rhoi cyfle i gwmnïau wneud cais i gyflawni Gwaith Dewis y Cleient yn unig¹⁰ ac i'r cwmnïau hynny sy'n bodloni'r gofynion i ddarparu Gwaith Dewis y Cleient hefyd gael y cyfle i wneud cais i gyflawni Gwaith Darparwr Dyletswydd¹¹. Byddai hyn yn cadw'r un lefel o ddewis i gleientiaid sydd eisiau cymorth cyfreithiol troseddol fel yn awr.
- 3.8 Ni fyddai unrhyw gyfyngiad ar y nifer y contractau ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a byddai unrhyw ddarparwr sy'n ateb Gofynion y Broses Dendro¹² (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol) yn gallu darparu'r gwasanaethau hynny yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr, a byddai unigolion yn rhydd i ddewis unrhyw ddarparwr sydd â chontract Gwaith Dewis y Cleient i'w cynrychioli.
- 3.9 O dan y model addasedig, byddem yn gosod nifer cyfyngedig o gontractau ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd. Byddai'r darparwyr llwyddiannus yn cael cyfran gyfartal o'r slotiau dyletswydd heddlu o fewn yr ardal gytundebol berthnasol. Byddai angen i ymgeiswyr ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd ddangos sut y maent yn bodloni Gofynion y Broses Dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol), ond byddai'n rhaid hefyd dangos sut y byddai ganddynt y capasiti i ddarparu'r math a'r maint o waith sydd ar gael. Byddai ein asesiad o allu cwmnïau i fodloni'r gofynion hyn yn ffurfio'r sail ar gyfer proses lle byddai nifer cyfyngedig o gontractau ar gyfer y gwaith hwn yn cael eu gosod.

¹⁰ Gwaith Dewis y Cleient yw yr holl gyngor troseddol cymorth cyfreithiol, ymglyfreitha (ac eithrio VHCCs) a gwasanaethau adfocatiaeth llysoedd ynadon a ddarperir i gleientiaid sy'n dewis eu darparwr eu hunain ar y pwynt cais cyntaf.

¹¹ Gwaith Darparwr Dyletswydd yw yr holl gyngor cymorth cyfreithiol troseddol, cyfreitha (ac eithrio VHCC) a gwasanaethau adfocatiaeth llysoedd ynadon a roddir i gleientiaid sy'n dewis y Darparwr Dyletswydd ar y pwynt cais cyntaf.

¹² Mae'r cyfeiriad at 'Gofynion y Broses Dendro' drwy gydol y ddogfen hon yn golygu gofynion y broses dendro a nodir yn y 'Holiadur Cyn-Gymhwyso', dogfennaeth 'Gwybodaeth i Ymgeiswyr' (a fydd yn cynnwys y telerau ac amodau tendro) a'r 'Gwahoddiad i Dendro'

- 3.10 Er y, bydd yr ardal gaffael ar gyfer y contractau Darparwr Dyletswydd i'r rhan fwyaf o'r wlad yr un rhai â'r ardaloedd System Cyfiawnder Troseddol (CJS) sy'n bodoli eisoes, rydym yn bwriadu newid hyn mewn nifer o ardaloedd lle mae cyfyngiadau daearyddol yn ei gwneud yn anymarferol.

Crynodeb o'r model addasedig arfaethedig

- 3.11 Gan edrych ar yr un elfennau allweddol ag a drafodwyd yn y papur ymgynghoriad, rydym yn amlinellu elfennau allweddol y model addasedig arfaethedig yn Nhabl 1 isod. Mae pob elfen yn cael ei thrafod yn fanwl yn y paragraffau sy'n dilyn.

Tabl 1: Elfennau allweddol y model addasedig arfaethedig

(i) Cwmpas y contract(au) newydd	<p>Byddai strwythur y contract(au) newydd yn galluogi darparwyr i:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Wneud cais i ddarparu'r gwasanaethau canlynol i unig gleientiaid sy'n dewis eu darparwr eu hunain (Gwaith Dewis y Cleient) ar bwynt cyntaf gwneud cais: Ymchwiliadau, Achosion, Gwaith Sifil Cysylltiedig, Ymglyfreitha Llys y Goron (nid VHCC) a chynrychiolaeth uchel lys¹³; a 2. Gwneud cais i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ddarparu'r un gwasanaethau i gleientiaid sy'n dewis y Darparwr Dyletswydd ar bwynt cyntaf gwneud cais (Gwaith Darparwr Dyletswydd): <p>Byddai darparwyr sydd eisieu gwneud cais i gynnal cyfraith carchardai a/neu dosbarthiadau apeliadau ac adolygiadau gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn gallu gwneud hynny, p'un a ydynt yn darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol eraill ai peidio.</p> <p>(Ceir dadansoddiad llawn o'r mathau o ddsbarthiadau o waith a ddarperir o dan bob un o'r penawdau hyn yn Nhabl G1 yn Atodiad G)</p>	Cyf. Para 3.12-3.17
(ii) Hyd y contract	Tymor contract pedair blynedd ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient ac ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd gyda'r opsiwn i'r Llywodraeth ymestyn tymor y contract hyd at un flwyddyn arall (yn amodol ar hawliau terfynu cynnar).	3.18-3.19

¹³ Cynrychiolaeth gerbron y Llys Apêl neu'r Llys Goruchaf.

(iii) Ardaloedd daearyddol ar gyfer caffael a darparu gwasanaethau	<p>Ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient, yr ardal gaffael fyddai Cymru a Lloegr.</p> <p>Ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, byddai'r ardaloedd caffael arfaethedig yn gymysgedd o ardaloedd System Cyfiawnder Troseddol (CJS) ac ardaloedd y cynllun dyletswydd gorsaf heddlu cyfunol</p>	3.20-3.26
(iv) Nifer y contractau	<p>Ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient, ni fyddai unrhyw gyfyngiad ar y nifer o gontractau ar draws Cymru a Lloegr.</p> <p>Ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, byddai ymgeiswyr yn gallu cystadlu i ddarparu gwasanaethau mewn mwy nag un ardal gaffael. Byddai nifer y contractau yn amrywio yn ôl ardal gaffael a byddent yn cael eu pennu yn ôl nifer o ffactorau.</p>	3.27-3.36
(v) Mathau o ddarparwr	Gallai darparwyr fod yn sefydliadau unigol (fel partneriaeth neu Bractis Disgyblu Cyfreithiol), menter ar y cyd neu Strwythur Busnes Amgen (ABS), ond rhaid iddynt fod yn endid cyfreithiol sengl.	3.37-3.40
(vi) Gwerth y contract	<p>Ni fyddai unrhyw gyfyngiad ar faint o Waith Dewis y Cleient y gallai ymgeisydd llwyddiannus ei gyflenwi.</p> <p>Ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, byddai darparwyr yn cael eu contractio i gyflwyno cyfran gyfartal o slotiau dyletswydd gorsaf yr heddlu a llys ynadon yn eu hardal gaffael, a thrwy hynny roi mynediad iddynt i waith pellach naill ai yn yr orsaf neu'r llys.</p>	3.41-3.45
(vii) Dewis y Cleient	Byddai cleientiaid yn gallu dewis rhwng darparwr y maent yn ei adnabod eisoes ac/neu â pherthynas â hwy, cyn belled â bod y darparwr hwnnw'n dal contract cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient; neu'r darparwr sydd ar ddyletswydd ar yr adeg y maent yn chwilio am gyngor. Mae hyn yn cynnal y lefel bresennol o ddewis i gleientiaid.	3.46-3.48
(viii) Dyrannu achosion	Fel yn awr, ni fyddai unrhyw system o ddyrannu achosion gyfer y cleientiaid hynny sydd eisiau rhoi cyfarwyddyd i'w darparwr eu hunain. Byddai'r Gwaith Darparwr Dyletswydd yn cael ei ddyrannu ar sail rota slot dyletswydd, neu, lle bo'n berthnasol, ar sail panel.	3.49-3.51

<p>(ix) Tâl</p>	<p>Cynlluniau ffioedd sefydlog ar gyfer mynychu gorsaf yr heddlu, cynrychiolaeth llysoedd ynadon ac ymgyfreitha Llys y Goron (achosion gyda llai na 500 o dudalennau o dystiolaeth yr erlyniad (PPE)).</p> <p>Ar gyfer ymgyfreitha Llys y Goron, byddai achosion gyda mwy na 500 o PPE yn cael eu talu o dan Gynllun Ffioedd Graddedig Cyfreithydd (gostyngiad o 17.5%)</p> <p>Byddai pob mecanwaith tâl arall yn aros yr un fath, er byddai cyfraddau tâl yn cael eu gostwng.</p>	<p>3.52-3.73</p>
<p>(x) Y broses gaffael</p>	<p>Gallai ymgeiswyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Wneud cais am un o nifer digyfngiad o gontractau i gyflwyno Gwaith Dewis y Cleient yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr; <p>a</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud cais i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ennill un o nifer cyfyngedig o gontractau i gyflwyno Gwaith Darparwr Dyletswydd mewn ardal(oedd) caffael. <p>Byddai sefydliadau sy'n dymuno ymgymryd â Chyfraith Carchardai yn gallu gwneud cais o dan broses ar wahân a fyddai â meini prawf penodol sy'n adlewyrchu gofynion ansawdd y gwasanaeth.</p> <p>Byddai'r broses ymgeisio ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient yn broses un cam i werthuso gofynion y Broses Dendro, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Holiadur Cyn-gymhwys (PQQ); <p>ac</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesiad y gall yr ymgeisydd fodloni rhai rhwymedigaethau craidd o dan y contract. <p>Byddai'r broses ymgeisio ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd yn broses dau gam i werthuso gofynion y Broses Dendro:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cam 1 - PQQ; a • Cam 2 - Gwahoddiad i Dendro yn cynnwys asesiad o Gynlluniau Cyflenwi'r cynigwyr. 	<p>3.74-3.98</p>

(xi) Dyfarnu / gweithredu contract	Y broses dendro i gychwyn yn yr holl ardaloedd caffael yn gynnar yn 2014 ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a'r Gwaith Darparwr Dyletswydd. Ein bwriad presennol yw y bydd y gwasanaeth yn dechrau yng ngwanwyn 2015 ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a'r Gwaith Darparwr Dyletswydd.	3.99
---	--	------

(i) Cwmpas y contract newydd¹⁴

- 3.12 Roedd y model ymgynghoriad blaenorol yn cynnig y byddai cwmpas y contract newydd yn cynnwys yr holl wasanaethau sydd ar hyn o bryd yng nghwmpas y Contract Troseddol Safonol 2010. Byddai wedi bod yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu'r holl wasanaethau o fewn cwmpas y contract newydd, a thrwy hynny atal y sefydliadau hynny sydd ar hyn o bryd ond yn cyflenwi cyfraith carchardai ac/neu materion apeliadau ac adolygiadau rhag gwneud hynny yn y dyfodol. Rydym wedi gwneud nifer o addasiadau i'r dull hwn.
- 3.13 Fel gyda'r model ymgynghoriad blaenorol, o dan y model addasedig byddai'r contractau newydd ond yn berthnasol i achosion newydd sy'n dechrau ar neu ar ôl y dyddiad cychwyn gwasanaeth. Yn dilyn y rhesymeg a nodir ym mharagraffau 212 i 220 yn Atodiad B, beth bynnag yw strwythur y contract(au) newydd, rydym yn cynnig y gallai darparwyr:
- Wneud cais i gyflawni Gwaith Dewis y Cleient yn unig - pob dosbarth o gymorth cyfreithiol troseddol a restrir yn Nhabl G 1 yn Atodiad G i'r cleientiaid hynny lle maent yn dewis eu darparwr eu hunain, gan gynnwys:
 - Ymchwiliadau - yn cynnwys yr holl waith a wnaed ar gyfer cleient yn ystod ymchwiliad troseddol mater hyd at y pwynt lle mae cleient yn cael ei gyhuddo, ei ryddhau neu'n cael gwŷs ar gyfer y mater sydd dan ymchwiliad;
 - Yr achos – yn cynnwys yr holl waith a wneir ar ran cleient yn ystod achos troseddol llys yr ynadon mewn mater neu achos o ddyddiad y cyhuddiad neu'r wŷs;
 - Gwaith Sifil Cysylltiedig – cyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth mewn materion sydd a wnelont â heriau cyfraith gyhoeddus sy'n codi o unrhyw achos troseddol; ac
 - Ymglyfreitha Llys y Goron (heb fod yn VHCC); a
 - Chynrychiolaeth ar gyfer apeliadau a glywir gan y Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys.
- A
- Gwneud cais i gyflawni gwaith Darparwr Dyletswydd yn cwmpasu'r un dosbarthiadau o gymorth cyfreithiol troseddol.

¹⁴ Byddai'r Contract (au) Trosedd newydd hefyd yn cael eu teilwra i'r gwasanaethau sy'n ofynnol o dan y model terfynol a'r broses gaffael. Byddent hefyd yn cael eu diweddarau i adlewyrchu newidiadau i'n prosesau busnes (e.e. gweithio'n electronig) ac effeithiau o ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth a/neu'r system gyfiawnder.

- 3.14 Dylai darparwyr sydd ond yn dymuno cyflwyno cyfraith carchardai¹⁵ ac/neu wasanaethau apeliadau ac adolygiadau¹⁶ allu gwneud hynny.
- 3.15 Fel yr eglurwyd yn y papur ymgynghoriad blaenorol, ar hyn o bryd mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) yn gweithredu cynllun cyfreithiwr ar ddyletswydd yn y llys ynadon. Mae'r cyfreithiwr ar ddyletswydd yn gallu cynnig cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i bobl am ddim ar eu hymddangosiad cyntaf yn y llys (nid yn y treial), waeth beth yw eu hamgylchiadau ariannol, lle y maent yn cael eu cyhuddo o drosedd garcharadwy yn unig neu lle mae'r cleient yn y ddalfa ac, yn y ddau achos, lle nad yw'r cleient wedi derbyn cyngor o'r blaen gan y cyfreithiwr ar ddyletswydd ar yr un mater.
- 3.16 Rydym yn bwriadu cynnal gwasanaeth o'r fath o dan y model addasedig, ond dim ond y contractau hynny a ddyfarnwyd i gyflwyno gwaith Darparwr Dyletswydd fydd yn gymwys i ddarparu gwasanaethau darparwr dyletswydd y llys yn eu hardal gaffael (mae paragraff 3.64 yn nodi cynigion ar sut y byddai'r gwaith yn cael ei dalu ar ôl cymryd i ystyriaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad).
- 3.17 Am y rhesymau a amlinellwyd ym mharagraffau 212 i 220 yn Atodiad B, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen gyda'n cynlluniau i wahardd y tri maes canlynol o gymorth cyfreithiol troseddol yn gyfan gwbl o gwmpas y contract newydd:
- Adfocatiaeth Llys y Goron;
 - Achosion Costus lawn (Trosedd);
 - Gwasanaethau Canolfan Alwadau Cyfreithwyr Amddiffyn a Criminal Defence Direct.

(ii) Hyd y contract

- 3.18 Yn dilyn adborth gan ymgynghoreion, rydym yn gweld achos dros rywfaint o addasiad i'r cyfnod arfaethedig ar gyfer hyd y contract. Rydym yn cynnig y byddai contractau newydd am gyfnod o bedair blynedd, gydag opsiwn i'r Llywodraeth ymestyn y tymor y contract hyd at un flwyddyn arall (ac yn destun i hawliau terfynu cynnar).
- 3.19 Rydym yn dal i gynnig y byddai unrhyw gytundeb cymorth cyfreithiol troseddol newydd am Waith Darparwr Dyletswydd yn cynnwys cymal terfynu dim bai wedi'i addasu, i gynnwys darpariaeth ar gyfer iawndal o dan rai amgylchiadau mewn achos o derfynu contract yn gynnar gan yr Arglwydd Ganghellor.

(iii) Ardaloedd daeryddol ar gyfer caffael a darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol

- 3.20 Rydym yn credu bod yr achos dros ddefnyddio'r 42 o ardaloedd CJS presennol fel sail ar gyfer pennu ardaloedd caffael yn sefyll. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir

¹⁵ Cyfraith carchardai (fel y'i diwygiwyd - gweler Pennod 2).

¹⁶ Apeliadau ac adolygiadau - cyngor a chymorth ar apeliadau yn erbyn euogfarn neu ddedfryd (lle nad yw cynrychiolydd newydd ei gyfarwyddo'n cael ei gynnwys dan Orchymyn Cynrychiolaeth presennol) neu geisiadau i'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CCRC).

ym mharagraffau 244 i 246 yn Atodiad B, rydym yn cynnig gwneud nifer o addasiadau.

- 3.21 Byddai darparwyr sy'n cyflwyno Gwaith Dewis y Cleient, wrth gwrs, yn gallu darparu gwasanaethau yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr.
- 3.22 Mewn perthynas â Gwaith Darparwr Dyletswydd, am resymau daearyddiaeth lleol penodol mewn nifer fach o ardaloedd, rydym yn cynnig creu ardaloedd caffael llai o faint yn seiliedig ar gyfuniadau o ardaloedd cynllun dyletswydd gorsaf heddlu presennol. Wrth wneud hyn, rydym wedi edrych ar ddau ffactor allweddol:
- Amser teithio rhwng y ddau bwynt cyflenwi mwyaf eithafol yn yr ardal gaffael - rydym wedi asesu'r ddau bwynt cyflenwi (e.e. gorsaf yr heddlu, llysoedd ynadon, lleoliad Llys y Goron) sydd fwyaf eithafol yn ddaearyddol ym mhob ardal gaffael. Ni fyddai unrhyw ardal gaffael arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr deithio mwy na 1.5 awr yn y car rhwng dau bwynt cyflenwi.
 - Mewnbwn gan yr LAA ar raniad daearyddol priodol yr ardal. Rydym wedi gofyn i'r LAA ddefnyddio eu gwybodaeth leol am y rhaniad daearyddol arfaethedig a chynghori ar ddiwygiadau priodol lle bo angen.
- 3.23 Ein cynnig ar gyfer Llundain yw y dylid ei hisrannu a gosod ardaloedd caffael yn ôl Ardaloedd Cyfiawnder Lleol Llundain. Ceir naw Ardal Cyfiawnder Lleol yn Llundain ar hyn o bryd, tra bo Bwrdeistrefi Llundain yn cael eu grwpio yn ôl y llysoedd ynadon perthnasol.
- 3.24 Yn seiliedig ar y dadansoddiad uchod, mae'r ardaloedd caffael arfaethedig o dan y model addasedig fel a ganlyn:

Tabl 2: Ardaloedd caffael arfaethedig o dan y model addasedig

Maes Caffael	Cynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu
Avon a Gwlad yr Haf 1	Mendip, Weston Super Mare, Sedgemoor
Avon a Gwlad yr Haf 2	Gogledd Avon, Caerfaddon, Bryste
Swydd Bedford	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Cambridgeshire	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Canol Llundain	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Swydd Gaer	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Cleveland	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Cumbria 1	Barrow in Furness, Whitehaven
Cumbria 2	Kendal, Penrith
Derbyshire	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Dyfnaint a Chernyw 1	Barnstable, Caerwysg, Plymouth, Teignbridge
Dyfnaint a Chernyw 2	Dwyrain Cernyw, Carrick
Dorset	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Durham	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Dyfed-Powys 1	Dyffryn Aman, Llanelli, Sir Benfro
Dyfed-Powys 2	Caerfyrddin, Aberhonddu, Canolbarth Cymru, Gogledd Ceredigion
Dwyrain Llundain	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Essex	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Swydd Gaerloyw	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Manceinion Fwyaf	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Gwent	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS

Maes Caffael	Cynlluniau Dyletswydd Gorsaf Heddlu
Hampshire 1	Aldershot, Andover, Portsmouth, Gosport, Southampton
Hampshire 2	Ynys Wyth
Swydd Hertford	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Glannau Humber	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Kent	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Lancashire	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Swydd Gaerlŷr	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Swydd Lincoln	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Glannau Mersi	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Norfolk 1	Cromer, Great Yarmouth, Norwich, Thetford, Dereham
Norfolk 2	Kings Lynn
Gogledd Ddwyrain Llundain	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Gogledd Llundain	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Gogledd Cymru 1	Bae Colwyn, Sir Ddinbych, Yr Wyddgrug, Wrecsam
Gogledd Cymru 2	Bangor, Dolgellau, Gogledd Ynys Môn, Pwllheli
Gogledd Orllewin Llundain	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Gogledd Swydd Efrog 1	Northallerton, Harrogate, Skipton
Gogledd Swydd Efrog 2	Scarborough, Malton, Efrog
Swydd Northampton	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Northumbria 1	SE Northumbria, Newcastle Upon Tyne, Gateshead, N.Tyneside, S.Tyneside, Sunderland, Tyndale
Northumbria 2	Berwick a Alnwick
Swydd Nottingham	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
De Ddwyrain Llundain	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
De Llundain	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
De Cymru	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
De Orllewin Llundain	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
De Swydd Efrog	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Swydd Stafford	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Suffolk 1	Felixstowe / Ipswich a'r Cylch / Woodbridge, Lowestoft
Suffolk 2	Sudbury
Surrey	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Sussex 1	Brighton, Hastings, Worthing, Eastbourne
Sussex 2	Chichester, Crawley
Dyffryn Tafwys	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Swydd Warwick	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Gorllewin Llundain	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
West Mercia 1	Henffordd, Kidderminster, Caerwrangon
West Mercia 2	Amwythig, Telford
Gorllewin Canolbarth Lloegr	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Gorllewin Swydd Efrog	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS
Wiltshire	Holl gynlluniau dyletswydd gorsaf heddlu sydd ar hyn o bryd yn yr ardal CJS

Detholusrwydd

3.25 Ni fyddai contract i gyflenwi Gwaith Darparwr Dyletswydd mewn un ardal gaffael yn caniatáu i'r darparwr ddarparu Gwaith Darparwr Dyletswydd mewn ardal gaffael arall ac eithrio lle mae achos yn croesi ffiniau ardaloedd caffael. Os yw achos yn croesi ffin

yr ardal gaffael (er enghraifft, os yw achos yn cael ei drosglwyddo i lys mewn ardal gaffael wahanol) rhaid i'r Darparwr Dyletswydd yn gytundebol ddilyn y cleient i ardal gaffael arall.

- 3.26 Byddai ymgeiswyr yn gallu tendro i gyflwyno gwaith Darparwr Dyletswydd mewn mwy nag un ardal gaffael. Fodd bynnag, ni fyddai ymgeiswyr yn gallu tendro am fwy nag un gyfran o Waith Darparwr Dyletswydd mewn ardal gaffael sengl.

(iv) Nifer y contractau

- 3.27 O dan y model ymgynghoriad blaenorol, amlinellwyd pedwar ffactor yr oeddem yn bwriadu eu defnyddio i benderfynu ar y nifer gorau posibl o gontractau ym mhob ardal gaffael, a gofynnwyd am adborth ar y ffactorau hyn ac a oedd unrhyw rai eraill y dylem eu hystyried. Gwnaethom esbonio, yn seiliedig ar ein hasesiad o'r ffactorau hyn, bod data hawlio LAA am y cyfnod Hydref 2010 i fis Medi 2011 yn awgrymu tua 400 o gontractau gyda darparwyr ar draws Cymru a Lloegr. Byddai'r contractau hyn yn cwmpasu Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd ac felly, yn gyffredinol, ar gyfer swm llawer mwy o waith nag y mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn ei wneud ar hyn o bryd.

- 3.28 O dan y model addasedig sy'n cynnwys dewis cleientiaid, rydym yn cynnig cystadlu'r Gwaith Darparwr Dyletswydd yn unig, sy'n cyfrif am tua 40% o'r achosion (yn seiliedig ar gyfartaledd cenedlaethol) sy'n derbyn cymorth cyfreithiol troseddol. Rydym yn credu ei bod yn angenrheidiol cyfyngu ar nifer y contractau i gyflenwi Gwaith Darparwr Dyletswydd - mewn perthynas â nifer y darparwyr dyletswydd heddiw - er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth Darparwr Dyletswydd, sy'n sylfaenol i gyflwyniad effeithiol cymorth cyfreithiol troseddol, yn gynaliadwy yn ôl y cyfraddau tâl sydd ar gael.

- 3.29 Fodd bynnag, yr ydym wedi clywed gan ymatebwyr efallai na fydd y lefel o dwf sy'n angenrheidiol i sicrhau un o'r contractau dyletswydd newydd yn ddymunol nac yn gyraeddadwy i rai darparwyr. Felly, o dan y model addasedig, byddai darparwyr yn gallu darparu gwasanaethau i'w cleientiaid eu hunain a sicrhau bod eu busnes yn parhau'n gynaliadwy o fewn y ffioedd gostyngol drwy dyfu maint Gwaith Dewis y Cleient y maent yn ei ddarparu a lle bo angen archwilio cyfleoedd ar gyfer atgyfnerthu yn ystod tymor y contract. Rydym yn credu y byddai'r model addasedig arfaethedig yn cefnogi'r darparwyr hynny i wneud y newidiadau hynny trwy gynnig mwy o hyblygrwydd o ran strwythurau busnes, gan roi cyfle iddynt dyfu eu busnes ac i arloesi; a mabwysiadu gostyngiad fesul cam mewn ffioedd.

- 3.30 O dan y model addasedig, byddai nifer y contractau ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient yn ddigyfyngiad. Byddai unrhyw ddarparwr a oedd yn gallu bodloni gofynion y broses dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol) yn cael contract i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol i gleient sy'n eu dewis hwy o unrhyw le yng Nghymru a Lloegr ar bwynt cyntaf gwneud cais.

- 3.31 At ddibenion pennu'r nifer o gontractau ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, rydym o'r farn barn y dylai'r un pedwar ffactor allweddol a nodir yn y papur ymgynghoriad blaenorol ddal i gael eu cymryd i ystyriaeth. Y rhain yw:

- **Cyflenwad digonol i ddelio â gwrthdaro buddiannau posibl** – Wedi ehangu ein set ddata i gynnwys data hawlio LAA 2009 i 2013, mae'r data yn cadarnhau

mai pedwar diffynnydd neu lai a geir yn y mwyafrif helaeth o achosion. Mae'r data felly yn rhoi arwydd y dylid cael o leiaf pedwar contract ym mhob ardal gaffael.

- **Digon o swm o achosion i ganiatáu i gynlluniau ffioedd sefydlog weithio** – Er mwyn rheoli lefel y risg o golled ariannol a wynebir gan ddarparwyr sydd â chynllun ffi sefydlog, byddai angen i ni gynnig swm digonol o waith er mwyn iddynt ymdopi ag amrywiaethau yn y gymysgedd o achosion. Rydym yn bwriadu asesu hyn gan ddefnyddio dull tebyg i'r hyn a nodir yn yr ymgynghoriad blaenorol - wedi'i addasu ar gyfer y data diweddaraf ac i adlewyrchu Gwaith Darparwr Dyletswydd yn unig - a newidiadau i'r cynllun ffioedd sefydlog ac ardaloedd caffael.

Rydym yn parhau o'r farn y byddai'n rhesymol disgwyl i ddarparwyr amsugno hyd at 3% o newid mewn refeniw, mewn unrhyw flwyddyn unigol, o'i gymharu â'r hyn y byddent wedi'i gael yn yr un gymysgedd o achosion. Er enghraifft, gan gymryd ardal gyda gwerth hawliad cyfartalog presennol o £400, byddem yn anelu i fod yn ystadegol hyderus o dan y cynlluniau ffioedd sefydlog arfaethedig, na fyddai gwerth hawliad cyfartalog a gaiff darparwr ddim llai na £388 (-3%) a ddim mwy na £412 (+3%).

- **Ystwythder y farchnad** – Mae'r un ystyriaethau yn berthnasol gyda'r model hwn o'i gymharu â'r model ymgynghoriad blaenorol, o safbwynt i ba raddau y byddai angen i ddarparwyr presennol ym mhob ardal gaffael ehangu eu busnesau i gymryd arnynt eu hunain fwy o swm o Waith Darparwr Dyletswydd. Fodd bynnag, byddem hefyd yn ystyried y safbwyntiau a gyflwynwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad gan y cwmnïau hynny a allai, ar eu hasesiad eu hunain, orfod cwtogi eu busnesau. Wrth benderfynu ar y nifer o gontractau Gwaith Darparwr Dyletswydd, byddem felly angen ystyried i ba raddau y gellid lliniaru hyn drwy alluogi'r darparwyr hynny i barhau i gael mynediad i Waith Dewis y Cleient.
- **Caffael cynaliadwy** – Rydym hefyd yn parhau o'r farn fod angen i ni sicrhau bod y farchnad yn gystadleuol yn y rowndiau tendro yn y dyfodol. Fel y nodir yn y papur ymgynghoriad blaenorol, rydym yn disgwyl y byddai nifer o ymgeiswyr llwyddiannus yn fentrau ar y cyd neu endid cyfreithiol sy'n defnyddio asiantau. Yn ogystal, byddai darparwyr Gwaith Dewis y Cleient yn cael y cyfle i dyfu eu busnesau os ydynt yn dymuno gwneud hynny, drwy gael mwy o waith o ganlyniad i gystadleuaeth drwy rymoedd y farchnad naturiol. Gallai hyn yn ei dro alluogi'r darparwyr hynny i adeiladu digon o faint i allu cystadlu mewn rownd o gaffael yn y dyfodol.

3.32 Yn ogystal â'r ffactorau hyn, ein bwriad yw sicrhau bod y contractau i gyflenwi Gwaith Darparwr Dyletswydd yn ddigon mawr o ran nifer a gwerth i fod yn gynaliadwy yn ôl eu teilyngdod eu hunain ar ôl y gostyngiad cronus mewn ffioedd o 17.5%, cyn belled ag y bo modd. Yn amlwg mae'n rhaid i ni sicrhau bod nifer lleiaf o ddarparwyr yn parhau i weithredu ym mhob ardal, a bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu i bawb sydd ei angen. Rydym yn credu mai'r ffordd orau o wneud hynny fyddai sicrhau bod Gwaith Darparwr Dyletswydd yn gynaliadwy ar ei ben ei hun.

3.33 Er mwyn helpu llywio ein dadansoddiad o gynaliadwyedd a'r penderfyniad terfynol ar y nifer o gontractau ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, rydym yn bwriadu comisiynu darn pellach o waith ymchwil ar y cyd gyda Chymdeithas y Gyfraith, er mwyn cael gwybodaeth fwy manwl i'r diben hwn. Byddai hefyd yn angenrheidiol i waith o'r fath gymryd i ystyriaeth faint arfaethedig yr ardal gaffael.

- 3.34 Felly, rydym yn cynnig pennu nifer priodol y contractau ar gyfer gwaith Darparwr Dyletswydd ar sail y pedwar ffactor a nodir uchod a chanlyniadau'r ymchwil pellach. Byddem yn croesawu barn ymgynghorion ar y ffactorau hyn, ac a oes unrhyw rai eraill y dylem eu hystyried.
- 3.35 Rydym yn nodi bod dadansoddiad dangosol a nodwyd mewn adroddiad gan Otterburn a Ling, a gyflenwyd gan Gymdeithas y Gyfraith mewn ymateb i'r ymgynghoriad blaenorol¹⁷, yn awgrymu y byddai gan dri sefydliad damcaniaethol yn gweithredu ar draws yr ardaloedd caffael CJS arfaethedig well cyfle i gynnal eu busnes ar ôl gostyngiad o 17.5% yn y ffioedd, os oes ganddynt drosiant blyneddol o fwy na tua £1m (gan gynnwys TAW). Gan gymryd yr amcangyfrif gwariant ar wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yng nghwmpas y contract newydd arfaethedig ar ôl y gostyngiad 17.5% arfaethedig mewn ffioedd (a fyddai'n cyfateb i tua £570 miliwn mewn cyflwr sefydlog), byddai hyn yn awgrymu na ddylem gynnig dim mwy na 570 o gontractau ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd. Tra bod hwn yn fan cychwyn defnyddiol, nid yw'r nifer hwn yn cymryd i ystyriaeth y ffactorau eraill a nodir uchod, a hefyd mae'n rhagdybio y byddai angen i'r darparwyr sydd â contract Gwaith Darparwr Dyletswydd amsugno'r holl Waith Dewis y Cleient sydd ar gael yn y farchnad yn ystod tymor y contract er mwyn i'r cytundebau fod yn gynaliadwy. Fel y nodwyd uchod, ein nod yw y dylai contractau Gwaith Darparwr Dyletswydd fod yn ddigon mawr i fod yn gynaliadwy yn ôl eu teilyngdod eu hunain ar ôl y gostyngiad cronus mewn ffioedd o 17.5%. Byddai'n rhaid ystyried yr holl ffactorau a nodir uchod, gan gynnwys y gwaith ymchwil pellach a ddisgrifir ym mharagraff 3.33 uchod, wrth benderfynu ar niferoedd y contractau terfynol ar gyfer y gwaith hwn.

Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus (PDS)

- 3.36 Rydym yn parhau i gredu ei bod yn bwysig cynnal rôl i'r PDS oherwydd y rhan y mae'r gwasanaeth yn ei chwarae mewn meincnodi; yn y gwaith o ddatblygu safonau ansawdd mewn gwaith amddiffyn troseddwr; ac er mwyn diogelwch rhag methiant y farchnad. Ein bwriad ar hyn o bryd, yn dilyn asesiad o gynhwysedd y PDS, yw y byddid yn neilltuo cyfran gyfartal o slotiau dyletswydd iddo yn yr ardaloedd lle mae eisoes wedi sefydlu. Byddai'r PDS hefyd yn gymwys i gynnal Gwaith Dewis y Cleient mewn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr.

(v) Mathau o ddarparwr

- 3.37 Fel gyda'r model ymgynghoriad blaenorol, nid ydym yn bwriadu cyfyngu ar y mathau o sefydliadau a all wneud cais am gontract ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion perthnasol y Broses Dendro yn hyn o beth (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol). Ein ffordd o feddwl ar hyn o bryd yw bod rhaid i unrhyw ymgeisydd sy'n gwneud cais am gontract, ac nad yw'n cael ei reoleiddio eisoes, sicrhau ei fod wedi gwneud cais ar gyfer rheoleiddio priodol er mwyn fod wedi'i reoleiddio erbyn dyddiad cychwyn y contract. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, gall hwn fod yn amod cyflwyno tendr (h.y. byddai angen i ymgeiswyr fod yn endid cyfreithiol ac wedi gwneud cais am reoleiddio priodol erbyn diwedd y Gwahoddiad i Dendro ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd). Byddai angen i ymgeiswyr wirio gyda'u corff

¹⁷ <http://www.lawsociety.org.uk/representation/policy-discussion/transforming-legal-aid-consultation-law-society-response/>

rheoleiddio o ran yr hyn sydd ei angen er mwyn gwneud cais ar gyfer rheoleiddio, a pha mor hir fyddai'r broses hon yn ei chymryd (a allai fod yn nifer o fisoedd).

- 3.38 Yn gyson â'r model ymgynghoriad blaenorol, o dan y model addasedig gallai ymgeiswyr fod yn sefydliadau unigol (megis partneriaeth neu Bractis Disgyblu Cyfreithiol), menter ar y cyd neu ABS, ond bydd angen ffurfio un endid cyfreithiol. Gallai ymgeiswyr ddewis darparu'r gwasanaeth eu hunain a/neu drwy ddefnyddio asiantau. Ni fyddai'r model yn atal unrhyw newydd-ddyfodiaid i'r farchnad, ar yr amod eu bod yn cael eu rheoleiddio yn briodol.
- 3.39 O dan y model, byddai darparwyr yn cael caniatâd i ddefnyddio asiantau, ond efallai y byddant angen darparu fel rhan o'u tendr fanylion yr asiantau y mae ganddynt berthynas â hwy, neu y bwriedir cael perthynas â hwy, erbyn y dyddiad cychwyn y contract. Byddai angen i ddarparwyr gymryd cyfrifoldeb am ansawdd y gwaith a wneir gan eu hasiantau yn unol â thelerau'r contract.
- 3.40 Disgwylir i ymgeiswyr y dyfarnwyd contractau iddynt ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd fod â'r capasiti a'r gallu i ymgymryd â phob un o'r categorïau o waith o fewn cwmpas y contract Gwaith Darparwr Dyletswydd, neu ddefnyddio asiantau â chymwysterau priodol.

(vi) Gwerth y contract

- 3.41 Mae'n dilyn o'r newidiadau yr ydym wedi eu hamlinellu y byddai gwerth y contract mewn perthynas â Gwaith Dewis y Cleient yn dibynnu ar faint y busnes a gynhyrchir gan gwmnïau unigol a'r newidiadau arfaethedig i'r ffioedd sydd ar gael.
- 3.42 Rydym hefyd yn cynnig y byddai darparwyr sy'n gwneud dim ond Gwaith Dewis y Cleient yn cael mynediad i'r achos troseddol dilynol yn y llys ynadon, a lle bo'n berthnasol, Llys y Goron a llysoedd uwch.
- 3.43 Mewn perthynas â Gwaith Darparwr Dyletswydd, byddai gwerth cyffredinol y contract i gwmnïau llwyddiannus yn dibynnu ar y nifer o contractau ym mhob ardal. Ein bwriad yw y byddai darparwyr yn cael cyfran gyfartal o slotiau Darparwr Dyletswydd gorsaf yr heddlu a llys ynadon yn yr ardal gaffael dan sylw dros oes y contract. Byddai darparwyr yn cael mynediad i'r achos troseddol dilynol yn y llys ynadon, a lle bo'n berthnasol, Llys y Goron a llysoedd uwch.
- 3.44 Mae darparwr sydd am gynnal cyfraith carchardai¹⁸ a/neu dosbarthiadau gwaith apeliadau ac adolygiadau¹⁹ yn gallu gwneud hynny p'un a ydynt yn dymuno cynnal y gwasanaethau hynny yn unig neu yn ychwanegol at wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol eraill.
- 3.45 Er mwyn eglurder, fel gyda'r model ymgynghoriad blaenorol, ni fyddem yn gallu gwarantu nifer penodol o achosion ar gyfer pob darparwr y dyfarnwyd Gwaith Dewis y Cleient neu Waith Darparwr Dyletswydd iddynt; yn syml, gan ddibynnu ar y math o

¹⁸ Cyfraith carchardai (fel y'i diwygiwyd - gweler Pennod 2).

¹⁹ Apeliadau ac adolygiadau - cyngor a chymorth ar apeliadau yn erbyn euogfarn neu ddedfryd (lle nad yw cynrychiolydd newydd ei gyfarwyddo'n cael ei gynnwys dan Orchymyn Cynrychiolaeth presennol) neu geisiadau i'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CCRC).

contract(au) a ddyfarnwyd, byddai darparwyr yn cael mynediad at waith o'r fath a oedd a oedd yn llifo drwy eu hardal gaffael, naill ai drwy'r cleient yn dewis y darparwr dan sylw, neu drwy ddyraniad cyfran gyfartal o slotiau Darparwr Dyletswydd.

(vii) Dewis y cleient

- 3.46 Yn unol â'r newidiadau yr ydym wedi'u hamlinellu, ein cynnig yw y byddai cleientiaid yn cadw'r cyfle i ddewis rhwng:
- a. darparwr y maent yn ei adnabod ac/neu y mae ganddynt berthynas â hwy eisoes, cyn belled ag y bo'r darparwr yn dal contract gyda'r Arglwydd Ganghellor i gynnal gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol; neu
 - b. darparwr sydd ar ddyletswydd ar yr adeg y mae'r cleient angen cyngor o'r fath.
- Mae hyn yn cynnal yr un lefel o ddewis â'r hyn sydd ar gael dan y cynllun presennol.
- 3.47 Unwaith y bo darparwr wedi ei ddewis (Gwaith Dewis y Cleient) neu wedi'i ddyrannu (Gwaith Darparwr Dyletswydd), rydym yn cynnig y byddai'r darparwr yn gyffredinol yn gorfod darparu'r ystod lawn o gyngor, ymglyfreitha a gwasanaethau cynrychiolaeth llysoedd ynadon. Fodd bynnag, rydym yn dal i gynnig y byddai cleient sy'n dymuno newid eu cynrychiolydd cyfreithiol yn gallu gwneud hynny. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, byddai unrhyw newid mewn darparwr ar ôl rhoi gorchymyn cynrychiolaeth yn cael ei benderfynu gan lys, yn amodol ar yr un meini prawf a nodir yn y rheoliadau presennol²⁰.
- 3.48 Rydym hefyd yn cynnig lle bo darparwr yn ystyried ei bod yn briodol yn unol â'u cod ymddygiad proffesiynol i dynnu eu gwasanaethau yn ôl, dylent allu gwneud hynny. Rydym yn cynnig felly bod yr un meini prawf sy'n berthnasol yn awr ar gyfer tynnu'n ôl/trosglwyddo yn dilyn rhoi gorchymyn cynrychiolaeth yn parhau i fod yn berthnasol o dan y model addasedig²¹. Byddem yn disgwyl mai dim ond ar ôl ystyried yr un meini prawf y byddai unrhyw dynnu'n ôl neu drosglwyddo cyn rhoi gorchymyn cynrychiolaeth yn digwydd. Byddai'r LAA yn ystyried p'un a ddylid cynnwys unrhyw rwymedigaethau yn y contract cymorth cyfreithiol troseddol newydd, a byddai darparwyr yn cael eu monitro yn eu herbyn.

(viii) Dyrannu achosion

- 3.49 O dan y model addasedig, mae'n dilyn mai dim ond yn yr achosion hynny lle mae'r cleient yn dewis y Darparwr Dyletswydd a fyddai'n cael eu dyrannu i ba bynnag ddarparwr sydd ar ddyletswydd ar yr adeg berthnasol. Mae hyn yn cynnal y dull dyrannu achosion presennol, gan gynnwys y rheolau cyfredol ar reoli gwrthdaro buddiannau.
- 3.50 Fel yn awr, byddai cleientiaid sy'n dewis eu cyfreithiwr eu hunain yn cael eu cyfeirio gan y Ganolfan Alwadau Cyfreithiwr Amddiffyn at y darparwr y maent wedi ei ddewis,

²⁰ Gweler Rheoliad 14 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Penderfyniadau gan Lys a Dewis Cynrychiolydd) 2013.

²¹ Fel uchod, gweler Rheoliad 14 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Penderfyniadau gan Lys a Dewis Cynrychiolydd) 2013.

ar yr amod bod y darparwr yn dal contract cymorth cyfreithiol troseddol. Os bydd y cleient yn dewis darparwr nad yw'n dal contract cymorth cyfreithiol troseddol, gall y darparwr, wrth gwrs, ddarparu'r gwasanaeth ar sail talu'n breifat. Beth bynnag, dylai'r cleient gael gwybod y gallant ofyn am gyngor a chymorth cyfreithiol am ddim gan ddarparwr dan gontract petaent yn dymuno, yn unol â'u rhwymedigaethau proffesiynol.

Dyrannu achosion y tu allan i fynychu gorsaf yr heddlu

- 3.51 O dan y model addasedig, byddai cleientiaid sy'n gofyn am gyngor gan ddarparwr ar gyfer materion y tu allan i'r orsaf heddlu yn ceisio cyngor o'r fath gan unrhyw ddarparwr sy'n dal contract cymorth cyfreithiol troseddol. Fel yn awr, ni fyddai unrhyw broses ddyrannu ar gyfer y gwaith hwn - yn syml, byddai'r cleient yn cysylltu â'r darparwr yn uniongyrchol.

(ix) Tâl

Lleihau ffioedd yn raddol

- 3.52 Mae'r model addasedig yn cynnig cyfanswm gostyngiad ffioedd o 17.5% erbyn gwanwyn 2015, dyddiad Cychwyn Gwasanaeth arfaethedig y contract cymorth cyfreithiol troseddol newydd. Felly mae'n darparu'r un lefel o arbedion â'r cynnig blaenorol.
- 3.53 Yn hytrach na gwneud gostyngiad un cam o 17.5% yng ngwanwyn 2015, rydym yn bwriadu gwneud dau ostyngiad olynol: gostyngiad ffioedd o 8.75% yn gynnar yn 2014 ar draws yr holl wasanaethau ymglyfreitha troseddol²² (ac eithrio VHCCs sy'n cael eu trafod ym Mhennod 2) a ffioedd eiriolaeth llys ynadon, gydag ail ostyngiad o 8.75% yn dilyn ar draws yr un ystod o ffioedd yng ngwanwyn 2015 i fod yn berthnasol i Waith Darparwr Dyletswydd a Gwaith Dewis y Cleient o dan y contractau cymorth cyfreithiol troseddol newydd (o gymharu â lefelau ffioedd cyfredol ac yn erbyn y trefniadau tâl arfaethedig a drafodir isod).
- 3.54 Byddai dull gweithredu o'r fath yn ein galluogi i ddechrau gwireddu'r arbedion angenrheidiol a helpu darparwyr i addasu trwy ostyngiad ffioedd mwy graddedig yn ystod y cyfnod estynedig cyn dyddiad cychwyn y contractau newydd. Byddai ganddo'r fantais ychwanegol o annog darparwyr i archwilio'r cyfleoedd ar gyfer y lefel atgyfnerthu'r farchnad sy'n angenrheidiol i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy yn y tymor hirach. Rydym yn meddwl bod gweithredu'r cap prisiau arfaethedig a/neu ostwng ffioedd yn fwy graddedig, gan ddechrau gyda thoriad interim o 8.75%, yn taro'r cydbwysedd priodol o gyflawni arbedion cychwynnol a lliniaru'r risg o ostyngiad unigol sylweddol mewn prisiau, tra'r un pryd yn cymell newid.
- 3.55 Gweler y cyfraddau gostyngol presennol ac arfaethedig ar gyfer y gwasanaethau ymglyfreitha yr effeithir arnynt gan y toriad ffi interim arfaethedig yn Nhabl G2 o Atodiad G.

²² Mae cyfeiriadau at 'wasanaethau ymglyfreitha' trwy gydol y bennod hon yn golygu yr holl wasanaethau sydd ar hyn o bryd yng nghwmpas y Contract Trosedd Safonol 2010.

Ffioedd sefydlog

- 3.56 Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghoriad flaenorol, mae'r Llywodraeth yn credu bod y mecanwaith tâl presennol ar gyfer gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn rhy gymhleth ac yn weinyddol feichus. Felly, wrth edrych ar fodelau amgen rydym yn cynnig cyflwyno ffioedd sefydlog, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 3.57 Rydym hefyd yn credu waeth p'un a yw'r cleient yn dewis eu darparwyr eu hunain neu'r Darparwr Dyletswydd, byddai'r mecanwaith talu (h.y. y cynllun ffi sefydlog) yr un fath.
- 3.58 Felly, wrth addasu'r cynllun ffioedd sefydlog arfaethedig gwreiddiol fel y nodir yn y papur ymgynghoriad blaenorol, rydym yn awr yn cynnig y canlynol ar gyfer pob cam yn y broses CJS.

a) Ffi sefydlog am fynychu gorsaf yr heddlu

- 3.59 Rydym yn cynnig cyflwyno dull ffi sefydlog ar gyfer talu am fynychu gorsaf yr heddlu.
- 3.60 Ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd, ni waeth lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu, byddai'r un ffi sefydlog genedlaethol yn berthnasol ar gyfer mynychu gorsaf yr heddlu. Er mwyn penderfynu ar ffi sefydlog genedlaethol am fynychu gorsaf yr heddlu, byddem yn defnyddio'r broses ganlynol:
- O ddata nifer hawliadau a gwerth 2012/13, cyfrifo'r hawliadau cenedlaethol cyfartalog ar gyfer mynychu gorsaf yr heddlu, gan gymryd cyfanswm y gwariant cenedlaethol ar gyfer mynychu gorsaf yr heddlu a rhannu'r cyfanswm hwnnw gyda nifer yr hawliadau cenedlaethol;
 - Gostwng gwerth hawliad cyfartalog am fynychu gorsaf yr heddlu o 17.5% (yn amodol ar y dull arfaethedig o ostwng ffioedd fesul cam a drafodwyd ym mharagraffau 3.52 i 3.55 uchod) dan y cyfraddau presennol²³.
- 3.61 Mae cymhwyso gostyngiad o 17.5% i ddata bilio Gorsaf yr Heddlu 2012/13 yn rhoi ffi sefydlog genedlaethol arfaethedig o £200.64.

b) Ffi sefydlog cynrychiolaeth yn y llys ynadon

- 3.62 Fel yn achos y cynnig a nodwyd yn yr ymgynghoriad gwreiddiol, rydym yn cynnig newid y cynllun Ffi Safonol yn y llys ynadon am ffi sefydlog. Byddai hyn yn cael gwared â'r gwahaniaeth rhwng y Ffi Safonol Isaf a'r Ffi Safonol Uwch, ac yn hytrach byddai pob hawliad am gynrychiolaeth llys ynadon yn cael ei seilio ar un ffi sefydlog. Fodd bynnag, ar ôl gwrandio ar farn a gyflwynwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad, rydym yn cynnig cynnal mecanwaith, yn debyg i'r mecanwaith ffioedd ansafonol presennol ar gyfer gwaith cynrychiolaeth llys ynadon, lle byddai darparwyr yn gallu hawlio ffi uwch. Mae'r mecanwaith ffioedd ansafonol presennol yn galluogi darparwyr i hawlio ffi uwch ar yr amod y gallant ddangos bod yr oriau a weithiwyd ganddynt yn fwy na'r trothwy penodedig. At ddibenion y bennod hon, byddwn yn parhau i gyfeirio

²³ Wrth gyfraddau cyfredol, rydym yn golygu'r cyfraddau hynny o dâl ar gyfer ymgyfreitha (ac eithrio VHCCs) a gwasanaethau adfocatiaeth llysoedd ynadon sy'n berthnasol ar adeg cyhoeddi. 17.5% fyddai cyfanswm y gostyngiad yn y ffioedd, a fyddai'n cynnwys y gostyngiad o 8.75% arfaethedig ar draws yr un cyfraddau yn gynnar yn 2014 (gweler paragraffau 3.52-3.55 ar y gostyngiad ffi interim arfaethedig).

at hon fel Ffi Ansafonol. Byddai'r cyfraddau fesul awr ar gyfer gwaith o'r fath yn cael ei ostwng 17.5% o dan y cyfraddau presennol²⁴.

- 3.63 Ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd, ni waeth lle mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu, byddai'r un ffi sefydlog genedlaethol ar gyfer cynrychiolaeth yn y llys ynadon yn berthnasol i achosion nad ydynt uwchlaw'r trothwy Ffi Ansafonol. Er mwyn penderfynu ar ffi sefydlog genedlaethol ar gyfer cynrychiolaeth yn y llys ynadon, byddem yn defnyddio'r un cyfrifiad ag a ddisgrifir yn 3.60 uchod, ond yn seiliedig ar ddata cynrychiolaeth yn y llys ynadon (ar gyfer Ffioedd Safonau Isaf ac Uwch yn unig). Ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd, gall darparwyr sy'n dangos eu bod wedi gweithio uwchben y trothwy Ffi Ansafonol hawlio ar sail y gyfradd fesul awr. Byddai'r cyfraddau fesul awr presennol²⁵ sy'n berthnasol i Ffi Ansafonol cynrychiolaeth yn y llys ynadon yn cael eu defnyddio, yn destun i'r gostyngiad arfaethedig o 17.5%.
- 3.64 Fel y disgrifir ym mharagraff 3.16, rydym yn bwriadu cynnal cynllun darparwr dyletswydd yn y llys ynadon o dan y model hwn. Ar hyn o bryd, telir am waith dyletswydd yn y llys ynadon ar ffurf cyfraddau fesul awr a chaiff darparwyr eu talu yn seiliedig ar y nifer o oriau maent yn bresennol yn y llys ynadon. Ein cynnig yw cynnal y tâl ar wahân hwn am y gwaith yma, a chadw'r mecanwaith cyfradd wrth yr awr. Fodd bynnag, byddai'r darparwyr y dyfarnwyd Gwaith Darparwr Dyletswydd iddynt yn cael tâl am y gwaith hwn ar y cyfraddau presennol²⁶ wedi eu gostwng o 17.5%.
- 3.65 Byddai gostyngiad o 17.5% ym miliau'r holl lysoedd ynadon (ac eithrio ar gyfer hawliadau a wnaed am Ffioedd Ansafonol) yn 2012/13 yn rhoi ffi sefydlog genedlaethol arfaethedig o £321.05.

c) Ffi sefydlog ymglyfreitha Llys y Goron (achosion gyda llai na 500 o dudalennau o dystiolaeth yr erlyniad)

- 3.66 Rydym yn parhau o'r farn bod rhaid i unrhyw gynllun cymorth cyfreithiol troseddol yn y dyfodol edrych ar symleiddio'r Cynllun Ffioedd Graddedig Cyfreithydd (LGFS) presennol. Er bod y model ymgynghoriad blaenorol yn cynnig newid cynllun o'r fath am gynllun ffi sefydlog sengl, ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad o safbwynt ansicrwydd ariannol model o'r fath, rydym wedi archwilio nifer o addasiadau i'r cynllun ffioedd sefydlog arfaethedig. Ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a'r Gwaith Darparwr Dyletswydd, rydym felly yn cynnig cynllun ffioedd sefydlog ar sail dau newidyn (math o drosedd a thudalennau o dystiolaeth yr erlyniad (PPE)) i liniaru'r risg ariannol ar gyfer darparwyr. Yn hytrach na'r un ffi sefydlog a gynigiwyd yn y model ymgynghoriad blaenorol, rydym yn cynnig pum ffi sefydlog ar gyfer pob un o'r un ar ddeg o fathau o droseddau. Yn ein barn ni, byddai hyn yn helpu i leihau'r risg bod darparwr yn ennill neu'n colli'n sylweddol yn ariannol mewn unrhyw un achos.

²⁴ *ibid.*

²⁵ Wrth gyfraddau fesul awr presennol, rydym yn golygu'r cyfraddau hynny o dâl am Ffioedd Ansafonol ar gyfer cynrychiolaeth llys ynadon sy'n berthnasol ar yr adeg cyhoeddi. 17.5% fyddai cyfanswm y gostyngiad yn y ffioedd, a fyddai'n cynnwys y gostyngiad o 8.75% arfaethedig ar draws yr un cyfraddau yn gynnar yn 2014 (gweler paragraffau 3.52-3.55 ar y gostyngiad ffi interim arfaethedig).

²⁶ Wrth gyfraddau fesul awr presennol, rydym yn golygu'r cyfraddau hynny o dâl am gyfraddau fesul awr cyfreithiwr dyletswydd mewn llys ynadon sy'n berthnasol ar yr adeg cyhoeddi. 17.5% fyddai cyfanswm y gostyngiad yn y ffioedd, a fyddai'n cynnwys y gostyngiad o 8.75% arfaethedig ar draws yr un cyfraddau yn gynnar yn 2014 (gweler paragraffau 3.52-3.55 ar y gostyngiad ffi interim arfaethedig).

- 3.67 O dan y cynnig gwreiddiol, rydym yn bwriadu cynnal un eithriad i'r cynllun ffi sefydlog hwn, sef aliniad y ffioedd yn y cynlluniau llys ynadon a Llys y Goron mewn achosion a ddynodwyd gan ynadon fel rhai oedd yn addas ar gyfer treial diannod, ond lle'r oedd y diffynnydd wedi dewis treial gan reithgor ac yn dilyn hynny wedi pledio'n euog. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd y ffi a delir yn cyfateb i'r hyn a fyddid wedi ei dderbyn petai'r achos wedi aros yn y llys ynadon.
- 3.68 Rydym yn parhau o'r farn bod rhai achosion o'r fath hyd a chymhlethdod y byddai eu cynnwys dan gynllun ffi sefydlog yn anodd i'w ddarparu, heb ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr wynebu lefel afresymol o risg, ac felly rydym yn cadw at ein cynnig gwreiddiol y dylai'r achosion hynny sydd â dros 500 o PPE gael eu talu yn ôl y cynllun ffioedd graddedig.
- 3.69 Ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a'r Gwaith Darparwr Dyletswydd, ni waeth lle mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu, byddai'r un cynllun ffi sefydlog genedlaethol yn berthnasol i ymglyfreitha Llys y Goron ar gyfer achosion gyda 500 neu lai o PPE. Er mwyn penderfynu ar y ffioedd sefydlog, byddem yn defnyddio'r un cyfrifiad ag a ddisgrifir yn 3.60 uchod, ond yn seiliedig ar ddata hawlio ymglyfreitha Llys y Goron (ar gyfer achosion gyda 500 neu lai o PPE).
- 3.70 Gweler y cynllun ffi sefydlog arfaethedig dangosol newydd ar gyfer achosion Llys y Goron gyda llai na 500 o PPE yn Nhabl G3 o Atodiad G.

d) Ffi raddedig ymglyfreitha Llys y Goron (achosion gyda 500 neu fwy o PPE)

- 3.71 Fel yr amlinellwyd uchod, rydym yn bwriadu cynnal yr LGFS cyfredol ar gyfer achosion lle mae'r PPE yn 500 neu fwy. Ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd, byddai'r cyfraddau sy'n sail i'r LGFS yn cael eu gosod yn weinyddol ar 17.5% o dan y cyfraddau presennol²⁷.

Cyfraddau tâl ar gyfer dosbarthiadau eraill o gymorth cyfreithiol troseddol

- 3.72 Byddai cyfraddau tâl ar gyfer yr holl ddosbarthiadau eraill o waith yn cael eu gosod yn weinyddol, a byddent 17.5% o dan y cyfraddau presennol²⁸. Mae'r cyfraddau tâl presennol ar gyfer pob un o'r dosbarthiadau o waith gyda chyfraddau a bennir yn weinyddol wedi eu gosod allan yn y rheoliadau.²⁹

Treuliau

- 3.73 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd talu treuliau ar wahân ac felly rydym yn cynnig y byddai cost unrhyw dreuliau teithio a chynhaliaeth o dan bob categori uchod yn cael eu talu ar wahân. Byddai costau treuliau i arbenigwyr yn parhau i gael eu talu ar wahân.

²⁷ Wrth gyfraddau presennol, rydym yn golygu'r cyfraddau hynny o dâl am ymglyfreitha (heblaw VHCC) ac adfocatiaeth llys ynadon sy'n berthnasol ar adeg cyhoeddi. 17.5% fyddai cyfanswm y gostyngiad yn y ffioedd, a fyddai'n cynnwys y gostyngiad o 8.75% arfaethedig ar draws yr un cyfraddau yn gynnar yn 2014 (gweler paragraffau 3.52-3.55 ar y gostyngiad ffi interim arfaethedig).

²⁸ Ibid.

²⁹ Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol (Taliadau) 2013.

(x) Y Broses Gaffael

- 3.74 Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, pwrpas yr adran hon yw egluro sut yr ydym ar hyn o bryd yn bwriadu rhedeg y broses gaffael i gaffael contractau trosedd newydd o dan y model addasedig.
- 3.75 Fodd bynnag, bydd angen adolygu'r model yn dilyn y gwaith pellach yr ydym yn bwriadu ei gomisiynu ar y cyd gyda Chymdeithas y Gyfraith i helpu llywio maint y contractau ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd. Nid ydym yn gwneud unrhyw ymrwymiad penodol yn yr adran hon mewn perthynas â fersiwn derfynol y broses gaffael (gan gynnwys y telerau a'r amodau a fyddai'n rheoli'r broses, y meini prawf terfynol, unrhyw ddull ar gyfer gwerthuso tendrau a/neu unrhyw fecanwaith sgorio cais a ddefnyddir).
- 3.76 Byddai'r broses caffael yn caniatáu i ymgeiswyr:
- Wneud cais am contract i gyflenwi Gwaith Dewis y Cleient yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr; a
 - Gwneud cais i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ennill contract i gyflenwi Gwaith Darparwr ar Ddyletswydd yn yr ardal gaffael arfaethedig.
- 3.77 Byddai sefydliadau sy'n dymuno ymgymryd â gwaith Cyfraith Carchardai a/neu Waith Apeliadau ac Adolygiadau yn gallu gwneud cais o dan broses ar wahân, a fyddai â meini prawf penodol sy'n adlewyrchu gofynion ansawdd y gwasanaeth. Byddai'r meini prawf hyn yn cynnwys gofyniad i gyflogi Goruchwyliwr Cyfraith Carchardai. Byddai safon ddiwygiedig Goruchwyliwr Gyfraith Carchardai yn cymryd i ystyriaeth gwmpas diwygiedig y gwaith, ac yn cael gwared ag amgylchiadau eithriadol fel llwybr i gymhwyso ar gyfer y safon hon. Byddai hyn ar gael cyn agor y broses dendro.

Contract ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient

- 3.78 Byddai'r broses ymgeisio hon yn broses un cam yn cynnwys:
- Holiadur Cyn-gymhwyso (PQQ);
 - Asesiad y gall yr ymgeisydd fodloni rhai rhwymedigaethau craidd o dan y contract.
- 3.79 Byddai'n rhaid i ymgeiswyr fodloni gofynion y Broses Dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd gofynnol) er mwyn ennill contract i ymgymryd â Gwaith Dewis y Cleient.

Holiadur Cyn-gymhwyso (PQQ) ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient

- 3.80 Byddai'r Holiadur Cyn-gymhwyso ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient yn cynnwys meini prawf gorfodol a dewisol.

Meini Prawf Gorfodol a Dewisol

- 3.81 Byddai'r meini prawf gorfodol a dewisol yn profi addasrwydd ymgeisydd i contractio â chorff cyhoeddus.
- 3.82 Fel yr amlinellwyd yn y model ymgynghoriad gwreiddiol, rydym yn cynnig y byddai'r PQQ, cyn belled ag y bo modd, yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet. Byddai'r PQQ yn cynnwys cwestiynau craidd yr Holiadur Cyn-gymhwyso safonol sy'n cwmpasu

seiliau dros wrthod gorfodol (er enghraifft, euogfarnau am lwgrwobrwyo) a'r seiliau dros wrthod dewisol (er enghraifft, cyflawni rhwymedigaethau o ran treth). Byddai meini prawf dewisol hefyd yn cynnwys ystyriaethau penodol LAA (er enghraifft, p'un a derfynwyd contract ymgeisydd o'r blaen).

3.83 Byddai ymatebion i'r sail dros wrthod gorfodol yn absoliwt, a lle y noda ymgeisydd nad yw'n gallu bodloni'r gofyniad, byddai'n methu'r PQQ.

3.84 O dan y cwestiynau PQQ sy'n ymwneud â seiliau dewisol dros wrthod, byddai ymgeiswyr yn cael y cyfle i gyflwyno gwybodaeth y dylid ei chymryd i ystyriaeth wrth werthuso pam nad oedd y gofynion yn cael eu bodloni'n syth. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei hasesu gan yr LAA fel rhan o'i werthusiad o'r ymatebion PQQ.

Rhwymedigaethau craidd o dan y Contract ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient

3.85 Fel rhan o'r broses dendro, byddai'n rhaid i ymgeiswyr fodloni rhai rhwymedigaethau craidd. Mae Cymdeithas y Gyfraith wedi gwneud nifer o awgrymiadau gwerthfawr ynglŷn â'r gofynion gwasanaeth gofynnol y dylai ymgeiswyr eu bodloni, ac yr ydym wedi adlewyrchu'r rhain cyn belled ag y bo modd yn y rhwymedigaethau craidd a amlinellir isod. Roedd eu hawgrymiadau ynghylch sicrhau ansawdd yn arbennig o ddefnyddiol ac o ganlyniad rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol bod pob sefydliad yn cyflogi o leiaf un aelod cymwys o staff cyfwerth ag amser llawn, a chyflwyno cymhareb goruchwyliwr i weithiwr achos o 1 i 4.

3.86 Mae'r rhwymedigaethau craidd yr ydym yn eu hystyried ar hyn o bryd yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Rhaid i ymgeiswyr feddu ar (neu ymrwymo i gaffael o fewn cyfnod amser penodedig) safon ansawdd perthnasol (naill ai Marc Ansawdd Arbenigol yr LAA neu safon Lexcel Cymdeithas y Gyfraith neu safon ansawdd cyfatebol y cytunir arni gan yr LAA)
- Rhaid i ymgeiswyr fod yn ddarostyngedig i reoliad gan un o'r rheoleiddwyr sector cyfreithiol
- Rhaid i ymgeiswyr dderbyn Graddfa Adolygiad gan Gymheiriaid o 3 neu uwch yn ystod unrhyw archwiliad o dan y contract;
- Rhaid i ymgeiswyr gael neu ymrwymo i gael a defnyddio Cyfrif E-bost Diogel y System Cyfiawnder Troseddol i dderbyn gwasanaeth tystiolaeth electronig gan asiantaethau erlyn.
- Rhaid i ymgeiswyr gyflogi o leiaf un Goruchwyliwr cyfwerth ag amser llawn ac ymrwymo i gynnal cymhareb Goruchwyliwr i weithiwr achos/ymgyngorydd o 1:4 drwy gydol tymor y contract;
- Rhaid i ymgeiswyr gyflogi o leiaf un aelod o staff CLAS achrededig cyfwerth ag amser llawn; a
- Rhaid i ymgeiswyr fod â swyddfa yng Nghymru a Lloegr sy'n cwrdd â'r gofynion presenoldeb a nodir yn y contract.

Contract i ddarparu Gwaith Darparwr Dyletswydd

3.87 Ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, rydym yn cynnig cynnal cystadleuaeth ar gyfer nifer cyfyngedig o gontractau ym mhob ardal gaffael lle mae tendrau yn cael eu gwerthuso yn erbyn Gofynion y Broses Dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd

gofynnol). Er mwyn tendro i ddarparu Gwaith Darparwr Dyletswydd, byddai dau gam i'r broses yn cynnwys:

- PQQ (yn cynnwys rhoi prawf ar brofiad a gallu'r ymgeisydd); a
- Gwahoddiad i Dendro yn cynnwys Cynllun Cyflenwi.

Meini Prawf Profiad a Gallu PQQ ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd

- 3.88 Yn ychwanegol at y Meini Prawf Gorfodol a Dewisol a ddisgrifir uchod, rydym yn cynnig defnyddio meini prawf PQQ ychwanegol i lunio rhestr fer o ymgeiswyr sy'n gwneud cais i ddarparu Gwaith Darparwr Dyletswydd. Fel yr awgrymwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr, byddai hefyd yn ofynnol i ymgeiswyr fod â swyddfa sy'n bodloni'r gofynion presenoldeb yn yr ardal gaffael benodol y maent yn tendro ar ei chyfer.
- 3.89 Roedd gennym ddiddordeb yn awgrym Cymdeithas y Gyfraith y dylem roi prawf ar brofiad ymgeiswyr, ac o ganlyniad, bydd y meini prawf gwerthuso PQQ hyn yn rhoi prawf ar brofiad ymgeiswyr yn ogystal â'u gallu i ddarparu gwasanaethau o'r fath neu o faint tebyg. Bydd ymgeiswyr yn cael eu sgorio yn erbyn nifer o feini prawf. Mae'r rhai rydym yn eu hystyried ar hyn o bryd yn cynnwys:
- Profiad staff;
 - Profiad y tîm rheoli o reoli gwasanaeth tebyg;
 - Profiad o fod wedi darparu symiau cymharol o waith; ac
 - Aseiad ariannol (gan gynnwys graddfa unrhyw ehangu sydd ei angen i gyflenwi'r contract).
- 3.90 Byddai nifer yr ymgeiswyr ar y rhestr fer yn y cyfnod PQQ yn cael ei benderfynu mewn perthynas â nifer y contractau Darparwr Dyletswydd sydd eu hangen ym mhob ardal gaffael.

Gwahoddiad i Dendro (ITT) ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd

- 3.91 Byddai'r ITT yn cynnwys aseiad o Gynllun Cyflenwi'r ymgeisydd yn erbyn y meini prawf a gyhoeddwyd ac yna byddai ymgeiswyr yn cael eu sgorio a'u rhestru yn nhrefn y sgôr uchaf.
- 3.92 Byddem yn anelu at ddyfarnu nifer penodedig o gontractau o faint cyfartal ym mhob ardal gaffael i'r ymgeiswyr sy'n sgorio uchaf.

Cynllun Cyflenwi

- 3.93 Wrth ddarparu Cynllun Cyflenwi, rydym yn cynnig y byddai angen i ymgeiswyr nodi sut y maent yn bwriadu darparu'r gwasanaeth yn erbyn meysydd a ddiffinnir fel staffio a recriwtio, eiddo ac agweddau eraill ar fobileiddio.
- 3.94 Byddai'r LAA yn gwerthuso'r Cynlluniau Cyflenwi er mwyn sicrhau fod gan ymgeiswyr y capasiti i gyflenwi'r gwasanaeth. Lle mae ymgeiswyr yn tendro i ddarparu gwasanaethau mewn mwy nag un ardal gaffael, gallai hyn gynnwys hyder yr LAA yng ngallu'r ymgeisydd i gyflenwi gwasanaethau ar yr un pryd yn yr holl ardaloedd caffael.

Dyrannu slotiau dyletswydd

- 3.95 Yn dibynnu ar y nifer o gontractau sy'n ofynnol ym mhob ardal gaffael, byddai'r ymgeisydd â'r sgôr uchaf wedyn yn derbyn dyraniad o niferoedd cyfartal o slotiau dyletswydd gorsaf yr heddlu a llys ynadon.
- 3.96 Er enghraifft, os oes deg o gontractau i gael eu dyfarnu mewn Ardal Gaffael i'r deg bid sydd wedi sgorio uchaf, yna byddai pob un o'r darparwyr hyn yn cael dyraniadau o slotiau dyletswydd o faint cyfartal (h.y. byddai pob darparwr yn cael 10% o'r slotiau dyletswydd sydd ar gael).

Mobileiddio'r Contract

- 3.97 Er mwyn cael sicrwydd bod ymgeiswyr llwyddiannus yn gwneud cynnydd boddhaol tuag at fod mewn sefyllfa i gyflenwi'r gwasanaethau, byddai'r LAA yn anelu at lofnodi contractau gydag ymgeiswyr llwyddiannus cyn y dyddiad cychwyn gwasanaeth. Os ystyrir nad yw ymgeisydd llwyddiannus yn gwneud cynnydd boddhaol, efallai y bydd rhaid i'r LAA gymryd penderfyniad i derfynu'r contract.

TUPE

- 3.98 Byddai'n gyfrifoldeb ar bob ymgeisydd unigol i ffurfio eu barn eu hunain (gan gymryd cyngor cyfreithiol yn ôl yr angen) ar p'un a yw Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE) yn berthnasol.

(xi) Gweithredu

- 3.99 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad blaenorol ac o ganlyniad i'r cyfnod ymgynghoriad pellach, yn amodol ar ei ganlyniad, rydym yn awr yn cynnig cychwyn y broses gaffael ar gyfer gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn gynnar yn 2014 gyda'r bwriad o ddyfarnu contractau yn hwyr yn 2014 neu'n gynnar yn 2015. Byddai hyn yn ymestyn yr amser sydd gan ymgeiswyr i archwilio cyfleoedd ar gyfer uno posibl, mentrau ar y cyd, a/neu drefniadau asiantaeth, ac i baratoi ar gyfer cychwyn y gwasanaeth. Rydym yn cynnig bod y gwasanaeth yn cychwyn yn y gwanwyn 2015.

Cwestiynau Ymgynghori

C1. A ydych yn cytuno â'r model addasedig a ddisgrifiwyd ym Mhennod 3? Rhowch resymau os gwelwch yn dda..

C2. A ydych yn cytuno ardaloedd caffael arfaethedig o dan y model addasedig (a ddisgrifir ym mharagraffau 3.20 i 3.24)? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C3. A ydych yn cytuno â'r fethodoleg arfaethedig (gan gynnwys y ffactorau a nodwyd) i benderfynu ar y nifer o gontractau ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd (a ddisgrifir ym mharagraffau 3.27 i 3.35)? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C4. A ydych yn cytuno â'r mecanweithiau tâl arfaethedig o dan y model addasedig (fel y disgrifir ym mharagraffau 3.52 i 3.73)? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C5. A ydych yn cytuno â'r gostyngiad ffi interim arfaethedig (fel y disgrifir ym mharagraffau 3.52-3.55) ar gyfer pob dosbarth o waith yng nghwmpas y Contract Troseddol Safonol 2010 (ac eithrio Gwaith Sifil cysylltiedig)? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Chapter 4. Diwygio Ffioedd Adfocatiaeth Troseddol

Rhagarweiniad

- 4.1 Mae'r bennod hon yn gosod allan ein cynigion diwygiedig ar gyfer ailstrwythuro' Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau (AGFS) ar gyfer adfocatiaeth droseddol a wneir yn Llys y Goron.
- 4.2 Yn dilyn ymgynghori, rydym wedi datblygu dau fodel gwahanol a cheisiwn farn ar ba un fyddai'r opsiwn orau ar gyfer diwygio'r AGFS. Mae'r ddau opsiwn a argymhellwyd yn cwrdd â'n nod o bwysu i lawr ar gostau er mwyn cyflawni'r gwerth gorau i'r trethdalwr ac yn symleiddio'r cynllun ffioedd tra mae'n cymryd i ystyriaeth y paratoi sydd ei angen yn gyffredinol mewn gwahanol fathau o achosion.
- 4.3 Rydym wedi bod yn ymwybodol trwy'r adeg o effaith fyddai'r opsiynau'n cael ar rai ar incwm ffioedd is ac mae'r Asesiad Effaith amgaeedig yn darparu dadansoddiad trylwyr o affeithiadau'r ddau opsiwn tra mae hefyd yn cydnabod na phennir incwm ffioedd gan werthoedd y ffioedd a dalwyd yn unig ond hefyd y nifer o adfocadau a nifer o achosion yn y farchnad droseddol, yn ogystal â'r gymysgfa o ac achosion penodol a wneir gan bob adfocad. Mae opsiwn un yn seiliedig ar ein cynnig gwreiddiol ar gyfer ffioedd adfocatiaeth ond gyda rhai newidiadau i strwythur, cyfraddau a gweithrediad y tapr. Addaswyd Opsiwn 2 o'r strwythur ffioedd a weithredir gan Wasanaeth Eryl y Goron (CPS) fel yr argymhellwyd gan Gyngor y Bar ond gyda lleihad yn y cyfraddau a argymhellwyd ganddynt. Mae'r ddau gynnig yn cynrychioli ffordd o symud ymlaen synhwyrol a rhesymol at ddiwygio ffioedd a lleihau costau.

Opsiwn Adfocatiaeth 1 - Harmoneiddio a thapro


- 4.4 Fel yr osodwyd allan yn y ddogfen ymgynghorol flaenorol rydym yn credu bod achos i harmoneiddio Ffioedd Sylfaenol ac i leihau a thapro Ffioedd Presenoldeb Dyddiol (DAFs). Mae Opsiwn 1 yn cefnogi'r nod o gyfiawnder effeithiol, hybu ystyriaeth gynnar o'r cwestiwn o ble a datrysiad cynharaf posibl o faterion dan drafodaeth. Yn y pen draw, mae penderfyniadau ar y cwestiwn o ble yn rhai i'r diffynnydd; nid ydym yn credu bydd newidiadau yn y strwythur ffioedd yn arwain cyfreithwyr i ymwrthod â'u hoblygiadau proffesiynol i gleientiaid. Fodd bynnag, rydym yn parhau i ystyried gall y system bresennol o ffioedd gefnogi'n well y nod o gyfiawnder cyflym ac effeithiol.
- 4.5 Rydym yn dilyn nifer o fentrau i gefnogi datrysiad effeithiol o dreialon ac i leihau'r tebygrwydd o oedi (fel yr eglurwyd ym mharagraff 1.29 uchod). Mae'r cynnig diwygiedig hwn yn parhau i gefnogi'r nod hwnnw. Fodd bynnag, rydym wedi newid ein cynnig gwreiddiol yn yr opsiwn hwn i ateb pryderon atebyddion dylai maint y gwaith ar gyfer treialon gael eu hadlewyrchu'n gywir yn y ffioedd a delir ac ni ddylai achosion hwy gael eu heffeithio'n anghymesur.
- 4.6 O ganlyniad i ymatebion yr ymgynghoriad, rydym yn cydnabod gall harmoneiddio ffioedd treialon ar yr un gyfradd â'r rhai ar gyfer ple o euogrwydd a threialon chwâl greu bwloch rhy fawr rhwng swm y paratoi a wnaed a'r ffioedd taladwy mewn rhai

achosion. Felly, o dan yr opsiwn hwn rydym yn cynnig harmoneiddio'r Ffioedd Sylfaenol ar gyfer treialon chwâl a phle o euogrwydd ac i adael Ffioedd Sylfaenol ar gyfer treialon heb eu newid o'r lefelau presennol. Byddai'r Ffi Sylfaenol ar gyfer treialon chwâl a phleon o euogrwydd yn ffi wedi ei harmoneiddio ar lefel a fyddai'n is na'r ffi bresennol ar gyfer treialon chwâl, ond yn uwch na'r ffi bresennol ar gyfer pleon o euogrwydd, yn cefnogi'r nod o ystyriaeth gynnar o'r cwestiwn o ble. Byddai'r cynnig hwn felly yn arwain at ailddosbarthiad o dâl ar draws treialon chwâl a phleon o euogrwydd ar sail costau niwtral. Fel y mae heddiw, byddai ffioedd yn amrywio fesul y math o adfocad a grŵp o drosedd.


- 4.7 O dan yr opsiwn hwn byddai lleihad o hyd yn y DAFs a thapr yn y cyfraddau DAF o ddiwrnod tri'r treial, fel bod y ffi daladwy ar gyfer pob diwrnod ychwanegol o'r treial yn lleihau'n raddol. O'i gymharu â'r papur ymgynghorol, byddai'r opsiwn diwygiedig hwn yn lleihau DAFs at ei gilydd o lain a hyn a gynigwyd yn wreiddiol (20% yn lle 35%), trwy gyfuniad o DAF cychwynnol uwch a gweithredu tapr llai serth. Mae'r opsiwn diwygiedig hefyd yn cynnwys llawr (h.y. lefel ymhle mae DAFs yn atal tapro) lle na fyddai cyfraddau'n disgyn yn is.
- 4.8 Rydym yn cynnig gosod y llawr ar yr un gyfradd â'r hyn a delir yn bresennol ar 41fed diwrnod yr achos, sydd yr un gyfradd â'r gyfradd DAF isaf presennol (h.y. CF £387, Bargyfreithiwr ieuaf arweiniol £331, Bargyfreithiwr ieuaf a arweinir £221, Bargyfreithiwr ieuaf unig £225). Dyma'r pwynt lle, yn y cynllun ffioedd presennol, lleiheir DAFs o'r lefel a delir ar gyfer treialon 3 i 40 diwrnod. Pe, o ganlyniad i'r tapr, cyrhaeddir y pwynt hwn cyn 41fed diwrnod y treial yna ni thaprir y DAFs ymhellach o'r pwynt hwn a byddant yn cael eu talu ar yr un raddfa am weddill y treial. Dangosir hyn yn Siart 1 isod lle mae gweithredu'r tapr yn arwain yn arwain at gyrraedd y llawr ar Ddiwrnod 18. Ym mhob achos arall (yn gyffredinol, mewn grwpiau troseddol mwy cymhleth) gweithredir y gyfradd DAF bresennol o ddiwrnod 41 ymlaen fel y dangosir yn Siart 2.
- 4.9 Mae hyn yn golygu mewn achosion lle mae'r treial yn eithriadol o hir, ni fyddai'r adfocad yn gweld DAFs yn disgyn i lefel eithriadol o isel. Dylai hyn ateb y pryder a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad gall leihad cychwynnol mawr mewn DAFs a thapr mwy serth arwain at adfocadau hŷn newid i achosion byrrach a mwy proffidiol a thrwy hynny effeithio'n anghymesur ar adfocadau iau.
- 4.10 O dan y cynllun presennol, mae cynnydd bach yn y gyfradd sy'n daladwy am DAFs am ddiwrnod 50 o'r treial ymlaen. Rydym yn cynnig dileu hyn, fel bod cyn gynted mae'r DAF yn cyrraedd y llawr a argymhellwyd gennym nid yw'n cynyddu, gan nad oes cyfiawnhad mewn cadw cynnydd.

4.11 Isod rydym yn gosod allan rhai enghreifftiau o Opsiwn 1 ac yn eu cymharu â'r cyfraddau presennol a'r cyfraddau a argymhellwyd yn gynharach:

Siart 1: Effaith Opsiwn 1 o'i gymharu â'r cynllun presennol a'r cynnig ymgynghorol gwreiddiol ar y Ffi oedd Presenoldeb Dyddiol ar gyfer Bargyfreithiwr lau ar ben ei hun ar gyfer Grŵp Troseddol F: anonestrwydd o dan £30,000



Siart 2 Effaith Opsiwn 1 o'i gymharu â'r cynllun presennol a'r cynnig ymgynghorol gwreiddiol ar Ffioedd Presenoldeb Dyddiol ar gyfer CFau ar gyfer Grŵp Troseddau K: Achosion anonestrwydd dros £100,000



4.12 Mae'r cyfraddau newydd a argymhellir sy'n daladwy o dan yr opsiwn hwn wedi eu gosod allan yn Atodiad H.

Opsiwn Adfocatiaeth 2 - Model Cynllun Ffi Adfocatiaeth CPS wedi ei Leddfu

4.13 Wedi ystyried y pryderon a godwyd gan ymatebwyr a syniadau eraill a gynigwyd, rydym hefyd yn ceisio barn ar fodel gwahanol a fyddai'n symleiddio strwythur ffioedd yr AGFS. Mae Opsiwn 2 yn seiliedig ar gynnig Cyngor y Bar sy'n adlewyrchu'r cynllun ffioedd a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Lllynedd newidiodd y CPS sut yr amcangyfrifir ffioedd ar gyfer adfocatiaeth yn Llys y Goron i fodel wedi ei symleiddio a argymhellwyd gan Gyngor y Bar ar y pryd. Dilewyd y peirianwaith lle amcangyfrifwyd y codiad mewn tystiolaeth trwy gyfrif manwl o dudalennau. Amcangyfrifir codiad Ffioedd Sylfaenol (a adnabyddir fel ffioedd craidd yn y cynllun CPS) sy'n cynnwys paratoi a'r Tudalennau o Dystiolaeth yr Erlyniad (PPE) yn awr yn unol â throthwy tudalennau fel un ai ffi safonol neu uwch. Mae pwynt lle torrir ar draws y nifer o dudalennau sy'n pennu'r ffi berthnasol ar gyfer pob math o achos, pob category o drosedd a gwahanol fath o adfocad a ddefnyddir.

- 4.14 Mae'r dull o weithredu yn Opsiwn 2 yn cymryd i ystyriaeth rhai gwahaniaethau allweddol rhwng cynlluniau'r erlyniaeth a'r amddiffyn ac yn cyflwyno nifer o symleiddiadau, fel y cydnabu Cyngor y Bar. Roedd y dull o weithredu arall a awgrymwyd gan Gyngor y Bar yn seiliedig ar gyfraddau 2009/10 AGFS ac ni fyddent yn cyflenwi arbedion ar ein cynnig gwreiddiol. Rydym felly yn cynnig lleihad mewn cyfraddau. Byddai'r cyfraddau rydym yn eu hargymell o dan yr opsiwn hwn yn cyflawni'r un lefel o arbedion â'r cynnig gwreiddiol ac Opsiwn 1.
- 4.15 O dan y cynllun a gyflwynwyd gan CPS mae dau fand o Ffi Sylfaenol ar gyfer pob grŵp troseddol, 'ffi safonol' a 'ffi uwch'. Ar gyfer pob math o drosedd, mae lefel y ffi yn amrywio yn ôl y math o adfocad a ddefnyddir. Mae'r ffi safonol yn daladwy ym mhob achos lle mae'r nifer o dudalennau'n disgyn o dan drothwy arbennig, ac mae'r un fath waeth beth fo'r nifer penodol o dudalennau. Mae'r trothwyau a ddefnyddir yn amrywio yn unol â'r math o drosedd. Dyluniwyd y ffi safonol i gynnwys 95% o achosion o unrhyw fath arbennig o drosedd.
- 4.16 Mae'r ffi uwch yn daladwy ym mhob achos sy'n 'drwm' o ran tystiolaeth' lle mae'r nifer o dudalennau yn uwch na'r trothwy, ac eto, bydd yr un fath ym mhob achos waeth beth fo'r nifer penodol o dudalennau. Dyluniwyd y ffi safonol i gynnwys y 5% uchaf o achosion mewn unrhyw fath o drosedd benodol mewn termau o Dudalennau o Dystiolaeth yr Erlyniad (PPE). Defnyddir y cyfrifiad o dudalennau felly ond i bennu a yw'r trothwy rhwng ffi safonol a ffi uwch wedi ei basio. Yn y rhan fwyaf o achosion, p'run ai bydd achos yn derbyn ffi safonol neu uwch yn fater digon clir, gan wneud y cynllun yn haws i'w weithredu ar gyfer yr Asiantaeth Cymorth Gyfreithiol (LAA) ac adfocatiaid. Byddai hyn yn ateb pryderon a godwyd gan adfocatiaid am yr amser a gymerir i sefydlu cyfrifiad penodol o dudalennau ac a welir yn aneffeithiol.
- 4.17 Yn y lleiafrif bychan o achosion yn agos at y ffin, fe all bod sbardun i wneud cais am y gyfradd uwch, ond nid ydym yn ystyried hyn yn risg sylweddol. Byddai'r LAA yn parhau i orfodi adfocatiaid tystiolaeth wrthrychol o faint y dystiolaeth a wasanaethwyd lle mae gan hynny effaith ar y ffi sy'n daladwy.
- 4.18 Mae'r CPS yn talu ar wahân ar gyfer pob gwrandawriad a chyfarfod pellach â bargyfreithiwr (gan gall y rhain cael eu gwneud gan gyfreithwyr mewnol yn hytrach na'r Bar annibynnol). Mae Opsiwn 2 fodd bynnag yn cadw at strwythur presennol adfocatiaid yr amddiffyn lle cynhwysir y Ple a'r Gwrandawriad Rheoli Achos a'r pedwar ymddangosiad safonol cyntaf (yn ogystal â'r tri chyfarfod cyntaf a sylwadau) oddi mewn i'r Ffi Safonol er mwyn hybu datrysiaid effeithiol o'r achos. Yn ogystal, mae'r opsiwn hwn yn cadw cynnig Cyngor y Bar i symleiddio graddau mewn achosion lle mae CF neu nifer o gwrselau yn cael eu defnyddio. Mewn achosion fel hyn, hormoneiddir y cyfraddau perthnasol a delir ar gyfer CFau, bargyfreithwyr iau sy'n arwain a bargyfreithwyr iau sy'n cael eu harwain ar draws pob grŵp troseddau, a fyddai'n symleiddio taliadau ymhellach yn yr achosion cymhleth hyn. Mae hormoneiddio ar draws pob grŵp troseddau yn gyson â gwelliannau diweddar i'r cynllun ffioedd a arweiniodd at Fffioedd Sylfaenol ar gyfer Grŵp Trosedd A (Llofruddiaeth a Dynladdiad) yn cael ei hormoneiddio â rhai Grwpiau Troseddol J (troseddau rhywiol difrifol) a K (troseddau anonestrwydd o werth uchel).
- 4.19 Ceir amlinelliad o gyfraddau tâl arfaethedig yn Annex I. Ni fyddai DAFs a ffioedd eraill sefydlog yn newid.
- 4.20 Atebir ein casgliadau cynaf mewn perthynas ag effeithiau'r cynigion hyn yn Atodiad F ac yn yr Asesiadau Effaith amgaaedig. Argymhellir yr effaith ar enillion adfocatiaid yn

seiliedig ar waith hanesyddol a wnaed ac rydym wedi derbyn bod ymddygiad adfocatiaid i gymryd penderfyniadau yn parhau'r un fath yn y dyfodol. Mae'n bwysig nodi bydd yr effaith ar adfocad unigol yn dibynnu ar ei faich gwaith unigol. Mae i wahanol adfocatiaid wahanol feichiau gwaith a chymysgedd achosion. Effeithir ar incwm ffioedd nid yn unig gan werth y ffioedd a delir ond hefyd ar y nifer o adfocatiaid yn y farchnad droseddol, y nifer o achosion a'r gymysgfa o achosion penodol a ymgwymerir ag ef gan bob adfocad. Fodd bynnag, gosodir allan yr effaith ar gyfartaledd ar incwm ffioedd ar gyfer pib opsiwn yn y tabl isod ar gyfer treialon, treialon chwâl a phleon o euogrwydd.

Tabl 3: Lleihad mewn ffioedd o dan bob opsiwn, wedi ei hollti o dan y fath o achos, yn seiliedig ar ddata bilio LAA 2012/13

	Euog	Chwâl	Treial
Opsiw 1	+23%	-18%	-11%
Opsiw 2	-11%	-2%	-8%

Cwestiwn Ymgynghoriad

C6. Pa ddull sydd well gennych chi mewn termau diwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau: • Opsiwn 1 (Argymhelliad Diwygio Harmoneiddio a Thapro); neu • Opsiwn 2 (Model Cynllun Ffi Adfocatiaeth CPS wedi ei Leddfu); Rhowch resymau, os gwelwch yn dda.

Chapter 5. Asesiad Effaith

- 5.1 Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o'r pwysigrwydd o ystyried yr effaith mae'r cynigion ar gymorth cyfreithiol yn eu cael ar wahanol grwpiau, yn arbennig mewn perthynas â defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau a gefnogir gan gymorth cyfreithiol.
- 5.2 Yn unol â'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi ystyried effaith yr argymhellion ar unigolion sy'n rhannu nodweddion wedi eu diogelu er mwyn rhoi sylw priodol i'r angen i ddileu ymddygiad anghyfreithlon, hybu cydraddoldeb cyfleoedd a meithrin perthnasau da.
- 5.3 Gellir canfod ein hasesiadau o effaith posibl y cynigion hyn yn Atodiad F, ac fe ddylid eu darllen ar y cyd â'r cynigion. Rydym yn croesawu unrhyw wybodaeth berthnasol i hybu ein dadansoddiad ac i wella dealltwriaeth yr effeithiadau posibl ar y cynigion. Byddwn yn diweddarau'n hasesiadau unwaith rydym wedi ystyried pob ymateb perthnasol.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

- C7. A ydych yn adnabod ein bod wedi adnabod yr ystod o effeithiadau o dan y cynigion a osodir allan yn y papur trafod hwn yn gywir? Rhowch resymau, os gwelwch yn dda.
- C8. A ydych yn adnabod ein bod wedi adnabod yr ystod o effeithiadau o dan y cynigion hyn yn gywir? Rhowch resymau, os gwelwch yn dda.
- C9. A oes ffurf o liniaru mewn perthynas â'r effeithiadau nad ydym wedi eu hystyried?

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi, os gwelwch yn dda

Enw llawn	
Teitl swydd neu'r rhinwedd yr ydych yn ymateb i'r ymarferiad ymgynghorol hwn e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/corff (os yn berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn, os gwelwch yn dda	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch hwn, os gwelwch yn dda)
Cyfeiriad lle dylid anfon y gydnabyddiaeth, os yn wahanol i'r uchod	

Os ydych yn gynrychiolydd grŵp, dywedwch wrthym enw'r grŵp a rhowch grynoded o'r bobl neu gyrff yr ydych yn eu cynrychioli, os gwelwch yn dda.

Manylion Cyswllt Cyd-lynydd yr Ymgynghoriad

Anfonwch eich ymateb erbyn 1 Tachwedd 2013 at:

Annette Cowell
Ministry of Justice
Legal Aid and Legal Services Policy
4.41
102 Petty France
London SW1H 9AJ
Tel: 020 3334 3555
E-bost: LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk
<<mailto:LegalAidReformMoJ@justice.gsi.gov.uk>>

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copïau Ychwanegol

Gellir cael copïau papur ychwanegol o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <<http://www.justice.gov.uk/index.htm>>

Gellir gofyn am fformatau gwahanol o'r cyhoeddiad hwn trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Cyhoeddi'r ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi ar ôl iddynt gael eu hystyried. Bydd y papur ar gael ar-lein yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-legal-aid>

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol i roi crynodeb o'r bobl a chyrrff maent yn eu cynrychioli pan maent yn ymateb.

Cyfrinachedd

Gall gwybodaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu'i datgelu yn unol â mynediad i systemau gwybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yw'r rhain).

Os ydych eisiau i'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu i'w drin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, o dan FOIA, bod Cod o Ymarfer statudol mae rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â hwy ac sy'n delio â, ymysg pethau eraill, goblygiadau o gyfrinachedd. Yn sgil hyn, byddai o ddefnydd pe baech yn egluro i ni pam yr ydych yn ystyried bod y wybodaeth rydych yn ei darparu yn gyfrinachol. Os yr ydym yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn cymryd ystyriaeth lawn o'ch esboniad, ond ni allwn sicrhau y perchir cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd nacâd cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ohono'i hun, yn cael ei ystyrio o rwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu'ch data personol yn unol â'r DPA ac yn y mwyafrif o achosion bydd yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd parti.

Atodiadau

Atodiad A: Geirfa

<p>Achos Costus lawn (Trosedd)</p>	<p>Achos troseddol ble y caniatwyd gorchymyn cynrychioli ac y byddai Cyfarwyddwr Gwaith Achosion Cymorth Cyfreithiol yn ei ddsbarthu fel Achos Costus lawn (Troseddol) ar y sail mai mewn perthynas â sefydliadau:</p> <p>(a) petai'r achos yn mynd i dreial byddai'r treial ym marn yr LAA yn debyg o bara am fwy na 40 diwrnod, ac mae'r LAA yn ystyried nad oes amgylchiadau eithriadol a fyddai'n ei wneud yn anaddas i ymdrin ag ef dan y trefniadau cytundebol ar gyfer VHCC; neu</p> <p>(b) petai'r achos yn mynd i dreial byddai'r treial ym marn yr LAA yn debyg o bara am ddim llai na 25 diwrnod a dim mwy na 40 diwrnod yn gynwysedig, ac mae'r LAA yn ystyried fod yna amgylchiadau sy'n ei wneud yn addas i ymdrin ag ef dan amodau cytundebol VHCC ac:</p> <p>(i) erlynir yr achos gan y Swyddfa Twyll Difrifol; neu</p> <p>(ii) mae'r achos yn Achos Terfysgaeth.</p> <p>Mae'r LAA yn cadw'r hawl i ddsbarthu achos fel un VHCC ble mae'n ystyried fod amgylchiadau eithriadol yn bod a'i fod yn angenrheidiol i weithredu eu swyddogaethau dan y Ddeddf.</p> <p>Mewn perthynas ag Adfocadau:</p> <p>Petai'r achos yn mynd i dreial, byddai'r treial ym marn yr LAA yn debygol o bara am fwy na 60 diwrnod, ac mae'r LAA yn ystyried nad oes amodau eithriadol sy'n ei wneud yn anaddas i gael ei drin dan gytundeb achos unigol.</p>
<p>Achos Costus lawn (Sifil)</p>	<p>Achos sifil neu achos teuluol ble mae'r costau yn debygol o fod yn fwy na £25,000. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn rheoli'r rhain dan gytundebau achosion unigol.</p>
<p>Adolygiad Barnwrol</p>	<p>Gweithdrefn yng nghyfraith weinyddol Lloegr drwy'r hon mae'r llysoedd yn goruchwyllo gweithredu grym cyhoeddus ar gais unigolyn. Unigolyn sy'n teimlo fod gweithredu grym o'r fath gan awdurdod y llywodraeth, er enghraifft gan weinidog, y cyngor lleol neu driwlynlys statudol, yn anghyfreithlon efallai am iddo dorri ei hawliau ef neu hi, ac yn gallu gwneud cais i'r Llys Gweinyddol (adran o'r Uchel Lys) am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad a'i gael wedi ei roi o'r neilltu (wedi ei ddileu) ac o bosibl yn cael iawndal. Gall y Llys hefyd gyhoeddi gorchmynion gorfodol neu waharddebau i orfodi'r awdurdod i wneud ei ddyletswydd neu i'w atal rhag gweithredu'n anghyfreithlon</p>
<p>Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi (HMIP)</p>	<p>Arolygiaeth annibynnol sy'n adrodd ar gyflwr a thriniaeth y rhai sydd mewn carchardai, sefydliadau troseddwr ifanc a chanolfannau cadw mewn fudwyr.</p>
<p>Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol</p>	<p>Asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2013, gan gymryd lle y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Y corff sy'n gyfrifol am gomisiynu a gweinyddu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil, teuluol a throseddol yng Nghymru a Lloegr.</p>

Buddion pasbort	Mae'r buddion canlynol yn trwyddedu'r cleient i drwy'r ochr incwm y prawf modd at gymorth cyfreithiol sifil (ond nid o ran cyfalaf) a'r prawf modd i gyd ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol: <ul style="list-style-type: none"> • Cymhorthdal Incwm; • Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm; • Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm; • Credyd Gwarant (dan adran 1(3) (a) o Ddeddf Credyd Pensiwn y Wladwriaeth); a • Chredyd Cynhwysol.
Byrddau Monitro Annibynnol (IMB)	Yn monitro bywyd bob dydd mewn carchardai lleol neu ganolfannau symud a sicrhau y cynhelir y safonau priodol o ofal a gwedduster.
Canolfannau Hyfforddi Diogel (STC)	Sefydliadau diogel a weithredir gan gontractwyr preifat ar gyfer rhai 12-17 oed.
Cartrefi Plant Diogel (SCH)	Sefydliadau diogel a weithredir gan Awdurdodau Lleol yn darparu lleoliadau i rai 10-17 oed.
Categori/maes cyfraith	Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn diffinio meysydd o'r gyfraith (addysg, tai etc) yn thematig ac yn contractio ar gyfer darparu cyngor a chynrychiolaeth yn seiliedig ar categorïau.
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol	Y corff oedd yn gyfrifol cyn 1 Ebrill 2013, am gomisiynu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil, teuluol, a throseddol oddi wrth gyfreithwyr, bargyfreithwyr, asiantaethau cyngori, a chyfryngwyr teuluol ar draws Cymru a Lloegr. Roedd hefyd yn comisiynu gwasanaethau i'w darparu dros y ffôn a'r rhyngwrwyd yn ogystal ag yn bersonol.
Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol	Cytundeb rhyngwladol gorfodol. Mae'r Confensiwn yn cadw ac yn diogelu hawliau sifil a pholitecaidd sylfaenol (e.e. yr hawl i fyw, yr hawl i dreial teg, yr hawl i barchu bywyd preifat a bywyd teuluol). Cynlluniwyd y Confensiwn yn 1950 a daeth i rym yn 1953. Mae'n gytundeb Cyngor Ewrop ac fe sefydlodd Lys Hawliau Dynol Ewrop.
Credyd Cynhwysol	Credyd Cynhwysol yw'r budd-dal lles newydd i bobl sy'n chwilio am waith neu ar incwm isel; mae'n symleiddio'r system budd-daliadau drwy ddod at ei gilydd ystod o fudd-daliadau i rai oed gwaith i un taliad llyfn sengl.
Cwnsler iau	Unrhyw fargyfreithiwr sy'n ymarfer ond heb ei benodi'n Gwnsler y Frenhines
Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai (PSI)	Rheolau, rheoliadau a chanllawiau ar gyfer rhedeg carchar.
Cymorth Cyfreithiol Sifil	Darperir cymorth cyfreithiol sifil yn unol â Rhan 1, Atodlen 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cyfreithiol sifil i'w cyllido dan gymorth cyfreithiol sifil neu gymorth cyfreithiol teulu ond yn eithrio gwasanaethau sydd angen eu cyllido gan gymorth cyfreithiol troseddol.
Cymorth cyfreithiol troseddol	Golyga cymorth cyfreithiol troseddol gyngor a chymorth (gan gynnwys cymorth adfocad) a chynrychiolaeth i bwrpas achosion troseddol (fel y caiff ei ddiffinio yn adran 14 o LASPO a Rheoliadau (Cyffredinol) Cymorth Cyfreithiol Troseddol 2013).

Cynllun Ffioedd Gradeddig Adfocadau	Y cynllun ffioedd sy'n rheoli'r ffioedd a delir i adfocadau (bargyfreithwyr neu adfocadau cyfreithwyr) sy'n cynrychioli cleientiaid mewn achosion troseddol yn Llys y Goron, ac eithrio achosion sydd wedi cael eu dosbarth fel Achosion (Troseddol) Costus lawn. Penderfynir ar y taliad drwy fesurau dirprwyol, sef, hynafedd yr adfocad, y math o drosedd, nifer tudalennau o dystiolaeth yr erlyniad, nifer tystion yr erlyniad (ac eithrio y 10 cyntaf) a nifer y dyddiau mae'r adfocad yn ei dreulio yn y llys yn ystod achos.
Cynllun Ffioedd Gradeddig Cyfreithydd	Y cynllun ffi sy'n rheoli ffioedd a delir i gyfreithwyr sy'n cynrychioli cleientiaid mewn achosion troseddol yn Llys y Goron, ac eithrio'r achosion a gafodd eu dosbarthu fel Achosion Costus lawn (Troseddol) ble yr amcangyfrifir y bydd y treial yn para dros 60 diwrnod. Penderfynir y tâl gan fesurau procsi, sef y math o drosedd, y nifer o dudalennau o dystiolaeth yr erlyniad, a nifer o ddyddiau'r treial.
Cynllun Prawf Modd Llys y Goron (CCMT)	Cynllun asesu cymhwyster ariannol yn Llys y Goron
Gorchymyn Costau'r Diffynnydd (DCO)	Gorchymyn gan y llys ble y gellir ad-dalu rhan neu'r cyfan o'r costau amddiffyn i ddiffynnydd a ryddheir.
Gwaith Darparwr Dyletswydd	Gwaith Darparwr Dyletswydd yw yr holl gyngor cymorth cyfreithiol troseddol, cyfreitha (ac eithrio VHCC) a gwasanaethau adfocad llys yr ynadon a roddir i gleientiaid sy'n dewis y Darparwr Dyletswydd fel man cais cyntaf.
Gwaith Dewis y Client	Gwaith Dewis y Client yw yr holl gyngor cymorth cyfreithiol, gwasanaethau cyfreithiad (ac eithrio VHCC) a gwasanaethau eiriolaeth Llys Ynadon a gyflwynir i gleientiaid sy'n dewis eu darparwyr eu hunain ar fan cyntaf y cais.
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS)	NOMS sy'n cyflwyno gweinyddiaeth gwasanaethau carcharu yng Nghymru a Lloegr drwy Wasanaeth Carchar Ei Mawrhydi a Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS)	Mae'r asiantaeth yn gyfrifol am weinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd troseddol, sifil a theulu yng Nghymru a Lloegr, a thribiwnlysoedd sydd heb eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Help Cyfreithiol	Ffurf ar wasanaethau cyfreithiol sifil sy'n cynnwys cyngor a chymorth am broblemau cyfreithiol, ond nad yw yn cynnwys cynrychiolaeth neu eiriolaeth mewn gweithrediadau.
Ombwdsman Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf (PPO)	Mae'r Ombwdsman yn ymchwilio i gwynion gan garcharorion, y rhai ar brawf a'r rhai a gedwir mewn canolfannau symud mewnfudwyr.
Partneriaeth Disgyblu Cyfreithiol	Ffurf ar gyfundrefn cydnabyddedig sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol ble nad yw'r perchnogion a rheolwyr i gyd yn gyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr nac yn gyfreithwyr wedi eu cofrestru y tu allan i Gymru a Lloegr.

Prawf buddiannau cyfiawnder	<p>Gweithredir y prawf hwn mewn achosion troseddol fel rhan o'r broses i benderfynu a ddylai cleient dderbyn cymorth cyfreithiol troseddol. Yn nghyd-destun cynrychiolaeth i bwrpas achosion troseddol, wrth benderfynu a fodlonir y prawf, rhaid ystyried y ffactorau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • a fyddai'r unigolyn yn debygol o golli ei ryddid/ei rhyddid neu fywoliaeth, neu ddioddef niwed difrifol i'w enw da ef neu hi; • a allai penderfynu unrhyw broblem sy'n codi o'r achos fod yn cynnwys ystyriaeth mater sylweddol o gyfraith; • a fyddai unigolyn yn gallu deall yr achos neu'n gallu cyflwyno ei achos ef neu hi; • a fyddai'r achos yn golygu dilyn trywydd, cyfweld neu groesholi yn arbennig tystion ar ran yr unigolyn; a • a yw er lles rhywun arall fod yr unigolyn yn cael ei gynrychioli.
Prawf Modd	Y broses a ddefnyddir i asesu cymhwyster ariannol y cleient i gyllid cyhoeddus.
Prawf rhagolygon llwyddiant	Mae'r prawf rhagolygon llwyddiant a gyhoeddir yn Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini prawf rhinweddau) 2013 yn asesu y tebygolrwydd o gleient yn cael canlyniad llwyddiannus yn y treial neu wrandawriad terfynol arall. Mewn achosion sifil defnyddir hwn fel rhan o brawf teilyngdod i benderfynu os yw'r cleient i dderbyn cyllid.
Prawf Teilyngdod	Un o amcanion y prawf teilyngdod yw sicrhau mai dim ond achosion ble mae rhagolygon rhesymol o lwyddiant fydd yn derbyn cymorth cyfreithiol. Mae'r prawf yn gwneud hyn drwy geisio ailadrodd y broses gwneud penderfyniad y byddai rhywun sy'n talu'n breifat yn ei wneud wrth benderfynu dod ag achos, amddiffyn achos neu barhau i fwrw ymlaen â'r achos. Mae'r achos teilyngdod llawn hefyd yn cymryd i ystyriaeth ffactorau ar wahân i ragolygon llwyddiant (gan gynnwys, er enghraifft, os yw'r rhesymol i gynnig cymorth cyfreithiol ym mhob un o amgylchiadau'r achos). Gosodir allan y prawf teilyngdod yn y Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Teilyngdod) Rheoliadau 2013.
Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc (YOIs)	Carchardai ar gyfer rhai 15-21 oed
Sifil	Y maes o'r gyfraith sy'n ymwneud â hawliau a pherthynas dinasyddion preifat – er enghraifft, anghydfod ynglŷn â dyledion sydd heb eu talu, neu orfodaeth/ tor-cytundebau. Yn gyfrifol am gyfraith sifil a chyfraith teulu ond yn eithrio materion troseddol.
Strwythurau Busnes Eraill	Math newydd o strwythur cwmni cyfreithiol sydd ym mherchnogaeth rannol neu gyfangwbl neu a reolir gan rai nad ydynt yn gyfreithwyr i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol (neu gymysgedd o wasanaethau cyfreithiol a rhai heb fod yn gyfreithiol).
Treial Chwâl	Achos sy'n cael ei stopio am fod y diffynnydd (ion) yn pledio'n euog neu nad yw'r erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth wedi i'r cyhuddedig gael ei gyhuddo ond cyn i'r treial gychwyn.
Trosedd ddiadwy	Trosedd a all ddim ond cael gwrandawriad yn Llys y Goron. Dosberthir troseddau diadwy fel rhai 1, 2, 3 neu 4. Ystyrir llofruddiaeth yn drosedd dosbarth 1.

Trosedd y naill ffordd neu'r llall	Trosedd y gellir gwrando arno naill ai o flaen llys yr ynadon, neu o flaen rheithgor yn Llys y Goron. Penderfynir ar y man cyfarfod priodol mewn gwrandawriad Dull y Treial mewn Llys yr Ynadon. Os yw'r ynadon yn penderfynu fod y mater yn rhy ddifrifol neu'n rhy gymhleth ar gyfer treial ddiannod, gallant ei draddodi i Lys y Goron. Os yw'r ynadon yn penderfynu fod yr achos yn addas ar gyfer treial ddiannod, yna gall y diffynnydd ddewis treial gan reithgor.
Troseddau - Isaf	Gwaith a wneir gan ddarparwyr cymorth cyfreithiol mewn gorsafoedd yr heddlu a llysoedd ynadon mewn perthynas â phobl a gyhuddir o droseddau. Mae cyfraith carchardai yn gynwysedig yn y categori hwn.
Troseddau - Uchaf	Cynrychiolaeth gyfreithiol yn Llys y Goron a llysoedd uwch.
Troseddol	Maes y gyfraith sy'n diffinio ymddygiad a waherddir gan y Llywodraeth am yr ystyrir ei fod yn bygwth, niweidio neu fel arall yn peryglu diogelwch a lles y cyhoedd, ac sy'n gosod y gosb i'w phennu ar y rhai sy'n torri'r cyfreithiau hyn.

Termau model cystadleuol:

Adolygiad Cyfoedion	Yr archwiliad annibynnol o safon y gwaith a gyflwynir dan gontract yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.
Asiant	Cyfeiria hyn at bobl neu sefydliadau sy'n cyflwyno gwasanaethau ar ran y darparwr.
Cynllun Cyflwyno	Rhan o'r cam Gwahoddiad i Dendro o'r Broses Caffael arfaethedig
Darparwr	Cyfeiria hyn at yr endid cyfreithiol y dyfarnwyd y contract iddo.
Lexcel	Safon rheoli arferion rhyngwladol Cymdeithas y Gyfraith
Marc Ansawdd Arbenigol (SQM)	Safon sicrwydd ansawdd ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfreithiol. Mae Partneriaeth Cyflenwi SQM yn gyfrifol am broses archwilio SQM, a bydd yn gwneud unrhyw archwiliadau sydd eu hangen i ennill neu i gadw contractau yn y dyfodol gyda'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA).
Menter ar y cyd	Cyfeiria hyn at grwpiau neu unigolion yn ffurfio endidau cyfreithiol newydd i gyrraedd eu maint optimwm i'w galluogi i dendro.
Ymgeisydd	Cyfeiria hyn at y sefydliadau hynny sy'n cymryd rhan yn y broses tendro.

Acronymau:

ABS	Strwythurau Busnes Eraill
AGFS	Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau
AIT	Tribiwnlys Ceiswyr Lloches a Mewnffudo
BAME	Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
BBaCh (SME)	Busnes Bach a Chanolig
CBA	Cymdeithas y Bar Troseddol
CCRC	Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol
CDS	Gwasanaeth Amddiffyn Troseddwyd
CF (QC)	Cwnsler y Frenhines
CFA	Cytundeb Ffioedd Amodol /Trefniant Ffioedd Amodol
CJS	System Cyfiawnder Troseddol
CLA	Cyngor Cyfreithiol Cymunedol

CLAF	Cronfa Cymorth Cyfreithiol wrth gefn
CLSA	Cymdeithas Cyfreithwyr Deddfau Troseddol
CPS	Gwasanaeth Erllyn y Goron
DAF	Ffi Presenoldeb Dyddiol
DSCC	Canolfan Alwadau Cyfreithwyr Amddiffyn
ECHR	Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
EWCA	Llys Apêl Cymru a Lloegr
FAS	Cynllun Eiriolaeth Teuluol
FJR	Adolygiad Cyfiawnder Teuluol
HCA	Adfocadau yr Uwch Lysoedd
HMCTS	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi
ITT	Gwahoddiad i Dendro
JEB	Bwrdd Gweithrediaeth Barnwrol
JR	Adolygiad Barnwrol
LAA	Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
LAR	Diwygiadau Cymorth Cyfreithiol
LASPO	Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012
LGFS	Cynllun Ffioedd Graddedig Cyfreithydd
LSC	Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
LSF	Ffi Safon Is
LSRC	Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol
MoJ	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
NHS	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
NSF	Ffi heb fod yn Safonol
PCMH	Gwrandawriad Rheoli Pledio ac Achos
PDS	Gwasanaeth Amddiffyn y Cyhoedd
PLO	Amlinelliad Deddf Gwlad
POCA	Deddf Enillion Troseddau 2002
PPE	Tudalennau o Dystiolaeth yr Erlyniad
PQQ	Holiadur cyn-gymhwyso
TAW (VAT)	Treth ar Werth
TUPE	Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006
UC	Credyd Cynhwysol (Universal Credit)
VHCC	Achosion Costau Uchel (gallai fod yn achosion troseddol, sifil neu deuluol)

Atodiad B: Ymateb i'r ymgynghoriad

Cyflwyniad

1. Mae'r Atodiad hwn yn nodi ymateb y Llywodraeth i'r papur ymgynghori, *Trawsnewid cymorth cyfreithiol: cyflwyno system mwy credadwy ac effeithiol*.
2. Amcangyfrifwn y bydd y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn, unwaith y cânt eu gweithredu'n llawn, yn darparu arbedion o £220 miliwn y flwyddyn erbyn 2018/19.

Cyfyngu ar gwmpas cymorth cyfreithiol i achosion cyfraith carchardai

3. Roedd y papur ymgynghori'n cynnig diwygio cwmpas y cyngor a'r cymorth, gan gynnwys cymorth eiriolaeth, mewn cymorth cyfreithiol troseddol i achosion cyfraith carchardai sy'n:
 - cynnwys penderfynu ar gyhuddiad troseddol ar gyfer dibenion Erthygl 6.1 ECHR (yr hawl i brawf teg);
 - ymgysylltu ag Erthygl 5.4 ECHR (yr hawl i gael adolygiad ar garchardai cyfredol);
 - gofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol o ganlyniad i gais llwyddiannus ar faen prawf "Tarrant"³⁰.

4. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig y dylai cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer materion cyfraith carchardai gael ei gyfyngu i'r meini prawf arfaethedig? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Materion allweddol a godwyd

5. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynnig ac yn codi'r pryderon a nodir isod, er nad oedd pob ymatebwr yn anghefnogol ohono. Cododd nifer o ymatebwyr bryderon am yr effaith y byddai'r cynigion yn eu hael ar unigolion o dan 18 oed yn y ddalfa, yn enwedig o ran adsefydlu (er enghraifft sicrhau bod awdurdodau lleol yn

³⁰ Pan fydd carcharor yn mynychu gwrandawriad disgyblaethol o flaen llywodraethwr gofynnir iddo a yw am gael cyngor cyfreithiol neu gynrychiolaeth. Os na fydd y carcharor eisiau cymorth cyfreithiol mae'r gwrandawriad yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, os yw'r carcharor yn gofyn am gymorth cyfreithiol, bydd y llywodraethwr sy'n beirniadu yn ystyried y meini prawf canlynol (yn dilyn o'r achos o R v Yr Ysgrifennydd Cartref *ex parte* Tarrant) ac yn cofnodi eu rhesymau am wrthod neu ganiatáu cynrychiolaeth neu gyfaill:

- difrifoldeb y cyhuddiad/ y gosb bosibl;
- cwestiwn am bwynt cyfreithiol sylweddol;
- y carcharor yn anabl i gyflwyno ei achos ei hun;
- anawsterau trefniadol posibl;
- angen brys; neu
- resymau am degwch i garcharorion a staff.

Os yw'r llywodraethwr sy'n beirniadu yn caniatáu'r cais byddant yn gohirio'r achos am gyfnod rhesymol i ganiatáu'r carcharor i ffonio neu ysgrifennu at gyfreithiwr.

cyflawni eu dyletswyddau statudol o ran y ddarpariaeth o lety addas ar ôl eu rhyddhau). Dywedwyd y gallai pobl ifanc yn y ddalfa ei chael yn fwy anodd ymgysylltu â'r system gwynion ac awgrymwyd hefyd y byddai ganddynt fwy o angen cyngor a chymorth cyfreithiol na charcharorion sy'n oedolion. Cwestiynwyd hefyd a oedd cyfyngu ar gymorth cyfreithiol troseddol i rai dan 18 oed yn torri ymrwymadau'r DU o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

6. Awgrymodd yr ymatebwyr na fyddai cael gwared ar faterion categoreiddio nag amodau trwydded o gwmpas cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer cyfraith carchardai yn unol â bwriad y polisi o ddarparu cymorth cyfreithiol lle mae rhyddid unigolyn yn y fantol, ac, mewn perthynas ag amodau trwydded, gellid effeithio ar adsefydliad carcharorion. Dadleuodd nifer yn benodol bod ail-gategoreiddio o Gategori A yn hanfodol os yw carcharorion ar Ddedfrydau amhenodol i Ddiogelu'r Cyhoedd (IPP) am gael eu rhyddhau. Yn ogystal, codwyd hefyd y posibilrwydd o garcharorion yn cael eu cartrefu mewn amodau mwy diogel na'r angen o ganlyniad i beidio â chael eu hail-gategoreiddio, a'r goblygiadau o ran cost o ganlyniad. Yn benodol, awgrymodd ymatebwyr fod y gwahaniaeth yn y gost o ddal carcharor yng Nghategori A yn hytrach nag amodau Categori B, C neu D yn sylweddol, a gall cael gwared ar fynediad carcharorion at gymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer achosion categoreiddio arwain at fwy o garcharorion yn cael eu dal mewn amodau diogelach, ac felly drytach, am gyfnod hirach na'r angen.
7. Mynegwyd pryderon penodol mewn perthynas â gallu carcharorion â phroblemau iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu i gymryd rhan a gwneud defnydd o'r systemau cwynion a disgyblu'n effeithiol heb y fantais o gyngor a chymorth cyfreithiol. Dadleuodd ymatebwyr fod y carcharorion hyn yn llai hyderus yn y broses gwyno na charcharorion eraill a bod sgrinio'n anghyflawn ac o ganlyniad, nid oedd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn gyffredinol ar gyfer yr holl carcharorion a allai fod eu hangen.
8. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod ffordd effeithiol o wneud iawn am gwynion carcharorion yn elfen allweddol wrth gynnal trefn mewn carchardai. Roedd rhai wedi codi pryderon ynghylch cadernid y system gwynion, yn enwedig nad oedd yn addas i ddatrys materion difrifol. Dadleuodd nifer o ymatebwyr fod diffyg tryloywder, atebolrwydd neu annibyniaeth ac awgrymwyd bod cadw at Gyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai perthnasol (PSI 02/2012) yn amrywio ar draws sefydliadau. Codwyd pryderon hefyd am amseroldeb ymdrin â chwynion a darparwyd data arolwg, a oedd yn awgrymu nad oedd carcharorion â llawer o feddwl o'r system gwynion.
9. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn pryderu na fyddai'r Ombwdsman Carchardai a Gwasanaeth Prawf (PPO) yn gallu ymdopi â chynnydd yn nifer y cwynion a gyfeiriwyd ar gyfer ymchwiliad yn sgil cyllideb ostyngol dros y blynyddoedd diwethaf. Mynegwyd pryderon hefyd dros amseroldeb y mae'r PPO yn cwblhau ymchwiliadau, a goblygiadau cost posibl o fwy o achosion yn cael eu datrys drwy PPO yn hytrach na thrwy gyfrwng ymarferydd cyfraith carchardai. Nododd ymatebwyr hefyd nad oedd penderfyniadau'r PPO yn gyfrwymol.
10. Cododd amryw o ymatebwyr bryderon ynghylch goblygiadau cost anuniongyrchol posibl y cynigion. Pwyntiau penodol sy'n peri pryder i'r ymatebwyr oedd y dywedwyd bod costau ymchwilio PPO oddeutu £1,000 (y ffigwr ar gyfer 2012/13 a gyflenwyd gan y PPO oedd tua £830), tra mai'r ffi sefydlog safonol ar gyfer cyngor a chymorth cymorth cyfreithiol troseddol yw £220. Y ddadl oedd y byddai cynnydd disgwylidig mewn atgyfeiriadau i'r PPO yn golygu y byddai achosion yn ddrytach i'w ddatrys na phe baent yn cael sylw drwy gyngor a chymorth cyfraith carchardai â chymorth cyfreithiol. Roedd

y gost o achosion adolygiad barnwrol yn cael ei osod yn erbyn y gost o ymchwiliad PPO a'r ffi sefydlog safonol hefyd.

Ymateb y Llywodraeth

11. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, bwriad y cynigion ar ddiwygio cwmpas cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer y gyfraith carchardai yw canolbwyntio adnoddau cyhoeddus ar achosion sydd â digon o flaenoriaeth i gyfiawnhau'r defnydd o arian cyhoeddus. Dylai dulliau eraill o wneud iawn, megis y system gwynion i garcharorion fod y cam cyntaf ar gyfer materion i'w tynnu o'r cwmpas. Nod y cynigion yw targedu adnoddau cyhoeddus prin ar yr achosion sydd wir yn cyfiawnhau hynny, er mwyn sicrhau y gall y cyhoedd gael hyder yn y cynllun.

Pobl ifanc

12. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried beth ddywedodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad am freguster penodol pobl ifanc a'u hangen penodol am gyngor cyfreithiol i sicrhau bod asiantaethau statudol yn cefnogi ac yn adsefydlu pobl ifanc yn briodol. Mae gwella canlyniadau i bobl ifanc sy'n gadael y ddalfa a mynd i'r afael ag aildroseddu yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon, fel y nodir yn ymgynghoriad *Trawsnewid Trefniadau Caethiwed i Bobl Ifanc: Rhoi lle amlwg i addysg mewn caethiwed*.³¹ Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir isod, nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud eithriad ar gyfer y rhai o dan 18 oed.
13. Cedwir unigolion dan 18 oed mewn tri math gwahanol o sefydliad - Cartrefi Plant Diogel (SCH), Canolfannau Hyfforddi Diogel (STC; mae'r rhain yn wasanaethau a gaiff eu contractio allan) a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOI). Mae pob sector yn destun arolygiad annibynnol yn unol â fframweithiau unigol sy'n ystyried gofynion penodol pobl ifanc yn y ddalfa. Mae Cartrefi Plant Diogel a'r Canolfannau Hyfforddi Diogel yn destun arolygiad a arweinir gan Ofsted³². Arolygir Sefydliadau Troseddwyr Ifanc gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP)³³ (mewn partneriaeth ag Ofsted). Gellir gweld gofynion manwl ar gyfer pob sector o fewn safonau, rheolau a Chyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai a nodir isod.
 - Cartrefi Plant Diogel – Rheoliadau Cartrefi Plant 2001³⁴ a Safonau Gofynnol Cenedlaethol³⁵;
 - Canolfannau Hyfforddi Diogel – Rheolau Canolfannau Hyfforddi Diogel 1998³⁶; a
 - Sefydliadau Troseddwyr Ifanc – Rheolau Sefydliadau Troseddwyr Ifanc 2000³⁷ a Chyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai (PSI) 08/2012 (Gofalu am Bobl Ifanc a'u Rheoli)³⁸.

³¹ <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/transforming-youth-custody>

³² <http://www.ofsted.gov.uk/inspection-reports/how-ofsted-inspects>

³³ <http://www.justice.gov.uk/about/hmi-prisons/inspections-guidance>

³⁴ <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2001/3967/contents/made>

³⁵ www.minimumstandards.org/nms_childrens_home.pdf

³⁶ <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/1998/472/contents/made>

³⁷ <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/3371/contents/made>

³⁸ <http://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2012/psi-08-2012-care-management-young-people.doc>

14. Mae'n ofynnol i'r holl sefydliadau diogel ifanc (Cartrefi Diogel i Blant, Canolfannau Hyfforddi Diogel, sefydliadau troseddwr ifanc) fod â systemau cwyno mewnol cynhwysfawr sy'n galluogi pobl ifanc i ymdrin â materion yn ymwneud â'u cadw, gan gynnwys materion a fyddai'n cael eu datrys ar hyn o bryd gyda chynghor a chymorth cymorth cyfreithiol troseddol. Ar ben hynny, mae cymorth cyfreithiol sifil am adolygiad barnwrol yn parhau i fod ar gael, yn amodol ar fodd a theilyngdod.
15. Mae Cartrefi Plant Diogel â phrosesau cwynion unigolyddol. Bydd apeliadau o ganlyniad i'r rhain yn defnyddio proses gwyno eu Hawdurdod Lleol a bydd fel y cyfryw yn cael eu monitro ganddynt (gweler gwefannau Awdurdodau Lleol unigol am ragor o wybodaeth). Mae'r gofynion ar gyfer systemau cwynion o fewn Canolfannau Hyfforddi Diogel yn cael eu hamlinellu yn y contract gyda phob darparwr ac yn cynnwys gofynion ac amserlenni penodol ar gyfer delio â chwynion. Mae gofynion cyffredinol o'r gweithdrefnau cwyno mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel yn cael eu nodi yn Rheolau Canolfannau Hyfforddi Diogel 1998 (rheoliad 8 - gweler paragraff 9.2.10 o Atodiad F). Yn ogystal, mae'r Monitor statudol, a benodir o dan adran 8 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, â rôl mewn perthynas â chwynion gan unigolion o dan 18 oed mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel. Mae'r rhan fwyaf o unigolion o dan 18 oed yn y ddalfa yn cael eu cadw mewn Sefydliadau Troseddwr Ifanc a redir gan y Gwasanaeth Carchardai. Mae Rheolau'r Sefydliadau Troseddwr Ifanc yn nodi'r gofynion ar gyfer proses gwyno. Mae gan Lywodraethwyr yn y sefydliadau hyn ddyletswyddau ychwanegol wrth ymdrin â chwynion gan bobl ifanc. Amlinellir y rhain yn PSI 08/2012 (Gofalu am Bobl Ifanc a'u Rheoli) ac yn cynnwys esboniadau llafar o ganlyniad i gŵyn, ffurflenni a ddyluniwyd yn benodol i bobl ifanc eu defnyddio a phrosesau sicrhau ansawdd gan y rheolwr diogelu plant.
16. Rydym yn cydnabod y gall pobl ifanc ei chael yn fwy heriol i lywio drwy'r broses gwynion, trefnau cwyno neu ddisgyblu (yn dibynnu ar y math o sefydliad), a dyna pam bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi gan wasanaethau eiriolaeth o fewn y sefydliad diogel. Bydd eiriolwyr yn helpu i sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu gan asiantaethau statudol megis yr Awdurdodau Lleol, ac fel y cyfryw bydd yn helpu i ddatrys materion a allai fod yn cael eu delio â nhw ar hyn o bryd drwy gyngor a chymorth cyfreithiol cymorth cyfreithiol troseddol. Rhaid i bob darparwr eiriolaeth gadw at y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant yn Lloegr a Chymru. Mae swyddogion personol neu weithwyr achos ar gael i gynorthwyo hefyd. Bydd hyn yn sicrhau bod materion a dynnir oddi ar gwmpas cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer cyfraith carchardai yn cael eu datrys yn foddhaol heb yr angen am gyngor a chymorth cyfreithiol.
17. Dechreuodd contract newydd ar gyfer gwasanaethau eirioli a ddarperir gan Barnardos 1 Gorffennaf 2013 ar draws yr holl Ganolfannau Hyfforddi Diogel a Sefydliadau Troseddwr Ifanc yn y sefydliad ieuencid diogel. Mae'r gwasanaeth hwn wedi ei gynllunio i'w ddefnyddio gan bobl ifanc. O dan y contract, darperir cymorth eiriolaeth annibynnol i bobl ifanc er mwyn eu cynorthwyo gydag unrhyw fater y gallant brofi tra byddant yn y ddalfa, naill ai o fewn neu'r tu allan i'r sefydliad ieuencid diogel. Rôl yr eiriolwr yw darparu ystod eang o wasanaethau cefnogi heb fod yn gyfreithiol i bobl ifanc i ddatrys materion ar y lefel gywir (gweler adran 9.2 o Atodiad F). Bydd darparwr y gwasanaeth eiriolaeth yn mynd gyda pherson ifanc i gyfarfodydd ar gais naill ai i gefnogi'r unigolyn neu gynrychioli eu dymuniadau, megis cyfarfodydd ag asiantaethau allanol (gweler adran 9.2 o Atodiad F). Mae gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu darparu o dan drefniadau gwahanol mewn Cartrefi Plant Diogel a rhaid i'r rhain fod yn unol â'r Safonau Cenedlaethol perthnasol.

18. Mae amryw o gyrff allanol y gall person ifanc apelio os nad ydynt yn fodlon â chanlyniad eu cwyn. Gall pobl ifanc mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel apelio i'r Monitor – unigolyn statudol a benodir nad ydynt yn gyflogedig gan y sefydliad sy'n rhedeg y Ganolfan Hyfforddi Ddiogel - i ymchwilio i'w hachos ymhellach. Yn ogystal, rydym wedi cytuno y bydd pobl ifanc mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel yn gallu mynd â'u cwyn at y PPO erbyn diwedd mis Medi. Gall pobl ifanc mewn Cartrefi Plant Diogel gyfeirio cwyn at eu Hawdurdod Lleol, tra bod y rhai mewn Sefydliadau Troseddwr Ifanc yn gallu cyfeirio eu cwyn at y PPO a'r Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB). Rhaid i fynediad i'r sefydliadau hyn fod ar gael yn rhwydd a'u hyrwyddo o fewn y sefydliadau perthnasol. Gall y Monitor, PPO a Bwrdd Monitro Annibynnol wneud argymhellion ar ran y person ifanc a gweithio gyda'r sefydliad i roi'r mesurau hyn ar waith.
19. Yn yr amgylchiadau hyn, rydym yn ystyried bod cymorth digonol ar gael i sicrhau bod unigolion o dan 18 oed yn y ddalfa yn cael eu cefnogi ac yn cael darpariaeth ddigonol ac nad oes angen cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer y gyfraith carchardai ar wahân yn yr amgylchiadau a nodir yn y meini prawf cwmpas. Yn ogystal, efallai y bydd cymorth cyfreithiol sifil ar gael, yn amodol ar ddulliau a rhinweddau. Rydym o'r farn nad yw hyn yn torri ymrwymadau'r DU o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Categoriadau ac amodau trwydded

20. Mewn perthynas â materion categoredd ac amodau'r drwydded o fewn cwmpas diwygiedig cyngor a chymorth cymorth cyfreithiol troseddol oherwydd eu heffaith ar ryddid, rydym wedi penderfynu na ddylai'r materion hyn gael eu cadw o fewn y cwmpas diwygiedig.
21. Dylai materion Categoriadau gael eu datrys lle bo modd gan ddefnyddio'r system gwynion i garcharorion neu sylwadau gan garcharorion ar gyfer y rhai yng Nghategori A. Fel y nodwyd uchod, efallai y bydd cymorth cyfreithiol sifil am adolygiad barnwrol ar gael hefyd, yn amodol ar ddulliau a rhinweddau. Dylid trafod unrhyw anghytundeb ag amodau'r drwydded rhwng y troseddwr a'u rheolwr troseddwr, gyda'r system cwynion prawf berthnasol yn cael ei defnyddio os nad ellir gwneud penderfyniad. Rydym yn ystyried bod y prosesau hyn yn ddigonol i sicrhau y bydd cwynion troseddwr yn cael eu hystyried yn briodol, ac ni fydd eu hadsefydliad yn cael ei beryglu.
22. Bydd cymorth a chynghor cymorth cyfreithiol troseddol yn parhau i fod ar gael ar gyfer achosion Bwrdd Parôl os bydd y Bwrdd Parôl â'r grym i ryddhau'n uniongyrchol (ond nid ar gyfer achosion lle nad oes gan y Bwrdd Parôl unrhyw bŵer i ryddhau uniongyrchol, er enghraifft, achosion sy'n cael eu cyfeirio at y Bwrdd Parôl ar gyfer y diben o wneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gategoriadau'n unig).
23. Caiff tri grŵp o garcharorion eu hystyried o ran rhyddhau:
 - Yn gyntaf, mae gan garcharorion dedfryd derfynedig ddyddiad rhyddhau awtomatig wedi'i gynnwys yn eu dedfryd ac felly bydd yn bendant yn cael ei ryddhau ar ddyddiad penodol. Ar gyfer carcharorion dedfryd derfynedig nad ydynt yn gymwys i'w hystyried gan y Bwrdd Parôl i'w rhyddhau cyn eu dyddiad rhyddhau awtomatig, ni fydd y ddarpariaeth o gymorth a chynghor â chymorth cyfreithiol mewn perthynas â chategoriadau felly yn effeithio ar y dyddiad y caiff y carcharor ei ryddhau.
 - Yn ail, ceir carcharorion dedfryd derfynedig sy'n gymwys i gael eu hystyried gan y Bwrdd Parôl i'w rhyddhau cyn eu dyddiad rhyddhau awtomatig.

- Yn drydydd, ceir carcharorion dedfryd amhenodol (er enghraifft y rhai a ddedfrydwyd i garchar am oes neu sy'n cyflawni dedfrydau IPP). Nid ydynt â dyddiad rhyddhau penodol. Ystyrir eu rhyddhau ar sail asesiad risg cynhwysfawr gan y Bwrdd Parôl, yn seiliedig ar adroddiadau o ffactorau risg cyffredinol y carcharor, lleihau risg a pherfformiad ac ymddygiad yn y carchar, gan gynnwys addasrwydd ar gyfer rhyddhau ar drwydded a chydymffurfio ag unrhyw gynllun dedfryd.
24. Cydnabyddir y gall categoreiddio fod yn elfen bwysig o'r asesiad risg hwnnw ar gyfer yr holl garcharorion, ond nid ydym yn ystyried ei fod o anghenraid neu'n uniongyrchol yn benderfyniadol o ryddhau yn yr ail a'r trydydd categori. Mae felly yn ffactor berthnasol mewn penderfyniadau Bwrdd Parôl ynghylch rhyddhau carcharorion yn yr ail a'r trydydd categori, ond nid yr unig ystyriaeth. Dylid nodi bod nifer fach o garcharorion Categori A wedi cael eu rhyddhau gan y Bwrdd Parôl heb eu hail-gategoreiddio i Gategori B neu is. Mae'r broses gategoreiddio ar gyfer carcharorion wedi'i nodi yn PSI 39/2011 (Carcharorion sy'n Ferched), PSI 08/2013 (Adolygu Categori Diogelwch: carcharorion Categori A/statws cyfyngedig), PSI 40/2011 (Carcharorion sy'n Ddynion), a PSI 41/2011 (Carcharorion sy'n Ddynion Ifanc). Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae'r systemau cwynion ar gael i'r rhai yn y categorïau hyn ar wahân i'r carcharorion Categori A, ac, mewn perthynas â Chategori A, caniateir i'r cyflwyno sylwadau gan garcharorion. Efallai y bydd cymorth cyfreithiol sifil ar gyfer adolygiad barnwrol ar gael, yn amodol ar rinweddau a dulliau.
25. Mewn unrhyw achos, bydd cymorth a chyngor cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer achosion gerbron y Bwrdd Parôl, os bydd y Bwrdd Parôl â'r grym i ryddhau'n uniongyrchol, yn parhau i gael eu hariannu o dan y meini prawf cwmpas newydd arfaethedig.
26. Mae pwyntiau tebyg yn berthnasol mewn perthynas ag amodau trwydded ac addasrwydd i ryddhau ar drwydded.
- Maent yn cael eu trafod mewn gwrandawiadau Bwrdd Parôl ar gyfer y carcharorion dedfryd derfynedig hynny y caiff eu rhyddhad (neu ryddhad cynnar) ei benderfynu yn ôl disgrisiwn y Bwrdd Parôl (yr ail gategori) ac ar gyfer carcharorion amhenodol (y trydydd categori). Fel y nodwyd uchod, y cynnig yw y bydd cymorth a chyngor cymorth cyfreithiol troseddol yn parhau i fod ar gael ar gyfer achosion gerbron y Bwrdd Parôl os bydd y Bwrdd Parôl â'r grym i ryddhau'n uniongyrchol.
 - Mae gan yr holl garcharorion eraill yn gwasanaethu dedfrydau penodol ddyddiad rhyddhau awtomatig ac felly nid oes rhaid cael gwrandawriad Bwrdd Parôl lle trafodir amodau'r drwydded cyn rhyddhau – nid yw amodau trwydded yn yr achosion hynny yn effeithio ar y dyddiad rhyddhau.
 - Caiff unrhyw ddyddiad rhyddhau yn y dyfodol ar gyfer troseddwr a ryddhawyd ar drwydded ond a gaiff eu galw yn ôl oherwydd eu bod wedi torri eu hamodau ei ystyried gan y Bwrdd Parôl, yn cynnwys unigolion ar ddedfrydau penodol. Bydd yr achosion hyn yn parhau i gael eu hariannu.
27. Fel y nodwyd uchod, roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn dadlau y byddai'r newidiadau cwmpas arfaethedig yn arwain at garcharorion yn cael eu cartrefu mewn amodau mwy diogel na'r angen, gan gynyddu costau. Nid ydym o'r farn y byddai'r newidiadau yn arwain at y canlyniad hwn. O blith y meysydd a dynnwyd oddi ar y cwmpas cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer cyfraith carchardai, mae tua 6,000 o achosion categoreiddio â chymorth cyfreithiol fesul blwyddyn yn seiliedig ar Ddata

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) 2012/13. Os byddai carcharorion yn cael eu dal mewn categori diogelwch uwch na'r angen o ganlyniad i'r newid hwn, byddai baich cost ychwanegol. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y dulliau eraill o wneud iawn megis y system gwynion i garcharorion yn ddigonol i ddelio â'r materion hyn yn foddhaol.

Y system gwynion

28. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried y pwyntiau a godwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â'r system gwynion, megis y rhai sy'n ymwneud â hyder carcharorion yn y system a'i effeithiolrwydd cyffredinol. Rydym yn ystyried bod y system gwynion yn ddigon cadarn i alluogi y bydd y materion a dynnwyd oddi ar y cwrpas cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer y gyfraith carchardai yn cael eu datrys yn foddhaol, gan gynnwys ar gyfer carcharorion â phroblemau iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu, am y rhesymau a nodir isod. Gall carcharorion Categori A hefyd roi sylwadau i'r carchar mewn perthynas â materion categoreiddio. Efallai y bydd cymorth cyfreithiol sifil ar gyfer adolygiad barnwrol ar gael hefyd, yn amodol ar ddulliau a rhinweddau.
29. Mae PSI 02/2012 yn nodi cyfres gadarn o drefnau i sicrhau yr ymdrinnir â chwynion carcharorion yn effeithiol, gan gynnwys y rhai a wneir gan garcharorion â materion iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu (neu nodweddion eraill a ddiogelir).
30. Mae dau gam i'r broses gwyno fewnol ar gyfer carcharorion: (i) y cam cwyno cychwynnol; a (ii) y cam apelio . Mae'r amseroedd ymateb ar gyfer cwynion cychwynnol yn adlewyrchu brys y gŵyn, gan flaenoriaethu'r rhai pwysicaf, ond yn amodol ar gyfnod amser ag uchafswm eang o 5 diwrnod. Os yw carcharor yn anfodlon gyda'r ymateb i'w cwyn gallant gyflwyno apêl fel rheol y dylid eu gwneud o fewn 7 diwrnod calendr ar ôl cael yr ymateb cychwynnol, oni bai bod rhesymau eithriadol pam y byddai hyn wedi bod yn anodd neu'n amhosibl . Caiff apeliadau eu hateb gan rywun ar lefel uwch yn y strwythur rheoli na'r person a roddodd yr ymateb i'r gŵyn wreiddiol. O dan y drefn gwyno, mae carcharor sydd â chŵyn am fater arbennig o ddifrifol neu sensitif, er enghraifft lle byddai'n rhesymol i'r carcharor deimlo'n amharod i drafod gyda staff yr adain, fel achos erledigaeth, yr hawl i wneud cwyn o dan fynediad cyfrinachol (mewn amlen wedi'i selio) i'r llywodraethwr llywodraethol, Dirprwy Gyfarwyddwr y Ddalfa neu'r Bwrdd Monitro Annibynnol Lleol (IMB). Ar unrhyw adeg yn ystod y broses gwyno, gall carcharor wneud cais i siarad ag aelod o'r IMB lleol. Mae carcharorion yn cael ymateb ysgrifenedig i'w cwyn.
31. Mae'n ofynnol i garchardai wneud yn siŵr bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau y gall yr holl garcharorion eu deall. Golyga hyn yn benodol bod carcharorion nad ydynt yn gallu darllen Saesneg naill ai oherwydd anabledd dysgu, sy'n cael anhawster darllen neu ysgrifennu am unrhyw reswm neu oherwydd nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, yn derbyn gwybodaeth mewn fformat arall. Mewn llawer o garchardai bydd hyn yn golygu bod gwybodaeth sefydlu (er enghraifft) yn cael ei rhoi ar fideo yn ogystal ag yn ysgrifenedig. Rydym felly'n ystyried bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn unol â PSI perthnasol ar gyfer carcharorion â phroblemau iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu (gweler paragraffau 40-43 ac adran 9.2 o Atodiad F).
32. Cafodd y system gwynion ei archwilio'n ddiweddar gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) gyda'r nod o asesu digonolrwydd, effeithiolrwydd a dibynadwyedd y rheolaethau sy'n gweithredu dros gwynion carcharorion, ond nid i weld a oedd y system yn darparu'n ddigonol ar gyfer gwahanol garcharorion. Cwblhawyd yr adroddiad ar ôl cyhoeddi'r papur ymgynghori ym mis Mai. Canfu'r archwiliad fod y system yn gyffredinol yn gweithredu fel y nodir yn PSI 02 / 2012 (Cwynion

Carcharorion). Gwnaed nifer o argymhellion, gan gynnwys darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill ac y dylid gwrandao ar apelïadau gan unigolyn yn annibynnol i'r ymatebydd gwreiddiol, a gafodd eu derbyn yn llawn gan NOMS. Canfu'r adroddiad mai sefydlu carcharorion oedd y prif ddull ar gyfer hysbysu carcharorion am y broses gwyno, a lle na ddefnyddiwyd sefydlu, roedd prosesau eraill ar waith i sicrhau bod carcharorion yn cael eu hysbysu'n briodol. Rydym felly yn hyderus bod y system gwynion yn cael ei dilyn mewn sefydliadau.

33. Mae data NOMS ar y mathau o faterion a ddeliwyd â nhw drwy'r system gwynion i garcharorion hefyd yn dangos nad yw'r system yn cael ei defnyddio ar gyfer yr hyn y gellid ei ystyried yn fater lefel is yn unig, megis ymweliadau neu fwyd, ond hefyd ar gyfer materion mwy difrifol megis trosglwyddiadau ac apelïadau gwrthod cyrffw cyfyngu i'r cartref.
34. Bydd NOMS yn datblygu strategaeth gyfathrebu i atgyfnerthu cydymffurfiad â PSIs perthnasol ym mhob sefydliad, a thynnu sylw at y cynllun cymorth cyfreithiol troseddol, er mwyn sicrhau bod staff a charcharorion yn gwbl ymwybodol o'r newidiadau a chynnig dulliau amgen o wneud iawn. Bydd hyn yn cynnwys llythyr gan Brif Weithredwr NOMS, i bob Llywodraethwr. Yn ogystal, bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ysgrifennu at yr holl Ganolfannau Hyfforddi Diogel i atgyfnerthu'r un neges, a bydd swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cysylltu gyda'r Adran Addysg i sicrhau bod Cartrefi Diogel i Blant yn derbyn yr un neges. Bydd y negeseuon hefyd yn atgyfnerthu'r angen i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer carcharorion â nodweddion a ddiogelir gan gynnwys y rhai â phroblemau iechyd meddwl a/neu anabledau dysgu. Bydd NOMS hefyd yn sicrhau bod newidiadau i gymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer cyfraith carchardai yn cael eu cyfleu i boblogaeth y carchar a bod y gofynion a amlinellir mewn PSIs mewn perthynas â'r system gwynion yn cael eu hamlygu yn fanwl.
35. Bydd NOMS yn cysylltu â HMIP yn ffurfiol i gynnwys arolygiad thematig ar 'gwynion' tuag at ddiwedd 2014/15 neu'n gynnar yn eu rhaglen 2015/16 o waith er mwyn caniatáu amser i'r newidiadau i gymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer y gyfraith carchardai ac unrhyw effaith ar y system gwynion ddod i rym. Bydd hyn yn profi'r system gwynion ar ôl i'r newidiadau i'r cymorth cyfreithiol troseddol ddod i rym a rhoi barn annibynnol ar eu heffaith. Bydd NOMS yn parhau i fonitro nifer y cwynion a gyflwynir yn ganolog i asesu'r effaith ar wasanaethau. Bydd effeithiolrwydd y broses gwynion yn parhau i gael ei asesu ar sail barhaus yn y dyfodol.
36. Mae carcharorion hefyd yn cael y cyfle i gyfeirio cwyn at y PPO os nad ydynt yn fodlon ar ganlyniad y broses gwyno. Rydym o'r farn bod y system gwynion, yn ogystal â'r gweithdrefnau disgyblu carchar a systemau cwynion prawf, yn ddigonol i sicrhau bod cwynion carcharorion yn cael eu hystyried yn briodol. Yn ogystal, efallai y bydd cymorth cyfreithiol sifil ar gyfer adolygiad barnwrol ar gael, yn amodol ar rinweddau a dulliau.
37. Rydym yn cydnabod pryderon a godwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â chynnydd posibl mewn baich achosion ar gyfer y PPO a chostau uwch posibl o ganlyniad. Fodd bynnag:
 - Ystyriwn y dylai'r camau a gymerir gan NOMS i atgyfnerthu cydymffurfiad â PSI 02/2012 (Cwynion carcharorion) ym mhob sefydliad leihau'r risg o gynnydd sylweddol yn y baich achosion.
 - Mae'r PPO hefyd yn parhau i weithio gyda NOMS i leihau ei faich gwaith cwynion, er enghraifft drwy ddarparu gwybodaeth i leihau'r nifer o gwynion anaddas (gweler

adroddiad blynyddol diweddaraf y PPO³⁹). Ystyriwn y bydd y camau hyn a gwaith parhau yn cyfrannu at amseroldeb gwell gydag ymchwiliadau PPO. Dylid nodi y caiff y mwyafrif o argymhellion a wneir gan y PPO eu gweithredu gan sefydliadau, er nad ydyw'r argymhellion hyn yn eu rhwymo.

38. Ystyriwn y bydd y camau i'w cymryd gan NOMS i atgyfnerthu cydymffurfiaid â PSIs perthnasol, gan gynnwys mewn perthynas â'r broses gwynion, a'r rhai sy'n ymwneud â charcharorion sydd â nodweddion a ddiogelir (gweler paragraff 34), yn lleihau'r tebygolrwydd o gwynion ddim yn cael eu datrys yn foddhaol o fewn sefydliadau ac felly angen cyfeirio at y PPO. Mae NOMS hefyd wedi ymrwymo i gysylltu â HMIP mewn perthynas ag arolygiad thematig o 'gwynion' a fyddai'n tynnu sylw at unrhyw effeithiau annisgwyl.
39. Mewn perthynas â goblygiadau cost posibl, mae adborth anffurfiol gan NOMS yn awgrymu ei bod yn costio cryn dipyn yn llai na'r ffi sefydlog safonol ar gyfer cymorth a chyngor cymorth ar gyfer cyfraith carchardai a chymorth i ddatrys cwyn gan ddefnyddio system gwynion y carchar.

Carcharorion â phroblemau iechyd meddwl ac/neu anabledau dysgu

40. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod prosesau presennol yn ddigonol i ganiatáu i'r rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl ac/neu anabledau dysgu ddefnyddio'r mecanwaith cwynion carcharorion, y broses ddisgyblu neu'r broses gwynion prawf neu, os oes angen, y PPO. Mae PSIs 02/2012 (Cwynion carcharorion), PSI 75/2011 (Gwasanaethau preswyl), PSI 32/2011 (Sicrhau cydraddoldeb) a 08/2012 (Gofal a rheoli pobl ifanc) yn darparu rhagor o wybodaeth am y prosesau ar gyfer sicrhau bod y carcharorion hyn yn gallu cymryd rhan yn effeithiol yn y system gwynion a gweithdrefnau disgyblu. Mae systemau cwyno prawf yn amrywio rhwng ymddiriedolaethau prawf (gweler gwefannau'r ymddiriedolaethau unigol am ragor o wybodaeth). Dylai'r carcharorion hynny sydd ag anawsterau llythrennedd ofyn i ffrind (neu 'wrandawyr' carchar) neu berthynas helpu wrth wneud cwyn i'r PPO⁴⁰.
41. Os yw unigolyn yn cael ei adnabod (boed gan aelod o staff neu drwy hunan-adnabod) fel un sydd â materion iechyd meddwl neu anabledau dysgu, bydd NOMS yn cymhwyso'r polisïau hynny a amlinellwyd yn PSIs perthnasol ac ystyried a oes unrhyw addasiadau rhesymol eraill y dylid eu gwneud.
42. Mae adroddiad blynyddol HMIP yn cynnwys cymhariaeth o sgoriau arolwg carcharorion sy'n ystyried eu hunain yn anabl a'r rhai nad ydynt; mae'r data hwn yn cynnwys carcharorion ag anabledd corfforol yn ogystal â rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl ac/neu anabledau dysgu. Mae Adroddiad Blynyddol HMIP 2011-12 (y diweddaraf sydd ar gael) yn dangos y canlynol:

C. A yw'n hawdd cael ffurflen gwyno?

Anabl – 82% Ydyw

Ddim yn anabl – 83% Ydyw

C. Ydych chi wedi gwneud cwyn?

Anabl – 55% Do

³⁹ <http://www.ppo.gov.uk/annual-reports.html>

⁴⁰ <http://www.ppo.gov.uk/complaints-faqs.html#4>

Ddim yn anabl – 46% Do

C. A oes aelod o staff yn y carchar hwn y gallwch droi atynt am help os oes gennych problem?

Anabl – 76% Oes

Ddim yn anabl – 75% Oes

43. Rydym yn cydnabod bod ymateb HMIP i'r ymgynghoriad yn cynnwys data a oedd yn nodi nad oedd gan garcharorion â phroblemau iechyd meddwl ac/neu anabledau dysgu (yn ogystal â charcharorion yn gyffredinol) hyder yn y system gwynion a bod y canlyniadau yn wael. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth o Adroddiad Blynyddol 2011-12 y cyfeirir atynt uchod yn awgrymu darlun gwahanol o ran hygyrchedd, parodrwydd i ddefnyddio'r system a'r potensial i addasiadau rhesymol gael eu gwneud wrth gymharu carcharorion anabl a charcharorion nad ydynt yn anabl. Er bod gan ymatebwyr bryderon ynghylch effeithiau posibl ar y carcharorion hyn, rydym yn ystyried bod y prosesau a nodir yn PSI 02/2012 (Cwynion carcharorion), PSI 32/2011 (Sicrhau cydraddoldeb) a 75/2011 (Gwasanaethau preswyl) yn ddigonol i sicrhau eu bod yn gallu gwneud defnydd effeithiol o'r system gwynion a chael mynediad i ddull amgen arall o wneud iawn (gweler adran 9.2 o Atodiad F).

Erthygl 5.4 ECHR

44. Nid yw rhai gwrandawiadau Bwrdd Parôl yn ymwneud ag Erthygl 5.4 o'r ECHR, yn enwedig y rhai ar gyfer rhai carcharorion dedfryd derfynedig. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai cymorth cyfreithiol troseddol barhau i fod ar gael er mwyn rhoi cyngor a chymorth mewn perthynas â phob achos gerbron y Bwrdd Parôl pan fo gan y Bwrdd Parôl y pŵer i ryddhau'n uniongyrchol (gweler hefyd baragraffau 24 a 25).
45. Mae gwrandawiadau gerbron y Bwrdd Parôl lle mae gan y Bwrdd Parôl y pŵer i ryddhau'n uniongyrchol ac, os nad yw'n penderfynu peidio â gwneud hynny, gall wneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol o ran categoreiddio. Gan fod gan y Bwrdd Parôl bŵer i ryddhau uniongyrchol yn y gwrandawiadau hyn, byddwn yn parhau i ariannu'r achosion hyn. Fodd bynnag, ni fyddai gwrandawiadau gerbron y Bwrdd Parôl sydd dim ond i bwrpas ystyried amodau categoreiddio neu drwydded yn cael eu hariannu, gan nad oes unrhyw ystyriaeth p'un a ddylid cyfeirio rhyddhau.

Cyfrifo dedfryd

46. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ystyried unwaith eto'r mater o faterion cyfrifo dedfryd - hynny yw, sut y mae staff y carchar yn cymhwyso'r darpariaethau rhyddhau perthnasol yn y ddeddfwriaeth i ddedfryd neu ddedfrydau carcharor er mwyn cyfrifo eu dyddiad rhyddhau cywir. Byddai'r diwygiad i'r meini prawf cwmpas a amlinellir uchod yn cael yr effaith o gael gwared ar gynllunio dedfryd a chyfrifo dedfryd o'r cwmpas gan nad ydynt yn faterion i'r Bwrdd Parôl. Nododd y papur ymgynghori y byddai materion cynllunio dedfryd yn parhau i gael eu hariannu, ond y byddai'r meini prawf cwmpas addasedig yn golygu na fyddent yn y dyfodol.
47. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn derbyn bod cyfrifo dedfryd, lle mae dadl yn ei gylch, yn cael effaith uniongyrchol a syth ar y dyddiad rhyddhau o'r carchar ac y dylai am y rheswm hwnnw aros o fewn y cwmpas. Ond dim ond ar ôl disbyddu dulliau amgen o wneud iawn (megis y system gwynion carcharorion a'r llinell gymorth cyfrifo dedfrydu) y dylai cymorth cyfreithiol fod ar gael. O ganlyniad, bydd cymorth cyfreithiol

troseddol ar gael o hyd er mwyn rhoi cyngor a chymorth mewn perthynas â chyfrifo dedfryd yn yr amgylchiadau hyn.

Casgliad

48. Ar ôl ystyried a rhoi'r pwys dyladwy i ymatebion yr ymgynghoriad mae'r Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig i gyfyngu ar gwmpas cymorth cyfreithiol troseddol i achosion cyfraith carchardai fel y cynigir yn y ddogfen ymgynghori, ac eithrio y bydd cymorth cyfreithiol troseddol yn parhau i fod ar gael ar gyfer:
 - pob achos gerbron y Bwrdd Parôl, os bydd y Bwrdd Parôl yn ystyried a ddylid cyfarwyddo rhyddhau (yn hytrach na phob achos sy'n ymwneud ag Erthygl 5.4 Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)); a,
 - chyngor a chymorth mewn perthynas â'r cyfrifo dedfryd lle mae dadl ynghylch y dyddiad rhyddhau.
49. Bwriedir i'r newidiadau hyn gael eu cyflwyno ar ffurf diwygiadau i ddeddfwriaeth eilaidd a diwygiadau contract yn hwyr yn 2013.

Gosod trothwy cymhwyster ariannol yn Llys y Goron

50. Roedd y papur ymgynghoriad yn cynnig cyflwyno trothwy cymhwyster ariannol, lle byddai unrhyw ddiffynnydd gydag incwm gwario cartref o £37,500 neu fwy yn anghymwys i gael cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron. Byddai hyn yn cael ei adolygu ar sail caledi ar gyfer y rhai sydd uwchlaw'r trothwy hwnnw ond sy'n dangos na allant mewn gwirionedd fforddio i dalu am eu hamddiffyniad ei hun. Gofynnodd y ddogfen ymgynghoriad:

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno trothwy cymhwyster ariannol ar geisiadau am gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron? Rhowch resymau os gwelwch yn dda

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno bod y trothwy arfaethedig yn cael ei osod ar lefel briodol? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Materion allweddol a godwyd

51. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig hwn mewn egwyddor (er enghraifft, dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr eu bod yn cytuno â'r egwyddor na ddylai'r trethdalwr dalu yn y pen draw dros ddiffynyddion cyfoethog), er mynegwyd nifer o bryderon hefyd. Awgrymwyd gan ymatebwyr fod y trothwy arfaethedig ar lefel rhy isel i alluogi i gostau amddiffyn preifat fod yn fforddiadwy yn y mwyafrif o achosion yn Llys y Goron, ac felly dylid eu gosod ar lefel uwch. Dadleuwyd hefyd bod y cynnig i ddefnyddio incwm gwario cartref blynyddol (h.y. y diffynnydd a'r partner) yn gwadu cymorth cyfreithiol troseddol i gartrefi â modd cymharol fychan, yn ogystal â chosbi partneriaid yn annheg, ac felly unwaith eto y dylai'r trothwy gael ei osod ar lefel uwch. Nododd ymatebwyr hefyd fod y lefel arfaethedig o wariant aelwydydd i'w defnyddio wrth gyfrifo incwm gwario yn rhy isel.
52. Dadleuodd rhai ymatebwyr y byddai cyflwyno'r trothwy yn cynyddu nifer y diffynyddion a fyddai'n cynrychioli eu hunain gan gynnwys diffynyddion sy'n agored i niwed, boed hynny drwy reidrydd neu o ddewis, gyda'r oedi dilynol ac aneffeithlonrwydd y byddai hyn yn ei achosi yn y system cyfiawnder troseddol. Dadleuwyd y byddai diffynyddion yn cael gwrthod cynrychiolaeth ac, os nad oeddent yn gallu fforddio talu'n breifat ac felly

ddim yn gallu cael cynrychiolaeth, y byddai hyn yn torri eu hawl i gael treial deg o dan Erthygl 6 o'r ECHR.

53. Nododd nifer o ymatebwyr y mater o ddiffynyddion yn gallu croesholi tystion agored i niwed yn bersonol. Dadleuwyd hefyd y byddai diffynyddion drostynt eu hunain yn 'chwarae' y system gan arwain at fwy o dreialon yn chwalu. Hefyd codwyd y mater o ddiffynyddion sy'n agored i niwed yn gorfod gweithredu drostynt eu hunain. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y sylwadau Ward LJ yn *Wright v Wright* ([2013] EWCA Civ 234) ynghylch ymglythwyr drostynt eu hunain mewn achosion sifil.
54. Mynegwyd pryderon gan nifer o ymatebwyr ynghylch pa mor amserol y mae'r LAA yn gwneud penderfyniadau ar gymhwyster ariannol. Dadleuwyd gan lawer y byddai'r cynnig hwn yn adeiladu oedi ac aneffeithlonrwydd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Mynegwyd pryder yn benodol am yr angen i gael digon o amser yn dilyn y penderfyniad hwnnw i ddarparwyr gael eu cyfarwyddo a dechrau gweithio ar yr achos cyn i'r achos ddechrau. Awgrymwyd hefyd os yw oedi yn digwydd, y byddai hyn yn cael effeithiau ymledol sylweddol ar y broses treial (ac felly trosglwyddo costau i Lysoedd Ei Mawrhydi a Gwasanaeth Tribiwnlysoedd (HMCTS)) ac o ganlyniad mae'n bosibl y caiff hawliau Erthygl 6 ECHR y diffynnydd eu torri.
55. Cwestiynodd llawer o ymatebwyr p'un a yw'r cyfraddau preifat yr un fath, neu'n debyg i gyfraddau cymorth cyfreithiol. Awgrymwyd bod y cynnig i ad-dalu diffynyddion sy'n talu'n breifat ar gyfraddau cymorth cyfreithiol yn dilyn rhyddfarn yn cynrychioli cosb ariannol annheg o ystyried, ym marn yr ymatebwyr, ei bod yn amhosibl yn ymarferol sicrhau cynrychiolaeth breifat ar gyfraddau cymorth cyfreithiol. Y prif wrthwynebiad oedd ei bod yn annheg gwahardd unigolyn rhag cael cymorth cyfreithiol, ac yna iddynt fynd i gostau preifat sylweddol na allant eu hadennill yn llawn (neu o leiaf hyd at swm rhesymol) petaent yn cael eu rhyddfarnu neu fod Gwasanaeth Eryl y Goron (CPS) yn rhoi'r gorau i'r achos. Awgrymwyd y dylai ad-daliad fod ar gyfraddau rhesymol, os nad cyfraddau preifat llawn.
56. Rhoddwyd y diwygiadau i gynllun Prawf Modd Llys y Goron (CCMT) ar waith ar 1 Ebrill ac ar 30 Gorffennaf (gweler paragraff 86) a dadleuodd ymatebwyr nad oedd yn briodol i newidiadau pellach gael eu gwneud i drefniadau cymhwyster ariannol yn Llys y Goron heb well dealltwriaeth o sut y mae'r newidiadau hyn wedi sefydlu eu hunain.
57. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i gynnal ymgynghoriad yn yr hydref ynghylch newidiadau ychwanegol i'r meini prawf cymhwyster cymorth cyfreithiol yng ngoleuni cyflwyniad ehangach y Credyd Cynhwysol. Roedd yr ymatebwyr yn bryderus y byddai'r newidiadau arfaethedig i gymhwyster Llys y Goron yn cael eu rhoi ar waith yn fuan cyn i unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwnnw. Disgwylir i ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad Credyd Cynhwysol, a fydd yn ystyried trefniadau cymhwyster ariannol a'r sail y mae cymhwyster ariannol yn cael ei gyfrifo arni, gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2014.
58. Awgrymwyd y dylai asedau sy'n cael eu hatal o dan Ddeddf Elw Troseddau 2002 gael eu rhyddhau i dalu am gostau amddiffyn preifat rhesymol diffynyddion cyfoethog.

Ymateb y Llywodraeth

59. Bwriad y cynnig i gyflwyno trothwy cymhwyster ariannol o £37,500 incwm gwario cartrefi yn Llys y Goron yw sicrhau nad yw diffynyddion cyfoethocaf, Llys y Goron sy'n

gallu talu'n breifat, yn cael eu darpariaeth awtomatig o gymorth cyfreithiol ar draul y trethdalwr.

60. Fel y nodwyd uchod, pryder allweddol a fynegwyd gan ymatebwyr oedd bod y trothwy yn cael ei osod ar lefel rhy isel ac na fyddai costau preifat yn fforddiadwy ar gyfer diffynyddion anghymwys o ganlyniad i'r trothwy, gydag effaith sylweddol ddilynol ar enillwyr incwm canolog. Rydym wedi cynnal dadansoddiad o holl Orchmynion Costau Amddiffyniad (DCOs) a broseswyd ym Manceinion (un o'r 2 ganolfan prosesu yng Nghymru a Lloegr) dros gyfnod o 6 mis hyd at 23 Mawrth 2013. Dyma'r data diweddaraf sydd ar gael, oherwydd o fis Hydref 2012 ni allai costau cyfreithiol yn Llys y Goron gael eu hadennill mwyach dan DCO o Gronfeydd Canolog (er y gallai costau ddal i gael eu hadennill o dan DCOs a roddwyd cyn y newidiadau, a oedd yn dal i gael eu prosesu ar ôl mis Hydref 2012). Mae'r dadansoddiad yn rhoi rhagor o wybodaeth am gostau tebygol y gall diffynyddion sydd yn cael eu heffeithio gan y cynnig hwn eu hwynebu: roedd DCOs yn cael eu had-dalu o gronfeydd canolog ar gyfraddau preifat rhesymol – dyma felly yw'r wybodaeth orau sydd gennym ynglŷn â chyfraddau preifat oedd ar gael yn ddiweddar i ddiffynyddion. Mae'r data isod yn rhoi gwerthoedd DCO cyfartalog i bob grŵp trosedd A-K⁴¹ (gweler Tabl B1 am ddiffiniadau).

Tabl B1: Gwerthoedd DCO cyfartalog a nifer y DCOs yn y sampl, i bob grŵp trosedd A i K.

Grŵp Trosedd	Gwerth cyfartalog DCO £ (wedi'u talgrynnu i'r £000 agosaf)	Nifer y DCOs yn y sampl
A – Dynladdiad a throeddau difrifol cysylltiedig	176	3
B – Troeddau sy'n cynnwys trais neu ddifrod difrifol, neu droeddau cyffuriau difrifol	13	26
C – Troeddau llai yn ymwneud â thrais neu ddifrod a throeddau cyffuriau llai difrifol	9	44
D – Troeddau rhywiol a throeddau yn erbyn plant	10	19
E – Byrgleriaeth	12	3
F - Anonstrwydd llai na £30k	16	23
G – Anonstrwydd £30-100k	0	0
H – Troeddau amrywiol eraill ⁴²	15	38
I – Troeddau yn erbyn cyfiawnder cyhoeddus a throeddau tebyg	14	7
J – Troeddau rhywiol difrifol	27	11
K – Anonstrwydd dros £100k (gan gynnwys 2 o Achosion Costus lawn)	603	46

⁴¹ Os gwelwch yn dda nodwch bod costau preifat cyfartalog sy'n deillio o DCOs yn seiliedig ar niferoedd bach sydd â lefel uchel o amrywiad ac fel y cyfryw mae'n rhaid eu trin yn ofalus.

⁴² Gweler rhestr gynhwysfawr yn Atodlen 1 Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troeddol (Taliadau) 2013. Os gwelwch yn dda ewch i: <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/435/contents/made>

61. Dengys y data yn y rhan fwyaf o achosion, ar draws y rhan fwyaf o categorïau trosedd, y dylai costau amddiffyn preifat cyfartalog fod yn fforddiadwy i ddiffynnydd a gaiff ei eithrio o gymorth cyfreithiol gan y trothwy arfaethedig. Mae gwerth cyfartalog DCO o ran categorïau trosedd B - I (160 o achosion allan o sampl cyfan o 178), sy'n cynnwys rhai o'r troseddau mwyaf cyffredin yn Llys y Goron (fel y rhai sy'n ymwneud â chyffuriau, trais ac anonestrwydd llai difrifol) rhwng £9,000 a £16,000. Mae gwerth cyfartalog DCO yn yr 11 o achosion yng nghategori J (troseddau rhywiol difrifol) yn uwch (£27,000), ond yn dal i fod o dan y trothwy incwm gwario a gynigiwyd, ac felly'n fforddiadwy. Nid oedd unrhyw achosion grŵp trosedd G yn y sampl felly nid ydym yn gallu dod i unrhyw gasgliadau o ran y categori hwnnw. Mae adolygiad caledi, gyda'r potensial ar gyfer rhoi cymorth cyfreithiol, yn parhau i fod ar gael ar gyfer unrhyw achosion nad ydynt mewn gwirionedd yn fforddiadwy.
62. Mae'r data'n dangos bod troseddau yng ngrwpiau trosedd A (dynladdiad a throseddau difrifol cysylltiedig) a K (anonestrwydd dros £100,000), ar gyfartaledd gryn dipyn yn fwy costus. Nid yw hyn yn annisgwyl a chydabuwyd yn glir y math hwn o amrywiant costau mewn achosion cymhleth yn y papur ymgynghoriad. Fodd bynnag, hefyd yn ôl y disgwyl, roedd llai o achosion yn y categorïau hyn (9 allan o sampl cyfan o 180) ac mae'r rhain yr union fathau o achosion lle y rhagwelir y gallai diffynnydd ag incwm gwario uwch na'r trothwy wneud cais am adolygiad caledi ar y sail bod y costau amddiffyn amcangyfrifedig yn eu hachos y tu hwnt i'w modd.
63. Mae'r data wedi dangos bod gwahaniaeth rhwng cyfraddau cymorth cyfreithiol a chyfraddau preifat yn yr holl grwpiau trosedd, a bod y cyfraddau ad-dalu o dan DCO yn uwch na chyfraddau cymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, rydym yn ystyried bod y data hefyd yn dangos y byddai costau preifat yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o grwpiau trosedd a lle mae costau preifat yn anfforddiadwy, bydd yr adolygiad caledi yn sicrhau fod cynrychiolaeth yn cael ei darparu.
64. Wrth ddadlau y byddai'r trothwy yn golygu bod cynrychiolaeth breifat yn rhy ddrud, nid yw nifer o'r ymatebwyr yn mynd i'r afael â'r rhyngberthynas rhwng y trothwy arfaethedig a'r adolygiad caledi. Byddai unrhyw ddiffynnydd (ym mha gategori bynnag y byddai eu trosedd yn disgyn) yn gallu gwneud cais o'r fath ac, os oedd yn llwyddiannus, yna byddai'n cael cymorth cyfreithiol. Mae'r posibilrwydd o gael cymorth cyfreithiol yn dilyn adolygiad caledi hefyd yn sicrhau cysondeb y cynnig gydag Erthygl 6 ECHR.
65. Roedd paragraff 3.34 yr ymgynghoriad blaenorol yn nodi sut y byddai'r adolygiad caledi yn gweithio. Byddai'n ofynnol i'r diffynnydd roi gwybodaeth ariannol fanwl a oedd yn dangos nad oeddent yn gallu fforddio talu amcangyfrif o gostau llawn eu hamddiffyniad preifat. Byddai dau gam i'r adolygiad hwn. Ar y cyntaf, byddai'r amcangyfrif o gostau achos penodol y diffynnydd ac unrhyw wariant caniatool ychwanegol (er enghraifft, benthyciadau wedi'u gwarantu neu heb eu gwarantu, costau meddygol, ôl-ddyledion rhent, benthyciadau myfyrwyr, taliadau pensiwn penodol a thaliadau cerdyn credyd) yn cael eu tynnu o incwm gwario cartref y diffynnydd. Os yw gweddill incwm gwario cartref y diffynnydd wedyn o dan £37,500 yna byddent yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol, ond yn amodol ar gyfraniad yn unol â'r cynllun CCMT. Yn yr ail gam, byddai'r costau preifat amcangyfrifedig yn cael eu diystyru (gan nad ydynt bellach yn berthnasol) ac mae rhwymedigaeth y diffynnydd i gyfraniad yn seiliedig, yn unol â'r Cynllun CCMT, ar asesiad o'u hincwm gwario cartref ac unrhyw wariant caniatool ychwanegol.
66. Byddai cymhwyster yn cael ei gyfrifo ar sail incwm gwario y mae rhai costau byw a threuliau caniatool penodedig (treth ac Yswiriant Gwladol, treth y cyngor, costau tai a

gofal plant, ac unrhyw gostau cynnal a chadw) eisoes wedi cael eu didynnu ohono - ni fyddai'n cael ei seilio ar incwm *gros* y cartref fel yr oedd rhai ymatebwyr fel petaent yn awgrymu. Mae hyn yn unol â rheolau cymhwyster ariannol presennol mewn mannau eraill yn y cynllun cymorth cyfreithiol. Dylid hefyd nodi bod y lwfans byw yn cael ei bwysoli yn unol ag amgylchiadau teuluol⁴³.

67. Dadleuodd rhai ymatebwyr nad oedd yn briodol cronni incwm ddiffynnydd a'u partner wrth asesu cymhwyster fel y cynigiwyd, ac fel sy'n wir ar hyn o bryd. Mae cronni modd yr ymgeisydd a'u partner yn norm, yn y cyd-destun cymorth cyfreithiol ac mewn perthynas â budd-daliadau prawf modd yng Nghymru a Lloegr. Mae cronni yn ffordd o sicrhau bod yr holl adnoddau sydd ar gael i berson yn cael eu hasesu; yna aml mae costau'r cartref a chyfrifon banc yn cael eu rhannu ac mae'n rhesymol gweithredu ar y sail y bydd diffynnydd yn cael mynediad at incwm yr *aelwyd* i dalu am eu hamddiffyniad. Mae'n rhaid i ni hefyd ochel rhag sefyllfa lle mae diffynnydd sydd â phartner gyda chrym ffordd yn cael cymorth cyfreithiol troseddol.
68. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried pryderon ymatebwyr ynghylch yr oedi posibl a allai gael ei achosi gan gyflwyniad y trothwy, o ran gweinyddu'r LAA a newidiadau mewn amgylchiadau diffynyddion neu gostau preifat gwirioneddol. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod prosesau presennol yn ddigonol i sicrhau na fydd oedi yn digwydd.
69. Mae prosesau gweinyddol presennol yn ddigonol i sicrhau bod digon o amser ar gael yn dilyn penderfyniad ynghylch cymhwyster i gael cynrychiolaeth breifat cyn i achos ddechrau, er bod hyn yn dibynnu ar ymgeiswyr sy'n cyflwyno ceisiadau mewn modd amserol, yn unol â'r rheoliadau perthnasol a rheolau'r LAA.
70. Dengys data perfformiad presennol (2012/13) yr ymdrinnir â 93% o geisiadau am y tro cyntaf yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron (diddordeb cyfiawnder a phrawf modd) gan GLITEM o fewn 2 ddiwrnod o dderbyn cais a gwblhawyd yn llawn, ac 99% o fewn 6 diwrnod o'i dderbyn. Ymdrinnir â 100% o geisiadau cymhleth a chaledi sydd wedi'u cwblhau a chyda thystiolaeth lawn gan y Tîm Llysoedd Cenedlaethol LAA o fewn 2 ddiwrnod o'u derbyn (Llys ynadon a Llys y Goron). Credwn fod hyn yn dangos effeithlonrwydd a digonolrwydd y prosesau gweinyddol presennol. Mae'r amseroedd gweithredu hyn yn dibynnu ar ffurflenni a gwblhawyd yn llawn; mae oedi yn digwydd aml oherwydd nad yw ffurflenni yn cael eu cwblhau'n gywir yn hytrach nag o ganlyniad i brosesau gweinyddol yr LAA.
71. Er nad yw'r naill broses weinyddol na'r llall yn y llys ynadon presennol yn golygu bod profion neu gynlluniau CCMT yn cyfateb yn union i'r rhai a fydd eu hangen ar gyfer trothwy cymhwysedd Llys y Goron, rydym yn ystyried bod perfformiad presennol yn y meysydd hyn yn arwydd o'r prosesau y byddwn yn eu rhoi ar waith a'u heffeithlonrwydd tebygol.
72. Efallai y bydd sefyllfaoedd pan fydd unigolyn wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol, bod y cais (gan gynnwys unrhyw adolygiad caledi y gwnaethpwyd cais amdano) wedi'i wrthod oherwydd ystyrir bod yr unigolyn yn gallu fforddio costau eu hamddiffyniad eu hunain, ac yna yn ystod yr achos bod amgylchiadau'r unigolyn yn newid. Os, er enghraifft, bod amgylchiadau ariannol yr unigolyn yn newid neu'r achos yn rhedeg yn hirach na'r disgwyl, gan arwain at i gostau preifat ddod yn anfforddiadwy, bydd

⁴³ Am ragor o wybodaeth gweler y Llawlyfr Cymorth Cyfreithiol Troseddol tt.92-97:
<http://www.justice.gov.uk/downloads/legal-aid/eligibility/criminal-legal-aid-manual.pdf>

mecanweithiau yn eu lle i alluogi'r unigolyn gael cymorth cyfreithiol. Yn yr un modd, pan fydd amgylchiadau'r unigolyn nad oedd ar y cychwyn wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol wedyn yn newid fel nad ydynt bellach yn gallu fforddio talu am eu hamddiffyniad eu hunain, byddant yn gallu gwneud cais am gymorth cyfreithiol yn sgil y newid.

73. Os bydd y cais yn llwyddiannus byddai unrhyw ddarparwr preifat sy'n gweithredu ar ran yr unigolyn ac sydd hefyd yn dal contract cymorth cyfreithiol yn gallu parhau i weithredu dros yr unigolyn, er ar gyfraddau cymorth cyfreithiol, gan gynnig dilyniant i'r cleient a lleihau aflonyddu ar y llys. Os na fydd y darparwr yn dal contract mae dull contractio achos unigol yn ei le ar hyn o bryd ar gyfer amgylchiadau eithriadol lle bydd diffynnydd yn cael ei gynrychioli gan ddarparwr nad yw'n dal Contract Troseddu, ond ei fod er budd cyfiawnder ac arian cyhoeddus yn galluogi'r darparwr i gael cymorth cyfreithiol i gynrychioli'r diffynnydd dan sylw. Byddai hyn yn darparu ar gyfer y sefyllfaoedd hyn lle mae diffynnydd yn cyllido ei hun yn breifat ar ddechrau'r achos, ond yn methu fforddio gwneud hynny drwy gydol yr achos (h.y. yn anghymwys ar y cychwyn, ond wedyn yn dod yn gymwys). Felly mae'r peryglon o ddiffyg dilyniant i'r diffynnydd ac oedi yn y llys yn cael eu lleihau.
74. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ystyried pryderon yr ymatebwyr mewn perthynas â chynnydd posibl yn y nifer o ddiffynnyddion sy'n cynrychioli eu hunain a'r potensial ar gyfer oedi ac aneffeithlonrwydd y gall hyn ei gyflwyno. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn ei bod yn debygol y bydd cyflwyno'r trothwy yn arwain at gynnydd mewn diffynnyddion sy'n gweithredu drostynt eu hunain am y rhesymau a nodir isod..
75. Mae dau yrrwr potensial ar gyfer cynnydd mewn diffynnyddion sy'n gweithredu drostynt eu hunain - diffyg fforddiadwyedd (angen) a chanfyddiad gan ddiffynnyddion y byddai cynrychioli eu hunain yn well i'w hachos (dewis). Fel y nodwyd uchod, dylai costau amddiffyn preifat cyfartalog fod yn fforddiadwy i'r rhai y mae eu hincwm gwario yn uwch na'r trothwy arfaethedig yn y rhan fwyaf o achosion. Lle nad yw hyn yn wir, bydd adolygiad caledi yn sicrhau bod cynrychiolaeth ar gael. Rydym felly o'r farn na ddylai fforddiadwyedd fod yn yrrwr i gynnydd mewn diffynnyddion yn cynrychioli eu hunain. Byddai unrhyw gynnydd mewn diffynnyddion yn cynrychioli eu hunain yn digwydd o ganlyniad i ganfyddiad gan ddiffynnyddion y byddai gwneud hynny o fudd i'w achos yn cael ei yrru gan ymateb ymddygiadol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ond yr ydym yn gallu mesur y perygl hwn. Nid ydym yn ystyried y byddai cyflwyno'r trothwy o reidrwydd yn arwain at gynnydd mewn diffynnyddion yn gweithredu drostynt eu hunain. Byddai'r ddau bwynt ynglŷn â rheidrwydd a dewis yr un mor berthnasol i ddiffynnyddion sy'n agored i niwed.
76. Am y rhesymau hyn, nid ydym yn ystyried y bydd y cynnig hwn yn arwain at gynnydd mewn diffynnyddion yn croesholi tystion agored i niwed drostynt eu hunain. Beth bynnag, mae mesurau arbennig ar gael i gefnogi tystion i roi tystiolaeth yn y llys, a all gynnwys y defnydd o sgriniau o gwmpas y blwch tystion neu roi tystiolaeth drwy Livelink. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd yn adolygu sut i leihau gofid i ddiodefwr yn ystod croesholi a byddant yn adrodd ar hyn erbyn diwedd y flwyddyn. Yn ogystal, mae'r llys yn gallu penodi eiriolwr i groesholi tystion agored i niwed mewn rhai achosion lle mae'r diffynnydd yn cynrychioli eu hunain. Byddai'r mesurau hyn yn parhau i fod yn berthnasol..
77. Byddwn yn ystyried unrhyw effeithiau y gall cyflwyno trothwy cymhwyster ariannol ei gael o ran oedi yn y llys, gan gynnwys drwy unrhyw adborth anffurfiol a ddarperir gan y farnwriaeth. Os bydd unrhyw effeithiau yn cael eu nodi yna byddwn yn edrych ar ffyrdd

y gallai'r materion a godwyd gael eu lliniaru. Bydd yr ystyriaeth hon o effeithiau yn sicrhau y gellir asesu unrhyw oedi o ganlyniad i gynnydd mewn diffynyddion sy'n gweithredu drostynt eu hunain.

78. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi gweithredu mewn ymateb i bryderon a godwyd ynglŷn â'r rhai sydd ag asedau ataliedig sylweddol yn derbyn cymorth cyfreithiol am ddim. Daeth y Llywodraeth â chynigion gerbron y deddfwyd arnynt gan y Senedd yn y Ddeddf Trosedd a Llysoedd 2013. Mae'r Ddeddf yn cynnwys pwerau i ddiwygio'r Ddeddf Elw Troseddau 2002 i adennill cyfraniadau cymorth cyfreithiol o asedau ataliedig mewn rhai amgylchiadau. Mae'r manylion sut y bydd hyn yn cael ei weithredu yn parhau i fod dan ystyriaeth.
79. Roedd nifer o ymatebwyr yn bryderus y byddai'r cynnig i ad-dalu diffynyddion dieuog ar gyfraddau cymorth cyfreithiol yn hytrach na chyfraddau preifat llawn neu resymol yn golygu cosb ariannol annheg. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir isod rydym yn ystyried ei bod yn iawn ad-dalu diffynyddion dieuog ar gyfraddau cymorth cyfreithiol.
80. Ers 1 Hydref 2012, nid yw diffynyddion yn Llys y Goron wedi gallu hawlio eu costau cyfreithiol preifat o Gronfeydd Canolog ar ryddfarn. Y rheswm am hyn yw bod gan bob diffynydd ar hyn o bryd fynediad at gymorth cyfreithiol ac felly ni fydd y wladwriaeth yn ad-dalu dewis i dalu'n breifat. Yn y llysoedd ynadon, mae gan y rhai nad ydynt yn gymwys i gymorth cyfreithiol oherwydd bod eu hincwm yn rhy uchel â'r hawl i gael ad-daliad ar ryddfarn ar raddfa cymorth cyfreithiol yn hytrach na chyfraddau preifat. Roedd nifer o resymau dros newid y gyfradd ad-dalu o gyfraddau preifat i gyfraddau cymorth cyfreithiol, gan gynnwys y canlynol:
- ni ystyrir ei fod yn iawn i'r trethdalwr wynebu costau sylweddol uwch ar gyfer diffynydd neu'r apelydd sy'n talu'n breifat nag yw am un sy'n derbyn cymorth cyfreithiol;
 - os yw unigolyn yn dewis cyfreithiwr preifat drud iawn, nid ydym yn credu y dylai'r trethdalwr eu hindemnio dim ond oherwydd fod yr unigolyn yn barod i dalu mwy;
 - mae arian a werir ar ddigolledu diffynyddion llwyddiannus ar gyfraddau preifat yn arian na fyddai ar gael i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol a ariennir yn gyhoeddus i'r rhai sydd fwyaf o'u hangen; a
 - mae capio costau cyfreithiol adenilladwy o Gronfeydd Canolog ar gyfraddau cymorth cyfreithiol yn gymorth i sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng taliadau cymorth cyfreithiol a thaliadau i ddiffynyddion dieuog o Gronfeydd Canolog. Rydym yn credu bod hyn yn deg i'r unigolyn ac yn deg i'r trethdalwr.
81. Ein cynnig yn yr ymgynghoriad oedd ailgyflwyno ad-daliad (ar gyfraddau cymorth cyfreithiol) i ddiffynyddion dieuog sy'n gwneud cais am gymorth cyfreithiol yn Llys y Goron o ganlyniad i'r trothwy, ond nad oes ganddynt bellach hawl i'w gael. Er y bydd hyn yn golygu cost i'r pwrs cyhoeddus credwn ei fod yn newid teg i'w wneud, o gofio y bydd angen i ddiffynyddion sy'n cael eu heithrio o gymorth cyfreithiol gan y trothwy dalu'n breifat. Felly, bydd diffynyddion anghymwys Llys y Goron yn cael eu trin ar yr un sail â'r rhai yn y llysoedd ynadon.
82. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried ei bod yn iawn nac yn angenrheidiol i fynd ymhellach ac ad-dalu ar gyfraddau preifat llawn neu resymol am y rhesymau a nodir uchod. Mae'r newidiadau i'r Cronfeydd Canolog wedi cael eu cymeradwyo gan y Senedd yn y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012.

83. O ystyried yr amgylchedd ariannol heriol parhaus, un o amcanion allweddol y rhaglen Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol yw sicrhau arbedion a rhaid i ni hefyd fod yn ymwybodol o'r risg o leihau arbedion a ddisgwylir o'r diwygiadau i'r Cronfeydd Canolog a weithredwyd ym mis Hydref 2012.
84. Cafodd y cynllun CCMT ei wella ymhellach yn 2013 trwy gryfhau'r sancsiynau posibl, ailasesu a'r drefn gasglu (gweler isod). Ni fyddai cyflwyno trothwy cymhwyster ariannol yn Llys y Goron yn effeithio ar y drefn cyfraniadau ar hyn o bryd, a fyddai'n aros yn ei lle ar gyfer y diffynyddion hynny sy'n gymwys am gymorth cyfreithiol ond yn destun i gyfraniad. Yng ngoleuni hyn, nid ydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol aros am asesiad o sut mae'r newidiadau CCMT yn gweithredu cyn rhoi'r trothwy £37,500 ar waith.
85. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried cynigion amgen a gyflwynwyd gan ymatebwyr, yn enwedig Cyngor y Bar a Chymdeithas y Bar Troseddol. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir isod nid ydym yn ystyried y rhain yn ddewisiadau amgen boddhaol.
86. Awgrymodd Cyngor y Bar mai ffordd arall o wneud arbedion fyddai gwneud y cynllun CCMT yn destun i fonitro a gorfodi mwy trylwyr, gyda'r sancsiwn posibl o ddiddymu cymorth cyfreithiol ar ganol achos. Fodd bynnag, mae gorfodi eisoes yn drylwyr, a byddai diddymu cymorth cyfreithiol ar ganol achos yn gallu arwain at aneffeithlonrwydd drwy newidiadau mewn cynrychiolaeth. Yn ogystal, gweithredwyd newidiadau i'r cynllun CCMT yn Ebrill 2013, ac mae'r cynllun ers hynny wedi cael ei gryfhau ymhellach gan weithredu darpariaethau'r Gorchymyn Cerbydau Modur ar 30 Gorffennaf. Mae'r pecyn o newidiadau yn cynnwys:
- Darparu tystiolaeth a sancsiynau ar gyfer methiant y diffynnydd i gydymffurfio â cheisiadau am dystiolaeth;
 - Unwaith y bydd atebolrwydd i Orchymyn Cyfraniad Incwm yn cael ei sefydlu, ystyried yr ystod o sbardunau a allai arwain at ailasesu'r atebolrwydd hwnnw; a
 - Darpariaethau yn ymwneud â chasglu a gorfodi taliadau o dan orchymyn cyfraniad, gan gynnwys gweithredu rheoliadau Gorchymyn Cerbydau Modur.
87. Gwnaeth Cymdeithas y Bar Troseddol (CBA) ddau awgrym. Yn gyntaf y byddai rhagdybiaeth y byddai cymorth cyfreithiol yn cael ei ddarparu petai'r costau preifat yn debygol o fod yn fwy na £5,000, yn amodol ar asesiad modd a chyfraniad posibl. Yn ail, awgrymwyd y dylid darparu cymorth cyfreithiol hyd at y Gwrandawriad Ple a Rheoli Achos.
88. Ni fyddai gan y cynnig cyntaf gan y CBA gostau gweinyddol sylweddol, ond byddai'n cael effaith gyfyngedig o ran lleihau nifer y diffynyddion cyfoethog, sydd mewn sefyllfa i dalu'n breifat am eu hamddiffyniad, a fyddai'n derbyn cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron. Felly ni fyddai'r amcan polisi o gyfyngu darpariaeth cymorth cyfreithiol i unigolion o'r fath yn cael ei gyflawni'n llawn. Byddai'r ail yn cyflwyno oedi posibl gan mai amser cyfyngedig a fyddai gan ddiffynyddion i gyfarwyddo'n breifat, a byddai cyfnod byrrach i ymgeiswyr roi tystiolaeth ategol (petai angen) ar gyfer ceisiadau, gan arwain at oedi posibl wrth brosesu. Byddai'r ddau gynnis hefyd yn golygu cost ychwanegol i'r gronfa cymorth cyfreithiol ar adeg pan fo'r Llywodraeth yn anelu at leihau ei wariant ar gymorth cyfreithiol.

Casgliad

89. Ar ôl ystyried a rhoi pwys dyladwy i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig fel y nodir yn y ddogfen ymgynghoriad a

chyflwyno trothwy cymhwyster ariannol lle na fyddai unrhyw ddiffynnydd gydag incwm gwario cartref o £37,500 neu fwy yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron, yn amodol ar adolygiad ar sail caledi i'r rhai sydd uwchlaw'r trothwy hwnnw ond sy'n dangos na allant mewn gwirionedd fforddio i dalu am eu hamddiffyniad eu hunain.

90. Bwriedir i hyn gael ei weithredu drwy ddiwygiadau i ddeddfwriaeth eilaidd yn gynnar yn 2014.

Cyflwyno prawf preswyllo

91. Roedd y papur ymgynghoriad yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil fodloni'r prawf preswyllo am gymorth cyfreithiol sifil a fyddai ar gael o dan gynllun Cymru a Lloegr. Byddai'r prawf fel y'i cynigiwyd yn cynnwys dwy ran:
- Byddai angen i'r unigolyn fod yn preswyllo'n gyfreithlon yn y DU, Dibynwledydd y Goron neu Dirioogaethau Tramor Prydain ar adeg gwneud cais am gymorth cyfreithiol sifil; a
 - Byddai angen i'r unigolyn fod wedi bod yn preswyllo'n gyfreithlon yn y DU, Dibynwledydd y Goron neu Dirioogaethau Tramor Prydain am gyfnod di-dor o 12 mis o leiaf ar unrhyw adeg yn y gorffennol.
92. Cynigwyd na fyddai'r prawf preswyllo yn berthnasol i ddau fath o unigolyn: aelodau presennol o luoedd arfog Ei Mawrhydi a'u teuluoedd agos, a cheiswyr lloches. Gofynnodd y papur ymgynghoriad:
- Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig ar gyfer cyfyngu cymorth cyfreithiol i'r rhai sydd â chysylltiad cryf gyda'r DU? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.**

Materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

93. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a roddodd sylwadau (ac yn benodol, y rhan fwyaf o ymarferwyr cymorth cyfreithiol sifil) yn gwrthwynebu cynnig y Llywodraeth. Roedd yr ymatebwyr yn arbennig o bryderus y byddai'r bwriad yn amharu'n annheg ar fynediad i lysoedd ac y byddai'n cael effaith sylweddol ar grwpiau sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, croesawodd nifer o ymatebwyr y cynnig a chytuno ei bod yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol i unigolyn fod â chysylltiad cryf â'r DU er mwyn derbyn cymorth cyfreithiol a ariennir gan y trethdalwr. Awgrymodd rhai o'r ymatebion y dylid ystyried cyfnod hwy o breswyl cyfreithlon.
94. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu' prawf yn dadlau bod cwmpas y cynllun cymorth cyfreithiol sifil dim ond yn ddiweddar wedi cael ei gyfyngu'n sylweddol drwy Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 ('LASPO'), ac y byddai'r prawf preswyllo i bob pwrpas yn dileu rhai categorïau o gyfraith o gwmpas y cynllun cymorth cyfreithiol sifil. Mynegwyd pryderon penodol am yr effaith ar grwpiau o bobl agored i niwed a mathau penodol o achos, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) dioddefwyr masnachu mewn pobl, dioddefwyr trais yn y cartref, dioddefwyr priodas dan orfod, achosion amddiffyn plant, plant sy'n gadael gofal, pobl ddigartref, y rhai gyda materion gallu meddyliol ac iechyd meddwl, ac achosion nad ydynt ar hyn o bryd yn denu prawf modd neu brawf teilyngdod o dan y cynllun cymorth cyfreithiol sifil. Dadleuodd llawer o ymatebion y dylid gwneud eithriadau pellach i'r prawf ar gyfer y grwpiau ac achosion hyn. Holodd rhai ymatebwyr ynghylch cysondeb rhwng y cynnig hwn a pholisïau a strategaethau ehangach y Llywodraeth i gefnogi'r grwpiau hyn.

Holodd rhai ymatebion ynghylch cydweddoldeb y prawf â pholisi'r Llywodraeth i hyrwyddo'r DU fel canolfan arbenigedd ar gyfer ymgyfreitha.

95. Un pryder penodol a godwyd gan ymatebwyr oedd ynghylch plant dan 12 mis oed na fyddai yn gallu cyrraedd ail ran y prawf arfaethedig. Dadleuodd ymatebion eraill y byddai'r prawf yn atal unigolion nad ydynt yn preswyllo'n gyfreithlon rhag herio a cheisio iawn am ddiodefaint a achosir trwy weithredoedd y wladwriaeth Brydeinig. Dadleuodd rhai ymatebion y byddai'r prawf arfaethedig yn gwrthdaro â'r terfynau amser tynnach arfaethedig ar gyfer dod ag achosion adolygiad barnwrol gerbron. Dadleuodd rhai ymatebion y byddai'r prawf yn atal pobl sy'n byw dramor rhag cael mynediad at gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol mewn cwestau i farwolaeth perthnasau yn y DU.
96. Holodd nifer o ymatebion ynghylch y datganiad ym mharagraff 3.54 o'r papur ymgynghoriad, y byddai'r pŵer presennol yn adran 10 o LASPO am i arian gael ei ddarparu o dan amgylchiadau eithriadol, lle bo achos wedi cael ei eithrio o gwmpas y cynllun cymorth cyfreithiol sifil, yn galluogi i arian gael ei ddarparu i bersonau sydd wedi'u heithrio gan y prawf. Nododd ymatebwyr hefyd y gwahanol broses ymgeisio a gofynion ar gyfer cyllid eithriadol, ac felly dadleuwyd na fyddai'r cynllun yn ddigonol mewn achosion brys.
97. Croesawodd llawer o ymatebwyr yr eithriad arfaethedig ar gyfer ceiswyr lloches. Fodd bynnag, cododd rhai ymatebion bryderon ynghylch sefyllfa ceiswyr lloches aflwyddiannus, lle o dan y cynnig, na fyddai'r unigolion hyn yn elwa o'r eithriad arfaethedig oni bai eu bod yn gwneud cais o'r newydd am loches. Dadleuodd yr ymatebwyr y byddai'r prawf preswyllo arfaethedig yn arwain at i rai pobl fethu â chael cymorth cyfreithiol i helpu wrth baratoi cais o'r newydd, ac yn methu cael cymorth cyfreithiol i gael adolygiad barnwrol o benderfyniad y Swyddfa Gartref i wrthod eu cyflwyniadau pellach gan fod hynny'n gyfystyr â chais newydd. Hefyd, mynegwyd pryderon gan ymatebwyr ynghylch y cynnig y byddai'n rhaid i geiswyr lloches llwyddiannus aros am 12 mis arall o ddyddiad eu cais llwyddiannus cyn y gallent fodloni ail ran y prawf preswyllo arfaethedig, gan ddadlau bod y gofyniad hwn yn annheg.
98. Croesawodd llawer o'r ymatebion yr eithriad arfaethedig i aelodau presennol lluoedd arfog Ei Mawrhydi a'u teuluoedd agos. Awgrymodd rhai o'r ymatebion y dylid cyflwyno eithriadau pellach ar gyfer cyn-filwyr a phersonau eraill sydd yn preswyllo fel arfer yn gyfreithlon, ond sy'n gweithio dramor.
99. Holodd yr ymatebwyr ynghylch tystiolaeth y Llywodraeth i gefnogi ei barn y byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd yn hyder y cyhoedd yn y cynllun cymorth cyfreithiol, gan ddadlau heb dystiolaeth i gefnogi'r datganiad hwn, na ellid cyfiawnhau'r anfanteision a fyddai'n dod yn sgil y prawf fel dull cymesur o ymdrin â phroblem. Roedd ymatebwyr yn dadlau nad oedd yr anallu i amcangyfrif y nifer o achosion a fyddai'n cael eu heffeithio gan y prawf arfaethedig (oherwydd nad yw'r LAA ar hyn o bryd yn cofnodi statws preswyllo'r cleient) yn caniatáu dadansoddiad digon cadarn o effaith y cynnig.
100. Holodd yr ymatebwyr p'un a fyddai'r prawf yn arwain at arbedion i'r cynllun cymorth cyfreithiol. Awgrymwyd y byddai costau eraill yn sgil gweithredu'r prawf fel y cynigiwyd, drwy gael nifer cynyddol o ymgyfreithwyr drostynt eu hunain (llawer ohonynt efallai yn methu siarad Saesneg). Awgrymwyd y byddai'r LAA yn wynebu costau gweinyddol cynyddol i sefydlu bod y prawf yn cael ei fodloni ac i ddelio â nifer cynyddol o geisiadau am gyllid eithriadol (ac ymgyfreitha posibl pe gwrthodid y cyllid eithriadol). Roeddynt hefyd yn awgrymu y byddai'r wladwriaeth yn wynebu costau uwch o ganlyniad i

fewnfudwyr yn aros yn y ddalffa am fwy o amser nag y byddent yn ei wneud fel arall pe baent wedi gallu cael mynediad at gymorth cyfreithiol sifil i herio'u dal yn y ddalffa.

101. Fel rhan o'r pryderon am y cynnydd posibl yn nifer yr ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch sefyllfa unigolion na fyddent yn bodloni'r prawf ac a oedd heb y gallu (o dan reolau'r llys) i gynrychioli eu hunain. Awgrymodd rhai o'r ymatebion y dylid sefydlu cronfa ar wahân i gefnogi ymgyfreithwyr drostynt eu hunain.
102. Dadleuodd llawer o ymatebwyr nad oedd y Llywodraeth wedi ystyried yn briodol yr effaith ar grwpiau o bobl agored i niwed, yn arbennig menywod, plant a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BAME). Roeddynt yn dadlau na roddwyd digon o ystyriaeth i natur a difrifoldeb yr effeithiau i'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig rhyw, hil ac oedran. Roeddynt hefyd yn dadlau nad oedd unrhyw ystyriaeth wedi ei rhoi i ddyletswyddau cadarnhaol y Llywodraeth i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn perthynas â'r cynnig hwn.
103. Holodd llawer o'r ymatebwyr ynghylch cydweddoldeb y cynnig gyda rhwymedigaethau cyfreithiol cartref, yr UE a rhyngwladol y Llywodraeth. Yn benodol, dadleuodd ymatebwyr y byddai'r cynnig yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail cenedligrwydd ac y byddai'n groes i gyfraith yr UE, cyfraith ECHR a chyfraith gwlad. Dadleuodd yr ymatebwyr hefyd y byddai bwriad y Llywodraeth i weithredu'r prawf drwy ddeddfwriaeth eilaidd yn anghyfreithlon, gan na fyddai LASPO yn darparu'r pwerau i weithredu'r prawf yn y ffordd honno.
104. Holodd llawer o'r ymatebion ynghylch paragraff 3.53 y papur ymgynghoriad a oedd yn dweud y byddai'r Llywodraeth yn parhau i ddarparu cymorth cyfreithiol lle bo angen i gydymffurfio â rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE a chyfraith rhyngwladol. Dadleuodd yr ymatebwyr na chafwyd digon o fanylion ynglŷn â sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni a mynegwyd pryderon penodol ynghylch achosion agored i niwed (megis pobl sy'n ceisio adfer plant a herwgipiwyd drwy Gonfensiwn yr Hague 1980) a'r oedi ychwanegol a fyddai'n cael ei greu pe bai gofyn i achosion o'r fath wneud cais am gyllid eithriadol.
105. Holodd ymatebion eraill ynghylch cyfreithlondeb y cynigion mewn perthynas â rhwymedigaethau rhyngwladol penodol, megis Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), Cyfarwydddeb yr UE ar ymdrin â masnachu mewn pobl (2011/36/EU) a Chonfensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl a'r Confensiwn Ffoaduriaid.
106. Dadleuodd yr ymatebwyr y byddai'r bwriad yn anghydnaws â Deddf Cydraddoldeb 2010 gan y byddai'n gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail hil/cenedligrwydd a rhywedd.
107. Yn olaf, mynegodd nifer fawr o ymatebion bryderon ynghylch y materion ymarferol a allai godi wrth ddefnyddio'r prawf.
108. Un pryder ymarferol allweddol a godwyd gan nifer o ymatebwyr oedd diffyg diffiniad clir o 'breswyllo cyfreithlon' a'r diffyg manylion yn y papur ymgynghoriad ynglŷn â'r mathau o dystiolaeth y byddai angen i hawlwyd ei darparu i fodloni'r prawf. Dadleuodd ymatebion nad yw'r breswylfa gyfreithlon yn fater syml, ac y byddai llawer o ddarparwyr heb arbenigedd mewn materion mewnffudo i gynnal y prawf arfaethedig. Er mwyn lliniaru'r effeithiau a/neu greu prawf symlach, dadleuodd rhai y dylai'r gofyniad am breswyllo blaenorol gael ei gwtogi i chwe mis neu dri mis, y dylai'r prawf fod yn seiliedig

ar bresenoldeb cyfreithlon, nid preswyllo cyfreithlon, neu y dylai feddu ar rif yswiriant gwladol fod yn ddigonol i fodloni'r prawf.

109. Holodd rhai ymatebion ynghylch y gofyniad am i 12 mis o breswyllo blaenorol fod yn barhaus, a'r effaith y byddai absenoldebau byr yn ei gael ar gymhwyster ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil o dan y prawf.
110. Mynegodd ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch y cynnig y dylai darparwyr gynnal y prawf, a'r baich ariannol y byddai hyn yn ei osod arnynt. Roedd rhai'n dadlau y dylai'r cyfrifoldeb am gynnal barhau i fod gyda'r LAA, nid y darparwyr, neu y dylai'r prawf preswyllo ddim ond fod yn berthnasol pan fo'r achos yn awgrymu ei fod yn briodol.
111. Dadleuodd nifer o ymatebion y byddai'r prawf yn cael effaith o eithrio rhai sydd wirioneddol yn breswylwyr cyfreithlon, ond sy'n methu â darparu'r dystiolaeth angenrheidiol. Mynegwyd pryderon arbennig ynghylch yr anhawster y gallai grwpiau agored i niwed penodol eu hwynebu wrth ddarparu tystiolaeth, megis pobl ddiartref, dioddefwyr trais yn y cartref a'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl. Dadleuodd rhai y dylid caniatáu datganiadau ardstio wedi'u llofnodi bod unigolyn serch hynny yn breswyllydd cyfreithlon, mewn amgylchiadau lle nad oes tystiolaeth ar gael.
112. Holodd yr ymatebwyr ynghylch yr oedi a chymhlethdod a allai godi o gynnal y prawf a'r anawsterau y gallai hyn eu creu i ddarparwyr sy'n delio ag achosion brys ychwanegol. Gofynnodd rhai ymatebwyr beth fyddai'n digwydd petaent yn cynnal y prawf, ond wedi hynny, gwelwyd nad oedd yr ymgeisydd yn preswyllo'n gyfreithlon wedi'r cwbl.

Ymateb y Llywodraeth

113. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Rydym yn dal i gredu y dylai unigolion mewn egwyddor fod â chysylltiad cryf â'r DU er mwyn elwa ar y cynllun cymorth cyfreithiol sifil. Fel gydag unrhyw wasanaeth cyhoeddus arall, rhaid i gymorth cyfreithiol fod yn deg â'r bobl sy'n ei ddefnyddio, ond hefyd yn deg â'r trethdalwr sy'n talu amdano. Mae'r Llywodraeth yn credu na ddylai'r rhai nad oes ganddynt gysylltiad cryf gael eu blaenoriaethu ar gyfer arian cyhoeddus yn yr un modd â'r rhai sydd â chysylltiad cryf. Rhaid inni sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu targedu'n briodol. Mae hyn bob amser yn gyfrifoldeb pwysig i'r Llywodraeth, ond hyd yn oed yn fwy felly ar adeg o gyfyngiadau ariannol.
114. Rydym hefyd yn credu y dylai'r gofyniad i fod yn breswyllydd cyfreithlon ar adeg gwneud cais am gymorth cyfreithiol sifil, ac wedi bod yn preswyllo'n gyfreithlon am 12 mis yn y gorffennol, yn ffordd deg a phriodol o ddangos cysylltiad cryf o'r fath. Nid ydym yn ystyried bod unrhyw un o'r awgrymiadau eraill a gyflwynwyd yn yr ymatebion (fel gofyniad am gyfnod byrrach o breswyllo cyfreithlon neu brawf yn seiliedig ar bresenoldeb cyfreithlon) yn dangos cysylltiad digon cryf â'r DU. Mae cyfnod o 12 mis o breswyllo cyfreithlon blaenorol yn dangos cysylltiad ystyrlon â'r DU. Mae prawf fel hwn yn anochel yn golygu gwneud dewis ar sut mae cysylltiad cryf yn cael ei ddangos orau. Rydym yn ystyried fod y prawf arfaethedig yn taro'r cydbwysedd cywir, cyfiawn a chymesur drwy ganolbwyntio ar gysylltiad y gorffennol a'r presennol â'r DU.
115. Mae'n bwysig nodi y byddai'r prawf preswyllo yn cael ei gyflwyno drwy ddiwygiad i gwmpas y cynllun cymorth cyfreithiol sifil fel y nodir yn Atodlen 1 LASPO. Felly, byddai unrhyw un sy'n cael ei eithrio o gymorth cyfreithiol sifil o ganlyniad i'r prawf preswyllo yn cael hawl i wneud cais am gyllid eithriadol dan y pŵer a nodir yn adran 10 LASPO (gan gynnwys ceisiadau am wasanaethau a ddisgrifir yn Rhan 1 Atodlen 1 LASPO y

byddai unigolyn yn cael ei eithrio ohono o ganlyniad i'r prawf preswyllo). Bydd hyn yn sicrhau y bydd cymorth cyfreithiol sifil yn parhau i gael ei ddarparu (yn amodol ar brofion teilyngdod a modd) lle byddai methiant i wneud hynny'n groes i hawliau'r ymgeisydd i gael cymorth cyfreithiol o dan Siarter Hawliau Dynol Ewrop neu gyfraith yr UE (neu, yng ngoleuni'r risg o doriad o'r fath, ei bod yn briodol darparu cymorth cyfreithiol).

116. Nid ydym yn derbyn dadleuon y byddai'r bwriad yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon. Rydym yn credu bod y penderfyniad polisi i gymhwyso prawf preswyllo yn gyfiawn ac yn gymesur. Yn ogystal, byddai unrhyw un sydd wedi'i eithrio gan y prawf preswyllo yn cael hawl i wneud cais am gyllid eithriadol. Nid ydym yn derbyn dadleuon y byddai'r prawf yn arwain at i'r Llywodraeth fetu â bodloni ei rhwymedigaethau cyfreithiol; fel y nodir yn y papur ymgynghoriad, byddem yn sicrhau y byddai cymorth cyfreithiol yn parhau i fod ar gael lle bo angen i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE neu'r gyfraith ryngwladol a nodir yn Atodlen 1 LASPO a bydd y ddeddfwriaeth eilaidd a fydd yn gweithredu'r prawf preswyllo yn sicrhau bod hyn yn digwydd. Felly, nid ydym yn credu y byddai'r cynnig yn torri rhwymedigaeth cyfraith ECHR, rhwymedigaeth cyfraith yr UE nac unrhyw rhwymedigaeth cyfraith ryngwladol sydd gan y DU.
117. Nid yw'r Llywodraeth yn derbyn dadleuon na allai'r prawf gael ei weithredu drwy ddeddfwriaeth eilaidd. Rydym o'r farn bod y pwerau angenrheidiol yn cael eu cynnwys o fewn LASPO.
118. Roeddem yn cydnabod yn y papur ymgynghoriad y byddai'n briodol mewn rhai amgylchiadau darparu ar gyfer eithriadau penodol i'r prawf preswyllo. Er enghraifft, gwnaethom gynnig eithriad ar gyfer ceiswyr lloches, oherwydd bregusrwydd penodol y grŵp hwn. Fel y nodir yn y papur ymgynghoriad, wrth geiswyr lloches rydym yn golygu unrhyw berson sy'n hawlio'r hawliau a ddisgrifir ym mharagraff 30 (1) o Ran 1 Atodlen 1 LASPO. Byddai person o'r fath yn parhau i allu cael cymorth cyfreithiol i helpu gwneud eu cais am loches, gan gynnwys paratoi a chyflwyno cais o'r newydd. Pan fo'r Swyddfa Gartref yn penderfynu nad yw eu cyflwyniadau pellach yn gyfystyr â hawliad newydd, byddai cymorth cyfreithiol yn parhau i fod ar gael mewn perthynas ag adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwnnw (yn amodol ar fodd a theilyngdod).
119. Rydym wedi ystyried pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynglŷn â'i gwneud yn ofynnol i unigolyn sydd yn llwyddiannus yn eu cais am loches orfod aros am 12 mis arall i gydymffurfio â'r prawf preswyllo ar gyfer unrhyw gais newydd am gymorth cyfreithiol sifil. Yng ngoleuni'r pryderon hyn, rydym felly'n bwriadu i'r cyfnod di-dor o 12 mis preswyl cyfreithlon sy'n ofynnol o dan ail ran y prawf, yn achos ceisiwr lloches sydd yn llwyddiannus yn eu cais am loches, ddechrau o'r dyddiad y maent yn cyflwyno eu cais am loches, yn hytrach na'r dyddiad pan fydd y cais am loches yn cael ei dderbyn. Fodd bynnag, fel y cynigiwyd yn flaenorol, lle mae ceisiwr lloches wedi bod yn aflwyddiannus yn eu cais am loches ac mae eu hawliau apelio wedi eu gwrthod, ni fyddent yn elwa mwyach o'r eithriad ceiswyr lloches i'r prawf preswyllo.
120. Rydym hefyd yn cynnig eithriad ar gyfer personél y lluoedd arfog oherwydd bod yr unigolion hyn yn gweithredu yn unol â'u dyletswyddau ac yn amddiffyn y DU, ac felly'n glir yn cynnal cysylltiad cryf â'r DU, hyd yn oed pan nad ydynt yn byw yn y DU.
121. Nid ydym yn cytuno y dylai'r eithriad arfaethedig ar gyfer aelodau presennol o luoedd arfog Ei Mawrhydi gael ei ymestyn i gyn-filwyr neu unrhyw un arall sy'n gweithio ac yn byw y tu allan i'r DU. Rydym yn cydnabod efallai fod gan gyn-filwyr gysylltiad cryf â'r

wlad, ond nid ydynt bellach yn gweithio'n unol â'u dyletswydd ac felly bydd ganddynt ddewis o ble maent yn byw. Yn yr un modd, mae gan y rhai sy'n gweithio ac yn byw y tu allan i'r DU ddewis o ran ble maent yn byw, ac felly nid ydym yn credu fod cyfiawnhad dros wneud eithriad i'r naill grŵp na'r llall. Fodd bynnag, rydym yn nodi mewn perthynas â'r ddau grŵp, fel uchod, os ydynt yn cael eu heithrio o gymorth cyfreithiol sifil o ganlyniad i'r prawf preswyllo, byddent â hawl i wneud cais am gyllid eithriadol o dan adran 10 LASPO.

122. Nid ydym yn cytuno y byddai'r cynnig yn atal pobl (p'un a ydynt yn byw dramor neu yn y DU) rhag derbyn cymorth cyfreithiol ar gyfer cynrychiolaeth mewn cwestau i farwolaeth perthnasau. Mae'r cyllid ar gyfer cynrychiolaeth mewn cwestau, lle bo angen, yn cael ei ddarparu drwy gynllun ariannu eithriadol o dan adran 10 LASPO ac felly ni fyddai'n amodol ar y prawf preswyllo. Rhoddir cymorth cyfreithiol cychwynnol ar gyfer unigolyn mewn perthynas â chwest o dan y cynllun cymorth cyfreithiol sifil cyffredinol, ac felly byddai'n amodol ar y prawf preswyllo. Fodd bynnag, fel y nodir ym mharagraff 115 uchod, byddai unrhyw un sy'n cael ei eithrio o gyngor cyfreithiol mewn perthynas â chwest o ganlyniad i'r prawf preswyllo â hawl i wneud cais am gyllid eithriadol o dan adran 10 LASPO.
123. Roedd gan rhai ymatebwyr bryderon y byddai'r prawf preswyllo yn arwain at gynydd yn y nifer o ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, ac y byddai hyn yn creu costau mewn rhannau eraill o'r system gyfiawnder. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn ei bod yn debygol y bydd cynnydd sylweddol yn y nifer o ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Os bydd unrhyw gynydd, nid ydym yn derbyn y byddai'n arwain at gostau ychwanegol o'r fath mewn rhannau eraill o'r system fel ei fod yn gorbwyso'r cyfiawnhad dros gyflwyno'r prawf preswyllo. Rydym wedi bod yn monitro effaith ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn dilyn cyflwyno'r diwygiadau gan LASPO a byddwn yn parhau i wneud hynny. Rydym wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain sy'n gyfrifol am hyn. Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi (GLITEM) a'r Swyddfa Farnwrol. Rydym hefyd wedi gwella'r cyfeirio at ffynonellau eraill o gyngor i'r rhai sydd wedi'u heithrio o dderbyn cymorth cyfreithiol sifil. Fel uchod, byddai unrhyw un sy'n cael ei eithrio o gymorth cyfreithiol sifil o ganlyniad i'r prawf preswyllo (gan gynnwys y rhai sydd heb allu i gynrychioli eu hunain o dan reolau'r llys) â hawl i wneud cais am gyllid eithriadol o dan adran 10 LASPO.
124. Felly, rydym yn ystyried bod y prawf preswyllo arfaethedig yn gyfreithlon, yn gyfiawn ac yn briodol, ac yn gyffredinol dylai fod yn berthnasol i'r materion a nodir yn Rhan 1 Atodlen 1 LASPO. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ymatebion rydym wedi penderfynu y byddai'n briodol addasu ein dull mewn rhai meysydd.
125. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, rydym wedi dod i'r casgliad bod amgylchiadau cyfyngedig pellach lle na fyddai angen i ymgeiswyr am gymorth cyfreithiol sifil ar faterion yn y gyfraith (fel y nodir yn Atodlen 1 LASPO) gwrdd â'r prawf preswyllo. Ni fydd y prawf yn berthnasol i'r categorïau canlynol o achos (sy'n fras yn ymwneud â rhyddid yr unigolyn, neu os yw'r unigolyn yn arbennig o agored i niwed neu os yw'r achos yn ymwneud ag amddiffyn plant):
- Achosion cadw (paragraff 5, 20, 25, 26 a 27 (a heriau i gyfreithlondeb cadw drwy adolygiad barnwrol o dan baragraff 19) o Ran 1 Atodlen 1 LASPO)
 - Dioddefwyr masnachu mewn pobl (paragraff 32 o Ran 1 Atodlen 1 LASPO), dioddefwyr trais yn y cartref a phriodas dan orfod (paragraffau 11, 12, 13, 16, 28 a 29 o Ran 1 Atodlen 1 LASPO);

- Achosion amddiffyn plant (paragraffau 1, 3⁴⁴, 9⁴⁵, 10, 15 a 23 o Ran 1 Atodlen 1 LASPO); a
 - Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig (paragraff 24 o Ran 1 Atodlen 1 LASPO).
126. Byddwn hefyd yn gwneud eithriadau cyfyngedig ar gyfer achosion adolygiad barnwrol penodol i unigolion barhau i gael cymorth cyfreithiol i adolygu ardystiadau barnwrol gan y Swyddfa Gartref o dan adrannau 94 a 96 o'r Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002.
127. Rydym hefyd yn cydnabod pryderon a godwyd ynglŷn ag effaith y prawf ar blant o dan 12 mis oed. Ein bwriad yw na fyddai angen iddynt fod wedi byw yn gyfreithlon yn y DU, Dibynwledydd y Goron neu Dirioogaethau Tramor Prydain am gyfnod di-dor o 12 mis o leiaf ar unrhyw adeg yn y gorffennol. Fodd bynnag, byddai angen iddynt gwrdd â rhan gyntaf y prawf arfaethedig, hynny yw byddai angen iddynt fod yn preswyllo'n gyfreithlon ar adeg gwneud y cais am gymorth cyfreithiol sifil.
128. Wrth ddefnyddio'r prawf preswyllo, ein bwriad yw y dylai "preswyllo'n gyfreithlon" gadw ei ystyr naturiol. Hynny yw bod gan yr unigolyn hawl i breswyllo'n gyfreithlon yn y DU a'u bod yn arfer yr hawl hwnnw, boed hynny ar gyfer gwaith, astudio, anheddiad neu unrhyw reswm arall. Bydd rhagor o fanylion am sut y bydd hyn yn cael ei ddangos at ddibenion y prawf yn cael ei ddisgrifio mewn is-ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd fel y bo'n briodol, fel bod y gofynion yn glir ac y bydd darparwyr yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Rydym yn parhau i gredu ei bod yn rhesymol disgwyl i ddarparwyr gynnal y prawf. Ein bwriad yw y bydd y prawf yn wrthrychol a heb fod yn rhy feichus i'w weinyddu. Lle caiff ei sefydlu nad yw unigolyn sydd wedi llwyddo yn y prawf mewn gwirionedd yn preswyllo'n gyfreithlon ar adeg gwneud y cais am gymorth cyfreithiol sifil, yna byddai'r cyllid cymorth cyfreithiol yn dod i ben. Ni fyddai darparwyr yn wynebu cosb na cholli arian pellach yn y sefyllfaoedd hyn, gan ragdybio eu bod wedi gweithredu yn unol â'u rhwymedigaethau cyfreithiol a chytundebol. Wrth gwrs, byddai'n ofynnol i ddarparwyr gadw at eu dyletswyddau cytundebol, cyfreithiol a phroffesiynol presennol wrth ddefnyddio'r prawf.
129. Wrth ddefnyddio'r prawf, rydym hefyd yn bwriadu y dylai "parhaus" gadw ei ystyr naturiol, fel na fyddai toriadau sylweddol mewn preswyllo yn bodloni'r gofyniad "parhaus". Fodd bynnag, rydym yn ystyried y byddai'n briodol ac yn gymesur caniatáu ar gyfer gwyliau byr mewn preswyllo. Rydym felly yn bwriadu na fyddai toriad o hyd at 30 diwrnod preswyl cyfreithlon (pa un a gymerir ef fel toriad sengl neu nifer o gyfnodau gwyliau byrrach) yn torri'r gofyniad i 12 mis o breswyllo blaenorol fod yn barhaus.
130. Rydym wedi ystyried p'un a ddylid mewn amgylchiadau eithriadol dderbyn datganiadau wedi'u llofnodi os na ellir darparu tystiolaeth, o bosibl oherwydd amgylchiadau penodol yr hawliwr. Rydym yn cydnabod bod llawer o ymatebwyr wedi mynegi pryderon am anawsterau y gallai rhai grwpiau eu hwynebu wrth ddarparu tystiolaeth. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y byddai caniatáu gwneud datganiadau wedi'u llofnodi yn gwanhau effeithiolrwydd y prawf fel modd dilys o atal y rhai nad ydynt yn breswylwyr rhag cael cymorth cyfreithiol sifil. Byddai system o ddatganiadau wedi'u llofnodi (hyd yn oed ond mewn amgylchiadau eithriadol) yn arwain at fwy o gostau gweinyddol i'r LAA. Ar y

⁴⁴ Ni fyddai eithriadau i'r prawf preswyllo ar gyfer achosion o dan baragraff 3 o Ran 1 Atodlen 1 LASPO ond yn berthnasol i achosion lle mae'r cam-drin wedi digwydd ar adeg pan oedd yr unigolyn yn blentyn.

⁴⁵ Ni fyddai eithriadau i'r prawf preswyllo ar gyfer achosion o dan baragraff 9 o Ran 1 Atodlen 1 LASPO ond yn berthnasol i achosion o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys mewn perthynas â phlant.

cyfan, rydym felly yn ystyried na ddylai datganiadau wedi'u llofnodi gael eu caniatáu. Fel y nodir uchod, bydd y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n cyflwyno'r prawf yn rhoi rhagor o fanylion am y mathau o dystiolaeth sy'n dderbyniol.

131. Rydym wedi cyhoeddi asesiad effaith diwygiedig a dadansoddiad cydraddoldeb sy'n ystyried ymhellach y dadleuon a godwyd ynghylch effaith y cynnig hwn. Rydym o'r farn bod y newidiadau pellach i'r prawf preswyllo a amlinellir uchod yn lliniaru'n sylweddol y pryderon a godwyd ynghylch effaith y prawf preswyllo ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Casgliad

132. Ar ôl ystyried a rhoi pwys dyladwy i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu symud ymlaen i gyflwyno prawf preswyllo mewn cymorth cyfreithiol sifil, fel mai dim ond y rhai sydd:
- yn preswyllo'n gyfreithlon yn y DU, Dibynwledydd y Goron neu Dirioogaethau Tramor Prydain ar adeg gwneud y cais am gymorth cyfreithiol sifil; ac
 - wedi preswyllo'n gyfreithlon yn y DU, Dibynwledydd y Goron neu Dirioogaethau Tramor Prydain am gyfnod di-dor o 12 mis o leiaf ar unrhyw adeg yn y gorffennol
- fydd yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol sifil. Ni fyddai angen i geiswyr lloches ac Aelodau presennol Lluedd Arfog Ei Mawrhydi a'u teuluoedd agos fodloni'r prawf.
133. Byddai'r addasiadau canlynol yn berthnasol:
- ni fydd yn ofynnol i blant o dan 12 mis fodloni'r gofyniad am gyfnod di-dor o 12 mis o leiaf o breswyllo cyfreithlon blaenorol;
 - ni fydd angen i ymgeiswyr ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil ar faterion penodol o gyfraith (fel y nodir ym mharagraff 125 a 126 uchod) fodloni'r prawf;
 - yn achos ceiswyr lloches llwyddiannus, bydd y cyfnod di-dor o 12 mis o breswyllo cyfreithlon sy'n ofynnol o dan ail ran y prawf yn dechrau o'r dyddiad y maent yn cyflwyno eu cais am loches, yn hytrach na'r dyddiad pan fydd y cais yn cael ei dderbyn; ac
 - ni fyddai toriad o hyd at 30 diwrnod preswyllo cyfreithlon (pa un a gymerir ef fel toriad sengl neu nifer o gyfnodau gwyliau byrrach) yn torri'r gofyniad i 12 mis o breswyllo blaenorol fod yn barhaus.
134. Bwriedir i'r diwygiad hwn gael ei gyflwyno, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, drwy ddeddfwriaeth eilaidd i ddod i rym yn gynnar yn 2014.

Talu am waith caniatâd mewn achosion adolygiad barnwrol

135. Roedd y papur ymgynghoriad yn cynnig mai dim ond os rhoddir caniatâd gan y llys y dylid talu i ddarparwyr am waith a wnaed ar gais am ganiatâd ar gyfer adolygiad barnwrol (gan gynnwys cais am ailystyried y cais mewn gwrandawriad, y gwrandawriad adnewyddu neu ganiatâd apêl ymlaen i'r Llys Apêl).
136. Gwnaethom gynnig y byddai treuliau rhesymol, megis ffioedd arbenigwyr a ffioedd llys, sy'n codi wrth baratoi'r cais am ganiatâd, yn parhau i gael eu talu, hyd yn oed os nad yw caniatâd yn cael ei roi gan y llys. Gofynnodd y papur ymgynghoriad:

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai darparwyr gael eu talu yn unig am y gwaith a wneir ar gais am adolygiad barnwrol, gan gynnwys dymuniad am ailystyried cais mewn gwrandawriad, y gwrandawriad adnewyddu, neu gais am anfon apêl ymlaen i Lys Apeliadau, os ceir caniatâd gan y Llys (ond y dylai treuliau rhesymol gael eu talu ar bob achlysur)? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Materion allweddol a godwyd

137. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a roddodd sylwadau (yn enwedig ymarferwyr cymorth cyfreithiol sifil) yn gwrthwynebu cynnig y Llywodraeth. Roedd yr ymatebwyr yn arbennig o bryderus y byddai'r cynnig yn lleihau'r mynediad at adolygiad barnwrol fel mecanwaith effeithiol ar gyfer herio penderfyniadau gan gyrrff cyhoeddus. Fodd bynnag, croesawodd nifer o ymatebwyr y cynnig a chytuno ei bod yn rhesymol disgwyl i ddarparwyr ystyried yn fwy gofalus deilyngdod achos adolygiad barnwrol cyn cyhoeddi achosion, ac i beidio â thalu am achosion nad oedd y llysoedd yn ystyried y gellid eu dadlau.
138. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn dadlau bod cymorth cyfreithiol ar gyfer adolygiad barnwrol yn cael ei gadw o fewn cwmpas y cynllun cymorth cyfreithiol sifil fel y nodir yn y LASPO, oherwydd pwysigrwydd galluogi mynediad cyhoeddus at ffurf o wneud iawn yn erbyn penderfyniadau gan gyrrff cyhoeddus sy'n effeithio arnynt. Roeddynt yn dadlau y byddai'r cynnig yn lleihau argaeledd adolygiad barnwrol i bob pwrpas, ac felly'n tanseilio rheolaeth y gyfraith a mynediad at gyfiawnder. Roeddynt hefyd yn dadlau y byddai'n effeithio ar gynaliadwyedd y farchnad gan y byddai darparwyr yn amharod i wneud y gwaith hwn, ac y byddai hyn yn cael effaith ar yr y Bar iau (sydd yn aml yn cael eu cyfarwyddo i lunio sail yr hawliad). Cododd rhai ymatebwyr faterion cyfreithiol o ran y cynnig, gan gynnwys mewn perthynas ag Erthygl 6 ECHR ac Erthygl 47 Siarter yr Undeb Ewropeaidd ar Hawliau Sylfaenol, a Chonfensiwn Aarhus ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Gwneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder mewn Materion Amgylcheddol.
139. Holodd rhai ymatebion p'un a oedd y cynnig yn angenrheidiol, gan ddadlau bod yr LAA eisoes yn defnyddio prawf teilyngdod i benderfynu a ddylid darparu arian cyhoeddus, ac y dylai hyn fod yn ddigon i atal achosion gwannach rhag derbyn cymorth cyfreithiol. Dadleuodd yr ymatebwyr nad oedd effaith y newidiadau diweddar a wnaed o dan LASPO a chael gwared ar allu darparwyr i gyllido hunan-grant ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol mewn argyfwng, eto yn eglur, ac na ddylid gwneud rhagor o newidiadau ar hyn o bryd.
140. Roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn dadlau na fyddai'n deg disgwyl i ddarparwyr asesu'n gywir y tebygolrwydd y byddai'r caniatâd yn cael ei roi cyn i gais gael ei gyhoeddi, gan fod canlyniadau hawliadau cyfraith gyhoeddus yn ffaith-benodol ac yn anodd eu rhagweld, ac efallai mai dim ond ar ôl cyhoeddi y bydd diffynyddion yn darparu tystiolaeth bwysig.
141. Dadleuodd ymatebwyr fod rhoi caniatâd yn ddangosydd anghywir, a bod y bwriad yn anghymesur yn enwedig o gofio, yn ogystal ag achosion gwannach, y byddai'n arwain at beidio talu cymorth cyfreithiol mewn achosion fel y rhai canlynol:
 - Achosion y gwrthodwyd caniatâd iddynt, ond lle y nododd y darparwr fudd sylweddol i'r cleient yn eu ffurflen i'r LAA; ac

- Achosion nad ydynt yn annheilwng ond lle mae achosion yn cael eu cyhoeddi a dim ond wedyn yn setlo (neu gael eu tynnu'n ôl) cyn penderfyniad llys am reswm da (e.e. y diffynnydd yn rhoi i'r hawlydd y rhyddhad y gofynnwyd amdano yn eu cais dim ond ar ôl i'r hawliad gael ei gyhoeddi; neu'r hawliad yn dod yn academiaidd oherwydd digwyddiad allanol neu roi ryddhad dros dro).
142. Holodd ymatebwyr hefyd p'un a fyddai'r cynnig yn arwain at beidio â thalu cymorth cyfreithiol mewn achosion brys sy'n osgoi'r Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Adolygiad Barnwrol (PAP) ond lle mae'r diffynnydd yn addef ar y funud olaf ac felly nid yw'r achos yn cael ei gyhoeddi.
 143. Dadleuodd ymatebwyr ymhellach y gellid bod angen gwneud cryn dipyn o waith i baratoi cais am ganiatâd, yn enwedig mewn achosion cymhleth.
 144. Dadleuodd ymatebwyr y byddai'n annheg peidio â thalu mewn achosion sy'n cyhoeddi ond nad ydynt yn cyrraedd y cyfnod penderfynu caniatâd ac na fyddai darparwyr yn gallu ysgwyddo'r baich hwn. Roeddynt yn dadlau y gall diffynyddion yn aml gynnig setlo ar y sail na ddylid gwneud unrhyw orchymyn costau. Dadleuodd yr ymatebwyr y byddai'r cynnig felly yn arwain at wrthdaro buddiannau rhwng darparwyr a chleientiaid mewn sefyllfaoedd o'r fath, gan y byddai darparwyr yn cael eu cymell i barhau i fynd â'r achos yn ei flaen at bwynt penderfyniad ar ganiatâd. Dadleuodd yr ymatebwyr y byddai'n anodd i ddarparwyr asesu'r tebygolrwydd y bydd y llys yn rhoi gorchymyn costau; ni fydd gorchymynion costau fel arfer yn cael eu gwneud gan y llysoedd ar setliad oni bai y gellir dangos yn glir y byddai'r hawlydd wedi llwyddo petai'r achos yn mynd yn ei flaen; ac mai anaml iawn y rhoddir gorchymynion costau o blaid yr hawliwr os yw caniatâd yn cael ei wrthod. Dadleuodd rhai ymatebwyr y byddai'r cynnig yn creu cymhelliant i ddarparwyr beidio â chymryd yr achosion cryfaf a oedd yn fwyaf tebygol o setlo. Ar gyfer achosion brys nad ydynt yn cyhoeddi, dadleuodd ymatebwyr na fyddai darparwyr yn gallu adennill y costau trwy gyfrwng setliad neu orchymyn costau.
 145. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y byddai'r bwriad yn amharu ar ddeinameg ehangach yr adolygiad barnwrol. Er nad oedd y cynnig yn awgrymu unrhyw newid mewn talu cymorth cyfreithiol ar gyfer camau cynnar achos, dadleuodd rhai ymatebion nad oedd y PAP yn effeithiol oni bai bod bygythiad credadwy o adolygiad barnwrol. Felly, roeddynt yn ystyried y byddai'r cynnig yn arwain at lai o achosion yn cael eu datrys drwy PAP, ar y sail na fyddai cymhelliad i ddiffynyddion setlo oherwydd gallent gredu y byddai'r darparwyr yn amharod i fynd â'r achos ymhellach.
 146. Nododd rhai ymatebion fod y llys ar hyn o bryd yn cymryd agwedd hyblyg a gallant ddefnyddio uwch brawf am ganiatâd, sef safon uwch na 'dadleuadwyedd'. Cafwyd dadleuon y byddai hyn yn gwneud rhoi caniatâd yn benderfynydd annheg o dalu, ac y gallai'r llysoedd fod yn amharod i ddefnyddio'r uwch brawf hwn yn y dyfodol, gan arwain at i fwy o achosion gael eu caniatáu, ond a fyddai yn y pen draw yn methu.
 147. Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch y ffigwr arbedion amcangyfrifedig ar gyfer y cynnig a nodir yn yr asesiad effaith. Roeddynt yn dadlau y byddai'r cynnig yn arwain at gostau pellach i'r llysoedd a chyrrff cyhoeddus o ganlyniad i fwy o achosion yn cael eu dilyn at y pwynt lle mae rhaid i'r barnwr ystyried y cais caniatâd, cynnydd mewn gwrandawiadau adnewyddu llafar, cynnydd mewn gorchymynion costau yn erbyn cyrrff cyhoeddus, mwy o ymgyfreitha lloeren lle nad yw costau'n cael eu cytuno, a chynnydd mewn ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Dadleuodd ymatebwyr y byddai gwrandawiadau caniatâd rholio i fyny yn y dyfodol yn cael eu gwahanu i ddau wrandawriad ar wahân, gan arwain at gostau ychwanegol i'r llysoedd. Petai

gwrandawiadau rholio i fyny yn parhau, dadleuodd ymatebion y byddai'n annheg ac yn anghymesur petai'r gwaith paratoi ar gyfer y cyfan o'r gwrandawriad rholio i fyny mewn perygl.

148. Dadleuodd llawer o'r ymatebion fod y data a ddarperir yn y papur ymgynghoriad yn anghyflawn ac nad oedd yn galluogi cyflwyno ymateb llawn iddo. Mynegwyd pryderon penodol ynghylch y diffyg gwybodaeth am achosion sy'n cyhoeddi ond sy'n cael eu setlo neu eu tynnu'n ôl cyn i'r llys wneud penderfyniad ar ganiatâd. Dadleuodd yr ymatebwyr nad oedd yn glir faint o achosion o'r fath oedd, a heb ddata cliriach, nid oedd yn bosibl ymateb yn llawn i'r cynnig ymgynghoriad. Dadleuodd rhai ymatebion nad oedd y data a gyflwynwyd yn darparu tystiolaeth o broblem ac yn arbennig o'i gymharu â data ar adolygiadau barnwrol yn eu cyfanrwydd, mae gan adolygiadau barnwrol sy'n derbyn cymorth cyfreithiol 'gyfradd llwyddiant' uwch nag achosion nad ydynt yn cael cymorth cyfreithiol a bod hyn yn awgrymu fod darparwyr eisoes yn asesu'n ofalus p'un ai i gyhoeddi achosion ac felly bod y cynnig yn ddiangen.
149. Mynegodd nifer o ymatebion bryderon ynghylch ba waith y byddai disgwyl i ddarparwyr ei wneud ar sail wrth gefn ac o dan ba fathau o wasanaeth fel canlyniad i'r cynnig. Gofynnodd rhai ymatebion a fyddai gwrandawiadau rhyddhad interim yn perfformio rhan o'r gwaith hwn.
150. Holodd rhai ymatebion ynghylch cywirdeb y gymhariaeth ym mharagraff 3.70 y papur ymgynghoriad gyda'r system bresennol ar gyfer apeliadau mewn fudo a lloches yr Uwch Dribiwnlys. Dadleuodd yr ymatebwyr yn yr achosion hynny fod y darparwyr yn fwy tebygol o fod wedi bod yn ymwneud â'r achos ar y cyfle cyntaf ac y byddai ganddynt dystiolaeth gliriach (a barn y Tribiwnlys Haen Gyntaf) i wneud penderfyniad ar deilyngdod yr achos a p'un a ddylent weithio ar sail wrth gefn. Nodwyd hefyd y byddai'r swm y gwaith a wneir i baratoi cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn llai.
151. Awgrymodd rhai ymatebion fel dewis arall mai dim ond yn achos ceisiadau caniatâd a gaiff eu hardystio gan y llysoedd fel rhai sydd yn 'Gyfan Gwbl Heb Deilyngdod' (TWM) y dylai'r Llywodraeth ystyried atal taliadau. Yn ogystal, awgrymwyd pan wneir cais am wrandawriad adnewyddu llafar a'i fod yn aflwyddiannus, yna na ddylid talu i'r darparwyr am gostau'r gwrandawriad hwnnw.
152. Dadleuodd llawer o ymatebion mai'r adolygiad barnwrol yn aml yw'r unig ffordd sydd ar gael i bobl sy'n agored i niwed herio penderfyniadau neu fethiannau cyrff cyhoeddus, ac y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith arbennig ar bobl anabl a'u gallu i gael mynediad at gyfiawnder. Roedd ymatebwyr yn dadlau y bydd y cynnig hwn (pan gaiff ei ystyried ochr yn ochr â'r prawf preswyllo arfaethedig a'r bwriad i symud cyllid o achosion â rhagolygon ffiniol o lwyddiant) yn ei gwneud yn anodd iawn i bobl â nodweddion gwarchoddedig wneud cais am gymorth cyfreithiol i herio penderfyniadau a wneir gan y wladwriaeth. Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am yr effaith ar y Bar iau a fyddai angen gwneud gwaith mewn risg a dadleuodd yr ymatebion y byddai'r cynnig hwn felly'n effeithio'n anghymesur ar BAME a bargyfreithwyr benywaidd.

Ymateb y Llywodraeth

153. Mae'r Llywodraeth yn parhau o'r farn na ddylid disgwyl i drethdalwyr dalu'r biliau cyfreithiol ar gyfer nifer sylweddol o achosion adolygiad barnwrol gwan na chaiff ganiatâd y llys i barhau gan eu bod yn methu'r prawf ar gyfer caniatâd mewn adolygiad barnwrol. Mae hyn yn gwbl gyson â'n dull gweithredu i ffocysu cymorth cyfreithiol ar

unigolion ac achosion sydd fwyaf ei angen. Yn achos adolygiad barnwrol, nid mater o gostau i'r gronfa cymorth cyfreithiol yn unig yw, ond mae hefyd yn golygu mwy o gostau i'r llysoedd wrth ystyried ceisiadau ac i awdurdodau cyhoeddus wrth amddiffyn achosion. Rhaid i gymorth cyfreithiol fod yn deg i'r bobl sy'n ei ddefnyddio, ond hefyd yn deg i'r trethdalwr sy'n talu amdano, ac mae angen inni sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n ofalus er mwyn ennyn hyder y cyhoedd yn y system.

154. Rydym yn cydnabod ac yn cytuno gydag ymatebwyr ei bod yn bwysig gwneud cymorth cyfreithiol ar gael i'r rhan fwyaf o achosion adolygiad barnwrol, er mwyn sicrhau mynediad i fecanwaith sy'n galluogi unigolion i herio penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus sy'n effeithio arnynt. Ond ni all ac ni ddylai mynediad at gyfiawnder fod yn gyfystyr â mynediad at gyllid trethdalwr, waeth beth fo cryfder yr achos. Mae cyfyngiadau ar fynediad at gyllid cyhoeddus ar sail teilyngdod yr achos yn gyffredin ac yn gyson â'r egwyddorion sy'n sail i fynediad i'r llys. Nid yw'r terfyn rydym wedi ei gynnig yn seiliedig ar lwyddiant neu fethiant y cais yn y pen draw, ond yn hytrach ar p'un a yw'r hawliad yn pasio'r trothwy caniatâd.
155. Mae'n gyfreithlon i'r Llywodraeth ffocysu adnoddau prin ar yr achosion sydd wir ei angen ac yn gyfreithlon defnyddio'r trothwy caniatâd fel prawf i'r diben hwnnw. Fel y nodir yn y papur ymgynghoriad, nid ydym yn ystyried bod y meini prawf teilyngdod presennol yn ddigonol ynddynt eu hunain i ddarparu rheolaeth briodol. Yn lle hynny, rydym yn ystyried mai system well a dilys yw un lle mae'r darparwr yn cymryd rhywfaint o risg ariannol mewn perthynas â'r cais, er mwyn rhoi mwy o gymhelliant i roi ystyriaeth ofalus i gryfder yr achos cyn gwneud cais am ganiatâd i gael adolygiad barnwrol.

Casgliad

156. Rydym wedi gwranddo'n ofalus ar farn yr ymatebwyr, fel y nodir uchod. Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd y gallai ein cynnig, fel y caiff ei nodi yn y papur ymgynghoriad, hefyd effeithio ar achosion teilwng sy'n cyhoeddi, ond nad ydynt yn cyrraedd pwynt penderfyniad y llys ar ganiatâd. Felly, rydym yn cynnig cyflwyno disgresiwn i ganiatáu i'r LAA dalu i ddarparwyr mewn rhai achosion sy'n terfynu cyn cael penderfyniad caniatâd. Rydym yn bwriadu ymgynghori ymhellach ar y cynnig pellach hwn a'r meini prawf a fyddai'n cael eu defnyddio i benderfynu p'un a ddylid gwneud taliad disgresiwn. Byddwn yn nodi rhagor o fanylion am y cynnig hwn cyn bo hir mewn papur ar wahân.

Prawf teilyngdod sifil - dileu cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion ffiniol

157. Roedd y papur ymgynghoriad yn cynnig na fyddai achos a aseswyd fel un â rhagolygon 'ffiniol' o lwyddiant yn gymwys ar gyfer cyllid cymorth cyfreithiol sifil. Gofynnwyd:

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai cymorth cyfreithiol gael ei ddiddymu ar gyfer pob achos sydd â siawns 'ffiniol' o lwyddo? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Materion allweddol a godwyd

158. Croesawodd nifer o ymatebwyr y cynnig a chytuno ei bod yn rhesymol cyfyngu cyllid cyhoeddus i achosion gyda rhagolygon cymedrol neu well o lwyddiant. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r rhai a roddodd sylwadau (yn enwedig ymarferwyr cymorth

cyfreithiol sifil) yn gwrthwynebu cynnig y Llywodraeth. Roedd yr ymatebwyr yn arbennig o bryderus bod yr eithriad presennol ar gyfer achosion ffiniol yn caniatáu i achosion pwysig ac ansicr barhau i gael eu cyllido, a thrwy hynny gynorthwyo i ddatblygu cyfraith achos. Gellir grwpio pryderon yr ymatebwyr i bum prifategori.

Data, Tystiolaeth a Chymesuredd

159. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn bod y data a thystiolaeth i gefnogi'r cais yn annigonol (nid lleiaf am nad oedd y data wedi ei dorri i lawr yn ôl categori achos). Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn bod y system bresennol yn gweithio fel y'i bwriadwyd ac felly nad oedd angen newid. Awgrymodd rhai ymatebwyr bod gallu barnwyr i wneud gorchmynion costau eisoes yn gweithredu fel anghymhelliad i ddarparwyr ddod ag achosion gwan gerbron. Roedd ymatebwyr hefyd yn cwestiynu p'un a oedd y cynigion yn gymesur. Roeddynt yn dadlau bod y swm rydym wedi amcangyfrif y byddwn yn ei arbed yn isel iawn (£1m) a bod yr effaith yn anghymesur, o'i gymharu â phwysigrwydd yr achosion yr effeithir arnynt.

Y Gallu i Wireddu Arbedion

160. Dadleuodd ymatebwyr na fyddai'r cynnig yn arbed arian ond gallai mewn gwirionedd arwain at gostau ychwanegol. Un o'r rhesymau a roddwyd dros yr honiad hwn yw pryder y bydd darparwyr yn mabwysiadu dull gofalus ac, os oes amheuaeth, yn ailasesu'r rhagolygon i 'gymedrol'. Roedd ymatebwyr yn meddwl hefyd y byddai cynnydd mewn achosion a gategoreiddwyd fel rhai 'aneglur' a chynnydd mewn apeliadau am benderfyniadau teilyngdod i Ddyfarnwyr Cyllid Annibynnol. Awgrymodd rhai ymatebwyr bod yr arbedion amcangyfrifedig yn debygol o fod yn anghywir gan nad ydynt yn cynnwys adennill costau *inter partes* mewn achosion llwyddiannus. Roedd pryderon ehangach hefyd ynghylch yr effeithiau cost i GLITEM os yw'r newid arfaethedig yn cynyddu'r nifer o ymglyfwrthwyr drostynt eu hunain. Yn olaf, roedd rhai ymatebwyr yn ystyried bod gan achosion ffiniol y potensial i osod cynseiliau defnyddiol – a thrwy hynny egluro'r gyfraith mewn meysydd anodd - ac mewn gwirionedd yn ei gwneud yn llai tebygol o fod angen arian cymorth cyfreithiol mewn achosion i'r dyfodol.

Dileu Cyllido ar gyfer Achosion Prawf Cyfraith Gyhoeddus Pwysig

161. Roedd ymatebwyr yn dadlau bod achosion gyda rhagolygon ffiniol yn aml wedi terfynu gyda phenderfyniadau pwysig a oedd yn egluro neu ddatblygu'r gyfraith a bod y rhan fwyaf o'r penderfyniadau ar apêl i'r Llys Apêl neu'r Goruchaf Lys bron yn sicr o fod â rhagolygon ffiniol. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd bod achosion newydd, prawf neu gymhleth, yn enwedig rhai'n ymwneud ag adolygiad barnwrol, yn llai tebygol o gael eu cyllido o dan y cynnig – gan gyfyngu ar fynediad i gyfiawnder a gwneud i fwrdd â gwiriad pwysig ar y weithrediaeth.
162. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysicach mewn gwirionedd, trwy ddiffiniad, gyllido achosion ffiniol na'r rhai sydd â gwell gobaith o lwyddiant (sydd yn aml yn cael eu setlo). Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried bod achosion ffiniol yn aml yn cyflwyno'r materion anoddaf. Nododd rhai ymatebwyr achosion lle'r oedd y rhagolygon yn ffiniol, ond fod yr achosion wedi cael eu hennill, a dyfarniadau'n cael eu gwneud sydd bellach yn bwysig yn eu meysydd perthnasol o'r gyfraith. Un enghraifft a roddwyd oedd dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos *Cyngor Dinas Manceinion v Pinnock*.

Yr Effaith ar Gategorïau Achos Penodol

163. Roedd gan ymatebwyr bryderon am effaith y cynnig ar achosion lloches - yn enwedig oherwydd y canlyniadau posibl (h.y. alltudio). Nododd rhai ymatebwyr nad yw

ymarferwyr mewnfudo yn defnyddio'r nifer cyfyngedig o gychwyn materion sydd ar gael iddynt o dan eu contractau ar achosion nad ydynt yn ystyried y gallant eu hennill - ond mae manylion y gyfraith mewnfudo (e.e. achosion yr effeithir arnynt gan "ganllawiau gwlad" yn yr Uwch Dribiwnlys) yn golygu bod achosion yn cael eu cymryd ymlaen y gwyddys fydd yn anodd i'w hennill. Dyna pam yr oeddynt yn ystyried argaeledd parhaus cyllido ar gyfer achosion ffiniol yn arbennig o bwysig yn y cyd-destun hwn.

164. Roedd gan ymatebwyr bryderon penodol mewn perthynas ag achosion meddiant tai - hefyd oherwydd y canlyniadau sylweddol i ymgeiswyr (h.y. posibilrwydd o golli cartref). Nododd un ymateb astudiaeth achos yn ymwneud â dioddefwr trais yn y cartref, lle'r oedd darpariaeth cymorth cyfreithiol yn caniatáu i achos meddiannu gael eu setlo heb i'r achos ddod i'r llys - roedd hwn yn achos ffiniol. Mynegodd un ymateb bryderon bod y Llywodraeth yn parhau i ychwanegu "cynhyrchion" newydd i'r gyfraith tai (gan nodi'r enghraifft "tenantiaeth hyblyg"). Dywedwyd bod hyn yn ei gwneud yn anodd rhagweld sut y bydd y llysoedd yn ymateb i achosion tai - a hefyd roeddynt yn dyfynnu achosion ffiniol a oedd wedi llwyddo.
165. Dadleuodd un ymateb fod barnwyr ar hyn o bryd yn defnyddio elfen o ddisgresiwn wrth ddyfarnu ar achosion lle mae gan yr ymgeisydd, er enghraifft, faterion iechyd meddwl sy'n achosi neu waethygu ymddygiad gwrthgymdeithasol (o'r fath fel eu bod yn debygol o gael eu troi allan o'u cartref) ac yn yr amgylchiadau hyn gallai'r troi allan gael ei oedi. Fodd bynnag, dadleuodd yr ymateb y gallai'r achosion hyn beidio â dod gerbron os yw'r rhagolygon o lwyddo yn ffiniol, ac nad ydynt o'r herwydd yn gymwys i gael eu cyllido.
166. Roedd pryder mwy cyfyngedig ymysg ymatebwyr am achosion trais yn y cartref, achosion teulu, achosion addysg, achosion cyfraith gyhoeddus, hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus ac unrhyw achosion yn ymwneud â phlant. Dadleuodd yr ymatebwyr y bydd llawer o'r rhain yn aml yn cynnwys materion hawliau dynol sylweddol.

Materion Eraill

167. Roedd rhai ymatebwyr yn ystyried bod y cais yn annhebygol o gydymffurfio ag Erthygl 6 ECHR⁴⁶. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ar gam ynglŷn â'r effaith ar achosion lle na ddefnyddir unrhyw ragolygon o brawf llwyddiant - er enghraifft, achosion iechyd meddwl. Mewn gwirionedd, nid oes unrhyw newid arfaethedig i argaeledd cyllid yn yr achosion hyn.⁴⁷

⁴⁶ Mae Erthygl 6 (1) ECHR yn nodi: "Wrth benderfynu eu hawliau a'u rhwymedigaethau sifil neu unrhyw gyhuddiad troseddol yn ei erbyn, mae gan bawb yr hawl i wrandawriad teg a chyhoeddus o fewn amser rhesymol gan dribiwnlys annibynnol a diduedd a sefydlwyd yn ôl y gyfraith [...]".

⁴⁷ O dan y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Teilyngdod) 2013 ("Rheoliadau Teilyngdod") y rhain yw:

- Achosion teulu penodol o dan reoliad 11 (9);
- Achosion iechyd meddwl o dan reoliad 51;
- Achosion plant Cyfraith Gyhoeddus o dan reoliad 65(2)(a);
- Achosion teulu penodol (pan fydd yr unigolyn wedi elwa o gymorth cyfreithiol yn y wlad tarddiad (o dan reoliad 65(2)(b));
- Achosion Rheoliadau Cynhaliadaeth UE o dan reoliad 70; a
- Achosion Confensiwn yr Hague 2007 (ynghylch adennill rhyngwladol cynhaliadaeth plant a mathau eraill o gynhaliadaeth deulu) o dan reoliad 71.

168. Hefyd roedd yn ymddangos fod rhai ymatebwyr yn cyfuno'r categorïau "ffiniol" ac "aneglur". Achosion 'aneglur' yw'r rhai lle nad yw'n bosibl categoreiddio'r achos fel un da iawn, da, canolig, ffiniol neu wael, ond lle mae ymchwiliadau adnabyddadwy y gellid eu gwneud, ac ar ôl hynny dylai fod yn bosibl gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhagolygon o lwyddiant. Nid yw ein cynnig yn effeithio ar gymorth cyfreithiol sifil ar gyfer achosion aneglur.
169. Mynegodd ymatebwyr bryderon penodol ynglŷn ag effaith y cynnig ar bobl anabl, plant, BAME a chleientiaid benywaidd. Awgrymodd ymatebwyr eraill y gallai cleientiaid sy'n byw bywydau anhrefnus gael eu heffeithio yn arbennig. Mynegodd un ymateb bryder penodol ynglŷn ag achosion parlys yr ymennydd a'r effeithiau ar blant anabl sy'n agored i niwed.
170. Hefyd awgrymodd rhai ymatebwyr gynigion eraill posibl.
- Awgrymodd un ymateb mai dewis amgen y dylid ei ystyried yw ail-greu pwyllgorau lleol o gyfreithwyr i gynghori'r LAA ynghylch p'un a ddylid cyllido achosion lle mae'r rhagolygon yn ffiniol. Roedd yn dadlau bod y pwyllgorau hyn wedi gweithio'n dda yn y gorffennol gan eu bod yn cynnwys cynghorwyr gwybodus, annibynnol a oedd yn cymryd golwg realistig a chyfrifol ynghylch pa achosion y dylid eu cyllido.
 - Cyflwynodd ymatebwyr eraill ddewisiadau pellach. Un awgrym amgen oedd cyfyngu ar, neu gapio, cyllid ar gyfer gwaith a wnaed yn y cyfnod cychwynnol, a fyddai wedyn yn destun i adolygiad gorfodol cyn i unrhyw gyllid pellach gael ei ganiatáu.
 - Awgrymodd un dewis amgen arall y dylid cadw cyllido ar gyfer achosion gyda rhagolygon ffiniol, lle mai'r rheswm dros yr asesiad hwnnw oedd cyfraith ddadleuol. Ar gyfer achosion gyda rhagolygon ffiniol, lle mai'r rheswm dros yr asesiad hwnnw oedd ffeithiau dadleuol neu dystiolaeth arbenigol, dylid dileu cyllido.
 - Awgrymodd ymatebwyr eraill y dylai'r Llywodraeth newid neu egluro'r hyn a olygir gan lwyddiant - er enghraifft, dylai fod yn fudd sylweddol, neu'n newid sy'n sylweddol fuddiol, yn hytrach na llwyddiant pendant ar y mater o sylwedd a benderfynwyd.

Ymateb y Llywodraeth

171. Mae'r Llywodraeth yn parhau i gredu ei bod yn egwyddor resymol, er mwyn gwarantu arian cyhoeddus drwy gymorth cyfreithiol sifil, y dylai'r achos fod ag o leiaf 50% o ragolygon o lwyddiant (h.y. cymedrol neu fwy). Ein barn sylfaenol yw bod y prawf teilyngdod yn anelu at ailadrodd y penderfyniadau y byddai rhywun sy'n talu'n breifat yn eu gwneud wrth benderfynu a ddylid dod ag achos, amddiffyn achos, neu barhau i fynd ar drywydd achos. Nid ydym yn credu y byddai person rhesymol sydd â modd cyfartalog yn dewis mynd i gyfraith mewn achosion sydd ond â rhagolygon ffiniol o lwyddiant, ac nid ydym yn credu ei bod yn deg disgwyl i drethdalwyr gyllido achosion o'r fath chwaith.

Data, Tystiolaeth a Chymesuredd

172. Nid yw'r Llywodraeth yn derbyn bod y data neu dystiolaeth a ddyfynnir i gefnogi'r cynnig yn ddiffygiol neu'n annigonol. Yn ein hasesiad effaith, amcangyfrifwyd y byddai tua 100 yn llai o achosion y flwyddyn yn cael eu cyllido petai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu ac y byddai'n arbed tua £1m y flwyddyn. Mae'r ffigyrau hynny'n seiliedig ar ddata gweinyddol achosion caeedig yr LAA, yn ymwneud â nifer yr achosion ffiniol a ariannwyd yn 2011/12 - a gafodd eu haddasu wedyn i gymryd i ystyriaeth gwmpas

gostyngol y cynllun cymorth cyfreithiol sifil fel y daeth LASPO i rym. Yna cafodd y ffigyrau hyn eu talgrynnu. Mae data ategol pellach, sy'n cynnwys dadansoddiad yn ôl categori o gyfraith, yn awr yn cael ei gynnwys yn yr asesiad effaith wedi'i ddiweddarau.

173. Nid ydym yn ystyried bod y polisi yn anghymesur, trwy'r arbedion a amcangyfrifir na nifer yr achosion yr effeithir arnynt. Yr hyn yr ydym yn ei wneud yw tynhau'r meini prawf teilyngdod sydd eisoes yn bodoli, er mwyn sicrhau nad yw arian cyhoeddus yn cael ei wario ar achosion nad ydynt â siawns o lwyddiant o 50% neu well.

Y Gallu i Wireddu Arbedion

174. O ran yr arbedion amcangyfrifedig, yr ydym eisoes wedi ystyried y ffactorau sy'n rheoli costau posibl a nodwyd gan ymatebwyr. Mae ein hasesiad effaith gwreiddiol yn cyfeirio at y posibilrwydd o fwy o adolygiadau LAA mewnol, y posibilrwydd o fwy o apeladau Dyfarnwr Cyllid Annibynnol, y potensial i rai unigolion geisio datrys eu hanghydfod heb gynrychiolaeth, y potensial i ddarparwyr newid eu hasesiad o'r rhagolygon o lwyddiant o ganlyniad i'r polisi, a'r potensial am gynnydd mewn grantiau cynrychiolaeth ymchwiliol. Nid ydym yn ystyried bod unrhyw un o'r materion eraill a godwyd gan ymatebwyr yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr amcangyfrifon a wnaed gennym.

Dileu Cyllido ar gyfer Achosion Prawf Cyfraith Gyhoeddus Pwysig

175. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o bryder gan ddarparwyr, a chyrrff cynrychioliadol, ynghylch effaith y cynigion hyn ar ddatblygiad cyfraith achos a'r potensial ar gyfer gosod cynseiliau. Yn ei hanfod, mae hyn yn ein dychwelyd at ddiben sylfaenol y cynnig hwn. Er yn y gorffennol ei bod yn bosibl fod achosion cymorth cyfreithiol wedi arwain at ddatblygu cyfraith achos, nid ydym yn ystyried bod y cyfiawnhad hwn yn ddigonol ynddo'i hun i roi cymorth cyfreithiol mewn achosion nad ydynt ag o leiaf 50% o ragolygon o lwyddo. Bellach, rydym yn ystyried ei bod yn amheus p'un a fyddai'r cynnig yn rhwystro na hyd yn oed yn llesteirio datblygiad cyfraith achosion. Er mwyn cyfiawnhau datblygiad o'r fath, mae'r dadleuon ar ei gyfer yn debygol o fod yn gryf.
176. Mae'n gyfreithlon i'r Llywodraeth ffocysu adnoddau cyfyngedig drwy ddefnyddio rhagolygon prawf llwyddiant. Lle bo achosion yn destun i feini prawf teilyngdod, yr egwyddor yr ydym wedi ymgynghori arni yw y dylai cyllid cyhoeddus cyfyngedig yn y dyfodol ond cael ei roi i'r achosion hynny sydd â rhagolygon o lwyddiant sy'n 50% neu well.

Yr Effaith ar Gategoriâu Achos Penodol

177. Rydym yn cydnabod bod pryder am yr effaith ar gategoriâu penodol o achosion. Rydym yn cydnabod bod gan achosion lloches ganlyniadau pwysig i'r unigolion dan sylw. Rydym hefyd yn cydnabod bod pryderon wedi'u mynegi ynghylch yr effaith ar achosion tai, o ystyried bod y rhain yn ymwneud â tho dros ben unigolyn. Gall categorïau eraill o achos ffiniol hefyd gynnwys effeithiau difrifol ar yr unigolyn dan sylw. Fodd bynnag, fel y nodir yn y papur ymgynghoriad, hyd yn oed mewn achosion pwysig o'r fath mae asesiad o deilyngdod, a rhaid gwneud penderfyniad ynghylch p'un a yw'r rhagolygon o lwyddiant yn cyfiawnhau darparu arian cyhoeddus. Mae hyn eisoes yn egwyddor yn y cynllun presennol - ac mae'n iawn y dylai cyllid cyhoeddus gael ei gyfeirio at achosion sydd ag o leiaf obaith cymedrol o lwyddiant.

Materion Eraill

178. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yn ofalus farn yr ymatebwyr am effeithiau cydraddoldeb y cynnig hwn. Yn ein datganiad cydraddoldeb yr ydym wedi cydnabod, ar

ôl dadansoddi data achosion caeedig 2011-12, bod cleientiaid anabl a'r rhai 25-64 oed yn cael eu gorgynrychioli o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, ac felly gallant gael eu heffeithio yn anghymesur. Ni allwn fod yn sicr a fydd unigolion BAME yn cael eu heffeithio yn anghymesur. Rydym yn parhau i gredu bod unrhyw effaith o'r fath yn cael ei gyfiawnhau o ystyried rhesymeg hanfodol y polisi. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn, yn seiliedig ar y dystiolaeth, bod y cynnig yn fwy tebygol o effeithio ar blant a chleientiaid benywaidd, ac o'r herwydd y byddai'n effaith fwy amlwg ar nodweddion gwarchoddedig oedran a rhyw.

179. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ystyried bod y pryderon am y diffyg tystiolaeth sydd ar gael ar adeg gwneud asesiad o ragolygon o lwyddiant yn anghywir. Mae'n werth ailadrodd nad oes unrhyw newid arfaethedig i argaeledd cyllid cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion sy'n cael eu categoreiddio fel rhai aneglur (h.y. lle mae ymchwiliadau adnabyddadwy y gellid ei wneud, ac ar ôl hynny dylai fod yn bosibl amcangyfrif y rhagolygon yn ddibynadwy). Rydym o'r farn bod y pryder a nodwyd mewn perthynas ag achosion parlys yr ymennydd, er enghraifft, yn cael ei liniaru gan argaeledd parhaus cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion aneglur.
180. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ystyried yn ofalus rai o'r opsiynau amgen a awgrymwyd gan ymatebwyr. Ni allwn gytuno â'r awgrym y dylid creu pwyllgor i gynghori'r LAA ynghylch a ddylid cyllido achosion ffiniol neu beidio. Byddai hyn yn arwain at i achosion ffiniol barhau i ddenu cyllid, yn groes i fwriad y polisi.
181. Nid ydym yn ystyried bod unrhyw un o'r syniadau amgen penodol eraill a awgrymir gan ymatebwyr yn angenrheidiol nac yn ymarferol. Eto nid yw'r awgrym o gyfyngiad neu gap ar achosion ffiniol am gyfnod penodol o amser, neu faint o waith, yn cyd-fynd â bwriad sylfaenol y polisi, gan ei fod yn dal i arwain at gyllido achosion ffiniol. Yn ogystal, nid yw'n ymddangos ei fod yn ystyried argaeledd parhaus cynrychiolaeth ymchwiliol ar gyfer achosion 'aneglur'.
182. Ni fyddai'r awgrym y dylid gwahaniaethau rhwng achosion â chyfraith ddadleuol a ffeithiau /tystiolaeth ddadleuol yn cyflawni bwriad y polisi. Yn ogystal, ni fyddai'n cyd-fynd â'r holl brofion eraill ar gyfer darparu cymorth cyfreithiol, a byddai'n anghyson gwahaniaethau fel hyn yma, heb adlewyrchu hynny mewn unrhyw le arall yn y cynllun sifil.
183. Mewn ymateb i'r awgrym fod y Llywodraeth yn egluro neu'n ailddiffinio'r hyn mae'n ei olygu wrth lwyddiant; mae'r diffiniad presennol yn cael ei nodi yn y rheoliadau presennol.⁴⁸ Mae "rhagolygon o lwyddiant" yn golygu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn cael canlyniad llwyddiannus yn y treial neu wrandawriad terfynol arall o'r gweithrediadau cyfreithiol y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Yn y cyd-destun hwn mae "canlyniad llwyddiannus" yn golygu'r canlyniad fyddai unigolyn rhesymol yn bwriadu ei gyflawni yn y gweithrediadau cyfreithiol o holl amgylchiadau'r achos. Rydym o'r farn bod y sefyllfa bresennol yn glir.
184. Am y rhesymau a nodir uchod, rydym o'r farn bod y bwriad i symud cyllid o achosion gyda rhagolygon ffiniol o lwyddiant yn gyfreithlon, yn gyfiawn ac yn briodol.

⁴⁸ Gweler Rheoliad 4 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Meini Prawf Teilyngdod) 2013 - ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2013/104/contents/made>

Casgliad

185. Ar ôl ystyried a rhoi pwys dyladwy i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu symud ymlaen i gael gwared â chymorth cyfreithiol ar gyfer yr holl achosion a aseswyd fel rhai sydd â rhagolygon 'ffiniol' o lwyddo.
186. Bwriedir i'r diwygiad hwn gael ei gyflwyno, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, drwy is-ddeddfwriaeth yn hwyr yn 2013.

Cyflwyno Cystadlu yn y Farchnad Cymorth Cyfreithiol Troseddol

187. Gofynnodd y papur ymgynghoriad am sylwadau ar fodel arfaethedig o dendro cystadleuol ar gyfer contractau cymorth cyfreithiol troseddol yng Nghymru a Lloegr (y cyfeirir ato yma fel "Model Ebrill 2013").
188. Mae'r canlynol yn grynodedb o ymatebion ac ymateb y Llywodraeth ar bob elfen o Fodel Ebrill 2013. Gweler y model addasedig yr ydym yn ceisio barn arno ym Mhennod 3.

Sylwadau cyffredinol ar Fodel Ebrill 2013

Materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

189. Roedd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Gyfraith, yn glir nad oeddynt yn gwrthwynebu'r egwyddor o gystadleuaeth mewn cymorth cyfreithiol troseddol, ac mewn gwirionedd roeddynt yn amlygu'r ffaith bod darparwyr presennol eisoes yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol (h.y. trwy waith cleient ei hun). Fodd bynnag, roeddynt yn gwrthwynebu cyflwyno pris tendro cystadleuol yn y cyd-destun hwn. Dadleuodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor y Bar, nad oeddynt yn teimlo bod yr achos dros dendro cystadleuol wedi cael eu gwneud.
190. Dadleuodd nifer sylweddol o ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar, cymdeithasau arbenigol, ymarferwyr unigol a phartïon eraill sydd â diddordeb na fyddai Model Ebrill 2013 yn cyflawni'r amcanion gofynnol. Dadleuodd Cymdeithas y Cyfreithwyr bod y model yn anymarferol i'w gyflawni yn yr amserlenni arfaethedig, ac er y gallai'r model arwain at arbedion mewn cymorth cyfreithiol yn y tymor byr, byddai'n costio mwy i'r system ehangach yn y tymor hwy o ganlyniad i greu mwy o aneffeithlonrwydd a chynyddu camweddau cyfiawnder.
191. Roedd Cyngor y Bar yn rhannu'r farn hon, a gwestiynodd y dystiolaeth ar gyfer cynigion yr ymgynghoriad. Roeddynt yn dweud y byddai'r cynigion yn cael effaith o drin cyfreithwyr i uno, rhesymoli ac ailstrwythuro, ac mewn gwirionedd nad yw'r angen am ddull o'r fath yn seiliedig ar unrhyw dystiolaeth. Dadleuodd Cyngor y Bar hefyd nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi dadl y Llywodraeth bod angen toriadau pellach i'r graddau a ddisgrifir, yn enwedig yng ngoleuni ffigyrau troseddau sy'n gostwng, a'r toriadau a wnaed eisoes.
192. Roedd y gwahanol gymdeithasau arbenigol (e.e. Cymdeithas Cyfreithwyr Llysoedd Troseddol Llundain (LCCSA), Cymdeithas Cyfreithwyr Cyfraith Droseddol (CLSA), Cymdeithas y Bar Troseddol (CBA)) yn cefnogi'r farn uchod a wnaed gan Gymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar, ac ychwanegwyd y sylwadau canlynol:
 - Nid yw'n wir gystadleuaeth gan mai dim ond creu cartelau y bydd yn ei wneud;

- Ni fydd cystadleuaeth prisiau'n sicrhau cynaliadwyedd a gwerth am arian;
 - Mae cystadleuaeth yn dileu unrhyw fwriad o warchod y Bar iau rhag y toriadau helaeth a osodwyd ar ffioedd adfocatiaeth gan y bydd cyfreithwyr yn defnyddio adfocadau mewnol;
 - Bydd cyfreithwyr yn symud i ffwrdd o waith amddiffyn a fydd yn cael effaith gyrfa drychinebus ar y farnwriaeth;
 - Mae hanes tendro cystadleuol yn dangos tuedd tuag at ansawdd is. Bydd yn creu rhwystr i newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn;
 - Mae Model Ebrill 2013 yn dibynnu ar farchnad resymegol. Nid yw'r farchnad ar hyn o bryd yn rhesymegol.
193. Nododd nifer o ymarferwyr unigol yr un pryderon a beirniadaeth o Fodel Ebrill 2013. Dadleuodd un ymarferydd o'r fath bod y ddadl economi cwmpas yn ddiffygiol, gan mai ychydig iawn o ddyblygu sydd yn y system bresennol.
194. Yn ei ymateb, rhoddodd y Bwrdd Gweithredol Barnwrol (JEB) sylwadau ar yr effaith y gallai cynnig o'r fath ei gael ar weithrediad Llys y Goron, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw ostyngiad mewn safonau ansawdd ar gyfer ymgyfreitha neu eiriolaeth.

Ymateb y Llywodraeth

195. Er bod nifer o ymatebwyr wedi mynegi rhai amheuon difrifol am yr egwyddor o dendro cystadleuol ar gyfer gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol ac am Fodel Ebrill 2013 yn gyffredinol, roedd rhai o'r un ymatebwyr yn derbyn nad oedd strwythur y farchnad bresennol yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Roeddynt yn nodi nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys gostyngiad yn y nifer o droseddau, effaith y gostyngiadau ffioedd cynharach, ac yn y pen draw, effaith gormod o ddarparwyr yn mynd ar ôl rhy ychydig o waith.
196. Mae'r Llywodraeth yn dal i gredu mai'r unig ffordd i sicrhau marchnad gynaliadwy yw galluogi darparwyr i archwilio cyfleoedd i atgyfnerthu, ac yn ei dro manteisio ar arbedion maint o farchnad lai tameidiog. Mae'r Llywodraeth yn parhau i gredu heb unrhyw ymyriad gan y Llywodraeth, na fydd y farchnad yn cymryd unrhyw gamau i atgyfnerthu. Gall unrhyw darfu wrth ddarparu gwasanaethau cyfreithiol arwain at anialwch cyngor. Ni fyddai hyn er budd cleientiaid, darparwyr na'r trethdalwr.
197. Mae'r Llywodraeth yn credu mai'r ffordd orau bosibl i gael marchnad gynaliadwy o'r fath yw trwy broses gaffael sy'n cynnwys elfen o gystadleuaeth. Fodd bynnag, ar ôl clywed barn gref gan ymatebwyr ac wedi cael trafodaethau hir gyda Chymdeithas y Gyfraith, yr ydym yn argyhoeddedig y byddai model o gystadleuaeth lle bo'r pris yn cael ei osod yn weinyddol yn dal i'n galluogi i gyflawni'r amcanion polisi cyffredinol o wasanaeth cynaliadwy, mwy effeithlon, ar gost y gall y trethdalwr ei fforddio.
198. Yng ngoleuni'r holl ymatebion a ystyriwyd, mae'r Llywodraeth yn derbyn y dylai rhai elfennau o Fodel Ebrill 2013 gael eu haddasu i gwrdd â rhai o'r pryderon a fynegwyd, gan sicrhau caffael cynaliadwy yn y dyfodol. Yn y paragraffau sy'n dilyn rydym yn ymdrin â phob un o'r elfennau hynny.

(i) Cwmpas y contract

199. Mae cwmpas arfaethedig y contract cymorth cyfreithiol troseddol ym Model Ebrill 2013 yn cynnwys yr holl wasanaethau ymglyfreitha⁴⁹ (ac eithrio Achosion Costus Iawn (Trosedd) (VHCCs)) a gwasanaethau eiriolaeth llysoedd ynadon.
200. Cynigodd yr ymgynghoriad y dylid eithrio gwasanaethau penodol (eiriolaeth Llys y Goron, achosion costau uchel iawn (VHCC) a gwasanaethau canolfannau galwadau) o gwmpas y contract, gan ailadrodd yr un cwmpas contract â sydd yn ei le ar hyn o bryd.
201. Dan y cwmpas arfaethedig, taliadau cydnabyddiaeth am wasanaethau penodol yn unig fyddai yn destun cystadlu o ran pris; byddai'r gwasanaethau eraill yn cael eu gosod yn weinyddol. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno gyda chwmpas arfaethedig y gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol fydd yn destun cystadlu? Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno bod cwtogi cyfraddau sy'n daledig am y dosbarthiadau gwaith hynny nad ydynt yn cystadlu o ran pris, sef 17.5%, yn rhesymol o ystyried yr angen i wneud arbedion pellach? Rhowch eich rhesymau.

Materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

202. Tra mynegodd mwyafrif yr ymatebwyr eu gwrthwynebiad i'r cynnig cyfan o ran tendro'n gystadleuol, fe wnaeth nifer o ymatebwyr roi sylw i'r cwestiwn penodol.
203. Dadl Cymdeithas y Cyfreithwyr oedd y byddai'r cynnig bod pob cwmni yn ymgymryd â gwaith adolygu ac apeliadau a chyfraith carchar yn amhriodol. Roedd nifer o ymatebwyr eraill yn cefnogi'r farn hon, gan gynnwys Cymdeithas Cyfreithwyr y Carchardai (APL). Dadl y Gymdeithas oedd nad yw'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i holl ddeiliaid y contract cymorth cyfreithiol newydd ddarparu'r holl wasanaethau, gan gynnwys gwaith adolygu a chyfraith carchar ac apeliadau, yn hyfyw. Roedd y Gymdeithas yn dadlau hefyd fod gwaith cyfraith carchar yn wahanol i fathau eraill o gymorth cyfreithiol troseddol a bod ansawdd yn cael ei sicrhau mewn modd gwahanol, gan ddefnyddio meini prawf ansawdd penodol. Gwnaethant awgrymu y bydd ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gyflwyno gwaith adolygu ac apeliadau a chyfraith carchar ar y cyd â'r holl wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol eraill yn golygu diwedd ar ddarparwyr arbenigol, gan arwain at ansawdd is.
204. O ran gwaith VHCC, roedd Cymdeithas Cyfreithwyr Cyfraith Trosedd (CLSA) yn dadlau y dylai ei bod yn ofynnol i gwmnïau sydd am ymgymryd â gwaith VHCC hefyd fod â chontract trosedd cyffredinol, gan atal yr arferiad o ddewis y gwaith VHCC mwy proffidiol. Awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod lle i wneud arbedion gryn dipyn yn fwy o waith VHCC, trwy edrych am ffordd wahanol o dalu cydnabyddiaeth am yr achosion hynny e.e. cynnwys y gwaith yn y cynllun ffioedd graddedig a diwygio'r cynllun hwnnw yn gyfatebol.
205. Roedd Cymdeithas y Cyfreithwyr hefyd yn dadlau y gellid gwneud arbedion sylweddol trwy fynd ati i drin gwaith a ddarperir ar hyn o bryd gan Ganolfan Alwadau Cyfreithwyr

⁴⁹ Mae'r cyfeiriadau at 'wasanaethau ymglyfreitha' trwy gydol y bennod hon yn golygu yr holl wasanaethau sydd ar hyn o bryd yng nghwmpas y Contract Trosedd Safonol 2010.

yr Amddiffyniad (DSCC) mewn modd gwahanol. Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi'r farn hon. Dadleuodd un ymarferwr unigol nad oes unrhyw dystiolaeth i ddangos fod y DSCC a Chontractau Amddiffyn Troseddol Uniongyrchol (CDD) yn darparu gwell gwerth am arian i'r trethdalwr; dadleuwyd eu bod yn dyblygu'r gwaith a wneir gan ddarparwyr, heb roi mynediad uniongyrchol rhwng y cleient a'r cyfreithiwr.

206. Roedd nifer o ymatebwyr am i'r Llywodraeth fynd ymhellach wrth gydgrynhoi gwaith amddiffyn troseddol ac awgrymodd o leiaf un cwmni o gyfreithwyr nad oedd unrhyw reswm anorchfygol pam y dylid eithrio eiriolaeth Llys y Goron o gwmpas y cystadlu.
207. O ran y cynnig i gwtogi 17.5% ar y cyfraddau a delir am y dosbarthiadau o waith hwnnw nad yw cystadlu o ran pris yn eu pennu, dywedodd Cyngor y Bar yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, y byddai'n gwneud rhai gwasanaethau yn "hyfyw aneconomaidd". Aethant ymhellach wrth ddadlau na chynigwyd unrhyw dystiolaeth yn yr ymgynghoriad o ran 'rhesymoldeb', neu fel arall o doriadau o 17.5%, naill ai mewn perthynas â dosbarthiadau gwaith a eithriwyd o'r cwmpas neu drwy osod uchafbris am waith dan dendro cystadleuol. Gwnaethant awgrymu y bydd cwmnïau yn mynd allan o fusnes, gan arwain at ddiffeithdiroedd cyngor sy'n debygol o ehangu.
208. Ar yr un pwynt, dadleuai Cymdeithas Cyfreithwyr Llysoedd Troseddol Llundain (LCCSA) na fyddai swm y gwaith yn cynnal y fath gwtogi ar gyfraddau. Roedd y Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol (LAPG) yn cefnogi'r farn hon, gan ddadlau fod y farchnad eisoes yn gystadleuol, gyda chwmnïau yn arloesi i oroesi.
209. Dadleuodd Cymdeithas y Bar Troseddol (CBA) yn ei ymateb y byddai'r fath gwtogi yn arwain at osod holl achosion Llys y Goron, ar wahân i VHCC, yn nwylo'r cynigydd isaf. Gwnaethant egluro y byddai darparu'r gwaith i'r Bar yn rhodd gan y darparwr yn llwyr, gan nad yw'r elfen eiriolaeth yn Llys y Goron yn unig yn rhan o'r contract, ac elw ariannol fydd unig gymhelliad y darparwr yn hytrach nag ansawdd. Roeddent yn awgrymu y byddai hyn yn arwain at y 'cam nesaf' naturiol, sef y byddai'r darparwyr yn dod â'r holl eiriolaeth yn fewnol ac felly yn dinistrio'r Bar yn llwyr fel proffesiwn atgyfeirio annibynnol.
210. Awgrymodd nifer o fargyfreithwyr, wrth ymateb i'r cwestiynau hyn, y byddent yn hytrach yn goddef cwtogi pellach mewn cyfraddau, er mwyn arbed y Bar rhag effaith tendro cystadleuol o ran prisiau. Roedd bargyfreithwyr a chyfreithwyr eraill yn anghytuno, gan ddadlau y byddai'n amhosib yn ariannol i ddigon o'r cyflenwyr presennol ddioddef y costau hyn, gan gydnabod bod y darparwyr ar hyn o bryd eisoes yn fregus.
211. Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn cwestiynu'r angen i gwtogi o gwbl, gan ddadlau bod yna leihad cyffredinol mewn achosion troseddol, a chan y gwnaed toriadau mawr eisoes (cwtogi tair gwaith yn olynol mewn cyfraddau Cynllun Ffioedd Graddedig Eiriolwyr (AGFS) o 2010 i 2012 yn dilyn yr ymgynghoriad Diwygiadau Ariannu Cymorth Cyfreithiol; a chwtogi pellach o ran cydnabyddiaeth cymorth cyfreithiol troseddol yn dilyn yr ymgynghoriad Diwygio Cymorth Cyfreithiol, felly nid oes angen cwtogi pellach ar y gyfradd..

Ymateb y Llywodraeth

212. Mae cwmpas y contract cymorth cyfreithiol troseddol a gynigiwyd ym Model Ebrill 2013 yn gyson gyda chwmpas cyfredol Contract Trosedd Safonol 2010 ac eithrio apeliadau ac adolygiadau a'r dull arfaethedig o fynd ati ynghylch gwasanaethau cyfraith carchardai.

213. Dyfarnwyd contractau DSCC a CDD trwy brosesau tendro cystadleuol ac maent yn cynnig math gwahanol o wasanaeth i'r hyn a gyflwynir dan gontractau cymorth cyfreithiol prif ffrwd cyfredol. Tra ein bod yn cydnabod y farn a fynegwyd o ran gwasanaethau y mae DSCC a CDD yn eu darparu dan gontract, mae'r ddau wasanaeth wedi cyflwyno arbedion i'r gronfa cymorth cyfreithiol ac felly nid yw'r Llywodraeth wedi'i darbwyllo y dylid cyflwyno'r gwasanaethau hynny naill ai fel rhan o ddarpariaeth prif ffrwd nac y byddai'r awgrym amgen ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn yn rhoi gwell gwerth am arian ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried y farn a fynegwyd gan ymatebwyr o ran ymchwilio i welliannau effeithlonrwydd pan fydd arnom angen comisiynu'r gwasanaethau hyn eto, unwaith y bydd y contractau cyfredol yn dod i ben.
214. Fe dderbyniwn, fodd bynnag, na ddylid gwahardd y darparwyr hynny sydd am wneud cais i gyflenwi gwasanaethau apeliadau ac adolygiadau a/neu gyfraith carchardai rhag gwneud hynny. Er nad yw'r Llywodraeth o reidrwydd wedi'i hargyhoeddi mai meysydd ymylol o'r gyfraith yw gwasanaethau apeliadau ac adolygiadau neu gyfraith carchardai (mae mwyafrif deiliaid Contract Trosedd Safonol 2010 yn darparu'r gwasanaethau hynny ar y cyd â'r holl wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol eraill), nid ydynt yn rhan o ddarpariaeth cymorth cyfreithiol troseddol prif ffrwd. Felly, cred y Llywodraeth y dylid strwythuro'r contract cymorth cyfreithiol troseddol yn y fath fodd i alluogi darparwyr i wneud cais i gyflwyno gwasanaethau apeliadau ac adolygiadau a/neu gyfraith carchardai yn unig.
215. Mae'r Llywodraeth yn dal at y farn y dylid eithrio eiriolaeth Lllys y Goron o gwmpas y contract. Rydym ni'n parhau i fod yn argyhoeddedig na fyddai mwyafrif y siambrau a/neu grwpiau o fargyfreithwyr mewn sefyllfa i wneud contract gyda'r Llywodraeth i ddarparu ystod lawn o wasanaethau ymglyfreitha ac eirioli, er bod nifer fach ohonynt yn rhai a fyddai'n gallu gwneud hynny. Nid ydym yn ei ystyried yn briodol i gynnwys y fath wasanaethau yng nghwmpas y contract ar hyn o bryd, gan fod tua 75% o wasanaethau eirioli Lllys y Goron yn cael eu darparu gan y Bar atgyfeirio annibynnol. Ystyriwn y byddai cyfreithwyr sy'n gweithredu yn unol â'u cod ymddygiad proffesiynol yn parhau i roi cyfarwyddyd i aelodau'r Bar atgyfeirio annibynnol lle mae'n briodol gwneud hynny, er y pryderon a fynegwyd gan Gyngor y Bar, y CBA a bargyfreithwyr unigol y byddai sefydliadu cyfreithwyr yn cadw mwy o waith eirioli yn fewnol. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd yn y papur ymgynghori na gyflwynodd y Llywodraeth unrhyw rwystrau a fyddai'n atal bargyfreithwyr a siambrau rhag ailstrwythuro er mwyn gwneud cais am gontract cymorth cyfreithiol troseddol, ond nad yw'r mwyafrif mewn sefyllfa i'w galluogi i wneud hynny hyd yma.
216. A dweud y gwir, mae'r newidiadau diweddar a gyflwynwyd gan Fwrdd Safonau'r Bar (BSB), a ddylai fod o gymorth i'r sawl sydd am wneud y fath newidiadau i'w galluogi i wneud cais uniongyrchol am gontractau cymorth cyfreithiol troseddol, yn ein calonogi. Cyhoeddodd BSB yn ddiweddar y byddai cyfyngiadau ymarfer niferus yn cael eu codi trwy eu Cod Ymddygiad newydd, lle bydd bargyfreithwyr hunangyflogedig yn gallu gwneud cais am estyniad i'w tystysgrif ymarfer i gynnal ymglyfreitha (boed wedi'i ariannu yn gyhoeddus neu'n breifat); ac mae rheolau blaenorol a oedd yn atal bargyfreithwyr hunangyflogedig rhag rhannu safle a ffurfio cysylltiadau gyda rhai nad ydynt yn fargyfreithwyr wedi'u codi, gan ganiatáu i fargyfreithwyr rannu risgiau ac adnoddau.
217. Mae'r Llywodraeth yn cadw at ei barn ynglŷn ag VHCC. Oherwydd y newid i ddiffiniad VHCC i ymglyfreithwyr a wnaed fis Hydref 2011, mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) yn dosbarthu 15 i 18 o achosion yn unig yn VHCC y flwyddyn. Oherwydd mai'n gymharol anaml y gwelir y fath achosion, hyd yr achosion, swm y dystiolaeth y mae'r

erlyniad yn ei chyflwyno, cymhlethdod y materion sy'n codi a'r angen i reoli'n ofalus y fath achosion o ran gwariant, rydym yn parhau yn argyhoeddedig y dylai VHCC barhau i weithredu dan gynllun contractio achosion unigol ar wahân, a'n bod yn parhau i wneud contractau gyda'r darparwyr hynny sy'n gallu dangos y profiad a'r sgiliau angenrheidiol i reoli'r fath achosion yn unig.

218. Felly mae'r model wedi'i addasu a gyflwynwyd ym Mhennod 3 y papur hwn yn cynnwys contract cymorth cyfreithiol troseddol sy'n eithrio eiriolaeth Llys y Goron, VHCC, gwasanaethau DSCC a gwasanaethau CDD.
219. O ran y cwtogi arfaethedig mewn ffioedd gweinyddu o 17.5%, fe wnaethom gydnabod ym mhapur ymgynghori Ebrill 2013 na fyddai'r sail darparwyr cyfredol yn gallu cynnal y fath ostyngiad mewn ffioedd heb rhyw fath o ailstrwythuro a chyfuno'r farchnad. Dangosodd rhai darparwyr y byddent yn gallu cynnal y fath ostyngiad mewn ffioedd pe bai ganddynt ddigon o waith er mwyn defnyddio arbedion maint. Mae Adroddiad Otterburn¹ a ddarparwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr yn ei hymateb yn cefnogi'r farn hon. Pe bai'n bosib cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol o'r un ansawdd ag ar hyn o bryd am 17.5% dan y pris cyfredol⁵⁰ cred y Llywodraeth ei bod yn hollol amlwg nad yw'r system bresennol yn cyflenwi'r gwerth gorau am arian i'r trethdalwr.
220. Byddai'r model wedi'i addasu a gyflwynwyd ym Mhennod 3 yn rhoi arbedion o'r un faint â model Ebrill 2013.

(ii) Hyd y contract

221. Hyd y contract arfaethedig ym Model Ebrill 2013 oedd tymor o dair blynedd, gyda'r opsiwn i ymestyn tymor y contract hyd at ddwy flynedd ychwanegol. Ar ben hynny, cynigiwyd y byddai'r contract newydd yn cynnwys cymal terfynu chwe mis heb fai ond byddai'n cael ei addasu i gynnwys darpariaeth ar gyfer iawndal mewn amgylchiadau penodol pe bai'r Arglwydd Ganghellor yn dod â'r contract i ben yn gynnar. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'r cynnig dan y model cystadlu bod tair blynedd, gyda'r posibilïad o ymestyn tymor y contract o hyd i ddwy flynedd ychwanegol a darpariaeth ar gyfer iawndal mewn amgylchiadau penodol am ddod â'r contract i ben yn gynnar, yn hyd priodol i gontract? Rhowch eich rhesymau.

Materion allweddol a godwyd yn yr ymgynghoriad

222. Eto, roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ailadrodd y gwrthwynebiadau i'r cynnig tendro cystadleuol yn gyfan. Fodd bynnag, fe wnaeth nifer o ymatebwyr roi sylw i'r cwestiwn penodol.
223. Fe wnaeth Cymdeithas y Cyfreithwyr ddwyn sylw at y ffaith y byddai'r model arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau fuddsoddi yn sylweddol er mwyn

⁵⁰ Trwy bris cyfredol, rydym yn golygu'r cyfraddau tâl hynny am ymglyfreitha (ar wahân i VHCC) a gwasanaethau eiriol llysoedd ynadon ar waith ar adeg cyhoeddi.

⁵¹ 17.5% fyddai'r cwtogiad llawn mewn ffioedd a fyddai'n cynnwys y cwtogiad arfaethedig o 8.75% ar draws yr un cyfraddau fis Chwefror 2014 (gweler paragraffau 3.52 i 3.55 Pennod 3 ar gwtogiad ffi interim arfaethedig).

ailstrwythuro i ddarparu gwasanaethau yn y modd sy'n ofynnol gan y Llywodraeth. Roeddent yn dadlau fod contract tair blynedd yn annigonol i adfer a sicrhau elw o'r buddsoddi hwnnw, sef barn y mae ymatebwyr eraill yn ei rhannu, gan gynnwys CLSA ac ymarferwyr unigol a esboniodd fod banciau yn annhebygol iawn i roi benthygiad i'r cwmnïau hynny sy'n gweithredu mewn cymorth cyfreithiol troseddol. Cyfeiriodd Cymdeithas y Cyfreithwyr at adroddiad Otterburn a ddaeth gyda'u ymateb, i gefnogi eu dadl. Dangosodd hwn fod contract tair blynedd dan y termau arfaethedig yn gwarantu gwneud colled yn rhan fwyaf y wlad.

224. Fodd bynnag, fe nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr nifer o beryglon mewn cyfnod contract hir, er enghraifft, gall newidiadau tebygol yn y system cyfiawnder troseddol, efallai o ganlyniad i lai o weithredu troseddol, beidio â bod yn hyfyw yn ariannol. Roeddent yn dadlau y gallai contract a wnaed fod yn amhosib i'w reoli ar ôl tair blynedd, hyd yn oed os nad oes sicrwydd y bydd gwaith. Eu hawgrym oedd na fyddai hyn yn arwain at system gynaliadwy na sefydlog i ddarparwyr. Cynigiodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y dylai cwmnïau gyflawni gwasanaethau ar sail contract heb dermau amser cyn belled â bod y farchnad yn bodoli a'u bod yn gallu bodloni'r trothwyon ansawdd priodol. Mynegwyd yr un farn yn ymateb Cyngor y Bar a oedd hefyd yn dadlau bod prinder tystiolaeth i roi sail i'r hyd contract arfaethedig.
225. Roedd rhai ymatebwyr unigol yn dadlau pe bai'r model tendro cystadleuol arfaethedig yn cael ei roi ar waith, dylid cyfyngu ar hyd y contract i hyd at dair blynedd. Dadleuodd ymatebwyr eraill y byddai pum mlynedd mewn gwirionedd yn rhoi mwy o sicrwydd ac yn caniatáu mwy o gynllunio. Roeddent yn dadlau nad yw tair blynedd yn ddigon i symud ymlaen gydag unrhyw sicrwydd.

Ymateb y Llywodraeth

226. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr angen i daro cydbwysedd rhwng darparu cymaint o sicrwydd â phosib i ddarparwyr er mwyn rhoi iddynt y cyfle mwyaf i fuddsoddi yn eu busnesau; a pheidio â chlymu darparwyr a'r Llywodraeth mewn contract am gyfnod rhy hir, yn enwedig yng ngoleuni barn nifer o ymatebwyr am natur anorfod ac effaith newid yn y system cyfiawnder troseddol.
227. Yng ngoleuni yr ymatebion hynny, rydym am ymestyn tymor y contract arfaethedig i bedair blynedd, gydag opsiwn i'r Llywodraeth ymestyn tymor y contract hyd at un flwyddyn ychwanegol (yn destun i hawliau dod â'r contract i ben yn gynnar).
228. Mae'r model addasedig a gyflwynwyd ym Mhennod 3 yn cynnig tymor contract pedair blynedd (gyda darpariaeth ar gyfer iawndal mewn amgylchiadau penodol ar gyfer pe bai'r Arglwydd Ganghellor yn dod â'r contract i ben yn gynnar, mewn perthynas â Gwaith Darparwr Dyletswydd yn unig).

(iii) Ardaloedd daeryddol ar gyfer caffael a chyflenwi gwasanaethau

229. Disgrifiodd Model Ebrill 2013 feysydd caffael wedi'u seilio ar 42 ardal y System Cyfiawnder Troseddol (CJS), lle byddai gwahoddiad i ymgeiswyr dendro i ddarparu ystod llawn y gwasanaethau yn yr ardal honno a byddai nifer o eithriadau.
230. At ddibenion tendro cystadleuol, cynigodd yr ymgynghoriad uno'r ardaloedd CJS canlynol: Swydd Warwick gyda Gorllewin Mercia; a Swydd Gaerloyw gydag Avon a

Gwlad yr Haf, i ffurfio dwy ardal caffael newydd. O ystyried swm y gwaith cymorth cyfreithiol troseddol a gyflawnir yn Llundain, nid ystyriwyd y byddai gofyn i ddarparwyr gwmpasu ardal CJS Llundain gyfan yn ddichonadwy. Felly, y cynnig a wnaed oedd torri Llundain yn dair ardal caffael, wedi'u halinio gyda ffiniau ardaloedd y mae Gwasanaeth Erllyn y Goron (CPS) yn eu defnyddio. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno gyda'r cynnig dan y model cystadlu, sef y dylid defnyddio ardaloedd presennol y system cyfiawnder troseddol ar gyfer ardaloedd caffael, gan eithrio Llundain, Swydd Warwick/Gorllewin Mercia ac Avon a Gwlad yr Haf/Swydd Gaerloyw? Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno â'r cynnig dan y model cystadlu i uno'r ardaloedd CJS a ganlyn: Swydd Warwick gyda Gorllewin Mercia; a Swydd Gaerloyw gydag Avon a Gwlad yr Haf, i ffurfio dwy ardal caffael newydd? Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno â'r cynnig dan y model cystadlu y dylid rhannu Llundain yn dair ardal caffael, wedi'u halinio gyda ffiniau ardaloedd y mae gwasanaeth Erllyn y Goron yn eu defnyddio? Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno â'r cynnig dan y model cystadlu y dylai fod gwaith y mae tendro amdano ar gael i'r sawl sydd wedi ennill contractau y bu tendro cystadleuol amdanynt yn yr ardaloedd caffael perthnasol yn unig? Rhowch eich rhesymau.

Materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

231. Daeth cryn feirniadaeth o'r ardaloedd caffael arfaethedig o du'r darparwyr a oedd yn gweithio mewn ardaloedd gwledig a threfol. Cyfeiriodd Cymdeithas y Cyfreithwyr yn ei hymateb at adroddiadau Otterburn a Deloitte⁵², gan ddatgan fod "y cynnig yn methu yn ei nod i gyflenwi gwasanaeth cynaliadwy lle bo'r buddion a grëwyd trwy gynnig mwy o swmp achosion yn cael eu negyddu gan ofyniad i gwmnïau gwmpasu ardal ddaearyddol eang." Maent yn dadlau bod angen i gwmnïau allu cynhyrchu swmp ychwanegol o waith o fewn eu marchnadoedd lleol presennol os ydynt am ymdopi â chostau sylweddol, ac mewn modd lle nad yw seilwaith ychwanegol sylweddol yn ofynnol.
232. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn mynd ymlaen i grynhoi y problemau lleol niferus y mae cwmnïau sy'n gweithredu yn yr ardaloedd yn dwyn sylw atynt. Ymhlith eu henghreiffiau mae:
- Y Gogledd Ddwyrain, lle mae ardal CJS Northumbria yn anferthol, gan redeg o Berwick ger y ffin â'r Alban, Hexham yn y Gorllewin ac i lawr cyn belled â Gateshead, Sunderland, Newcastle a North a South Tyneside. Maent yn awgrymu ei bod yn anodd iawn dychmygu y byddai unrhyw gwmni trosedd wedi paratoi'n ddigonol i ymdrin â'r ardal hon yn gyfan ar hyn o bryd; byddai gofyn ehangu sylweddol ac roeddent yn awgrymu bron yn bendant nad oedd hyn yn bosib yn yr amserlen arfaethedig, (gan gyfeirio at resymau y manylwyd arnynt mewn rhan arall o'u hymateb).

⁵² Mae'r ddau adroddiad ar gael ar wefan Cymdeithas y Cyfreithwyr yn: <http://www.lawsociety.org.uk/representation/policy-discussion/transforming-legal-aid-consultation-law-society-response/>

- Roeddent yn awgrymu y byddai pellteroedd maith o un ochr i ardal CJS Dyfnaint a Chernyw i'r llall yn ei gwneud yn anymarferol i gwmnïau weithredu i'r model arfaethedig, tra bo'r Solent yn creu ei phroblemau unigryw ei hunan i Swydd Hampshire ac Ynys Wyth.
233. Nodwyd y ddwy enghraifft hefyd gan ymarferwyr yn eu hymatebion unigol eu hunain. Dadl un darparwr yng Ngwlad yr Haf oedd er bod Bryste yn gytref fawr, mae gweddill y gwaith/cyflenwyr wedi'u gwasgaru dros ardal fawr wledig, gyda chyfathrebu gwael. Dadleuodd un ymatebwr o ymarferydd fod Swydd Hampshire yn enfawr, gyda chysylltiadau teithio gwledig heriol, sy'n ei gwneud yn arbennig o anodd darparu gwasanaethau ar Ynys Wyth.
 234. Barn debyg oedd gan ymarferwyr yn gweithio yn Nyfed-Powys a Northumberland . Yn ardaloedd CJS Cymru, tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen am wasanaethau i gleientiaid sy'n gwneud cais am y fath wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
 235. Gwnaeth nifer o ymatebwyr, yn eu plith Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cyngor y Bar a mwyafrif llethol y cymdeithasau arbenigol, ddwyn sylw at yr anawsterau y byddai cynnig o'r fath yn eu hachosi i gleientiaid a fyddai'n wynebu taith sylweddol i weld eu darparwr yn yr ardal newydd arfaethedig. Roeddent yn awgrymu ei bod yn annhebygol iawn y byddai darparwyr yn barod i deithio'r un pellteroedd i weld cleientiaid am y ffioedd penodedig isel arfaethedig. Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr, fel enghraifft, sut y byddai taith darparwr yn Swydd Caerloyw i gynrychioli cleient yn Llys Ynadon Yeovil yn daith gron o bedair awr.
 236. Cydnabu Cymdeithas y Cyfreithwyr y gallai darparu gwasanaethau drwy ddefnyddio asiantau neu uno posibl fod yn ateb ond pwysleisiwyd y byddai'n cymryd amser i nodi a sefydlu perthynas o'r fath a gallai proses o'r fath fod yn ddrud.
 237. Awgrymodd Cyngor y Bar y byddai'r ardaloedd caffael arfaethedig yn cyfyngu'n ddifrifol ar fynediad at gyfiawnder mewn rhannau o'r wlad - yn enwedig ar gyfer cleientiaid agored i niwed a chleientiaid sydd â nodwedd warchoddedig. Dadleuai'r CBA fod yr ardaloedd caffael arfaethedig yn cael eu gosod gan linellau daearyddol mympwyol sy'n methu cymryd i ystyriaeth y nifer fawr o newidynnau sy'n codi mewn cyfreitha troseddol, gan gynnwys: mynediad cleient, amrywiaeth, gwybodaeth leol a'r gost i'r system a achosir gan oedi. Cafodd pwysigrwydd cadw darparwyr sydd â gwybodaeth leol ei rannu gan nifer sylweddol o ymatebwyr a gyfeiriodd at bwysigrwydd y berthynas rhwng y gymuned, yr heddlu, yr erlyniad, yr amddiffyniad a'r farnwriaeth sydd wedi cymryd blynyddoedd i'w datblygu a'u cynnal.
 238. Cytunai'r Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol fod yr ardaloedd CJS yn fan cychwyn defnyddiol, ond awgrymai y dylai'r Llywodraeth ymgynghori gydag ymarferwyr yn fwy lleol i benderfynu ar rannu gwaith yn briodol. Aethant ymlaen i bwysleisio wrth ystyried unrhyw ffiniau daearyddol, mae'n bwysig cofio y gall fod angen cyngor arbenigol a gallai mynediad i gyngor o'r fath gael ei atal os bydd rheolau llym ar weithio ar draws ffiniau yn cael eu cymhwyso.
 239. Mewn ymateb i'r cynnig i alinio'r meysydd caffael yn Llundain gyda thair ardal weithredol CPS Llundain, nododd Cyngor y Bar fod CPS Llundain wedi cael ei ad-drefnu'n ddaearyddol ddim llai na thair gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf: yn 2008, 2011 a 2012. Mae'r rhaniad diweddar i dair ardal wedi bod ar waith ers mis Hydref 2012 yn unig ac nid yw wedi cael cyfle i 'ymsefydlu'.

240. Ychwanegodd Cymdeithas y Cyfreithwyr, o ran Llundain fod yr ardaloedd a gynigir ar hyn o bryd yn rhy fawr a bod gwerthoedd y contractau arfaethedig yn rhy fach. Mae Canol a Gorllewin Llundain yn cynnwys 9 canolfan llys a 76 o orsafoedd heddlu. Mae 38 o gontractau yng nghanol a Gorllewin Llundain yn cyfateb i £690,000 y flwyddyn y contract. Ar gyfer y rhan fwyaf o gwmnïau bydd hynny yn ostyngiad sylweddol mewn referniw, ond gyda mwy o lysoedd a gorsafoedd heddlu i ymdrin â hwy. Awgrymwyd y byddai hyn yn golygu y byddai'r rhan fwyaf o gwmnïau, ymhell o fod yn fwy effeithlon, yn dod yn llai effeithiol.
241. Datblygodd LCCSA ac LAPG y ddatl hon, gan nodi y byddai agwedd o'r fath yn cael effaith anghymesur ar gwmnïau BAME gan fod llawer ohonynt yn Llundain. Cyfeiriodd y CBA at y rhesymau canlynol pam na fyddai cynnig o'r fath yn gweithio:
- i. Anawsterau logistaidd - Byddai angen i ddarparwyr gwmpasu ardal fawr sy'n cynnwys gorsafoedd heddlu lluosog, llysoedd ynadon a Llys y Goron a gweithgaredd troseddol yn ymdrin ag ystod eang iawn o ddsbarthiadau a mathau o drosedd; a
 - ii. Arbenigo - Mae'r system bresennol wedi'i chynllunio i ddelio â'r amrywiaeth eang o achosion a'r mathau arbenigol o arbenigedd sydd eu hangen i'w cynnal. Nid yw'r cynllun arfaethedig yn gwneud hynny. Er enghraifft, mae yna ganolfannau llys dynodedig sy'n barnu achosion o dwyll, troseddau difrifol ac wedi'u cynllunio, achosion o lofruddiaeth a therfysgaeth, ni waeth lle y gallai'r diffynnydd fod wedi cael ei arestio. Yn enwedig yn Llundain efallai y bydd lleoliad y llys ymhell y tu allan i'r ardal gaffael ddynodedig.
242. Nid oedd yr holl ymatebwyr yn teimlo bod y meysydd caffael arfaethedig yn amhriodol. Teimlai rhai ar gyfer eu hardaloedd hwy fod y cynigion o faint digonol. Er enghraifft, awgrymodd nifer o ymatebwyr fod yr ardal caffael arfaethedig a nifer y contractau yn briodol ar gyfer yr ardaloedd lle maent yn gweithio. Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i alinio ardaloedd Llundain gyda ffiniau'r CPS. Yn wir gofynnodd nifer o ymatebwyr ai caffael ardal CJS Llundain i gyd fyddai'r ffordd orau i gyflawni gwir arbedion maint.
243. O ran y cynnig y dylai gwaith wedi'i dendro fod ar gael yn unig i'r rhai sydd wedi ennill contractau tendro cystadleuol o fewn yr ardaloedd caffael perthnasol, cytunai nifer o ymatebwyr unigol y byddai agwedd o'r fath yn angenrheidiol i sicrhau bod digon o nifer o achosion i ddarparwyr yn yr ardal honno. Ond roedd eraill yn teimlo bod gwneud hynny yn ddim ond ffordd arall o rwystro cystadleuaeth ac fe wnaethant gyflwyno eu gwrthwynebiad i'r egwyddor o dendro cystadleuol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Ymateb y llywodraeth

244. Mae'r llywodraeth yn parhau i gredu ar gyfer y rhan fwyaf o'r wlad bod defnyddio ardaloedd CJS i osod contractau ar gyfer gwaith ar ddyletswydd yn briodol. Ond yng ngoleuni'r ymatebion i'r elfen hon o fodel Ebrill 2013 a'r barnau a fynegwyd yn y digwyddiadau ymgynghori, rydym wedi cael ein darbwyllo bod angen gwneud rhai addasiadau.
245. Yr ydym yn derbyn hynny ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd mae rhai ardaloedd CJS, yn syml, yn rhy fawr yn ddaeryddol i ddarparwyr gynnwys y gwasgariad daeryddol o orsafoedd heddlu a llysoedd. Felly, mae'r llywodraeth wedi dod i'r

casgliad, er bod ardaloedd CJS yn briodol ar gyfer y rhan fwyaf o ardaloedd caffael, y byddem yn ceisio gwro oddi wrthynt lle mae amgylchiadau yn golygu bod angen gan ddibynnu yn hytrach ar Ardaloedd Cyfiawnder Lleol neu gyfuniadau o ardaloedd cynlluniau dyletswydd gorsafoedd heddlu.

246. Yn y model a addaswyd a gyflwynwyd ym Mhennod 3, rydym wedi edrych ar yr hyn yr ydym yn ystyried sy'n rhaniad priodol, ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd, ar gyfer yr ardaloedd CJS hynny lle mynegodd ymarferwyr bryder mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

(iv) Nifer y contractau

247. Cafodd Model Ebrill 2013 ei gynllunio i ddarparu llai o gontractau mwy o faint, gan greu cyfleoedd i ddarparwyr dyfu eu busnesau a buddsoddi yn yr ailstrwythuro y byddai ei angen i sicrhau arbedion maint a chwmpas. Yn eu tro, byddai darparwyr yn gallu darparu gwasanaeth mwy effeithlon am bris sy'n cynnig arbediad i'r cyhoedd ac sy'n gynaliadwy.

248. Cynigiwyd y byddai nifer y contractau sydd ar gael ym mhob ardal caffael yn seiliedig ar y pedwar ffactor allweddol canlynol:

- Cyflenwad digonol i ddelio â gwrthdaro buddiannau posibl
- Digon o achosion i ganiatáu i gynlluniau ffioedd sefydlog weithio
- Ystwythder yn y farchnad
- Caffael cynaliadwy

249. Roedd y papur ymgynghori yn cynnwys nifer enghreifftiol o gontractau yn seiliedig ar ddata cais LAA ar gyfer y cyfnod Hydref 2010 i Fedi 2011.

250. Cynigiwyd y dylai Gwasanaeth Amddiffyn y Cyhoedd (PDS) barhau i weithredu yn yr ardaloedd hynny lle mae'r PDS wedi ei sefydlu ar hyn o bryd, ond dyrennid un gyfran o'r gwaith iddo yn yr ardaloedd hynny yn awtomatig (h.y. ni fyddai'n ofynnol iddynt gystadlu). Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno â'r cynnig o dan y model cystadlu i amrywio nifer y contractau ym mhob ardal gaffael? Rhowch resymau.

Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno â'r ffactorau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i ystyriaeth ac a oes unrhyw ffactorau eraill y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar nifer priodol y contractau ym mhob ardal caffael o dan y model cystadlu? Rhowch resymau.

Materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

251. Cyflwynodd nifer sylweddol o ymatebwyr unwaith eto eu gwrthwynebiad cyffredinol i dendro cystadleuol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Ond rhoddodd rhai sylwadau ar y fethodoleg arfaethedig ar gyfer cyfrifo nifer y contractau o dan Fodel Ebrill 2013.
252. Dadleuodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y byddai meintiau'r contractau yn rhy anhyblyg ac ansicr i gwmnïau wneud arian ac yn wir roeddent yn credu mai ffordd fwy priodol o reoli gwasanaethau fyddai cynnig nifer anghyfyngedig o gontractau i'r rhai sy'n bodloni safonau penodol. Er eu bod yn cytuno y dylai nifer y contractau amrywio yn ôl ardal, mynegodd Cymdeithas y Cyfreithwyr rai pryderon ynghylch y mecanwaith ar gyfer

pennu niferoedd y contractau. Holent er enghraifft, pam y byddai De Llundain yn cael hanner nifer y contractau o gymharu â Gorllewin a Chanol Llundain, ac eto mae cyfanswm y gwaith yr un maint.

253. Fel gyda nifer o ddarparwyr eraill, pwysleisiodd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod y data a ddefnyddiwyd i gyfrifo nifer y contractau fesul ardal wedi dyddio a nodwyd y byddai gostyngiad yn y niferoedd hefyd yn chwarae rhan yn y cyfrifiadau pan fyddant yn cael eu diweddarau.
254. Ond roedd y dadansoddiad a ddarparwyd gan Otterburn oedd yn mynd gydag ymateb Cymdeithas y Gyfraith i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r achos bod cyfuno yn angenrheidiol, gan gytuno bod llai o gontractau mwy o faint yn angenrheidiol er mwyn i'r farchnad fod yn gynaliadwy.
255. Mynegodd yr LAPG a'r CLSA bryder y byddai model o'r fath yn creu oligopoli a fydd yn achosi problemau yn y rownd dendro nesaf. Roeddent yn awgrymu y gallai hefyd arwain at greu cartelau. Mynegodd y CBA bryder gwahanol wrth ystyried yr effaith ar sail y darparwyr presennol sef y byddai angen i ddarparwyr presennol gynyddu cynhwysedd o leiaf 250% i ymdopi â maint y contract a gynigid. Roeddent yn dadlau nad oes darparwr yn bodoli mewn llawer o ardaloedd a allai gyflawni meini prawf o'r fath.
256. I'r gwrthwyneb, dadleuai nifer o sefydliadau mawr (aelodau o Grŵp y Cwmnïau Mawr) y byddai'r gostyngiad arfaethedig yn niferoedd y contractau ynghyd â dileu dewis cleientiaid yn golygu y byddai'n rhaid i'r darparwyr hynny gyda chyfran fawr o'r farchnad ar hyn o bryd leihau eu busnesau.
257. Tynnodd y CBA sylw hefyd at yr effaith y byddai gostyngiad o'r fath ar niferoedd contractau yn ei gael ar newydd-ddyfodiaid sydd am ddod i mewn i'r farchnad mewn rowndiau dilynol o dendro am gontractau. Roeddent yn dadlau y byddai ymarferwyr profiadol yn diflannu'n raddol o'r farchnad, gan ei gwneud yn fwy ac yn fwy anodd i unrhyw sefydliad newydd ddod o hyd i'r gweithwyr proffesiynol medrus a phrofiadol y byddai arno eu hangen i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol. Mynegodd y Bwrdd Gweithrediaeth Barnwrol y pryder hwn hefyd fel y gwnaeth nifer o ymatebwyr oedd yn ymateb fel ymarferwyr unigol.
258. Dadleuai Cymdeithas y Cyfreithwyr hefyd y byddai ymarferwyr BAME sy'n tueddu i ymarfer mewn cwmnïau llai o dan anfantais o'u cymharu â darparwyr mwy oherwydd dull oedd yn dibynnu'n drwm ar lai o gontractau mwy o faint. Roeddent yn awgrymu mai'r unig ffordd y gallent oroesi fyddai drwy weithredu fel asiantau neu isgontractwyr ar gyfer y cwmnïau mwy a byddai'n ofynnol iddynt weithio ar lefelau tâl anghynaliadwy.
259. Mynegodd nifer o ymarferwyr unigol bryder ynghylch y nifer arfaethedig o gontractau i ddelio â gwrthdaro buddiannau rhwng cyd-ddiffnyddion. Rhoddwyd enghreifftiau ganddynt o sefyllfaoedd yn cynnwys achosion gyda mwy na phedwar o ddiffnyddion gyda phob un ohonynt yn rhoi'r bai ar un arall, ac felly byddai pedwar darparwr yn annigonol wrth reoli achos o'r fath. Roeddent yn dadlau nad oedd hyn yn anghyffredin.
260. Roedd ffactorau eraill a amlygwyd gan ddarparwyr i'w hystyried wrth benderfynu ar nifer y contractau yn cynnwys:
 - mynychder mathau penodol o achos yn cael eu dylanwadu gan arfer codi tâl asiantaethau erlyn;

- bydd contractau mewn ardal lle cyhuddir achosion o osgoi talu tollau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, neu lle mae adrannau Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol neu lysoedd twyll rhanbarthol yn cael eu lleoli yn dylanwadu ar y math o achos o fewn yr ardaloedd/ meysydd caffael hynny, gan gynhyrchu, er enghraifft, gyfran uwch o achosion aml-ddiffynnydd, trwm o ran dogfennau nad ydynt yn ffitio'n hawdd o fewn y model safonol;
 - mae angen gwneud trefniadau i ddarparu ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gael eu hethnigrwydd / diwylliant wedi'u cydnabod; a
 - gofynion daearyddol pob ardal caffael.
261. Cododd nifer o ymarferwyr a chyrff cynrychioliadol bryderon ynghylch effaith y gostyngiad arfaethedig yn niferoedd y contractau ar y ddarpariaeth Gymraeg. Roeddent yn honni y byddai cleientiaid a fyddai'n chwilio am wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn y Gymraeg yn ei chael yn fwy anodd os nad yn amhosibl dod o hyd i ddarpariaeth o'r fath o blith y nifer cyfyngedig o gontractwyr yn eu hardal. Soniwyd am adegau pan fyddai treialon troseddol cyfan yn cael eu cynnal yn y Gymraeg mewn rhai rhannau o Gymru. Awgryment y byddai'r cyfyngiad arfaethedig ar nifer y contractau (a'r cyfyngiadau daearyddol o ran yr ardaloedd/meysydd caffael arfaethedig a'r cynnig i ddileu dewis y cleient) hefyd yn cael effaith niweidiol ar ddarpariaeth o'r fath.
262. Er nad oedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ynghylch y bwriad i neilltuo gwaith ar gyfer y PDS, rhoddwyd sylwadau gan nifer o ymatebwyr, gan ddadlau nad oes sail ar gyfer diogelu'r PDS rhag tendro cystadleuol. Dadleuai Cymdeithas y Cyfreithwyr nad ydynt yn gweld unrhyw reswm pam y dylai cyfrannau o waith gael eu neilltuo ar gyfer y PDS. Holent os yw swyddfeydd PDS yn wirioneddol gost-effeithiol, beth sydd yna i'w hatal rhag gwneud cais am gontract ar yr un sail â phawb arall. Aeth Cymdeithas y Cyfreithwyr ymlaen i ddweud yn seiliedig ar yr adroddiad gwerthuso, 2007, '*Evaluation of the Public Defender Service in England and Wales*',⁵³ ei bod yn fwy costus i ddarparu gwasanaethau gan ddefnyddio PDS na phractis preifat. Roedd nifer o ymatebwyr o blith ymarferwyr unigol hefyd yn cwestiynu'r bwriad i glustnodi arian arfaethedig y PDS. Roedd rhai yn dadlau bod y cynnig yn wrth-gystadleuol a'i bod mewn gwirionedd yn ansicr awgrymu y byddai'r PDS yn gweithredu fel meincnod.

Ymateb y llywodraeth

263. Mae'r llywodraeth yn dal o'r farn mai niferoedd contractau amrywiol ar gyfer pob ardal caffael yw'r agwedd gywir o ran Gwaith Darparwr Dyletswydd. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y model a addaswyd a gyflwynir ym Mhennod 3 sy'n cael ei ddatblygu gan ystyried y ffactorau a nodir yno ..
264. Wrth ystyried effaith y cynigion ar y ddarpariaeth Gymraeg, rydym wedi cymryd i ystyriaeth y farn a fynegwyd gan ymatebwyr. Rydym yn hyderus y byddai'r model a addaswyd a nodir ym Mhennod 3 yn sicrhau'r un mynediad at wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn y Gymraeg lle mae eu hangen. Byddai'n ofynnol i ddarparwyr sy'n cyflwyno gwasanaethau yn y meysydd caffael hynny yng Nghymru sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch i, ac yn ddealladwy gan gleientiaid y mae Cymraeg yn

⁵³ (Lee Bridges, Ed Cape et al), 2007 - <http://www.law.cf.ac.uk/research/pubs/repository/1622.pdf>

ddewis iaith iddynt, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (fel y'i diwygiwyd) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

265. Mae'r Llywodraeth yn dal yn argyhoeddedig o bwysigrwydd cadw PDS am yr holl resymau a nodir ym mhapur ymgynghori Ebrill 2013. Nid yw'r PDS ar hyn o bryd yn ddarparwr wedi'i gontractio; mae'n gorff a sefydlwyd gennym ni i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol ar ran y Llywodraeth. Mae'r dadleuon a wnaed gan ymatebwyr bod y PDS yn ddrutach i'w redeg yn seiliedig ar adroddiad a gyhoeddwyd yn 2007. Ers hynny, mae'r PDS wedi gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd y mae'n darparu ei wasanaeth a'r ffordd y caiff ei strwythuro i sicrhau ei fod yn parhau'n gost-effeithiol.
266. O dan y model a addaswyd a nodir ym Mhennod 3, rydym yn bwriadu cynnal y PDS a neilltuo cyfran o'r gwaith yn yr ardaloedd y mae'r PDS wedi sefydlu ynddynt ar hyn o bryd.

(v) Mathau o ddarparwr

267. Disgrifiodd y papur ymgynghori yr hyblygrwydd o ddarparu gwasanaethau drwy ddefnyddio asiantau neu drwy ffurfio mentrau ar y cyd neu Strwythur Busnes Amgen gyda darparwyr eraill.
268. Nid oedd unrhyw gwestiwn penodol am yr elfen hon o Fodel Ebrill 2013. Ond dadleuai nifer o ymatebwyr na fyddai defnyddio asiantau neu is-gontractio yn gwneud elw a bod yr amser sydd ar gael i sefydlu unrhyw berthynas i greu menter ar y cyd ynddi yn annigonol.
269. Awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod yn rhaid i unrhyw fodel gymryd dulliau busnes mwy hyblyg i ystyriaeth. Er enghraifft, mae rhai o'r ardaloedd arfaethedig yn fawr - e.e. Dyfnaint a Chernyw, Gogledd Cymru - ac awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr nad yw'n ymarferol i gwmnïau gyfarwyddo asiantau ar ochr arall y sir i gynnal gwrandawiadau llys a mynychu gorsafoedd yr heddlu. Cynigiodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y dylai darparwyr fod yn gallu darparu'r gwasanaeth:
- drwy ddefnyddio asiantau ac ymgynghorwyr, nad ydynt o reidrwydd yn cael eu cyflogi gan y cwmni ar gontractau cyflogaeth traddodiadol;
 - trwy ddefnyddio swyddfeydd "rhithwir" neu safleoedd dros dro er mwyn ymdrin â'r ardal CJS cyfan;
 - drwy weithwyr cyflogedig sy'n gweithio o gartref, neu lle bynnag sydd fwyaf cyfleus i wasanaethu'r gorsafoedd heddlu a'r llysoedd yn yr ardal;
 - drwy ddefnyddio technoleg i gynghori cleientiaid, ee cynadledda fideo, Skype.
270. Gwnaeth Cymdeithas y Cyfreithwyr nifer o awgrymiadau ar gyfer unrhyw broses dendro yn y dyfodol. Roeddent yn cytuno y bydd yn ofynnol i ddarparwyr fod â lleoliad / swyddfa o ryw fath o fewn pob ardal CJS, neu mewn llawer o achosion mwy nag un swyddfa gan fod yr ardaloedd mor fawr. Roeddent yn awgrymu bod yn rhaid hefyd bod yn hyblyg ynghylch defnyddio asiantau, a ddylai fod yn gallu gweithio i fwy nag un deiliad contract mewn ardal System Cyfiawnder Troseddol, a dylid caniatáu i ddeiliaid contractau hefyd ddefnyddio deiliaid contractau eraill fel asiantau.

Ymateb y llywodraeth

271. Yn sgil y sylwadau mewn ymateb i'r elfen hon a hefyd mewn ymateb i'r amserlen weithredu a nodir yn y papur ymgynghori, rydym yn cynnig, fel rhan o'r model a addaswyd a nodir ym Mhennod 3, ymestyn yr amserlen ar gyfer y broses gaffael. Byddai hyn rydym yn credu yn rhoi mwy o amser i ymgeiswyr posibl archwilio cyfleoedd, megis sefydlu neu addasu strwythur busnes sy'n defnyddio asiantau; neu sefydlu menter ar y cyd. Gallai un ymagwedd fod yn fwy deniadol i rai darparwyr wrth ystyried proffidioldeb a ffactorau eraill; gallai eraill gymryd ymagwedd wahanol. Rydym o'r farn bod rhaid i unrhyw gynllun cymorth cyfreithiol troseddol newydd gynnig mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr o ran strwythuro eu busnes na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd.

(vi) Gwerth y contract

272. Disgrifiodd Model Ebrill 2013 ddyrannu cyfran gyfartal o faint y gwaith sy'n ymwneud â phresenoldeb yng ngorsafedd yr heddlu yn yr ardal caffael benodedig dros oes y contract. Byddai cymorth cyfreithiol ar gyfer yr holl waith dilynol (h.y. achosion troseddol dilynol yn y llys ynadon a/neu Lys y Goron) yn hygyrch gan y darparwr a ddyrannwyd. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 16: A ydych yn cytuno â'r cynnig o dan y model cystadleuaeth y byddai gwaith yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng darparwyr ym mhob ardal gaffael? Rhowch resymau.

Materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

273. Er bod rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i rannu gwaith yn gyfartal rhwng darparwyr ym mhob ardal caffael, mynegodd y mwyafrif anghytundeb cyffredinol. Mynegodd ymatebwyr nifer o bryderon ynghylch yr anhawster posibl o sicrhau cyfran gyfartal o waith presenoldeb yng ngorsafedd yr heddlu yn ymarferol, yn ogystal ag effaith bosibl y cynnig ar gystadleuaeth, cynaliadwyedd y darparwr, twf darparwr, ac ansawdd y gwasanaeth.
274. Yn ei ymateb, awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr efallai na fydd y cynnig yn sicrhau cyfran gyfartal o waith i ddarparwyr yn ymarferol. Roeddent yn pryderu nad oedd pob achos unigol yn gyfartal - mae angen symiau gwahanol o waith yn dibynnu ar p'un a yw'n cael ei drin yn y pen draw yng ngorsaf yr heddlu, neu yn cael ei symud ymlaen i llys ynadon neu Lys y Goron. Roeddent hefyd yn egluro y gallai ffactorau eraill fel lleoliad gorsaf heddlu effeithio ar y math o achosion oedd ar gael i ddarparwyr yn yr ardal honno. Rhoddwyd enghraifft o orsafoedd heddlu ger porthladd neu faes awyr o bosibl yn cael mwy o achosion yn ymwneud â smyglo cyffuriau na gorsafedd heddlu mewn mannau eraill yn ardal y CJS neu orsafoedd heddlu mewn ardal arall.
275. Ystyriai Cyngor y Bar, cymdeithasau arbenigol a rhai ymarferwyr unigol fod y cynnig yn wrth-gystadleuol, ac nad oedd yn darparu unrhyw gymhellant i unrhyw ddarparwr dyfu ei fusnes. Awgrymodd yr LAPG na fyddai'n darparu digon o waith i gwmnïau mawr a gormod o waith i rai bach. Eglurodd un cwmni o gyfreithwyr y byddai'r cwmnïau hynny a oedd wedi gweithio'n galed i adeiladu eu sail cleientiaid eu hunain ac ennill cyfran fawr o'r farchnad yn cael eu cosbi, ac y byddai'r cynnig yn rhwystro twf.
276. Beirniadodd yr ymatebwyr y cynnig am ymddangos fel pe bai'n anwybyddu pwysigrwydd ansawdd mewn gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol. Gofynnodd

bargyfreithiwr unigol pa gymhelliant fyddai i ddarparwyr gynnal gwasanaeth o ansawdd uchel os sicrhed y byddai cyfran gyfartal o'r gwaith ar eu cyfer, mae'n debyg heb unrhyw ystyriaeth i ansawdd eu gwasanaeth.

277. Mynegodd ymatebwyr bryder sylweddol hefyd am ddyfodol cyffredinol a chynaliadwyedd y farchnad cymorth cyfreithiol troseddol. Teimlai darparwyr presennol y byddent yn wynebu'r posibilrwydd o lai o waith ar gyfraddau gostyngol. Gwelai Cymdeithas y Cyfreithwyr y cynnig fel 'rysâit ar gyfer marweiddio'r farchnad, yn hytrach na marchnad gynaliadwy fywiog', gan adlewyrchu barn un cyfreithiwr, a oedd yn teimlo y byddai'r cynnig yn arwain at farchnad homogenaidd. Er mwyn helpu darparwyr newydd oedd yn mynd i mewn i'r farchnad, awgrymai CLSA fod angen i Fodel Ebrill 2013 hwyluso'r gwaith o gadw cyfran o achosion yn ôl ar gyfer darparwyr newydd.
278. Cynigiwyd awgrymiadau eraill ar gyfer y broses dyrannu hefyd. Awgrymodd un ymatebydd y dylai dyraniad fod yn seiliedig ar allu cwmni i gyflawni swm y gwaith, gydag un arall yn cynnig y dylai gwaith gael ei ddyrannu o dan rota dyletswydd na fyddai'n dibynnu ar y nifer o dwrneiod ar ddyletswydd a gyflogid, ond yn hytrach ar y gallu i wneud y gwaith gan enillwyr ffi briodol.

Ymateb y llywodraeth

279. Rydym yn cydnabod bod Model Ebrill 2013 yn golygu y gallai fod yn rhaid i rai darparwyr presennol fod wedi newid y ffordd y maent yn darparu eu gwasanaethau, boed hynny'n golygu drwy gynyddu neu leihau eu busnes. Ar ôl cymryd i ystyriaeth y farn a fynegwyd yn yr ymgynghoriad a'r awydd gan rai darparwyr i ehangu eu busnesau, rydym wedi archwilio sut y gallwn fynd i'r afael â'r pryderon hyn yn y model a addaswyd.
280. Byddai'r model a addaswyd a gyflwynir ym Mhennod 3 yn rhoi cyfle i ddarparwyr wneud cais am gontract a fyddai'n rhoi mynediad anghyfyngedig i Waith Dewis y Cleient. O ran Gwaith Darparwr Ddyletswydd, byddai'r model yn cadw'r cynnig i ddyrannu cyfrannau cyfartal o waith ymhlith nifer gyfyngedig o ddarparwyr a lwyddodd i dendro ac y dyfarnwyd contractau iddynt i gyflenwi Gwaith Darparwr Dyletswydd.

(vii) Dewis y cleient

281. Roedd Model Ebrill 2013 yn cynnwys y cynnig na fyddai cleientiaid yn gyffredinol yn cael unrhyw ddewis o ran y darparwr a ddyrennid iddynt ar yr adeg y gwneid cais am gyngor. Ond cynigiwyd y byddai nifer o amgylchiadau eithriadol lle gallai'r cleient geisio trosglwyddo i ddarparwr gwahanol, gan gynnwys lle'r oedd gwrthdaro buddiannau neu lle byddai rhyw reswm grymus sylweddol arall yn bodoli pam na ddylai'r darparwr hwnnw gael ei benodi neu pam fod angen newid y darparwr. Er enghraifft, lle mae gan gleient sy'n cael ei gadw yng ngorsaf yr heddlu anghenion penodol na ellir mynd i'r afael â hwy gan y darparwr a ddyrannwyd, efallai y byddai newid yn y darparwr yn cael ei awdurdodi. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno â'r cynnig o dan y model cystadleuaeth na fyddai cleientiaid yn gyffredinol yn cael unrhyw ddewis o ran y cynrychiolydd a ddyrennid iddynt ar y dechrau? Rhowch resymau.

Materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

282. Cafodd yr elfen hon o Fodel Ebrill 2013 ei beirniadu'n gyffredinol [gan 99%] yn seiliedig ar dair dadl allweddol.
283. Yn gyntaf, dadleuodd ymatebwyr fod dewis y cleient yn ffactor hanfodol sy'n rheoli ansawdd. Dadleuai'r LCCSA y byddai dileu dewis o'r fath "yn lleihau ymddiriedaeth a hyder" a chytunodd llawer o ymarferwyr, gan bwysleisio mai elfen hollbwysig o ran darparu gwasanaeth o ansawdd yw pwysigrwydd ymddiriedaeth rhwng y cleient a chyfreithiwr. Roeddent yn dadlau bod cael gwared ar y dewis sydd gan gleient wrth ddewis y darparwr y maent yn ymddiried ynddo yn fwy tebygol o arwain at gynnydd mewn ymglyfreithwyr drostynt eu hunain. Mae hyn fe awgryment yn debygol o arwain at brosesau llys arafach, bydd treialon yn cymryd mwy o amser a bydd cymorth cyfreithiol a chostau yn cynyddu yn y pen draw.
284. Cyfeiriodd y CBA at Adolygiad yr Arglwydd Carter o gaffael Cymorth Cyfreithiol wrth lunio dadl i gadw dewis y cleient: "Mae angen i gleientiaid fod â hyder yn eu cynrychiolydd cyfreithiol er mwyn i gyfiawnder fod yn deg ac yn effeithiol"⁵⁴ Mae'r CBA yn awgrymu bod llawer o resymau pam y gall person cyhuddedig ddymuno dewis cyfreithiwr neu gwmni penodol. Yn fwyaf cyffredin maent yn cynnwys:
- Cysylltiad cynharach ac o bosibl hirsefydlog gyda'r cyfreithiwr neu'r cwmni;
 - Mae cyfreithiwr neu gwmni yn meddu ar rinweddau, profiad neu bersonél arbennig sy'n ei wneud yr un mwyaf addas i ddelio â'i achos;
 - Rhesymau ethnig, diwylliannol ac ieithyddol, a
 - Lleoliad.
285. Dywedodd y JEB, pan na fydd diffynnydd wedi cael unrhyw ddewis o ran cynrychiolaeth mae'n llawer mwy tebygol y byddant yn ceisio newid cynrychiolydd rywbyrd yn ddiweddarach gan arwain at fwy o gostau.
286. Yn ail, dadleuai ymatebwyr bod dileu dewis y cleient yn ymosodiad ar hawl dynol sylfaenol. Roeddent yn dadlau y byddai'r cynnig, pe bai yn cael ei weithredu, yn torri'r gyfraith ddomestig ac Ewropeaidd. Awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr a nifer o ymatebwyr eraill y byddai cyflwyno'r cynnig drwy ddeddfwriaeth eilaidd yn ultra vires a dywedwyd y byddent yn herio'r penderfyniad i wneud hynny yn gyfreithiol.
287. Yn drydydd, dadleuodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Cyfreithwyr y byddai'r bwriad i gael gwared ar ddewis yn cael effaith andwyol ar gleientiaid sydd â nodwedd warchoddedig. Datblygodd yr LCCSA y ddadl hon ymhellach yn ei ymateb gan honni bod y cynnig yn wahaniaethol i bobl ifanc, agored i niwed a'r "rhai sy'n teimlo fwyaf dros fuddsoddi mewn cyfreithiwr o gwmni BAME".
288. Dadleuai Cyngor y Bar fod y graddau y byddai'r cynnig yn effeithio ar gleientiaid BAME ac ymarferwyr BAME wedi ei 'danamcangyfrif yn ddifrifol'. Maent yn mynd ymlaen i awgrymu y byddai dull o'r fath nid yn unig yn cael effaith fawr ar y cymunedau ehangach y mae darparwyr BAME yn eu gwasanaethu a'u cefnogi ond hefyd ar y proffesiwn yn ei gyfarwydd, gan ddweud y byddai'n cael "effaith ôl-redol amlwg ar y

⁵⁴ 'Legal Aid: A market-based approach to reform', Gorffennaf 2006, Arglwydd Carter o Coles, paragraff 5, tudalen 94, <http://www.legalaidprocurementreview.org.uk/docs/carter-review-p2.pdf>

cynnydd enfawr sydd wedi cael ei wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran gwella amrywiaeth y Bar a'r farnwriaeth".

289. Awgrymodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor y Bar, fod y cynnig i ddileu dewis yn mynd yn groes i Bapur Gwyn y Llywodraeth Gorffennaf 2011 ar 'Wasanaethau Cyhoeddus Agored'. Wrth gyferbynnu'r dull arfaethedig i'r un a gymerwyd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus eraill, nododd un ymarferydd unigol bod "... gan bobl yr hawl i ddewis meddyg, lle gallai bywyd fod yn y fantol. Mae pobl yn cael y dewis i ddethol deintydd, eu dull o deithio, ysgolion y mae eu plant yn eu mynychu, cyflogaeth, banc - ond o ran eu rhyddid, nid ydynt [o dan Fodel Ebrill 2013] yn cael yr hawl i ddewis eu cyfreithiwr / cyfreithiwr eu hunain". Dadleuodd un ymatebydd: "Mae'r wladwriaeth yn dewis pwy fydd yn erlyn yr unigolyn. Mae'n rhyddid sylfaenol mewn democratiaeth fod y cyhuddedig yn gallu dewis pwy fydd yn ei amddiffyn ef /hi. Mae'n sinistr i ddweud y gwir y gall y Wladwriaeth osod cynrychiolydd ar y rhai y mae'n eu cyhuddo. "

Ymateb y llywodraeth

290. Y rhesymeg dros gynnig y newid hwn oedd rhoi mwy o sicrwydd ynghylch niferoedd yr achosion i ddarparwyr, gan ei gwneud yn haws ac yn fwy rhagweladwy iddynt drefnu eu busnesau i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf cost-effeithiol i'r trethdalwr. Nid oedd yn amcan polisi yn ei rinwedd ei hun. Yng ngoleuni'r sylwadau cryf a fynegwyd gan bob un ond ychydig o ymarferwyr bod dewis y cleient yn sylfaenol i unrhyw gynllun cymorth cyfreithiol troseddol yn y dyfodol, rydym wedi ystyried sut i ddatblygu model o dendro cystadleuol sy'n cynnwys dewis y cleient. Er enghraifft, rydym wedi archwilio pa addasiadau fyddai'n angenrheidiol i'r ardaloedd caffael arfaethedig, y cynllun talu ffi sefydlog a strwythur a nifer y contract(au).
291. Byddai'r model a addaswyd a gyflwynir ym Mhennod 3 yn cadw'r un lefel o ddewis i gleientiaid sy'n ceisio cymorth cyfreithiol troseddol ag a geir yn awr.

(viii) Dyrannu achosion

292. Cynhwysodd Model Ebrill 2013 a osodwyd allan yn y papur ymgynghori nifer o opsiynau i ganfod barn ymatebwyr ar y ffordd fwyaf priodol i ddyrannu achosion o dan gynllun cymorth cyfreithiol troseddol newydd.
293. Amlinellwyd yn y papur dau opsiwn bras ar gyfer dyrannu achosion: dyrannu ar sail achos wrth achos; neu ddyrannu trwy'r dull o slotiau dyletswydd. Pwysleisiwyd nifer o is-opsiynau i gychwyn y drafodaeth.
294. Yn ogystal, gosododd y papur ymgynghori allan y cynnig, mai unwaith y'i dyrannwyd, yr egwyddor gyffredinol fyddai'r darparwr a ddyrannwyd yn cyflenwi'r holl wasanaethau ymglyfreitha cymorth cyfreithiol yn amodol ar y cleient yn newid darparwr o dan amgylchiadau eithriadol. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 18: P'run o'r dulliau dyrannu achosion yng ngorsaf yr heddlu a ddylai ymddangos yn y model cystadleuaeth? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

- **Opsiwn 1(a) - achosion a ddyrennir ar sail achos wrth achos**
- **Opsiwn 1(b) - achosion a ddyrennir ar sail dyddiad mis geni'r cleient**
- **Opsiwn 1(c) - achosion a ddyrennir ar sail llythyren gyntaf cyfenw'r cleient**
- **Opsiwn 2 -- achosion a ddyrennir i'r darparwr ar ddyletswydd**

- **Arall**

Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno â'r cynnig o dan y model cystadleuaeth dylai cleientiaid na all gael eu cynrychioli gan un o'r darparwyr a gontractiwyd yn yr ardal gaffael (am reswm a gytunwyd gan yr Asiantaeth Cymorth Gyfreithiol [LAA] neu'r Llys), gael ei ddyrannu i'r darparwr agosaf nesaf sydd ar gael mewn ardal gaffael arall. Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 20: A ydych yn cytuno â'r cynnig o dan y model cystadleuaeth byddai rhaid i gleientiaid aros gyda'r darparwr a ddyranwyd iddynt am gyfnod yr achos, yn amodol ar amgylchiadau eithriadol? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

295. Tra dewisodd nifer o ymatebwyr rhwng un o'r opsiynau o ddyrannu achosion a gyflwynwyd yn y papur ymgynghori, unwaith yn rhagor ail-adroddodd nifer sylweddol o ymatebwyr eu pryderon cyffredinol ynglŷn â thendro cystadleuol.
296. Yn ei ymateb, datganodd Cymdeithas y Gyfraith ei bod yn teimlo nad oedd unrhyw un o'r modelau dyrannu arfaethedig yn cymryd i ystyriaeth effaith y troseddwr mynych ymhle o dan Opsiwn 1(a), byddai'r troseddwr hwnnw yn y diwedd yn cael nifer o gyfreithwyr wedi eu dyrannu iddo/iddi ond am eu bod nesaf ar y rota. Trwy wneud hyn, dadleuodd Cymdeithas y Gyfraith byddai'r manteision o'r cleient yn cael ei gynrychioli gan ddarparwr yr oedd yn ymddiried ynddo ac oedd yn ymwybodol o'i amgylchiadau unigol yn cael eu colli, O dan Opsiynau 1 (b) a (c) byddent yn osgoi'r broblem o gynrychiolaeth luosog, ond ni fyddai'n ateb y broblem o hyder y cleient yn ei gyfreithiwr/chyfreithiwr, gan fyddai'r cyfreithiwr ei ddewis gan y cleient.
297. Pwysleisiodd Cymdeithas y Gyfraith hefyd ei phryder na fyddai darparwyr yn cael cyfran wirioneddol gyfartal o achosion, gan, yn ymarferol, mae'r amrywiaeth yn y math o achos yn gyffredinol ac o ran maes yn gymharol wahanol. Byddai rhai cwmnïau'n cael mwy o gleientiaid nac y dylent, byddai eraill yn cael llai; byddai rhai yn cael nifer anghymesur o achosion a oedd yn drwm ar adnoddau; byddai eraill yn derbyn achosion lawer yn llai. Dadleua'r Gymdeithas, "[t]ra gellir addasu hyn dros amser, o ystyried economeg ymylol y model hwn, ni all y Llywodraeth fod yn hyderus na fydd y cwmni ddim yn fethdalwr cyn i hyn ddigwydd ..."
298. Honnodd Cymdeithas y Gyfraith na fyddai Opsiwn 2 er hynny yn ateb problemau o ofal y cleient, hyder y cleient, arbed amser, ail-adrodd cynrychiolaeth, costau ategol o aml-gynrychiolaeth ac ati ond dywedodd ei fod o leiaf yn galluogi cwmni i ddelio â'r holl waith mewn un orsaf heddlu ar unrhyw adeg a roddwyd. Awgrymodd byddai hyn yn caniatáu arbedion maint trwy dorri ymaith teithio a disgwyl am y cleientiaid ychwanegol yn y ddalfa yng ngorsaf yr heddlu honno yn ystod y cyfnod o ddyletswydd. Dadleuodd y Gymdeithas byddai unrhyw un o'r dulliau eraill yn golygu byddai cwmnïau ond yn cael un person ar y tro ym mhob gorsaf yr heddlu, a thrwy hynny cynyddu cyfartaledd costau achosion o'r rhai presennol.
299. Yn ei hymateb hi, dadleuodd Cymdeithas y Bar Troseddol (CBA) mai o dan y system gyfredol mai cwmnïau o gyfreithwyr yn ffynnu ar eu henw, eu profiad a'u harbenigedd, ac mae hyn yn eu galluogi cael rhan arbennig o'r farchnad. O dan y cynigion ni all dyrannu'r gwaith trwy ddull mympwyol neu ar hap fod yn welliant ac ni fyddai'n hybu cystadleuaeth go iawn."

300. Gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymiadau ar sut i wella'r system cynllun presennol o ddyrannu slotiau ar gyfer cyfreithwyr dyletswydd. Er enghraifft, cynnodd nifer o ymarferwyr unigol bod y system bresennol yn galluogi darparwyr i ddefnyddio 'ffug' gyfreithwyr, h.y. cyfreithwyr nad ydynt yn ymarfer bellach, nad ydynt yn byw yn y wlad neu sydd wedi marw) i geisio am ran fwy o'r slotiau dyletswydd. Awgrymodd ymatebydd arall dylid addasu'r system fel ei body n gweithredu rota ar gyfer pob uned cystodaeth a gorsafoedd yr heddlu cysylltiedig ym mhob ardal System Cyfiawnder Troseddol (CJS) am gyfnodau o 24 awr a chan ddyrannu darparwr gwahanol i bob rota.
301. Mewn perthynas â'r cynnig mai ar gyfer cleientiaid na all gael eu cynrychioli gan un o'r darparwyr o dan y contract yn yr ardal gaffael (am reswm a gytunwyd gan yr LAA neu'r Llys), dylai'r cleient gael ei ddyrannu i'r darparwr agosaf nesaf sydd ar gael mewn ardal gaffael arall, yr oedd gwahaniaeth barn. Dywedodd Cymdeithas y Gyfraith mai "yng nghyd-destun y model arfaethedig, hwn yw'r ateb mwy neu lai mwyaf ymarferol," tra honnodd yr CBA "mae'n gweithredu'n fypwyol, ac ni all hyn fod yn iawn le mae perygl i unigolyn golli ei ryddid."
302. Mewn perthynas â'r egwyddor o gynrychiolaeth barhaus, cytunodd Cymdeithas y Gyfraith â'r awgrym dylai cwmnïau mewn egwyddor allu gynrychioli cleient yr holl ffordd drwy achos o'r dechrau hyd ei diwedd. Cytunodd nifer o ymarferwyr unigol, a'r farn hon, can ddweud ei bod yn "angenrheidiol i ddiogelu"r pwrs cyhoeddus oddi wrth gleientiaid sydd wastad yn newid cyfreithwyr." Ond nid oedd y farn hon yn unfrydol; dadleuodd nifer o ymatebwyr nyddai gorfodi cleientiaid i aros â darparwr nad oeddynt yn fodlon ag ef yn cynyddu'r nifer o ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ac o ganlyniad, costau. Dadleuodd eraill dylai cleientiaid allu symud i ddarparwr arall os ydynt yn wirioneddol anfodlon â'r gwasanaeth a dderbyniwyd.

Ymateb y Llywodraeth

303. Mae'n dilyn o benderfyniad y Llywodraeth a osodwyd allan uchod (paragraffau 290 i 291) byddai cleientiaid yn gallu dewis unrhyw ddarparwr sy'n dal contract yng Nghymru a Lloegr. Gan hynny, byddai'r dull o ddyrannu achosion ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient yn gweithredu fel yn awr.
304. Fodd bynnag, mae angen ystyried o hyd y dull o ddyrannu achosion i'r ar gyfer y cleientiaid hynny nad ydynt yn dewis eu darparwr eu hunain. Ar ôl ystyried barn yr ymatebwyr i'r Opsiynau a gyflwynwyd yn y papur ymgynghori, rydym yn ystyried mai'r mecanwaith mwyaf addas fyddai dyrannu'r achosion hynny trwy system rota dyletswydd. O dan system o'r fath, byddai darparwyr â chontract i gyflenwi Gwaith Darparwr Dyletswydd yn cael eu rhoi ar rota dyletswydd gorsafoedd yr heddlu a llysoedd ynadon yn eu hardal gaffael.
305. Rydym yn cydnabod bod nifer o ymatebwyr wedi mynegi cryn breuder am y ffordd mae'r mecanwaith dyrannu slotiau dyletswydd yn gweithredu. Mae'r model a addaswyd ac a gyflwynwyd ym Mhennod 3 yn argymhell dyraniad o raniad cyfartal i'r cyrff hynny sydd wedi dangos eu gallu i gyflawni'r gwasanaeth.

(ix) Tâl

306. Mewn ymdrech i symleiddio gweinyddiaeth y cynllun cymorth cyfreithiol troseddol, o dan y Model Ebrill 2013, cyn belled â bod yn rhesymol ac yn economaidd rhesymol,

byddai darparwyr yn cael eu talu drwy gynllun ffi sefydlog am eu gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol.

307. Byddai'r darparwr yn cael ei dalu am bob cam o'r achos (ymddangosiad yng ngorsaf yr heddlu, cynrychiolaeth yn llys yr ynadon ac ati) ond am y pris yr oeddynt wedi ei gynnig fel rhan o'u tendr. Cynigiwyd mai oherwydd natur y 5% uchaf o achosion Llys y Goron, dylid parhau â'r cynllun ffioedd graddedig presennol ar gyfer achosion lle mae nifer o dudalennau'r erlyniad yn fwy na 500.
308. Fel rhan o'r cynllun ffi sefydlog, cynigiwyd na fyddai gwaith dyletswydd yn llys yr ynadon yn cael ei dalu ar wahân ond byddai'r gost o gyflenwi gwasanaeth o'r fath yn cael ei ffactora i mewn i bris y gwaith cynrychioli yn llys yr ynadon. Argymhellwyd hefyd cynnwys treuliau teithio a chynhaliadaeth eu cynnwys oddi mewn i gynigion ffioedd sefydlog. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno â'r mecanwaith talu arfaethedig canlynol o dan y model cystadleuaeth? Rhowch resymau, os gwelwch yn dda.

- **Taliad bloc am bob gwaith presenoldeb mewn gorsaf yr heddlu fesul darparwr fesul ardal gaffael yn seiliedig ar gyfran hanesyddol yr ardal a phris y cynnig**
- **Ffi sefydlog fesul darparwr fesul ardal gaffael yn seiliedig ar bris eu cynnig am gynrychiolaeth yn llys yr ynadon**
- **Ffi sefydlog fesul darparwr fesul ardal gaffael yn seiliedig ar bris eu cynnig ar gyfer ymgyfreithiad yn Llys y Goron (ar gyfer achosion lle nad yw nifer o dudalennau'r erlyniad yn fwy na 500)**
- **Cynllun ffioedd graddedig presennol ar gyfer ymgyfreithiad yn Llys y Goron (ar gyfer achosion lle mae nifer o dudalennau'r erlyniad yn fwy na 500 yn unig) ond ar raddfeydd rhatach fel y cynigir gan bob darparwr yn yr ardal gaffael**

Cwestiwn 22: A dych yn cytuno â'r argymhelliad o dan y model cystadleuaeth dylai bod angen i ymgeiswyr gynnwys y gost o unrhyw dreuliau teithio a chynhaliadaeth o dan bob ffi sefydlog a'r ffi raddedig pan fyddant yn cyflwyno eu cynigion? Rhowch resymau, os gwelwch yn dda.

Materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

309. Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad, sylwodd Cymdeithas y Gyfraith ar bob un lefel arfaethedig o dâl.

a) Taliad bloc am bresenoldeb mewn gorsaf yr heddlu

Dadleuodd Cymdeithas y Gyfraith gall taliad bloc ar gyfer presenoldebau yng ngorsafedd yr heddlu yn achosi problemau gan gall swm achosion newid, o bosibl yn arwyddocaol, am resymau nad ydynt o dan reolaeth y darparwr. Mae Cymdeithas y Gyfraith yn awgrymu pe byddai mecanwaith o'r fath yn cael ei weithredu, dylai goddefgarwch clir a fyddai'n sbarduno swm ychwanegol neu angen ail-dendro cael ei ystyried. Pe byddai ffi sefydlog yn cael ei gweithredu, dadleuodd Cymdeithas y Gyfraith dylai cynnwys mecanwaith dihangol ar gyfer achosion eithriadol.

b) Cynrychiolaeth yn Llys yr Ynadon

Anghytunodd Cymdeithas y Gyfraith yn gryf a'r cynnig i beidio â chael unrhyw fecanwaith dihangol yn y tâl ar gyfer achosion yn llys yr ynadon. Dadleuodd byddai cwmnïau mewn perygl parhaus o gael eu hansefydlogi'n ariannol.

Tra ei bod yn cydnabod yr argymhelliad i gynnwys y gost o waith dyletswydd llys yr ynadon y ffi sefydlog ar gyfer pob cynrychiolaeth arall yn llys yr ynadon, pwysleisiodd Cymdeithas y Gyfraith y pryder gwirioneddol bod trefniadau ar gyfer dyletswydd llys wedi eu hamcangyfrif yn rhy isel yn sylweddol, gan fethu â chymryd i ystyriaeth y cynnydd posibl mewn niferoedd.

c) Ffi sefydlog ymgyfreithiad Llys y Goron (achosion â llai na 500 tudalen o dystiolaeth yr erlyniad)

ch) Ffi raddedig ymgyfreithiad Llys y Goron (achosion â 500 tudalen neu fwy o PPE)

Pwysleisiodd Cymdeithas y Gyfraith ei phryder bod y strwythur ffioedd ar gyfer y Cynllun Ffioedd Graddedig Cyfreithydd (LGFS) eisoes ar osgo o blaid achosion a nifer uwch o dudalennau er anfantais i'r nifer o achosion mwy cyffredin. Awgrymodd Cymdeithas y Gyfraith barhau â'r deialog â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar sut i ail-strwythuro'r LGFS er mwyn talu achosion yn decach.

310. Mewn perthynas â'r argymhelliad i gynnwys y gost o dreuliau teithio a chynhaliadaeth yn y ffioedd sefydlog, dadleuodd Cymdeithas y Gyfraith na fyddai argymhelliad o'r fath yn ymarferol yn ariannol i ddarparwyr. Dadleuodd mai ar ben toriad ffi o dros 17.5%, byddai disgwyl i ddarparwyr dderbyn swm anhysbys ar gyfer costau teithio a chynhaliadaeth. Mae'n awgrymu byddai costau teithio'n hollol anhysbys, ac felly hefyd treuliau posibl eraill. Cefnogodd y LAPG y farn hon.
311. Yn ychwanegol i'r dadleuon hyn gan Gymdeithas y Gyfraith a osodwyd allan uchod, sylwodd nifer o gyrff arbenigol ar y mecanwaith taliadau arfaethedig. Dadleuodd y LCCSA byddai'r cynllun ffi sefydlog arfaethedig yn tansilio'r berthynas rhwng y cyfreithiwr a'r cleient gan fyddai'n creu sbardun gwrthnysig mewn perthynas â chynghori cleientiaid ar sut i bledio.
312. Dadleuodd yr CBA byddai taliad bloc ar gyfraddau rhatach yn arwain at wrthdaro buddiannau sylweddol i lawer, os nad pob darparwr. Dadleuodd bydd y pwysau ariannol i fwyhau elw o dan gontract, sydd ond yn gwobrwyo maint yn unig yn gosod y darparwr yn erbyn gwasanaeth priodol ac effeithiol i'r cleient,
313. Atebodd nifer o ymarferwyr unigol i'r cwestiwn hwn. Dadleuodd un ymatebydd dylai bod un raddfa ffioedd ar gyfer pob darparwr - nid eu ffioedd bidio unigol. Unwaith mae'r cynigion drosodd dylai prisiau cynigion y darparwyr llwyddiannus gael eu cyfartalu fel eu bod i gyd yn derbyn yr un lefel o dâl.
314. Awgrymodd ymarferwr arall dylai gwaith llys yr ynadon gael ei dalu ar sail cynllun ffi raddedig gyda graddfa symudol yn seiliedig ar natur y drosedd a'r amser a amcangyfrifir y cymerir i'w datrys, fel sy'n digwydd eisoes yn Llys y Goron.
315. Dadleuodd nifer o ymatebwyr unigol mai o dan y mecanwaith taliadau arfaethedig bydd darparwyr yn gwneud y lleiaf swm o waith posibl. Dadleuodd eraill bod y Llywodraeth "yn llafurio o dan y camargraff bod cyfreithwyr yn hwyhau achosion er mwyn godro'r system."

Ymateb y Llywodraeth

316. Rydym yn parhau â'r farn bod y mecanwaith taliadau presennol yn ddiangen o gymhleth ond yng ngoleuni'r ymatebion i'r cwestiynau hyn mae'r Llywodraeth yn derbyn na fyddai ffi sefydlog heb fecanwaith dihangol ar gyfer talu am gynrychiolaeth yn llys yr ynadon yn ymarferol yn economaidd i ddarparwyr.
317. Yn yr un modd, rydym yn derbyn bar n nifer o ymarferwyr unigol byddai un ffi sefydlog ar gyfer holl waith Llys y Goron â llai na 500 tudalen o dystiolaeth yr erlyniad yn creu gormod o risg ariannol i ddarparwyr.
318. Rydym felly wedi ymchwilio i addasiadau i'r mecanwaith taliadau arfaethedig yn y model a gyflwynwyd ym Mhennod 3.
319. Byddai'r addasiadau i ateb y pwyntiau hyn hefyd yn helpu i leddfu'r lefel uwch o ansicrwydd mewn perthynas â symiau o achosion o gan ganlyniad i gynnwys dewis i'r cleient. Heb ymchwilio addasiadau o'r fath, er mwyn gwrthweithio yn erbyn y lefel uwch o ansicrwydd, byddai rhaid i ni gynyddu maint y contract, a thrwy hynny lleihau nifer o gontractau ar gael. Fodd bynnag, mae'r mecanwaith taliadau arfaethedig a osodir allan yn y model wedi ei addasu yn edrych ar leddfu'r angen o leihau nifer o gontractau'n sylweddol.
320. Yng ngoleuni'r argymhelliad i wahaniaethu rhwng Gwaith Darparwr Dyletswydd a Gwaith Dewis y Client yn y model a addaswyd ac a gyflwynwyd ym Mhennod 3, rydym hefyd yn argymhell addasu'r mecanwaith taliadau ar gyfer presenoldeb yng ngorsaf yr heddlu. O dan y model rydym yn ei argymhell dylai presenoldeb mewn gorsaf yr heddlu gael ei dalu ar sail achos wrth achos o dan gynllun ffi sefydlog, yn hytrach nac mewn taliad bloc.
321. Ni fyddai'r awgrym a wnaethpwyd ym mharagraff 313 uchod mewn perthynas â chyfartalu prisiau'r cynigion yn fecanwaith derbyniol, yn ein barn ni, i osod y pris ar gyfer pob ymgeisydd llwyddiannus. Byddai dull o'r fath yn arwain at gyfnod hir o drafodaethau gydag ymgeiswyr yn pennu'r pris olaf. P'r un bynnag, mae'r model a addaswyd ac a osodwyd allan ym Mhennod 3 yn cynnig proses tendro cystadleuol nad yw'n sefydlog ar brisiau. Credwn byddai model o gystadleuaeth lle osodir y pris yn weinyddol yn dal i'n galluogi cyflawni nodau'r polisi yn ei gyfanrwydd o wasanaeth cynhaliol, mwy effeithiol ar gost gall y trethdalwr ei fforddio.
322. Yn olaf, cydnabyddwn farn gan ymatebwyr dylai gwaith dyletswydd llys yr ynadon barhau i'w dalu ar gyfradd yr awr. Er mai'r bwriad tu ôl i'r argymhelliad gwreiddiol oedd llyfnhau'r taliadau mecanweithiau taliadau, fe'n darbwylwyd ni fyddai dull o'r fath yn fwy cymhleth i ddarparwyr i gynllunio ymarferoldeb ariannol y cynllun arfaethedig. Teimlwn hefyd dylid cadw talu am dreuliau teithio a chynhaliath ar wahân i ffioedd sefydlog.

(x) Y broses gaffael

323. Roedd y papur ymgynghori'n cynnwys adran i egluro sut oedd yr LAA yn bwriadu rhedeg y broses gaffael gystadleuol i gaffael contractau troseddol newydd. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar unrhyw ffactorau eraill i'w cymryd i ystyriaeth wrth ddylunio'r meini prawf.

324. Roedd Model Ebrill 2013 hefyd yn cynnwys yr argymhelliad i gyflwyno terfyn pris ar gyfer pob ffi sefydlog a ffi raddedig o dan yr hyn y byddai ymgeiswyr yn cael eu gofyn i gyflwyno eu cynigion. Roedd yr argymhelliad yn un i gyflwyno terfyn pris ar 17.5% yn llai na'r lefelau presennol o dâl Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 23: A oes unrhyw ffactorau eraill i'w cymryd i ystyriaeth wrth ddylunio'r meini prawf technegol ar gyfer cam yr Holiadur Cyn Cymhwys o'r broses dendro o dan y model cystadleuaeth? Rhwch resymau, os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 24: A oes unrhyw ffactorau eraill i'w cymryd i ystyriaeth wrth ddylunio'r meini prawf yn erbyn y rhai i roi ar brawf t Cynllun Cyflenwi a gyflwynwyd gan ymgeiswyr mewn ymateb i'r Gwahoddiad i Dendro o dan y model gystadleuaeth? Rhwch resymau, os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 25: A ydych yn cytuno â'r argymhelliad o dan y model cystadleuaeth i orfodi terfyn pris ar gyfer pob ffi sefydlog a ffi raddedig ac i ofyn i ymgeiswyr gynnig pris ar gyfer pob ffi sefydlog a disgownt ar y ffi raddedig yn is na'r terfyn pris perthnasol? Rhwch resymau, os gwelwch yn dda.

Materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

325. Tra mai ond ychydig o ymatebwyr a wnaeth awgrymiadau ar ba ffactorau eraill dylai gael eu hystyried pan ddylunnir meini prawf ar gyfer unrhyw broses dendro yn y dyfodol, sylwodd rhai ymatebwyr ar y meini prawf arfaethedig a osodir allan yn y papur ymgynghori.
326. Yn ei ymateb ef, eglurodd Cymdeithas y Gyfraith ei bod wedi cysylltu â nifer o fanciau sydd wedi dweud wrthynt na allant roi sicrwydd o fuddsoddi mewn busnes a oedd yn gyntaf heb sicrwydd o gontract o gwbl, ac yn ail hyd yn oed os yw'n ennill contract, bydd ond am 3 blynedd heb sicrwydd o estyniad na chontract newydd. Dadleuodd Y Gymdeithas bod y syniad bydd cwmnïau'n barod i sicrhau cyllid ar adeg bidio ar sail mor ansicr yn hollol afrealistaidd, Cytunodd yr CBA y farn hon.
327. Pwysleisiodd yr CBA y pwysigrwydd o nid yn unig asesu ansawdd darparwr ond hefyd ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd. Fodd bynnag, ni wnaeth unrhyw awgrymiadau ar ba ffactorau a ddylid eu hystyried wrth wneud hyn.
328. Gwnaeth nifer o ymarferwyr unigol awgrymiadau ar y ffactorau a ddylid eu cymryd i ystyriaeth wrth ddylunio meini prawf gan gynnwys y sylwadau penodol canlynol:
- Profiad o reoli tîm cyfreithiol a pharatoi achosion cymhleth;
 - Ar y lleiaf, bodolaeth swyddfa sydd wedi ei staffio ac yn gweithredu oddi mewn i ardal yr CJS, a dylai gallu dangos profiad o waith gwasanaethau cyfreithiol, nid ond gwaith cyffelyb;
 - Y safon sydd ei angen o gymhwyster proffesiynol i ddarparu cyngor cyfreithiol;
 - Dylai ansawdd fod yr agwedd fwyaf hanfodol o dendro;
 - Unrhyw sylwadau anffafriol a wnaed gan farnwyr yn ystod achosion gerbron y llys;
 - Cyfeiriadau yn cefnogi ceisiadau, a ddarparwyd gan ymarferwyr a/neu farnwyr eraill;
 - Dylai fod gofynion o ran niferoedd o staff cymwys ac isafswm nifer o flynyddoedd o brofiad yn y maes perthnasol o'r gyfraith;

- Cydymffurfiaeth â rheolaeth;
- Adolygiadau blaenorol gan gyfoedion, ansawdd, gallu, profiad a pherfformiad ynn y gorffennol;
- Blaenoriaeth ar gyfer pobl broffesiynol wedi eu sefydlu; rhai â chysylltiadau lleol. Diarddel rhai nad ydynt yn gyfreithwyr, ac am gynigion sy'n afrealistaidd o isel; ac
- Mae angen i ddarparwyr ddangos ymlaen llaw gallant ddarparu'r hyn sydd ei angen.

329. Mewn perthynas â'r terfyn pris arfaethedig, credai Cymdeithas y Gyfraith gall ei fod yn anghynnaladwy yn ariannol ac ystyriodd y LAPG bod y terfyn pris yn anghystadluel.

Ymateb y Llywodraeth

330. Bydd y Llywodraeth yn cymryd i ystyriaeth yr awgrymiadau a wnaethpwyd gan yr ymatebwyr pan fydd yn dylunio'r broses gaffael.
331. Fel yr eglurwyd ym mharagraff 197 uchod, fe'n darbwyllwyd byddai proses dendro gystadluel lle gosodir y pris yn weinyddol o hyd yn gyflawn i nodau cynhwysfawr ein polisi o gyflenwi gwasanaeth cynhaladwy a mwy effeithiol am bris gall y dreth dalwr ei dalu. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r gŵyn na fyddai lleihad o'r fath yn y ffioedd yn ymarferol yn ariannol, mae'n bwysig pwysleisio'r gwaith a gyflwynwyd gan Otterburn mewn cefnogaeth i ymateb Cymdeithas y Gyfraith a ddangosodd bod 25% o'r darparwyr cyfredol a arolygwyd yn dweud gallant gynnal lleihad mewn ffioedd o 17,5% heb wneud unrhyw newidiadau strwythurol a heb ail-ddyrannu gwaith o'r darparwyr hynny a fyddai'n ymadael â'r farchnad.
332. Mae'r model wedi ei addasu a osodir allan ym Mhennod 3 yn argymhell model tendro cystadluel nad yw'n seiliedig ar brisiau ond sy'n sefydlu prisiau'n weinyddol ar 17.5% yn is na chyfraddau cyfredol.

(xi) Dyfarnu'r contract / gweithredu

333. Awgrymwyd, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, byddai'r broses dendro gystadluel yn cychwyn ym mhob ardal gaffael yn Hydref 2013 gyda chontract newydd yn cychwyn ym Medi 2014. Roedd y papur ymgynghori yn cynnwys amserlen gyda cherrig milltir o hyn i'w gweld.
334. Er nad oedd cwestiwn penodol ar yr elfen hon ym Model Ebrill 2013, darparodd nifer o ymatebwyr sylwadau fel yr osodir allan isod.

Materion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad

335. Dadleuodd y mwyafrif o ymatebwyr, gan gynnwys y cyrff cynrychioladwy a sefydliadau arbenigol bod yr amserlen weithredu a osodwyd allan yn y papur ymgynghori yn anymarferol am nifer o resymau.
336. Eglurodd Cymdeithas y Gyfraith yn ei hymateb byddai'n cymryd yn hwy ba'r hyn a argymhellwyd i'r ddau newydd-ddyfodiad a darparwyr presennol sefydlu'r busnesau hyfyw sydd eu hangen i gyflwyno cais. Mae'r adroddiadau oddi wrth Otterburn a Deloitte a gomisiynwyd gan Gymdeithas y Gyfraith yn gosod allan beth ddisgrifiodd

Cymdeithas y Gyfraith fel yr anawsterau â'r graddfeydd amser arfaethedig mewn termau o gael a derbyn:

- Cyllid
- Llety
- Systemau TG
- Staffio
- Cymeradwyaeth rheolaeth

337. Yn benodol, mewn perthynas â'r anghenion cyllidol, eglurodd Cymdeithas y Gyfraith bod dau o brif fanciau'r stryd fawr yr oeddynt wedi siarad â hwy wedi mynegi pryder ynghylch "ansicrwydd cynhenid yn y model contractol arfaethedig a'r raddfa amser oddi mewn i'r hyn disgwylir byddai cwmnïau angen er mwyn sicrhau buddsoddiad."
338. Yn ychwanegol, awgrymodd Cymdeithas y Gyfraith, er gall bod y cyrff mwy eisoes â'r arbenigedd mewn lle i gynghori ar dendro, byddai'r mwyafrif o ddarparwyr presennol angen cyngor proffesiynol allanol ar sut i baratoi cais ar gyfer contract cyhoeddus mawr. Byddai hyn, yn ôl Cymdeithas y Gyfraith yn rhoi mantais annheg i gyrff mwy, yn groes i egwyddorion Cytundeb yr UE.

Ymateb y Llywodraeth

339. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y pryder byddai ymgeiswyr llwyddiannus angen mwy na'r cyfnod mudo arfaethedig o dri mis i sicrhau'r holl adnoddau sydd eu hangen i gyflenwi gwasanaethau'n effeithiol ar amser Dechrau'r Gwasanaeth. Gan hynny, argymhellwn gyfnod mudo mwy priodol.
340. Yng ngolau'r drafodaeth bellach hon, rydym yn argymhell symud dyddiad cychwyn y broses gaffael i fod yn fuan ynn 2014.

Casgliad

341. Wedi ystyried, a rhoi sylw digonol i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Fodel Ebrill 2013, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu ymgynghori ar fodel wedi ei addasu sy'n ceisio ateb y problemau a fynegwyd mewn ymateb i'r argymhelliad gwreiddiol. Gosodir allan manylion y model sydd wedi ei addasu ym Mhennod 3 ac rydym yn ceisio barn ar yr argymhelliad.

Taliadau Dros Dro

342. Penderfynodd y Llywodraeth i fwrw ymlaen â syniad a rhoddwyd gerbron gan ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Gyfreitha Cyngor y Bar, i wella llif arian ar gyfer cyffeithyddion ac adfocadau.
343. Mae Rheoliadau presennol yn gwneud darpariaeth glir ar gyfer gwneud taliadau dros dro mewn achosion hwy yn Lllys y Goron ac mewn achosion o galedi. Fodd bynnag, mae'r LAA yn derbyn ychydig iawn o hawliau o dan y darpariaethau hyn. Mae'r adnodd Taliad Cam wrth Gam o dan y Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau (AGFS) yn caniatáu taliadau dros dro i'w gwneud mewn achosion lle ymgwymerwyd â gwaith paratoi o 100 awr ac yr amcangyfrifir bydd yr achos yn para am o leiaf blwyddyn o anfon at dreial hyd at ei derfyn. Fel arall, mae hefyd darpariaeth galedi ar gyfer pob

darparwr, sydd ar hyn o bryd yn gofyn y darparwr i ddangos bod y cyfarwyddiadau wedi eu rhoi dros chwe mis yn ôl; ni ddisgwylir unrhyw daliad yn y tri mis nesaf; a gall y darparwr ddangos i'r swyddog sy'n gwneud y penderfyniad ei fod yn dioddef o galedi ariannol.

344. Bydd yr LAA yn gweithio â chyrrff cynrychioladwy y galwedigaethau i ystyried ymhellach sut orau i ddarparu adnodd neu wella mecanwaith sydd eisoes yn bodoli trwy'r hyn byddai problemau cyfreithyddion ac adfocadau yn cael eu hateb.

Diwygio Ffioedd yng Nghymorth Cyfreithiol Troseddol

345. Gosodd Pennod 5 o'r ddogfen ymgynghori allan nifer o ddiwygiadau arfaethedig i dâl o dan y cynllun cymorth cyfreithiol troseddol gyda golwg ar gyflenwi arbedion pellach mewn meysydd nas cynhwysir yn y model o gystadleuaeth arfaethedig ac ategu gwaith yn y system cyfiawnder troseddol ehangach er mwyn gwreiddio'r egwyddor o "cywir y tro cyntaf".

Ail-strwythuro'r Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau

346. Argymhellodd y papur ymgynghori ail-strwythuro'r Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau (AGFS) er mwyn annog datrysiad cynt a gweithio mwy effeithio drwy harmoneiddio ple o euog, cyfraddau ffioedd treialon chwâl a threial sylfaenol i gyfradd y treial chwâl, a gostyngiad mewn a thapro o gyfraddau presenoldeb mewn treialon dyddiol o ddiwrnod 3. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 26: A ydych yn cytuno â'r argymhellion i ddiwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau er mwyn:

- cyflwyno ffi sylfaenol sengl wedi ei harmoneiddio, yn daladwy ym mhob achos (heblaw am y rheiny sy'n derbyn ffi sefydlog), yn seiliedig ar y ffi sylfaenol bresennol ar gyfer treial chwâl;
- lleihau'r ffi presenoldeb dyddiol cychwynnol ar gyfer treialon o rhwng 20% a 30%; a
- tapro cyfraddau fel bydd ffi lai yn daladwy ar gyfer pob diwrnod ychwanegol o'r treial?

Rhowch resymau, os gwelwch yn dda.

Materion allweddol a godwyd

347. Anghytunodd y mwyafrif o ymatebwyr â chyflwyno Ffi Sylfaenol yn daladwy wedi ei harmoneiddio ar gyfer pleon o euog, treialon chwâl a threialon. Gwrthwynebodd ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor y Bar a'r CBA ar y sail bod toriadau sylweddol eisoes wedi bod yn y blynyddoedd diweddar a bod arbedion wedi eu cyflawni o'r gostyngiad mewn achosion. Dywedodd llawer o ymatebwyr ei bod hi'n annheg harmoneiddio treialon â threialon chwâl pleon o euog, o ystyried y ffaith bod treialon angen mwy o waith, a mwy o waith medrus. Roedd rhai yn teimlo byddai'r argymhellion yn rhoi sbardun ar gyfreithwyr i gynghori ple o euog. Dywedodd nifer fach o ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Gyfraith, eu bod yn deall sut gallai ffioedd ar gyfer ple buan o euog a threial chwâl gael eu harmoneiddio. Awgrymodd Cyngor y Bar byddai cynnydd

mewn ffioedd ar gyfer pleon o euog yn darparu sbardun i gyfreithwyr gadw gymaint o waith ple euog tu mewn i'w cwmni â phosibl.

348. Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr ei fod yn anghywir i dargedu lleihadau ar yr achosion hwyaf, mwyaf cymhleth. Dadleuwyd bod gan adfocadau'r amddiffyn ond ychydig ddylanwad ar hyd treial, a all gael ei effeithio gan nifer o ffactorau, megis gwaith arall mae rhaid i farnwyr ffitio i mewn i'r dydd llysol neu gynhyrchiad amserol o ddiffynyddion o'r ddalfa. Teimlodd ymatebwyr bod adfocadau'n cael eu cosbi am rywbeth a oedd gan fwyaf tu allan i'w rheolaeth a bod y lleihad cychwynnol mewn ffioedd presenoldeb cychwynnol yn rhy lym ynndo'i hun, ond fe'i gwaethygir gan achosion hwy a effeithiwyd arnynt fwyaf gan y tapr. Tra nad oedd yn rhoi sylw yn uniongyrchol ar y tapr arfaethedig mewn cyfraddau presenoldeb dyddiol, cefnogodd y Bwrdd Gweithrediaeth Barnwrol (JEB) y syniad o baratoi effeithiol a chynnal treialon yn gyflym.
349. Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno byddai'r argymhellion yn effeithio'r adfocadau â'r incwm uchaf o ffioedd a chael ychydig o effaith ar adfocadau â'r incwm ffioedd isaf. Dadleasant byddai effaith cyfunol yr argymhellion ar gystadleuaeth a'r newidiadau arfaethedig i ffioedd yn effeithio ar ymddygiad cyfreithwyr ac adfocadau a lleihau'r gwaith ar gael i'r bargyfreithwyr mwyaf ieuengaf.
350. Awgrymwyd gan y rhai o'r ymatebwyr, i'r gwrthwyneb i'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl, byddai effaith cyfunol ein hargymhellion ffioedd troseddol ac argymhellion cystadleuaeth yn effeithio fwyaf ar y Bar iau, gan fyddai adfocadau hŷn yn "dewis a dethol" yr achosion mwyaf proffidiol. Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd byddai argymhellion cystadleuol ar gyfer ymgyfreitha yn gyrru cyfreithwyr i wneud llawer mwy o waith adfocatiaeth mewn llysoedd yr yn a gwaith dim yn ymwneud â threial Llŷs y Gordon yn neu gwmnïau eu hunain, yn hytrach na chyflogi'r Bar iau. Awgrymwyd byddai hyn yn gyrru pobl i ffwrdd o adfocatiaeth fel galwedigaeth ac effeithio cleientiaid, dioddefwyr a thystion yn andwyol, pe byddai nifer annigonol o afocadau o safon ar gael.

Ymateb y Llywodraeth

351. Mae'r Ffioedd Sylfaenol oddi mewn i'r cynllun ffioedd graddedig yn ddirprwyon ar gyfer y gwaith a wneir. Gall achosion gwahanol oddi mewn i bob categori o ble o euog, treialon chwâl a threialon a ddadleuir fod angen gwahanol symiau o baratoi, ond oddi mewn i bob category, mae pob achos yn derbyn yr un Ffi Sylfaenol. Mae'r cynllun yn dibynnu ar ddirprwyon ar gyfer cymhlethdod sy'n pennu'r taliad ar gyfartaledd ar gyfer achos o bob math, nad yw, o angenrheidrwydd yn adlewyrchu'r swm o baratoi a ymgwymerwyd mew nachos arbennig, ond dros faich gwaith arferol bydd yn sicrhau tâl teg ar y cyfan. Roedd ein hargymhelliad yn seiliedig ar yr un egwyddorion ac ar symleiddio'r cynllun ffioedd ymhellach trwy ddileu'r gwahanol fathau o bleon euog, treialon chwâl a threialon.
352. Fodd bynnag, yng ngolau'r ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi ail-feddwl ein cynllun. Rydym yn wastad wedi derbyn bydd y swm o baratoi mewn nifer o achosion yn fwy mewn treialon a ddadleuir. Rydym wedi dod i'r casgliad byddai harmoneiddio'r Ffi Safonol ar gyfer treialon â'r rhai ar gyfer chwâl a phleon euog yn arwain at wahaniaeth rhy fawr rhwng y maint o baratoi a oedd ei angen a'r ffi daladwy. Rydym wedi ein darbwylo gan yr ymatebwyr na fyddai system taliadau o'r fath yn adlewyrchiad teg o'r gwaith a ymgwymerwyd. Rydym hefyd wedi ein darbwylo dylid adolygu'r dull arfaethedig o dapro taliadau presenoldeb dyddiol ar gyfer treialon er mwyn sicrhau na effeithir yn

anghymesur ar dreialon hir iawn. Rydym wedi gosod allan, ym Mhennod 4, ein dulliau newydd o ddiwygio ffioedd adfocatiaeth ac rydym yn ceisio barn arnynt.

Lleihau ffioedd cyfreithydd ac adfocad mewn Achosion Costau Uchel iawn (Trosedd)

353. Roedd hyn yn argymhell lleihau'r cyfraddau ar gyfer pob achos Troseddol Costau Uchel iawn o 30%. Gofynnwn ni:

Cwestiwn 27: A ydych yn cytuno dylid lleihau ffioedd Achosion Costau Uchel iawn (Trosedd) o 30%? Rhowch resymau, os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 28: A ydych yn cytuno dylai'r lleihad gael ei weithredu i waith yn y dyfodol o dan gontractau presennol yn ogystal â chontractau yn y dyfodol? Rhowch resymau, os gwelwch yn dda.

Materion allweddol a godwyd

354. Anghytunodd y mwyafrif o ymatebwyr â'r lleihad a argymhellwyd mewn ffioedd a'i weithredu i waith yn y dyfodol mewn VHCCau presennol. Fodd bynnag, derbyniodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Gyfraith a Chymdeithas Cyfreithwyr Deddfau Troseddol (CLSA), yr oedd posibilrwydd lleihau ffioedd mewn VHCCau. Dadleuodd ymatebwyr eraill nad oedd lleihad mewn ffioedd o 30% yn gynaliadwy ac roedd y drefn gontractio yn aneffeithiol ac yn drwm o ran adnoddau. Awgrymodd eraill hefyd nad oedd system yn seiliedig ar gyfraddau'r awr yn darparu sbardun ar gyfer effeithiolrwydd. Dadleuwyd hefyd nad oedd rheswm i gefnogi toriad o 30% a byddai gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfraddau VHCC yr erlyniad a'r amddiffyniad yn tramgwyddo'r egwyddor o 'cydbwysedd arfau'. Awgrymodd rhai bod cynllun gwahanol a argymhellwyd gan Gyngor y Bar yn 2009, a adnabyddir fel 'GFS Plus', yn ffordd well o arbed arian.
355. Awgrymodd rhai ymatebwyr byddai effaith sylweddol ar adfocadau hŷn, tra bod eraill yn dadlau byddai'r effaith yn fwy ar adfocadau iau gan fyddai eu cydweithwyr hŷn yn osgoi derbyn VHCCau a chanolbwyntio ar achosion ffioedd graddedig yn eu lle.
356. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno na ddylai'r lleihad fod yn weithredol ar gyfer gwaith yn y dyfodol mewn achosion presennol. Roedd pryderon byddai'n annheg ac yn anghyfreithlon i newid telerau'r contract a oedd eisoes wedi clymu'r ddwy ochr, ar un ochr yn unig. Awgrymwyd roedd risg byddai rhai adfocadau'n dychwelyd briffiau mewn achosion a oedd yn mynd rhagddynt pe leiheir ffioedd a byddai hyn yn arwain at gynydd mewn treuliau o dalu adfocadau newydd i ddeall yr achos.
357. Fel yr osodir allan uchod, awgrymodd ymatebwyr, i'r gwrthwyneb i'n disgwyliadau, byddai effaith cyfunol ein hargymhellion ar ffioedd troseddol, ac argymhellion cystadleuaeth, yn effeithio ar y Bar iau fwyaf. Awgrymwyd byddai'r effeithiau posibl hyn yn effeithio'n anghymesur ar fargyfreithwyr a oedd yn ferched ac yn Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiarioedd Ethnig (BAME), a gynrychiolir yn well ymysg y Bar iau.

Ymateb y Llywodraeth

358. Fel yr osodir allan yn ein hargymhellion diwygiedig ar gyfer caffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol, ni chynhwysir ymgyfreitha VHCC a gwasanaethau adfocatiaeth Llys y Goron oddi mewn i'r dull newydd i gaffael. Ein rhesymeg mewn argymhell lleihad o 30% mewn ffioedd yw lleihau gwariant are yr achosion hir hyn, sy'n

denu cyfran uchel anghymesur o wariant ar gymorth cyfreithiol. Derbyniodd rhai ymatebwyr yn y drafodaeth yn esblyg bod hyn yn faes lle gellid gwneud arbedion.

359. Fel y dywedon yn y ddogfen ymgynghori, mae VHCCau yn achosion o werth uchel, hir, sy'n dod â sicrwydd incwm i ddarparwyr, felly rydym yn credu bod lleihad o 30% yn gynaliadwy yn y cyd-destun hwn. Yn arferol, ymgymerir â gwaith VHCC gan adfocadau hŷn a chwmmiau mwy sefydlog o gyfreithwyr ac, yn ein hasesiad ni, mae lleihad o'r lefel hon yn gynaliadwy am unigolion a chwmmiau â'r incwm ffioedd uchaf. Nodon yn y papur ymgynghori bode in dadansoddiad yn dangos bod 12% o adfocadau'n derbyn incwm ffioedd o dros £100,000 a 3% yn derbyn ffioedd incwm o dros £200,000. Yn 2012/13, roedd mwy na hanner y rhai a oedd ag incwm ffioedd o dros £200,000 yn gweithio ar VHCCau, o'i gymharu â dim ond 20% o'r rhai ag incwm ffioedd rhwng £100,000 a £200,000. Dim ond 4% o fargyfreithwyr a oedd yn ennill llai na £100,000 a weithiodd ar VHCC yn 2012/13. Credwn ei fod yn iawn dylai ein lleihadau effeithio adfocadau o'r fath yn hytrach na'r rhai sydd ar incwm ffioedd llawer is. Wedi dweud hynny, efallai mai ymateb yr adfocadau sy'n ennill mwy na'n cyfradd lleihad arfaethedig fydd i geisio ymgymryd â mwy o waith nad yw'n VHCC troseddol, a all effeithio rhywfaint ar yr afocadau sy'n ennill yn is yn gyffredinol ac sy'n gwneud y gwaith hwn ar hyn o bryd, er bod terfyn are u gallu i ymgymryd â gwaith nad yw'n VHCC. P'run bynnag, pe bai adfocadau sy'n ennill mwy yn ymateb fel hyn, yn gall y rhai sy'n ennill llai cael fwy o fynediad at waith VHCC.
360. Gan gymryd y costau hollgynhwysfawr a natur eithriadol yr achosion hyn, rydym yn credu bod y drefn gontractol bresennol yn angenrheidiol i archwilio'n graff costau pob achos unigol. Er ein bod yn gyffredinol yn cefnogi ffioedd graddedig neu sefydlog i hybu effeithiolrwydd, mae natur eithriadol yr achosion hyn yn gwneud system o ffioedd graddedig (megis y model GFS Plus a amlinellir isod) yn anymarferol gan y byddai'n adlewyrchu'r swm o waith sydd ei angen yn gyffredinol mewn achos yn llai agos, sy'n golygu byddai'r rhai sy'n derbyn achos haws yn debygol o elwa, tra bod y rhai sy'n derbyn achosion mwy cymhleth yn colli allan. Mae hyn yn broblem arbennig i VHCCau gan fod y nifer bach o'r achosion hyn yn golygu na fyddai darparwyr o anghenraid yn ymgymryd â basged gymysg o achosion dros gyfnod o amser a roddwyd.
361. Argymhellwyd y model GFS Plus, a ffafriwyd gan ran ymatebwyr, gyntaf yn 2009 gan Gyngor y Bar fel cynllun posibl yr oedd yn credu byddai'n dderbyniol i afocadau a oedd yn dymuno cynnal gwaith VHCC fel ateb cynaliadwy hir dymor (gan gymryd bod anawsterau â'r cynllun panel a oedd mewn lle'r adeg honno).
362. Creodd y cynllun dau ddirprwy ar gyfer cymhlethdod a fyddai wedi bod yn ffactorau wrth weithio allan y lefel briodol o ffioedd. Y dirprwyon hyn oedd difrifoldeb yr achos a rôl y diffynnydd. Tra gallai body n bosibl diffinio difrifoldeb yr achos, mae rôl y diffynnydd gan fwyaf yn oddrychol. Gyda'r posibilrwydd o gyflwyno dirprwyon newydd, ystyriwyd yn hanfodol yn 2009 yr ymglymerwyd â modelu digonol i sicrhau y deallir yr effaith. Yn absenoldeb data cryf ni fyddai unrhyw ffordd o ddweud os byddai'r argymhelliad yn costio mwy neu lai na'r cynllun VHCC.
363. Er mwyn arbrofi dilysrwydd y cynllun hwnnw, roedd angen data ar VHCCau oedd wedi eu cwblhau, a gynigiwyd gan Gyngor y Bar i hel oddi wrth ei aelodau er mwyn rhoi'r cynllun ar brawf. Byddai hefyd wedi rhoi'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) ar y pryd y cyfle i brofi'r argymhellion ar sail yr effaith ariannol. Er gwaethaf y swm mawr o waith gan Gyngor y Bar ac eraill, arosod y gyfradd o ymatebion gan afocadau'n isel. Dim ond 24 o ffurflenni casglu data a ganfuwyd yn cynnwys gwybodaeth ddigonol i fod yn ddefnyddiol gan ddadansoddwyr yr LSC. Gan gymryd bod y cynllun wedi ei fodelu

ar nifer bach iawn o achosion, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y model GFS Plus yn ddigon cryf na allwn fod yn sicr y byddai wedi gwneud arbedion.

364. Derbyniwyd gan y Bar yn 2009 hefyd mai hyd yn oed pe weithredir GFS Plus byddai angen dihangfa o gyfraddau yn ôl yr awr mewn achosion eithriadol. Rydym yn cytuno ac yn derbyn bydd bob amser angen cyfraddau yn ôl yr awr ar gyfer yr achosion mwyaf eithriadol, felly ni fyddai GFS Plus ar ben ei hun byth wedi bod yr holl ateb. Ers 2009 mae cwmpas y cynllun VHCC wedi ei lleihau'n sylweddol ac erbyn hyn mae tua ond 15 achos VHCC newydd yn cael eu contraction y flwyddyn. Nid oes cyflawnhad mewn cyflwyno cynllun GFS Plus newydd, a chynllun yn ôl yr awr ar wahân ar gyfer achosion eithriadol yn ychwanegol ar gyfer y nifer bach o achosion yn ein barn ni.
365. Nid ydym yn derbyn bod y gwahaniaeth mewn cyfraddau cymorth cyfreithiol a chyfraddau'r CPS ar gyfer yn tanseilio'r egwyddor o 'gydraddoldeb arfau' yn unig oherwydd bod cyfraddau Cymorth cyfreithiol ar gyfer VHCCau yn is na chyfraddau'r CPS. Rydym yn hyderus bydd difinyddion yn parhau i dderbyn cynrychiolaeth effeithiol o dan y cyfraddau diwygiedig. Mae gan y rhan fwyaf o VHCCau nifer o ddifinyddion a dim ond un tîm o erlynwyr; mae i'r tîm o erlynwyr felly rôl wahanol i'w pherfformio na thimau'r amddiffyn mewn achosion VHCC, a adlewyrchir yn y gwahaniaethau mewn tâl. Ymhellach, mae cynllun y CPS a'r cynllun amddiffyn yn wahanol mewn nifer o ffyrdd sy'n tanseilio cymhariaeth uniongyrchol, er enghraifft mae cynllun y CPS yn cynnwys achosion dros 40 diwrnod, yn hytrach na 60 diwrnod.
366. Rydym yn ei ystyried yn briodol i weithredu'r lleihad mewn ffioedd i achosion presennol yn ogystal ag unrhyw achos a ddosberthir ar neu ar ôl y diwrnod cychwyn. Er mwyn pwysu i lawr ar y gost o'r achosion eithriadol hyn, sydd yn gyffredinol yn para am lawer o flynyddoedd, rydym angen sicrhau bod y cyfraddau sy'n cael eu talu ar sail barhaus yn cynrychioli gwerth am arian. Yn unol â'r dull a gymerwyd ar ein contractau cymorth cyfreithiol safonol, gall yr Arglwydd Ganghellor wneud deddfwriaeth eilradd i gynnwys y cyfraddau perthnasol i achosion VHCC a gwella trefniadau/dogfennau'r contract i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol hyn.
367. Hyd yn oed ar ôl lleihad o 30%, bydd VHCCau yn parhau i fod yn achosion o werth uchel ac o hyd a fydd yn dod â sicrwydd incwm i ddarparwyr, sy'n bwysig, yn arbennig i adfocadau hunangyflogedig. Am y rheswm hynny, yn ogystal â'u goblygiadau proffesiynol i gleientiaid, nid ydym yn ystyried bod risg sylweddol bydd adfocadau'n dychwelyd briffiau neu bydd cyfreithwyr yn ymarfer eu hawl unochrog o derfynu o dan eu contractau VHCC.
368. Rydym wedi penderfynu gweithredu'r lleihad mewn contractau unigol a gyhoeddwyd ers Gorffennaf 2010 a chontractau panel VHCC 2008. Mae ychydig bach o achosion cyn-banel o hyd yn fyw, ond bychan iawn yw'r gwaith sydd yn aros heb ei wneud, felly nid ydym yn diwygio cyfraddau o dan gontractau cyn 2008.
369. Gan gymryd gwerth uchel a hyd achosion VHCC a sicrwydd incwm i ddarparwyr maent yn eu darparu, rydym yn credu bod lleihad o 30% yn gynaliadwy yn y cyd-destun hwn. Bydd achosion VHCC yn parhau i fod yn ddeniadol gan fyddant o hyd yn achosion sy'n talu'n uchel, yn darparu sicrwydd incwm dros gyfnod parhaus, sy'n bwysig i ddarparwyr sy'n ceisio cynyddu'r cyfanswm o waith maent yn ei wneud. Mae VHCCau yn tueddu i fod yn achosion â phroffil uchel sydd hefyd yn ddeniadol o ran dilyniant bywyd proffesiynol ac enw, felly mae'n llai tebygol bydd darparwyr yn troi ymaith o'r gwaith. Mae dadansoddiad yr LAA o VHCCau twyll yn dangos bod gwerth contract ar gyfartaledd yn £1m a bod contractau'n rhedeg am bedair blynedd ar gyfartaledd.

370. Mae'n dadansoddiad o effeithiau cydraddoldeb ar y diwygiadau yn cael ei ateb yn Atodiad F.

Casgliad

371. Wedi ystyried, a chan roi sylw priodol i ymatebion yr ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu mynd ymlaen â'r lleihad arfaethedig o 30% mewn ffioedd taladwy ar gyfer pob achos VHCC troseddol newydd a gwaith yn y dyfodol mewn achosion presennol.
372. Ar hyn o bryd disgwylir i'r argymhelliad hwn gael ei weithredu drwy ddeddfwriaeth eilradd, yn amodol ar gydsyniad y Senedd, a'r newidiadau i gontractau yn ddiweddarach eleni.

Lleihau'r defnydd o adfocadau lluosog

373. Argymhellodd yr ymgynghoriad dynhau'r rheolau sy'n rheoli'r penderfyniad i apwyntio nifer o gwmsler mewn achos, newidiadau i gontractau cyfreithydd i fynnu ar fwy o gefnogaeth i gwmsler gan y tîm ymgyfreitha, a rhagarweiniad i system o benderfynu cryfach a mwy cyson. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 29: A ydych yn cytuno â'r argymhellion:

- **i dynhau'r meini prawf presennol sy'n bwydo'r penderfyniad ar ganiatáu'r defnydd o adfocadau niferus;**
- **i ddatblygu gofyniad cliriach yn y contractau ymgyfreitha newydd fod rhaid i'r tîm ymgyfreitha ddarparu cefnogaeth briodol i adfocadau yn Llys y Goron, ac**
- **i gymryd camau i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n fwy cyson ac yn gryfach ym mhob achos gerbron y Barnwyr Llywyddol?**

Rhowch resymau, os gwelwch yn dda.

Materion allweddol a godwyd

374. Anghytunodd y mwyafrif o ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor o Farnwyr Cylchdaith EM, â'r argymhellion hyn a themlent fod unrhyw newid yn ddiangen, yn nhermau'r meini prawf a ddefnyddiwyd i wneud penderfyniadau ac yng nghynhwysiad Barnwyr Llywyddol. Dywedodd ymatebwyr nad oedd dim tystiolaeth bod dau adfocad yn cael eu caniatáu'n rhy aml ac nid oedd yn annisgwyl bod y rhif bach o lysoedd lle clywir yr achosion mwyaf difrifol yn caniatáu mwy nac un adfocad yn fwy aml na llysoedd eraill.. Awgrymodd llawer mai barnwyr treialon oedd yn y lle gorau i wneud y penderfyniadau hyn gan eu bod yn gwybod manylion yr achos ac roedd ceisio cydsyniad y Barnwyr Llywyddol yn faich dianghenraid a all achosi oedi. Gan gymryd y gwneir penderfyniadau ar ffeithiau unigol achos, awgrymodd ymatebwyr na fyddai Barnwyr Llywyddol yn gallu gwneud penderfyniadau'n fwy cyson. Dywedodd llawer o ymatebwyr nad oedd yn gyffredin i bob diffynnydd unigol gael mwy nac un adfocad mewn achosion â nifer o ddwylo: yn aml, byddai'r cwmsler arwain yn cael ei gyfyngu i brif chwaraewyr mewn achos. Fodd bynnag, dywedodd y Bwrdd Gweithrediaeth Barnwrol (JEB) yr oedd ond ychydig iawn o achosion lle oedd swm y gwaith papur neu unrhyw fusnes arall yn golygu bod yn angenrheidiol cael dau neu hyd yn oed tri adfocad lle byddai hyd yn oed adfocad medrus iawn yn cael ei orlethu.

375. Dywedodd rhai ymatebwyr mail le oedd gan yr erlyniad mwy nac un adfocad, yna dylai bod gan yr amddiffyn fwy nac un i sicrhau cydraddoldeb arfau. Dywedodd y JEB yr oedd angen cadw'r sbardun i ymgysylltu ag adfocadau treial profiadol, gan gynnwys Cwnsler y Frenhines, lle mae eu hangen.
376. Derbyniion ymatebion cymysg i'r cwestiwn o fwy o gefnogaeth gyfreithydd i adfocadau Llys y Goron. Dywedodd cyfreithwyr nad oeddynt yn gallu fforddio darparu mwy o gefnogaeth ar hyn o bryd a byddant yn llai abl pe bai ffioedd yn cael eu lleihau gan 17.5% fel yr argymhellwyd o dan y model ar gyfer tendro cystadleuol ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol yn yr ymgynghoriad. Yn gyffredinol, croesawodd adfocadau mwy o gefnogaeth, ond awgrymodd rhai nad oedd hyn yn cymryd lle ail adfocad mewn achosion priodol.

Ymateb y Llywodraeth

377. Rydym yn cydnabod y mae amgylchiadau lle bydd yn angenrheidiol a phriodol i'r amddiffyn ddefnyddio mwy nac un adfocad a lle mae'r erlyniad wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, rydym yn parhau i bryderu bod gormod o achosion lle mae adfocadau lluosog yn cael eu defnyddio'n ddiangen, yn arbennig mewn achosion lle ceir mwy nac un diffynnydd, yn arbennig lle mae pob tîm amddiffyn yn cael caniatâd i ddefnyddio dau adfocad. Yn ein barn ni, mae newid yn angenrheidiol. Mae tystiolaeth bod dau adfocad yn cael eu caniatáu'n amlach na sydd angen. Cyfeiriodd y JEB at gorff sylweddol o adroddiadau anecdotaidd gan farnwyr bod safle'r "ail" adfocad wedi ei lenwi gan adfocadau â'r hawl i ymddangos na chwaraeodd ran go iawn yn yr achos.
378. Rydym yn derbyn bydd nifer bach o lysoedd lle clywir yr achosion mwyaf difrifol ac efallai gallent ganiatáu mwy nac un adfocad yn fwy aml na llysoedd eraill. Fodd bynnag, teimlwn fod adfocadau lluosog yn cael eu defnyddio'n rhy aml hyd yn oed mewn achosion o'r fath. Rydym hefyd yn derbyn gall Farnwyr Llywyddol fod dim mor agos at fanylion achos â barnwr unigol preswyl neu farnwr y treial. Fodd bynnag, byddai goruchwyliaeth Barnwyr Llywyddol ar sail yr holl ddalgylch yn caniatáu iddynt sicrhau bod cysondeb dull rhwng canolfannau llysol, lle gall ymarferion gwahanol wedi datblygu dros amser. Rydym yn ei ystyried yn briodol bod gan Farnwyr Llywyddol oruchwyliaeth briodol o'r dyfarniad o CFau ac adfocadau lluosog and gwneir yr argymhellion cychwynnol gan farnwyr preswyl i sicrhau y gweithredir egwyddorion cyson ym mhob canolfan llysol.
379. Yn wreiddiol, ystyrion gall fod yn ofynnol dirprwyo'r ddyletswydd honno yn Llundain mewn perthynas ag achosion a glywir yn y Llys Canolog Troseddau a Southwark, gan gymryd y maint uchel o geisiadau am nifer o adfocadau yn y canolfannau llysoedd hynny. Fodd bynnag, ar ôl ystyried barn ymatebwyr ar y posibilrwydd o oedi, rydym yn bwriadu rhoi'r pŵer i bob Barnwr Llywyddol i ddirprwyo eu dyletswydd (e.e. i farnwr preswyl) lle mae'n ystyried hynny'n briodol. Rydym yn credu bydd hyn yn darparu hyblygrwydd i sicrhau y gall biwrocratiaeth ac oedi cael eu lleihau.
380. Am y rhesymau a osodwyd allan yn y papur ymgynghori, rydym yn bwriadu diwygio'r amod maen prawf yr erlyniad ar gyfer apwyntiad o adfocadau lluosog i wneud yn glir nad yw'n ddigonol dangos yr angen am adfocadau lluosog ar gyfer pob diffynnydd ond oherwydd bod gan yr erlyniad adfocadau lluosog. Dywedodd llawer o ymatebwyr nad oedd angen hyn, ond rydym yn fodlon bod digon o dystiolaeth o'r achosion lle mae diffynnyddion wedi derbyn adfocadau lluosog yn ddiangen, er enghraifft rhai sy'n wynebu treial ar droseddau llai, a'i bod hi'n briodol tynhau'r meini prawf.

381. Ar y cwestiwn o fwy o gymorth ymgyfreitha ar gyfer afocadau, rydym yn ystyried hi'n briodol i ohirio penderfyniad hyd nes penderfynu ar delerau'r contractau ymgyfreitha troseddol newydd yn gyffredinol, yn hytrach na gwneud penderfyniad ar un agwedd unigol o gontract newydd yn awr.

Casgliad

382. Ar ôl ystyried, a chan roi sylw haeddiannol i ymatebion yr ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu newid maen prawf yr erlyniad sy'n berthnasol i benderfynu dewis adfocadau lluosog a'r broses o benderfynu ar apwyntiad CFau a chwmsleriaid lluosog.
383. Bwriedir ein bod yn cyflwyno'r diwygiadau hyn, yn amodol ar gydsyniad y Senedd, trwy welliannau i ddeddfwriaeth eilradd yn ddiweddarach eleni.
384. Byddwn yn cymryd ymlaen y cwestiwn o gefnogydd cyfreithydd ar gyfer afocadau ar wahân fel yr ydym yn datblygu'r polisi ar gontractau yn y dyfodol.

Diwygio Ffioedd Cymorth Cyfreithiol Sifil

385. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar dri diwygiad arfaethedig i daliadau mewn achosion sifil a theuluol.
386. Cododd nifer o ymatebwyr broblemau bod y diwygiadau ffioedd arfaethedig yn bygwth gallu darparwyr i gyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol. Ystyrir atebion i gwestiynau penodol yn ymwneud â ffioedd sifil a theuluol isod.

Taliadau i gyfreithwyr teulu

387. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 30: A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai'r ffi gynrychiolaeth cyfraith teulu gyhoeddus gael ei lleihau o 10%? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Y prif faterion a godwyd

388. Roedd gwrthwynebiad cyffredinol gan ymatebwyr i'r cynnig hwn, yn enwedig oddi wrth gyfreithwyr a bargyfreithwyr. Roedd hyn yn cynnwys Cymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor y Bar a oedd yn teimlo bod y proffesiwn cyfreithiol eisoes wedi dioddef, mewn termau real, o dorri incwm o ganlyniad i newidiadau mewn ffioedd blaenorol y Diwygiad Cymorth Cyfreithiol a rhewi chwyddiant parhaus. Hefyd dadleuodd nifer o ymatebwyr fod y Llywodraeth yn gweithredu'n anonest wrth geisio lleihau taliadau ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol mor fuan ar ôl i'r contractau newydd ddechrau.
389. Dadleuodd rhai ymatebwyr hefyd bod y gostyngiadau llwyth gwaith a ragwelir o ganlyniad i'r diwygiadau Arolwg Cyfiawnder Teulu (FJR) wedi cael eu cyflenwi eto ac ni ddylid eu defnyddio gan y Llywodraeth fel sail ar gyfer toriadau ar unwaith. Aeth rhai ymatebwyr ymhellach ac anghytuno bod y diwygiadau FJR, yn arbennig y rhai a oedd yn cael eu gwneud mewn perthynas ag arbenigwyr, yn golygu unrhyw ostyngiadau mewn llwyth gwaith, gan gymryd y farn y byddai absenoldeb adroddiadau arbenigol yn ei gwneud yn ofynnol i gyfreithwyr weithio mwy wrth gasglu tystiolaeth eu hunain. Hefyd, dadleuai rhai y byddai'r ffocws ar ddatrys achosion ynghynt o dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig (PLO) angen mwy o waith paratoi o flaen llaw.

390. Mynegodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor y Bar, y farn y byddai gostwng y ffioedd cynrychiolaeth sefydlog yn cynyddu costau, gan y cyrhaeddi y trothwy dianc ynghynt. Yn gyffredinol, dadleuodd ymatebwyr o bob sector nad oedd y Llywodraeth wedi rhoi digon o ystyriaeth i effaith y toriad ffi arfaethedig ar y diwygiadau sydd eisoes yn digwydd o ganlyniad i FJR a chyflenwad y diwygiadau hynny. Honnodd yr ymatebwyr y byddai toriadau o'r fath yn arwain at i ymarferwyr profiadol adael y farchnad, gan effeithio ar ansawdd y gwasanaeth. Roedd pryder arbennig am yr effaith ar gwmnïau bach a'r rhai sy'n ymgymryd â gwaith teulu a throedd.
391. Ar y cyfan, roedd consensws cyffredinol y dylai'r Llywodraeth aros am ganlyniadau effeithiau llawn LASPO a'r diwygiadau FJR cyn ceisio gweithredu newidiadau pellach.
392. Roedd ymatebwyr o'r farn petai darparwyr yn gadael y farchnad o ganlyniad i doriad ffioedd, y byddai hyn yn effeithio ar grwpiau o bobl sy'n agored i niwed, yn enwedig plant, drwy leihau argaeledd cyngor a ariennir yn gyhoeddus a datrys achosion teulu mewn modd amserol. Awgrymodd rhai ymatebwyr bod toriadau ffioedd blaenorol eisoes wedi arwain at ymarferwyr profiadol yn tynnu'n ôl o waith cymorth cyfreithiol a byddai gostyngiad ffi arall yn gwaethgu'r broblem hon, a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar fenywod, BAME a chleientiaid cymorth cyfreithiol anabl.
393. Awgrymodd rhai ymatebwyr mai dull amgen o sicrhau arbedion fyddai ymdrin â'r gwahaniaethau mewn prisiau rhanbarthol presennol a oedd yn bodoli yn y cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Gofal.

Ymateb y Llywodraeth

394. Mae'r drefn ffioedd sefydlog bresennol yn seiliedig ar y gyfundrefn o gyfartaledd y biliau a dalwyd yn ôl cyfraddau fesul awr mewn achosion gofal yn 2007. Wrth i'r system cyfiawnder teuluol ddod yn fwy syml ac effeithlon, mae'r Llywodraeth yn dal i fod o'r farn nad yw'r ffioedd hyn yn gynyddol o anghenraid yn cynrychioli gwerth am arian.
395. Un o ganfyddiadau allweddol yr FJR oedd y ffaith bod adroddiadau arbenigol diangen ac amhriodol yn cael eu comisiynu, fel arfer mewn achosion teulu cyfraith gyhoeddus, gan arwain at oedi wrth ddatrys achos. Lle na ddefnyddiwyd unrhyw arbenigwyr, neu lai o arbenigwyr, roedd hyd achosion gofal yn gostwng yn sylweddol⁵⁵. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi derbyn argymhelliad yr FJR yn y maes hwn a arweiniodd at wneud newidiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Teulu a ddaeth i rym ar 31 Ionawr 2013. Yn ogystal, mae diwygiadau eraill gan gynnwys creu PLO diwygiedig ar gyfer achosion gofal (sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd ac sy'n ceisio symleiddio'r broses llys a thrwy hynny leihau nifer y gwrandawiaid), hefyd yn debygol o arwain at ostyngiad o ran hyd achos ac, felly, at ostyngiad yn y llwyth gwaith. Dengys yr ystadegau llys diweddaraf ar gyfer Ch1 2013 bod hyd cyfartalog achos llys eisoes wedi gostwng i 42 wythnos, i lawr 24% ers Ch1 2012⁵⁶.
396. Felly, er bod y Llywodraeth yn nodi barn rhanddeiliaid am gyflenwi diwygiadau'r FJR, mae'n ystyried gyda phwysau ariannol parhaus a'r angen dybryd i sicrhau arbedion ar unwaith o ddiwygiadau ffioedd cymorth cyfreithiol, ei bod yn hanfodol i'r Llywodraeth sicrhau bod y ffioedd a delir am achosion cyfraith teulu gyhoeddus yn cynrychioli gwerth am arian. Mae hyn yn golygu adlewyrchu'n agosach swm y gwaith dan sylw,

⁵⁵ Cassidy, D and Davey S (2011) Family Justice Children's Proceedings – Review of Public and Private Law Case files in England & Wales, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

⁵⁶ Ystadegau Llys Chwarterol Ionawr - Mawrth 2013.

gan gynnwys gostyngiad yn hyd yr achosion sydd eisoes yn cael eu gweld, yn ogystal â'r gostyngiad tebygol yn swm y gwaith sydd ynghlwm wrth achosion gofal a ragwelir gyda gweithrediad llawn diwygiadau FJR. Yn y cyd-destun hwn, er ei bod yn cydnabod y gellir cael newidiadau i'r cam pryd y mae'n rhaid i waith penodol gael ei gwblhau, mae'r Llywodraeth yn dal o'r farn bendant y byddai gostyngiad yn y defnydd o arbenigwyr a'r gwelliannau gweithdrefnol eraill sy'n cael eu cyflwyno gan y diwygiadau FJR yn lleihau'r swm cyffredinol o waith sy'n ofynnol i gyfreithwyr ei wneud ar achos. Rydym o'r farn bod y gostyngiad arfaethedig o 10% yn cynrychioli adlewyrchiad rhesymol o'r arbedion effeithlonrwydd hyn.

397. Fel y nodwyd ym mharagraff 6.13 o'r papur ymgynghori, rydym yn bwriadu cyflwyno ffoedd wedi'u diwygio i gyd-fynd â chyflwyniad y Llys Teulu Sengl ym mis Ebrill 2014, ac erbyn hynny bydd elfennau allweddol y diwygiadau FJR eisoes wedi bod ar waith am gyfnod o amser. Mae'r Llywodraeth yn fodlon y bydd hyn yn rhoi digon o gyfle i ddarparwyr addasu i'r gofynion newydd hyn, cyn i'r ffoedd newydd ddod i rym.
398. Mae cyfraddau fesul awr yn daladwy ar hyn o bryd - a byddant yn parhau i fod - yn yr achosion mwyaf cymhleth lle mae materion yn golygu bod yr amser y mae'n rhaid i ddarparwr ei gymryd ar yr achos yn cyrraedd y trothwy dianc, sy'n cael ei gyfrifo ar hyn o bryd drwy ddefnyddio'r cyfraddau fesul awr sy'n daladwy ar ddianc. Fodd bynnag, fel y nodir ym mharagraff 6.11 yr ymgynghoriad, bydd y cyfraddau hyn yn cael eu lleihau o 10% i hyrwyddo datrys achosion yn effeithlon ac osgoi creu unrhyw gymhelliant i oedi. Ein bwriad yw parhau i ddefnyddio'r cyfraddau fesul awr, wedi'u diwygio fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad, i gyfrifo'r trothwy dianc, ar y sail y bydd hyn yn sicrhau mai dim ond y mathau hynny o achosion sy'n cyrraedd y trothwy dianc yn awr fydd yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Fel yn awr, bydd yr LAA yn parhau i asesu costau hyn ac mae'r Llywodraeth yn fodlon y bydd hyn yn ddigon i reoli'r tebygolrwydd o ddarparwyr yn hawlio cyfraddau fesul awr yn amhriodol ac fel mater o drefn.
399. Bydd y diwygiad arfaethedig o angenrheidrwydd yn lleihau incwm y darparwyr yr effeithir arnynt, ond mae hyn ar y sail y bydd angen iddynt wneud llai o waith ar yr achosion hyn, gan roi cyfle felly i ymgymryd â gwaith arall. Er nad yw gallu darparwyr yn y farchnad hon i ymgymryd â gwaith preifat yn eglur, mae nifer cynyddol o achosion cyfraith teulu gyhoeddus yn debygol o ddarparu gwaith ychwanegol posibl i ddarparwyr yn y sector hwn.
400. Awgrymodd byrdwn cyffredinol yr ymatebion i'r ymgynghoriad na fyddai'r gostyngiad arfaethedig yn gynaliadwy ac y byddai'n effeithio ar gyflenwad y farchnad, gan effeithio'n anghymesur ar grwpiau sy'n agored i niwed na fyddent yn gallu cael mynediad at wasanaethau. Cafwyd dadleuon tebyg mewn perthynas â phob diwygiad arfaethedig i daliadau cymorth cyfreithiol sifil ers cyflwyno Rhan I y cynllun ffoedd sefydlog yn 2007. Er gwaethaf hyn, mae nifer sylweddol o ddarparwyr yn parhau i weithio yn y maes hwn sydd yn gorfod dangos yn annibynnol pan maent yn cynrychioli plant eu bod yn bodloni'r safonau ansawdd angenrheidiol ar gyfer ymgymryd â gwaith o'r fath, drwy gael eu cofrestru ar Banel Plant Cymdeithas y Gyfraith.
401. Mae'r unig arwydd pendant o adwaith y farchnad - canlyniad y broses dendro cymorth cyfreithiol sifil 2013 ar gyfer contractau (sy'n adlewyrchu diwygiadau cwmpas LASPO) - yn awgrymu bod hyn yn dal yn wir. Er bod canlyniad y broses dendro hon yn dangos gostyngiad bychan iawn yn y nifer gwirioneddol o gwmnïau dan gytundeb a oedd yn gwneud cais am contractau, bu cynnydd yn y nifer o swyddfeydd yr oedd y cwmnïau hynny yn bwriadu cyflenwi gwasanaethau teulu ohonynt (gweler Atodiad D). O ystyried bod yr ymateb hwn gan y farchnad yng ngoleuni'r gostyngiadau sylweddol mewn

gwaith teulu a ariennir yn gyhoeddus o dan LASPO, gellir dadlau bod hyn yn dangos bod awydd cryf yn parhau ymysg darparwyr i wneud gwaith cymorth cyfreithiol, ac yn gyffredinol dylai'r farchnad allu cwrdd â'r lefelau galw disgwylidig i'r dyfodol ar brisiau cyfredol. Nid yw hyn yn dweud wrthym p'un a fydd nifer digonol o ddarparwyr yn y farchnad yn y tymor hir, beth yw hyfywedd presennol gwirioneddol unrhyw gwmni dan gytundeb, na sut y gallai hyn gael ei effeithio gan y newidiadau mewn ffioedd. Fodd bynnag, mae'n awgrymu bod cystadleuaeth am waith ar hyn o bryd, ac felly mae lle i o leiaf i rai darparwyr dynnu'n ôl o'r farchnad, tra'n parhau i gynnal cyflenwad marchnad gynaliadwy.

402. Gan gymryd i ystyriaeth yr holl ddata sydd ar gael, ar y cyfan mae'r Llywodraeth o'r farn bod y gostyngiadau arfaethedig yn debygol o fod yn gynaliadwy. Rydym yn ystyried eu bod yn rhoi cydbwysedd priodol rhwng yr angen i leihau gwariant, cymryd i ystyriaeth y cyfleoedd a'r effeithlonrwydd a ddarperir gan ddiwygiadau system ehangach, a sicrhau y gall cleientiaid barhau i gael mynediad at wasanaethau cymorth cyfreithiol. Mae ein dadansoddiad diwygiedig o effeithiau cydraddoldeb y diwygiadau yn cael sylw yn Atodiad F. Er bod risg o ymyrraeth tymor byr i gyflenwi mewn rhai ardaloedd os yw darparwyr yn tynnu'n ôl o'r farchnad, rydym yn hyderus y gellid ymdrin â'r rhain pe baent yn codi gan camau lliniaru priodol gan yr LAA, megis dosbarthu gwaith ychwanegol i ddarparwyr eraill yn yr ardal a chynnal rowndiau cais ychwanegol i ddod o hyd i gyflenwyr newydd.
403. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried dull amgen a awgrymwyd gan ymatebwyr a fyddai'n golygu cael gwared â gwahaniaethau mewn prisiau rhanbarthol. Fodd bynnag, gallai'r effaith o gael gwared â hyn olygu gostwng cyfraddau ar gyfer cyfreithwyr a bargyfreithwyr ym meysydd gwaith sifil a theulu yr effeithir arnynt o hyd at 34%, gan ddiwynnu ar y lefel y gosodir unrhyw ffi ddiwygiedig. Mae'r prif wahaniaethau mewn achosion cyfraith teulu gyhoeddus ac fe'u cyflwynwyd i ddechrau yn 2007 ar sail dros dro, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y cyflenwad marchnad yn y pedwar rhanbarth cyn cyflwyno'r tendro cystadleuol posibl ar gyfer gwasanaethau. Mae'r Llywodraeth o'r farn mai dim ond yng nghyd-destun prinder cyflenwad marchnad y gellid cyfiawnhau eu cadw yn y tymor hir, ac felly mae'n bwriadu ymdrin â hyn maes o law. Fodd bynnag, yr asesiad presennol yw efallai na fyddai toriad o'r math hwn yn gynaliadwy ar hyn o bryd, o gofio'r newidiadau diweddar i gwmpas a gyflwynwyd o dan LASPO, sydd eto i gael effaith lawn ar ddarparwyr. Yn hytrach, rydym yn bwriadu adolygu'r gwahaniaethau prisiau rhanbarthol presennol yng ngoleuni effaith newidiadau cwmpas LASPO a'r diwygiadau a gaiff eu gweithredu yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Casgliad

404. Am y rhesymau a nodwyd uchod, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig fel y'i nodwyd yn y papur ymgynghori i weithredu'r gostyngiad arfaethedig o 10% i'r:
- ffi gynrychiolaeth sefydlog; a
 - y cyfraddau fesul awr sy'n berthnasol pan fo achos yn cyrraedd y trothwy dianc
405. Bydd y cyfraddau fesul awr diwygiedig yn cael eu defnyddio i ddiben cyfrifo'r trothwy dianc o'r cynllun ffi sefydlog.
406. Mae'r cyfraddau diwygiedig a fydd yn berthnasol yn cael eu nodi yn Nhablau 1 a 2 o Atodiad E.

407. Bwriedir cyflwyno'r newidiadau hyn ar ffurf diwygiadau i ddeddfwriaeth eilaidd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, ym mis Ebrill 2014. Bwriedir i'r amseru gyd-fynd â newidiadau yn y cynllun eiriolaeth teulu, sy'n ofynnol i hwyluso cyflwyno'r Llys Teulu Sengl newydd y bydd y Llywodraeth yn ymgynghori arno'n ddiweddarach eleni.

Taliadau i fargyfreithwyr sifil

408. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 31: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai ffioedd i fargyfreithwyr hunangyflogedig sy'n ymddangos mewn achosion sifil (heb fod yn rhai teuluol) yn y llys sirol a'r Uchel Lys gael eu cysoni â'r rheini i eiriolwyr eraill sy'n ymddangos yn y llysoedd hynny? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

Y prif faterion a godwyd

409. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas y Gyfraith a nifer o gyfreithwyr, yn cytuno na ddylai'r gwahaniaeth rhwng ffioedd bargyfreithwyr ac eiriolwyr eraill barhau. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr, yn enwedig bargyfreithwyr hunangyflogedig ond hefyd rai cyfreithwyr, yn anghytuno â'r diwygiad arfaethedig. Roedd bargyfreithwyr a ymatebodd yn arbennig o bryderus am yr effaith ar y Bar iau, gan awgrymu y byddai'r newid arfaethedig yn debygol o wneud cymorth cyfreithiol sifil yn fasnachol anhyfyw iddynt. Roeddent yn dadlau y byddai hyn yn niweidiol i gyfansoddiad y Bar gan fod y ffioedd is yn debygol o gyfyngu gallu pobl o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd tlawd i fynd i'r Bar, a fyddai'n cael effaith anghymesur ar gynrychiolaeth menywod a grwpiau BAME. Byddai hyn yn ei dro yn effeithio ar amrywiaeth farnwrol.
410. Pryder mawr ymysg bargyfreithwyr oedd y diffyg sicrwydd ynghylch incwm ffioedd y byddai'r cynnig hwn yn ei gyflwyno. Dadleuodd rhai ymatebwyr fod gwahaniaethau sylfaenol rhwng y ddau sector sy'n cyfiawnhau cadw strwythur ffioedd gwahanol, gan gynnwys y gorbenion personol uwch a wynebwr gan fargyfreithwyr, a'r ffaith eu bod yn tueddu i ganolbwyntio ar feysydd arbenigol penodol o'r gyfraith.
411. Roedd ymatebwyr yn dadlau'n gyffredinol bod y math o achosion a oedd yn parhau o fewn cwrpas cymorth cyfreithiol sifil yn dilyn gweithredu LASPO fel arfer yn faterion cymhleth a oedd angen cynrychiolaeth arbenigol, ac nad oeddynt fel rheol yn cael eu cynnal gan eiriolwyr cyfreithiwr. Roeddynt yn dadlau y byddai'r gostyngiad ffi arfaethedig felly'n effeithio ar gyflenwad y farchnad o eiriolwyr yn y meysydd hyn.
412. Dadleuodd ymatebwyr bargyfreithwyr hefyd y dylai unrhyw gysoni fod ar gyfraddau panel Adran Cyfreithiwr y Trysorlys (TSol) yn hytrach na'r cyfraddau cymorth cyfreithiol presennol ar gyfer eiriolwyr eraill, ar y sail bod y grŵp hwn yn tueddu i ymddangos mewn achosion tebyg. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys cysoni ffioedd bargyfreithwyr hunangyflogedig a ffioedd eiriolwyr arall am ffi benodol, er enghraifft £100 yr awr gydag ystod gyfyngedig o welliannau, ar y sail y byddai hyn yn lleihau'r baich gweinyddol ac yn gwneud y cynllun yn fwy ymarferol.

Ymateb y llywodraeth

413. Eglurodd y Llywodraeth yn ei hymgyngghoriad yn 2010 ar ddiwygio cymorth cyfreithiol mai ein bwriad yn y tymor hir oedd talu eiriolwyr a oedd yn gweithio ar achosion sifil (heb fod yn rhai teulu) ar gyfraddau tebyg am eiriolaeth a thasgau cysylltiedig, p'un a

oeddynt yn gyfreithwyr ynteu'n fargyfreithwyr⁵⁷. Mae'r Llywodraeth o'r farn y gallai talu cyfraddau uwch gael eu cyfiawnhau lle mae gwaith yn wahanol iawn, ond nid yw'n credu bod unrhyw gyfiawnhad dros ddefnyddio arian cyhoeddus i dalu cyfraddau uwch fel mater o drefn i un grŵp penodol lle mae'r gwaith sylfaenol sy'n cael ei wneud yn debyg o ran natur i'r hyn a wneir gan eraill ar gyfraddau is, dim ond oherwydd eu bod yn perthyn i wahanol ganghennau o'r proffesiwn cyfreithiol.

414. Fel y nodwyd yn yr ymateb i'w hymgyngoriad yn 2010, mae'r Llywodraeth o'r farn bod yn rhaid i'r swm y mae'n ei dalu ar gyfer unrhyw wasanaeth gynrychioli'r gwerth gorau posibl am arian a sicrhau ei bod yn talu dim ond y ffioedd hynny sy'n gwbl angenrheidiol i sicrhau lefel y gwasanaethau sydd eu hangen.⁵⁸ Yn y cyd-destun hwn, nid yw'r Llywodraeth yn derbyn bod unrhyw amrywiad yn y ffioedd fel rhwng yr hawlydd a'r amddiffyn yn tanseilio'r egwyddor o gydraddoldeb arfau, yn hytrach mae'n fodlon bod y farchnad yn penderfynu pa gyfraddau sy'n angenrheidiol i sicrhau cynrychiolaeth effeithiol. Rydym o'r farn bendant nad yw cynyddu'r ffioedd safonol sydd ar hyn o bryd yn daladwy i eiriolwyr eraill, yn gyffredinol, yn debygol o gyflawni gwerth am arian ac y byddai o reidrwydd yn methu â darparu'r lefel angenrheidiol o arbedion.
415. Er bod y Llywodraeth yn cydnabod y byddai gwobrwyo pob eiriolwr sifil ar sail gyffredin fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad yn arwain at beth ansicrwydd i fargyfreithwyr sifil o ran cyfanswm y tâl y byddent yn ei dderbyn mewn achos penodol, dyma i ryw raddau oedd y sefyllfa cyn cyfundrefnu cyfraddau bargyfreithwyr sifil (heb fod yn rhai teulu) ym mis Hydref 2011. Cyn yr amser hwnnw, tra oedd yr LSC ar y pryd yn talu bargyfreithwyr gan gyfeirio at gyfraddau meincnodi, roedd yn bosibl (ac mae'n dal i fod mewn rhai meysydd cyfyngedig⁵⁹) i gyfanswm y tâl amrywio, yn enwedig lle'r oedd achos yn cael ei asesu gan y llys.
416. Er bod y Llywodraeth yn deall y pryder a all ddigwydd yn sgil unrhyw newid yn y dull o weithredu, nid ydym yn cytuno bod y cynllun presennol, sy'n darparu hyd at £135 yr awr ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir gan fargyfreithiwr iau newydd gymhwyso⁶⁰ sy'n ymddangos mewn achos syml ond dim ond £59.40 mewn perthynas â gwasanaethau tebyg a ddarperir gan unrhyw eiriolwr arall yn yr un math o achos, yn cynrychioli gwerth am arian. Yn hytrach mae'r Llywodraeth o'r farn bod y cynllun arfaethedig, sy'n darparu yn benodol ar gyfer cymryd i ystyriaeth gymhlethdod yr achos a rôl/perfformiad yr eiriolwr trwy wneud gwelliannau ar gael, yn ffordd fwy effeithiol o sicrhau tâl priodol ar gyfer bargyfreithwyr sifil hunangyflogedig, tra'n sicrhau ar yr un pryd werth am arian i'r trethdalwr.
417. Er y byddai'r newid arfaethedig yn arwain at i gyfraddau is gwarantiedig fod yn berthnasol, os fel yr awgrymwyd gan Gyngor y Bar ac eraill, fod bargyfreithwyr sifil hunangyflogedig yn canolbwyntio ar achosion cymhleth mewn meysydd arbenigol o gyfraith lle maent yn ychwanegu gwerth gwirioneddol i ddatrys yr achos, nid oes unrhyw reswm pam na ddylent fod yn hyderus ynglŷn â bodloni'r meini prawf fel mater o drefn ar gyfer talu gwelliannau sylweddol yn yr achosion hynny lle maent yn ymddangos. Er enghraifft, gan ddibynnu ar gymhlethdod yr achos, y modd y cynhaliodd y bargyfreithiwr yr achos, a'u rôl benodol yn yr achos hwnnw, gallai'r gyfradd a delir ar

⁵⁷ Paragraff 7.10 o Ddeddf Diwygio Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr - Papur Ymgynghori..

⁵⁸ Paragraff 6.13 y fanyleb gyffredinol Contract Cymorth Cyfreithiol Sifil Safonol 2013.

⁵⁹ Gweler Rheoliad 7 (3) o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau) 2013.

⁶⁰ Y gyfradd bresennol sy'n daladwy ar gyfer unrhyw fargyfreithiwr iau sy'n ymddangos mewn unrhyw achos sifil yn y llys sirol yn Llundain.

gyfer gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir gan fargyfreithiwr hunangyflogedig o dan y cynllun cysoni gynyddu o:

- isafswm o £59.40 yr awr hyd at £89.10 yr awr ar gyfer achos llys sirol; ac,
- isafswm o £67.50 yr awr i hyd at £135.00 yr awr ar gyfer achos yn yr Uchel Lys.

418. Yn wir, gan gymryd i ystyriaeth bod y gyfradd fesul awr sy'n daladwy i eiriolwr ar gyfer gwaith paratoi yn yr Uchel Lys neu'r Uwch Dribiwnlys tua 6% yn uwch⁶¹ na'r ffi ar gyfer eiriolaeth, byddai'r gwelliannau a fyddai ar gael yn golygu y gallai rhai bargyfreithwyr dderbyn mwy o dan y cynnig hwn nag o dan naill ai gyfraddau'r panel TSol neu, mewn rhai achosion, y cynllun ffioedd cymorth cyfreithiol sifil presennol.
419. Byddai'r diwygiad arfaethedig felly yn sicrhau bod bargyfreithwyr hunangyflogedig yn cael eu talu'n briodol drwy argaeledd gwelliannau a fyddai'n caniatáu'n benodol i gymhlethdod achos a'r sgiliau a ddaw'r bargyfreithiwr i'r achos gael eu cydnabod ar ben y ffi safonol isafswm gwarantedig, a fydd yn cael ei thalu i roi sicrwydd incwm. Byddai'r gwelliannau hyn yn caniatáu, er enghraifft, i fargyfreithiwr hunangyflogedig sy'n gwneud gwaith paratoadol gael ei dalu hyd at £94.50 yr awr ar gyfer achos llys sirol cymhleth yn Llundain, a hyd at £143.10 yr awr (a fyddai'n uwch na chyfraddau penodol ar hyn o bryd) ar gyfer achos Uchel Lys cymhleth. Mae'n wir, os, fel yr awgrymwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr Carchardai, fod bargyfreithwyr iau sydd newydd gymhwyso yn ymddangos, o leiaf i ddechrau, mewn achosion symlach er mwyn datblygu eu sgiliau, na fyddent yn debygol o fodloni'r meini prawf ar gyfer y gwelliant uchaf. Fodd bynnag, o dan y cynigion hyn, mae pob bargyfreithiwr iau hunangyflogedig yn dal yn cael eu talu o leiaf £59.40 yr awr am wasanaethau eiriolaeth yn y llys sirol, sy'n cynrychioli cyflog blynyddol o tua £95,000 y flwyddyn, gan dybio eu bod yn gweithio'n llawn-amser ar y gyfradd isaf yn unig.
420. Mae ein dadansoddiad diwygiedig o effeithiau cydraddoldeb y diwygiadau yn cael sylw yn Atodiad F. Mae'r Llywodraeth o'r farn fod lefel benodol y gynrychiolaeth mewn meysydd ymarfer penodol yn y Bar yn gyfrifoldeb i'r Bar yn bennaf, i sicrhau cyfle cyfartal i'r holl feysydd ymarfer. Er ei bod yn ymwybodol o'r angen i annog y rhai sydd â nodwedd a ddiogelir i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a'r angen i hybu cyfle cyfartal yn gyffredinol, nid yw'r Llywodraeth yn credu mai tâl cymorth cyfreithiol yw'r offeryn polisi mwyaf priodol i gyflawni amrywiaeth barnwrol.
421. Gan gymryd i ystyriaeth yr holl ddata sydd ar gael, ar y cyfan mae'r Llywodraeth o'r farn bod y diwygio arfaethedig yn debygol o fod yn gynaliadwy. Mae'n ystyried bod cydbwysedd priodol rhwng yr angen i leihau gwariant tra'n sicrhau y gall cleientiaid barhau i gael mynediad at wasanaethau cymorth cyfreithiol. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod, fel gydag unrhyw newid, fod perygl o beth anhawster tymor byr, er enghraifft, fel bo bargyfreithwyr yn addasu i'r dull newydd neu bod rhai'n dewis gadael y farchnad, a bod angen i ddarparwyr chwilio am ffynonellau eraill o wasanaethau eiriolaeth. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y nifer cyffredinol o eiriolwyr sy'n barod i ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol yn debygol o fod yn ddigonol i gwrdd â gofynion gostyngol y farchnad yn dilyn gweithredu diwygiadau cwrmpas LASPO.

⁶¹ Y gyfradd safonol ar gyfer paratoi yn yr Uchel Lys a Tribiwnlys Uchafyw £71.55 o gymharu â £67.50 ar gyfer eiriolaeth. Gweler Tabl 10 (a) o Ran 3 o Atodlen 1 o reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (tâl) 2013.

Casgliad

422. Am y rhesymau a nodwyd uchod, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig fel y'i nodwyd yn y papur ymgynghori i gysoni'r ffioedd sy'n daladwy i fargyfreithwyr mewn achosion sifil nad ydynt yn rhai teulu gyda rhai eiriolwyr eraill.
423. Effaith hyn yw y bydd nodwyr, disgyblion ac ail gwnsleriaid iau hefyd yn dod yn destun i'r cyfraddau a delir i eiriolwyr eraill, ac yn derbyn y cyfraddau sy'n daladwy ar gyfer *Presenoldeb yn y llys a thrafodaeth gyda Chwnsler*. Fel sy'n wir yn awr yn achos eiriolwyr eraill, tra'u bod yn gymwys, mae'r cyfraddau hyn yn annhebygol o ddenu gwelliannau.
424. Bydd y Llywodraeth hefyd yn cyfundrefnu'r arfer LAA bresennol o dalu cyfraddau cyfatebol ar gyfer teithio i fargyfreithwyr hunangyflogedig sy'n ymddangos mewn achosion sifil (heb fod yn rhai teulu) â'r rhai a delir i eiriolwyr eraill, fel y nodir yn y papur ymgynghori. Fel sy'n wir yn awr yn achos eiriolwyr eraill, tra'u bod yn gymwys, mae'r cyfraddau hyn yn annhebygol o ddenu gwelliannau.
425. Nodir y cyfraddau diwygiedig a fydd yn berthnasol yn Nhabl 3 yn Atodiad E⁶².
426. Bwriedir cyflwyno'r cyfraddau diwygiedig, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, drwy ddeddfwriaeth eilaidd yn ddiweddarach eleni.

Cael gwared ar y cynnydd yn y gyfradd a delir ar gyfer achosion mewnfudo a lloches Uwch Dribiwnlys

427. Roedd y papur ymgynghori'n cynnig cael gwared ar y cynnydd 35% yn y gyfradd ar gyfer achosion apêl mewnfudo a lloches Uwch Dribiwnlys. Gofynnodd y papur ymgynghori:

Cwestiwn 32: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylid diddymu'r gyfradd ffi sifil uwch, sy'n ymgorffori ychwanegiad o 35% taladwy mewn apeliadau Uwch Dribiwnlys mewnfudo a lloches? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.

Y prif faterion a godwyd

428. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a roddodd sylwadau (yn enwedig ymarferwyr cymorth cyfreithiol sifil) yn gwrthwynebu cynnig y Llywodraeth. Roedd yr ymatebwyr yn arbennig o bryderus y byddai'r cynnig yn cynrychioli toriad ffi ac yn dadlau y dylai'r cynnydd barhau. Fodd bynnag, croesawodd nifer o ymatebwyr y cynnig a chytuno ei fod yn rhesymol i geisio lleihau gwariant yn y maes hwn pan fo amgylchiadau ariannol yn heriol.
429. Roedd ymatebwyr yn cydnabod yn gyffredinol bod y cynnydd wedi ei gyflwyno o dan hen gynllun o gyllido ôl-weithredol nad yw'n berthnasol mwyach. Fodd bynnag, roedd y rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn dadlau bod y gyfradd uwch yn parhau i gael ei chyfiawnhau, ar y sail nad oedd y cyfraddau wedi eu cynyddu ers dros 10 mlynedd, er bod y gwaith wedi mynd yn fwy cymhleth a threuliau wedi cynyddu. Roeddynt yn

⁶² Mae hyn yn cynnwys cywiro gwall yn Nhabl 16 fel a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar dudalen 93 y ddogfen ymgynghoriad. Y gyfradd uchaf ddiwygiedig sy'n daladwy am eiriolaeth yn y llys sirol yn Llundain yw £89.10, nid £104.10 fel y nodir yno.

dadlau bod y cynnydd wedi cael ei ystyried (gan ddarparwyr a'r LAA) bob tro na chafodd y cyfraddau eu cynyddu. Roeddynt yn dadlau bod tynnu ymaith y cynnydd yn cynrychioli toriad ffi, a fydd (yn dilyn y newidiadau a gyflwynwyd gan LASPO) yn gyrru darparwyr o'r farchnad, gan arwain at achosion ddim yn cael eu symud ymlaen.

430. Dadleuodd ymatebwyr ymhellach y dylai'r cynnydd aros oherwydd, heb y cynnydd, bydd yr achosion hyn yn cael eu talu ar lefel is na'r ffi safonol arfaethedig i eiriolwyr ar gyfer achosion yr Uwch Dribiwnlys eraill, a lle mae gwelliant ffi ac i'r Uchel Lys.
431. Dadleuodd rhai ymatebwyr hefyd y byddai'r cynnig yn ei gwneud yn anymarferol i eiriolwyr arbenigol ganolbwyntio ar waith mewnfudo a byddai'n groes i'r egwyddor o gydraddoldeb arfau.
432. Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, er enghraifft, yn cwestiynu'r ffordd mewn cyfnod o her ariannol y gellid hyd yn oed ystyried unrhyw fath o gynnydd.

Ymateb y Llywodraeth

433. Mae'r Llywodraeth yn parhau o'r farn nad oes cyfiawnhad i barhau i dalu cyfradd uwch. O dan y cynllun blaenorol (a ddiwydwyd yn 2010) dyfarnodd barnwr Tribiwnlys orchymyn cost yn ôl-weithredol ar ddiwedd gwrandawriad (llawn) ailystyried, yn seiliedig ar eu hasesiad ynghylch p'un a oedd gan achos ragolygon sylweddol o lwyddiant ar yr adeg y cafodd y cais am adolygiad ei wneud. Petai cais am ganiatâd ddim yn llwyddo, a dim gorchymyn am wrandawriad ailystyried, ni fyddai'r cais yn cael ei ariannu ac ni fyddai'r cyflenwr yn derbyn unrhyw daliad. Petai gwrandawriad ailystyried yn cael ei orchymyn, byddai costau'r cais caniatâd a'r gwrandawriad ailystyried ei hun yn dibynnu ar i'r barnwr benderfynu ar ddiwedd yr achos y dylai gorchymyn costau gael ei wneud. Felly ychwanegwyd premiwm risg o 35% tuag at liniaru'r risg i ddarparwyr o symud gwaith adolygu ac ailystyried yn ei flaen.
434. Fodd bynnag, o dan y trefniadau presennol, mae'r elfen gorchymyn costau ac asesiad barnwrol ynghylch dyfarnu costau wedi cael eu diddymu. Dim ond gwaith ar y cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys sydd mewn perygl. Er mai dim ond ar ddiwedd achos y gellir talu, mae'r taliad yn cael ei warantu erbyn hyn⁶³ unwaith y bo achos wedi cael caniatâd. Felly, rydym yn ystyried bod y gostyngiad hwn mewn risg yn dileu'r cyfiawnhad dros gynnydd cydadferol. Er bod y cynnydd wedi parhau yn ei le ers 2010, ni fwriadwyd i'w argaeledd parhaus wneud iawn i ddarparwyr am ddiffyg cynnydd mewn ffioedd.
435. Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod cyfiawnhad dros y gwahaniaeth mewn lefelau ffioedd rhwng y ffi a delir ar gyfer apeladau mewnfudo a lloches Uwch Dribiwnlys a'r ffi a delir ar gyfer achosion sifil eraill sy'n cael eu clywed yn yr Uwch Dribiwnlys. Mae achosion mewnfudo a lloches yn yr Uwch Dribiwnlys yn cael eu hariannu fel Gwaith Rheoledig; caiff achosion sifil eraill yn yr Uwch Dribiwnlys eu hariannu fel Gwaith Trwyddedig. Nid ydym yn derbyn bod gwahaniaeth mewn cyfraddau fel rhwng hawlwyd a diffynyddion yn unig yn tanseilio cydraddoldeb o arfau. Rydym yn hyderus y bydd y rhai sy'n derbyn cymorth cyfreithiol yn parhau i dderbyn cynrychiolaeth effeithiol o dan y cyfraddau diwygiedig am y rhesymau a nodir isod.

⁶³ Yn ddarostyngedig i'r rheolau asesu cytundebol arferol.

436. Er bod y Llywodraeth yn cydnabod nad yw ffioedd wedi cynyddu ers nifer o flynyddoedd, rydym o'r farn bod y farchnad yn ddigon galluog i barhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel er mwyn galluogi unigolion i gael eu cynrychioli'n ddigonol gyda dileu'r cynnydd. Dangosodd tendr cymorth cyfreithiol sifil 2013 a gyflwynodd y diwygiadau cwmpas LASPO, yn achos mewnfudo a lloches, bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y cwmnïau a oedd yn gwneud cais am gontractau a thros dair gwaith gymaint o geisiadau ar gyfer Materion Cychwyn nag a oedd o achosion ar gael.
437. Er bod byrdwn cyffredinol yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu na fyddai'r gostyngiad arfaethedig yn gynaliadwy, cafwyd dadleuon tebyg mewn perthynas â phob diwygiad arfaethedig i daliadau cymorth cyfreithiol sifil ers cyflwyno Rhan I y cynllun ffioedd sefydlog yn 2007. Er gwaethaf hyn, mae nifer sylweddol o ddarparwyr yn parhau i weithio yn y maes sifil, ac mae'r unig arwydd pendant o adwaith y farchnad - canlyniad y broses dendro cymorth cyfreithiol sifil 2013 ar gyfer contractau sy'n adlewyrchu diwygiadau cwmpas LASPO - yn awgrymu bod hyn yn dal i fod yn wir. Tra bod canlyniad tendr 2013 yn dangos gostyngiad bychan iawn yn y nifer gwirioneddol o gwmnïau contractio, roedd cynnydd o tua 20% yn y nifer o swyddfeydd a oedd wedi gwneud cais am gontractau yn 2013 o'i gymharu â 2010, ac roedd cyfanswm nifer y swyddfeydd a oedd wedi gwneud cais am gontractau yn 2013 bron i ddwywaith gymaint â'r nifer o ddeiliaid contract presennol ar y pwynt hwnnw. O ystyried bod ymateb y farchnad wedi digwydd yng ngoleuni'r gostyngiadau sylweddol mewn gwaith lloches a mewnfudo a ariennir yn gyhoeddus o dan LASPO, gellir dadlau bod hyn yn dangos bod awydd cryf yn bodoli ymysg darparwyr i wneud gwaith cymorth cyfreithiol, ac yn gyffredinol dylai'r farchnad allu bodloni lefel y galw disgwylidig yn y dyfodol ar brisiau cyfredol. Nid yw hyn yn dweud wrthym p'un a fydd nifer digonol o ddarparwyr yn y farchnad yn y tymor hir, beth yw hyfywedd presennol gwirioneddol unrhyw gwmni dan gytundeb, na sut y gallai hyn gael ei effeithio gan y newidiadau mewn ffioedd. Fodd bynnag, mae'n awgrymu bod cystadleuaeth am waith ar hyn o bryd, ac felly mae lle i o leiaf rai darparwyr dynnu'n ôl o'r farchnad, tra'n parhau i gynnal cyflenwad marchnad gynaliadwy.
438. Gan gymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth sydd ar gael, ynghyd â'r hinsawdd ariannol bresennol, a diben y cynnydd bellach ddim yn berthnasol, mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai dileu'r cynnydd arfaethedig yn gyfiawn a phriodol.

Casgliad

439. Wedi ystyried, ac ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig i gael gwared ar y cynnydd presennol o 35% yn y gyfradd sy'n daladwy ar gyfer achosion mewnfudo lloches yn y Tribiwnlys Uchaf.
440. Mae'r cyfraddau diwygiedig a fydd yn berthnasol yn Nhabl 4 o Atodiad E.
441. Bwriedir cyflwyno'r cyfraddau diwygiedig, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, drwy ddeddfwriaeth eilaidd yn ddiweddarach eleni.

Tâl i arbenigwyr mewn achosion sifil, teulu a throseddol

442. Roedd y papur ymgynghori yn gofyn am farn ar y gostyngiad arfaethedig o 20% yn y ffioedd sy'n daladwy i arbenigwyr mewn achosion sifil, teulu a throseddol.

443. Gofynnodd yr ymgynghoriad:

Cwestiwn 33: Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai lleihad o 20% fod yn y ffioedd a delir i arbenigwyr? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.

Y prif faterion a godwyd

444. Cafwyd gwrthwynebiad cyffredinol i'r gostyngiad arfaethedig yn y ffioedd a delir i arbenigwyr o bob sector, gan gynnwys Cymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar, yn ogystal â grwpiau arbenigol, fel yr Academi o Arbenigwyr. Tra bod pryderon yn canolbwyntio ar yr anawsterau y byddai'r cais yn ei gyflwyno i gaffael arbenigwyr, gydag ymatebwyr yn gyffredinol yn dadlau y byddai hyn yn gostwng yn sylweddol gyflenwad ac ansawdd gwasanaethau arbenigol, gwnaeth rhai ymatebwyr, yn enwedig arbenigwyr, sylwadau ar faterion gweithredol. Roedd y rhain yn cynnwys problemau gyda thalu a sicrhau awdurdod ymlaen llaw i dalu cyfraddau uwch neu ganiatâd i arbenigwr dreulio nifer uchel o oriau mewn achosion penodol. Yn ogystal, nododd rhai ymatebwyr, gan gynnwys yr Academi o Arbenigwyr, anawsterau gyda chyfarwyddiadau hwyr a/neu aneglur gan ddarparwyr, a oedd weithiau'n arwain at arbenigwyr yn methu ymgymryd ag achos, ac felly'n effeithio ar gyflenwad y farchnad.
445. Awgrymodd nifer o ymatebwyr eu bod eisoes yn anodd dod o hyd i arbenigwyr â chymwysterau addas i weithio ar y cyfraddau cymorth cyfreithiol presennol, ac y byddai gostyngiadau pellach yn cynyddu'r anhawster hwn, gan y byddai'r arbenigwyr mwyaf profiadol yn gadael y farchnad, gan effeithio ar ansawdd, a fyddai â goblygiadau i grwpiau agored i niwed fel cleientiaid anabl, teuluoedd a phlant a oedd yn ddibynol ar gymorth cyfreithiol. Mynegwyd pryderon penodol, gan gynnwys ymhlith y farnwriaeth, mewn perthynas ag arbenigwyr sy'n rhan o achosion esgeulustod clinigol arbenigol, er enghraifft y rhai sy'n ymwneud â babanod gyda difrod i'r ymennydd, lle dadleuwyd fod y gwaith mor arbenigol fel bod cyflenwad cyfyngedig iawn o arbenigwyr gyda'r arbenigedd angenrheidiol. Nododd llawer o ymatebwyr hefyd fod y Llywodraeth ddim ond newydd ostwng ffioedd arbenigol ar draws y bwrdd ym mis Hydref 2011.
446. Roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys aelodau o'r farnwriaeth, yn dadlau nad oedd y cyfraddau a delir gan y CPS yn gymharydd priodol, gan fod y cwestiynau/ materion a oedd angen dadansoddiad mewn achosion CPS yn gyffredinol yn tueddu i fod â mwy o ffocws, er enghraifft, ar un unigolyn lle roedd angen cael tystiolaeth arbenigol i benderfynu ar fater addasrwydd ple. Mewn cymhariaeth, roedd angen cyffredinol i arbenigwyr mewn meysydd eraill, megis y rhai mewn achosion cyfraith teulu gyhoeddus, gynnal asesiad mwy cymhleth. Ochr yn ochr â hyn, nododd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor y Bar a'r JEB, fod rhai o'r cyfraddau cymorth cyfreithiol troseddol, yn enwedig y rhai ar gyfer llawer o arbenigwyr troseddol yn Llundain, eisoes yn is na'r rhai mewn mannau eraill ac felly eisoes o fewn ystod cyfraddau safonol y CPS. Roedd ganddynt bryder arbennig y gallai gweithredu'r gostyngiad arfaethedig o 20% yn y meysydd hyn arwain at i gyfraddau is fod yn daladwy o dan gymorth cyfreithiol na chan y CPS, a allai effeithio ar y nifer a/neu ansawdd yr arbenigwyr oedd ar gael i bartïon a ariennir o dan gymorth cyfreithiol.
447. Dadleuodd rhai ymatebwyr hefyd nad oedd y Llywodraeth wedi rhoi ystyriaeth briodol i effaith gronol y gostyngiadau ffi arfaethedig a chyflwyniad arfaethedig yn ddiweddarach eleni o safonau ansawdd newydd i arbenigwyr sy'n ymddangos yn y llysoedd teulu, ac y gellid disgwyl iddynt gael effaith ar y gyflenwad y farchnad. Yn gyffredinol, roeddynt hefyd o'r farn y dylai'r Llywodraeth aros am yr arbedion sy'n deillio o'r FJR o ganlyniad i'r gostyngiad yn y defnydd o arbenigwyr mewn achosion teulu, a

thruw ddatblygu'r safonau cyfredol i sicrhau lefel yr arbenigedd a ddisgwyllir gan arbenigwyr, cyn ceisio gostwng ffioedd ymhellach.

448. Gwnaed nifer o awgrymiadau yng nghyswllt ffyrdd gwahanol o ymdrin â ffioedd arbenigol. Roedd y rhain yn cynnwys eu diwygio yn unol â chonsensws proffesiynol ar faterion megis meincnodi a diffiniadau cliriach o'r cyfraddau sy'n daladwy i arbenigwyr yn erbyn eu teitlau/cymwysterau proffesiynol.

Ymateb y Llywodraeth

449. Mae'n rhaid i'r swm yr ydym yn ei dalu am unrhyw wasanaeth gynrychioli'r gwerth gorau am arian. Yn y cyd-destun hwn tra bod y Llywodraeth yn nodi'r sylwadau gan randdeiliaid ynglŷn â lefelau ffioedd yn dibynnu mwy ar deitlau/cymwysterau proffesiynol, mae'n ystyried bod angen iddi sicrhau ei bod yn talu dim ond y ffioedd hynny sy'n gwbl angenrheidiol i sicrhau lefel y gwasanaethau sydd eu hangen. Er bod y Llywodraeth yn nodi barn rhanddeiliaid am gyflenwi'r diwygiadau FJR, o ystyried y pwysau ariannol parhaus, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol ein bod yn cymryd camau yn awr i sicrhau bod y ffioedd a delir am arbenigwyr yn cynrychioli gwerth am arian, gan adlewyrchu'n agosach y cyfraddau a delir mewn manau eraill ar gyfer gwasanaethau o'r fath.
450. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau arbenigol a ariennir gan gymorth cyfreithiol yn cael eu defnyddio mewn achosion teulu cyfraith gyhoeddus. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod anawsterau gweithredol yn y maes hwn yn dilyn y cyfundrefnu cychwynnol o gyfraddau arbenigol ym mis Hydref 2011, yn enwedig wrth i ddarparwyr ac arbenigwyr addasu i'r cynllun ffioedd newydd, a phryd y gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o geisiadau am awdurdod ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn fodlon bod mecanweithiau priodol bellach yn eu lle i ymdrin â materion o'r fath. Mae'r data LAA cyfredol yn cadarnhau mai ychydig iawn o geisiadau am awdurdod ymlaen llaw i dalu cyfraddau uwch sy'n cael eu derbyn yn awr. Mae hyn yn awgrymu bod y farchnad wedi addasu a bod nifer digonol o'r rhan fwyaf o fathau o arbenigwyr yn barod i ddarparu gwasanaethau ar y cyfraddau presennol. Ochr yn ochr â hyn, yn dilyn trafodaethau gyda Chyrff Cynrychioliadol o ddarparwyr cymorth cyfreithiol dan gytundeb, cyflwynodd yr LAA ganllawiau ar y nifer o oriau a hawli fel arfer gan y mathau o arbenigwyr a ddefnyddir amlaf mewn achosion cyfraith teulu gyhoeddus, gan roi mwy o eglurder i ddarparwyr ac arbenigwyr ynghylch pryd yr oedd angen awdurdod ymlaen llaw i fynd dros yr oriau hynny, gan leihau yn sylweddol y nifer o geisiadau a dderbyniwyd.
451. Er y gall hyd yr amser a dreulir gan arbenigwr penodol amrywio gan ddibynnu ar y math o achos y maent yn ymwneud ag ef, mae'r Llywodraeth o'r farn na ddylai'r arbenigedd cynrychioliadol o'u proffesiwn wneud hynny. Mae'n rhesymol felly i gyfraddau fesul awr gael eu talu lle bo'r math o wasanaeth arbenigol sydd ei angen yn yr un fath, er enghraifft, seicolegydd, gan adlewyrchu'r proffesiynoldeb/ arbenigedd a ddygwyd i'r achos. Y ffordd gywir o dalu amrywiad yn y swm o waith sydd ei angen mewn achosion gwahanol yw drwy ganiatáu hawlio mwy o oriau. Er enghraifft, yn achos arbenigwr teulu sydd angen ystyried y symiau sylweddol o dystiolaeth a chyfweld aelodau niferus o'r teulu, mae cyfanswm y tâl yn debygol o fod yn uwch na'r hyn a delir i arbenigwr tebyg mewn achos troseddol a allai olygu gwneud dim mwy na chynnal asesiad o p'un a yw unigolyn yn ffit i bledio, gan adlewyrchu swm y gwaith dan sylw. Fel y nodir yn y papur ymgynghoriad, bydd yn dal i fod yn bosibl sicrhau cyfraddau uwch os yw hynny'n hollol angenrheidiol, ac felly mae'r Llywodraeth o'r farn nad oes cyfiawnhad dros i gyfraddau cymorth cyfreithiol safonol fod yn uwch na'r rhai a delir am wasanaethau tebyg mewn manau eraill.

452. Mae'r Llywodraeth yn nodi'r anawsterau gyda chyfarwyddiadau yn hwyr ac/neu aneglur yr adroddwyd arnynt gan ddarparwyr, ac y gallai hyn effeithio ar y cyflenwad marchnad effeithiol. Nid yw'n glir pam y dylai anawsterau o'r fath fodoli. Fodd bynnag, mae hwn yn fater ar gyfer arbenigwyr a'r cyfreithiwr sy'n eu cyfarwyddo, ac mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn ddiweddar wedi datblygu ffurflenni a gweithdrefnau ar gyfer darparwyr i'w defnyddio wrth gomisiynu gwasanaethau arbenigwyr newydd. Rydym yn bwriadu gweithio gyda'r sector i archwilio sut y gellir gwneud y defnydd gorau o hyn i gefnogi comisiynu effeithiol o arbenigwyr.
453. Yn dilyn ymgysylltu â darparwyr cymorth cyfreithiol ar gytundeb, a oedd wedi mynegi pryderon tystiolaeth ynghylch cyflenwad y farchnad, roedd y Llywodraeth eisoes wedi nodi dau faes penodol, achosion diffyg atgyweirio tai ac achosion esgeulustod clinigol (parlys yr ymennydd) lle'r oedd angen awdurdodi cyfraddau uwch er mwyn sicrhau argaeledd arbenigwyr mewn meysydd arbenigol iawn. Roedd y cyfraddau uwch wedi eu cyfundrefnu i syrfewyr mewn achosion diffyg atgyweirio tai ym mis Ebrill 2013, a rhoddwyd canllawiau newydd i weithwyr achos LAA ym Mai 2013, gan eu hawdurdodi i dalu cyfraddau uwch penodol fel mater o drefn i Niwrolegwyr, Niwroradiologwyr a Neonatolegyddion a oedd yn gweithio ar achosion esgeulustod clinigol (parlys yr ymennydd). O gofio natur arbenigol adfeiliad tai ac achosion esgeulustod clinigol (parlys yr ymennydd), mae'r rôl allweddol y mae'r mathau hyn o arbenigwyr yn ei chwarae a'r cyflenwad cyfyngedig iawn o arbenigwyr y cafwyd tystiolaeth ohono gan ddarparwyr, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu cynnal y cyfraddau uwch ar gyfer yr arbenigwyr penodol hyn lle y maent yn ymddangos yn y mathau hyn o achos.
454. Ar wahân, mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y gyfradd cymorth cyfreithiol bresennol ar gyfer cyfieithwyr ar y pryd yn Llundain eisoes yn is na'r cyfraddau CPS ac y byddai'r gostyngiad o 20% arfaethedig i gyfraddau cyfieithydd tu allan i Lundain yn mynd â nhw yn is na chyfraddau'r CPS ar hyn o bryd. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw faterion cyflenwad marchnad gyda chyfieithwyr ar y cyfraddau cymorth cyfreithiol presennol, ond yr ydym yn derbyn y gallai gostwng cyfraddau tu mewn a thu allan i Lundain yn sylweddol islaw cyfraddau'r CPS arwain at faterion cyflenwad marchnad. Felly, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu cadw'r cyfraddau cymorth cyfreithiol presennol ar gyfer cyfieithwyr ar y pryd yn Llundain, a chyfyngu'r gostyngiad arfaethedig i gyfraddau cyfieithwyr tu allan i Lundain i 12.5% er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn ystod cyfredol cyfraddau tâl y CPS.
455. Mae diffyg corff cynrychiadol unigol ar gyfer arbenigwyr yn golygu nad yw'n bosibl datblygu darlun cywir o naill ai cyfanswm nifer yr arbenigwyr na nifer yr arbenigwyr o fath penodol sy'n gweithio mewn achosion cymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, mae nifer o wefannau sy'n rhestru nifer a lleoliad rhai o'r mathau a ddefnyddir amlaf. Er bod y wybodaeth a geir ar y safleoedd hyn yn amrywio, yn gyffredinol, maent yn dangos bod nifer sylweddol o arbenigwyr yn barod i weithio ar y cyfraddau cymorth cyfreithiol presennol, yn enwedig yn y meysydd hynny lle mae'r galw ar ei uchaf ar hyn o bryd, fel seicolegwyr a seiciatryddion mewn achosion gofal cyfraith teulu gyhoeddus. Mae effaith y safonau gofynnol newydd arfaethedig ar y cyflenwad hwn o arbenigwyr sy'n ymddangos yn y llysoedd teulu yn aneglur. Ar y naill law, gallai leihau'r cyflenwad o arbenigwyr sydd ar gael. Fodd bynnag, ar y llaw arall, byddai'n sicrhau bod yr holl arbenigwyr hynny sy'n ymddangos yn y llys yn cyrraedd y safonau angenrheidiol ac felly gallai fod o gymorth i ymdrin â materion ansawdd tybiedig presennol, a lliniaru pryderon am ansawdd adroddiadau arbenigwr yn y dyfodol.
456. O ystyried y diffyg data, mae adwaith y farchnad gan y sector gwahanol hwn at y gostyngiad ffioedd arfaethedig yn parhau i fod yn aneglur. Fodd bynnag, mae'r

Llywodraeth o'r farn er ei bod yn bosibl y gall rhai arbenigwyr dynnu'n ôl, mae angen cydbwysu'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar anghenion cyffredinol cyflenwad y farchnad yn erbyn y canlynol:

- effaith y diwygiadau cwmpas LASPO, a fydd yn lleihau'r galw am arbenigwyr (mae effaith lawn hyn eto i'w gwireddu);
- Diwygiadau FJR, yn arbennig y canlynol:
 - diwygiadau i'r defnydd o arbenigwyr, y disgwylir iddo leihau'r nifer a gomisiynir yn sylweddol (cychwyn ym mis Ionawr 2013); a
 - safonau gofynnol newydd a gynigir ar gyfer arbenigwyr yn y llysoedd teulu, a fydd yn sicrhau mai dim ond arbenigwyr â chymwysterau addas sy'n darparu tystiolaeth, a disgwylir iddynt ddod i rym yn ddiweddarach yn 2013
- cyfraddau safonol cyffredinol is yn daladwy am arbenigwyr mewn mannau eraill; a
- hyblygrwydd yr LAA i chi dalu cyfraddau uwch lle bo'r rhain yn briodol ac yn angenrheidiol.

457. Ar y cyfan, mae hyn yn awgrymu bod potensial i arbenigwyr dynnu'n ôl o'r farchnad tra'n dal i gynnal cyflenwad marchnad cynaliadwy.

458. Gan gymryd i ystyriaeth yr holl ddata sydd ar gael, ar y cyfan mae'r Llywodraeth o'r farn bod y diwygiad arfaethedig, fel y'i addaswyd uchod, yn debygol o fod yn gynaliadwy. Mae'n ystyried bod y cyfraddau arfaethedig yn rhoi cydbwysedd priodol rhwng yr angen i leihau gwariant a sicrhau y gall cleientiaid barhau i gael mynediad at wasanaethau cymorth cyfreithiol. O ystyried yr angen i'r Llywodraeth barhau i ymdrin â'r diffyg ariannol a chyda'r gostyngiad yn y galw o ganlyniad i'r FJR (drwy ddefnyddio llai o arbenigwyr mewn achosion teulu) a chyflwyno safonau newydd ar gyfer arbenigwyr yn y llysoedd teulu, ni ragwelir y bydd y nifer o arbenigwyr sy'n barod i ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol yn debygol o ostwng yn ddigonol i wneud y farchnad yn anghynnaladwy.

Casgliad

459. Am y rhesymau a nodwyd uchod, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig i leihau ffioedd sy'n daladwy i arbenigwyr ym mhob achos sifil, teulu a throeddol o 20% fel y cynigiwyd yn y papur ymgynghori ac eithrio:

- Niwrolegwyr, niwroradiolegwyr a neonatolegyddion mewn achosion esgeuluster clinigol (parlys yr ymennydd), lle bydd y cyfraddau uwch a nodwyd yn ddiweddar yn y canllawiau i'r LAA yn cael eu cyfundrefnu;
- Syrfewyr mewn achosion tai cyflwr gwael lle bydd y cyfraddau cyfredol sydd wedi'u cyfundrefnu yn y Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Taliadau) 2013 yn cael eu cadw; a
- Chyfieithwyr, lle bydd:
 1. y cyfraddau cyfredol sy'n daladwy i gyfieithwyr yn Llundain yn cael eu cadw; a'r
 2. cyfraddau sy'n daladwy i gyfieithwyr tu allan i Lundain yn cael eu gostwng o 12.5%.

460. Mae'r cyfraddau safonol diwygiedig sy'n daladwy i'r holl arbenigwyr o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol sifil a throeddol yn cael eu nodi yn Nhablau 5 a 6 o Atodiad E.

461. Bwriedir cyflwyno'r cyfraddau diwygiedig, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, drwy ddeddfwriaeth eilaidd yn ddiweddarach eleni.

Asesiadau Effaith a Datganiadau Cydraddoldeb

Cyflwyniad

462. Roedd Pennod 8 o'r ddogfen ymgynghori yn ceisio barn ar p'un a oedd y Llywodraeth wedi nodi effaith y cynigion yn gywir, yn arbennig ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Roeddem yn gofyn:

Cwestiwn 34: Ydych chi'n cytuno inni lwyddo i adnabod yr ystod o effeithiau o dan y cynigion a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 35: Ydych chi'n cytuno inni lwyddo i adnabod faint o effeithiau fydd o dan y cynigion hyn? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 36: A oes ffurfiau o liniaru mewn perthynas â'r effeithiau nad ydym wedi'u hystyried?

463. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at ddata neu wybodaeth y gellid ei defnyddio i gefnogi asesiad effaith (IA) o'r cynigion ac adeiladu ar y dadansoddiad a nodir yn yr Asesiadau Effaith cychwynol a'r datganiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Rydym wedi ystyried y wybodaeth hon a, lle bo'n berthnasol a dibynadwy, wedi ei chymryd i ystyriaeth yn y dadansoddiad yn yr adrannau perthnasol o'r Asesiadau Effaith a/neu Datganiad Cydraddoldeb sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon.

Y prif faterion a godwyd

464. Roedd y sylwadau gan ymatebwyr ar yr Asesiadau Effaith a datganiad o effeithiau cydraddoldeb yn negyddol i raddau helaeth.
465. Beirniadodd y rhan fwyaf o ymatebwyr ansawdd y data a ddefnyddiwyd i benderfynu ar effaith y cynigion. Roeddynt yn beirniadu'r Asesiadau Effaith a'r dadansoddiad cydraddoldeb, gan awgrymu nad oeddynt wedi nodi'r ystod lawn o effeithiau cydraddoldeb ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig, yn arbennig potensial y cynigion i effeithio ar blant, menywod, pobl dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a phobl anabl.
466. Dadleuodd llawer o ymatebwyr nad oedd y Llywodraeth wedi cyflawni'n drwyadl ei rwymedigaethau o dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (PSED) a'i bod wedi methu ag ystyried breichiau cadarnhaol y ddyletswydd. Credir bod hyn yn arbennig o berthnasol i'r cynnig am bris tendro cystadleuol a'r newidiadau i dâl ddarparwyr, gyda chyfran sylweddol yn datgan na fyddai'r cynigion yn hyrwyddo cyfle cyfartal na meithrin cysylltiadau da.

467. Roedd prif faterion eraill a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- nid oedd yr Asesiadau Effaith yn asesu cynladwyedd y cynigion yn ddigonol, ac nid oeddynt yn mesur eu heffeithiau canlyniadol, diweddarach
- roedd peth data wedi dyddio ac roedd diffyg ymdrech i ganfod a defnyddio data ac ymchwil heb fod yn gyfreithiol, gan arwain at ddadansoddiad anghyflawn o'r effeithiau tebygol;
- nid oedd y cynigion yn cynnig mesurau i wella casglu a/neu gwella ansawdd y data cydraddoldeb;
- y rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynigion yw'r bobl sy'n agored i niwed megis plant, carcharorion anabl, ffoaduriaid, y digartref, a dioddefwyr trais yn y cartref, priodas dan orfod, a masnachu mewn pobl; a
- gallai'r cynigion danseilio ymdrechion i ehangu amrywiaeth y proffesiynau cyfreithiol ac, o ganlyniad, y farnwriaeth.

468. Cododd yr ymatebwyr hefyd faterion cydraddoldeb penodol ac mae'r rhain wedi'u nodi yn fanylach ym mhenodau perthnasol y ddogfen hon ac yn y Datganiad Cydraddoldeb yn Atodiad F sy'n cyd-fynd â'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

Ymateb y llywodraeth

469. Roedd yr Asesiadau Effaith cychwynnol a datganiad o effaith ar gydraddoldeb, a gyhoeddwyd gyda'r ymgynghoriad Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: cyflwyno system fwy credadwy ac effeithlon, yn nodi ein hasesiad o effaith bosibl y diwygiadau.

470. Yn dilyn ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu ymgynghori ymhellach ar fodel addasedig o gaffael ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol, dau gynig fffioedd graddedig ar gyfer fffioedd eiriolaeth droseddol a chynigion diwygiedig ar gyfer talu am waith caniatâd mewn achosion adolygiad barnwrol. Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen, heb newid, gyda'r diwygiadau sy'n ymwneud ag achosion ffiniol, cymhwyster llys y goron, cynnydd mewnfudo a lloches, gan ostwng y ffi cynrychiolaeth cyfraith teulu gyhoeddus, a chysoni'r fffioedd a delir i fargyfreithwyr hunangyflogedig gydag eiriolwyr eraill. Fodd bynnag, yr ydym wedi gwneud addasiadau i'n cynigion sy'n ymwneud â chyfraith carchardai, prawf preswyllo a fffioedd arbenigol gyda'r nod o leihau'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol cydraddoldebau, ac i sicrhau bod eu gweithrediad yn gwbl gyson â'n hamcanion ehangach.

471. Rydym felly wedi diweddarau ein Hasesiadau Effaith a datganiad o effeithiau cydraddoldeb, gan adlewyrchu'r newidiadau hyn ac ymgorffori adborth ar y cynigion ac asesiadau effaith gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

472. Er ein bod yn parhau i fod o'r farn bod yr Asesiadau Effaith cychwynnol a dadansoddiad cydraddoldeb yn nodi'n briodol ystod a maint effeithiau posibl cynigion yr ymgynghoriad, rydym wedi ceisio lle bo hynny'n bosibl ymdrin â'r feirniadaeth allweddol ar yr Asesiadau Effaith a dadansoddiad cydraddoldeb a wnaed gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Ar gyfer y cynigion yr ydym yn bwrw ymlaen â hwy fel cynnig neu gyda rhai mân addasiadau, mae'r dogfennau asesiad effaith terfynol a datganiad cydraddoldeb a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ymateb hwn gan y Llywodraeth, yn gosod allan asesiad o ystod a maint effeithiau'r cynigion, yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth sydd ar gael. Ar gyfer y cynigion yr ydym yn ymgynghori ymhellach arnynt, rydym yn nodi ein hasesiad cychwynnol o effeithiau cydraddoldeb y cynigion

diwygiedig yn Atodiad F, gan adeiladu ar ein dadansoddiad blaenorol a'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

473. Yr Asesiadau Effaith a dderbyniwyd ar gyfer asesiad cyfyngedig o gynaliadwyedd y polisïau arfaethedig - mae'n anodd iawn rhoi ateb pendant ar gynaliadwyedd ar gyfer pecyn diwygiadau fel hwn. Ar yr ochr sifil, y darn mwyaf sylweddol o wybodaeth oedd y tendr diweddar y cafwyd ymateb sylweddol iddo. Er nad yw'n rhoi ateb pendant ar gynaliadwyedd i'r dyfodol, mae'n dangos bod gorgyflenwad o gwmnïau yn barod i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil ar hyn o bryd. Yn yr un modd ar yr ochr droseddol, mae tystiolaeth anecdotaidd bod gormod o gwmnïau, gyda rhy ychydig o waith. Cafodd yr Asesiadau Effaith hefyd eu beirniadu am na roddwyd ystyriaeth fanwl i effeithiau'r polisïau yn ddiweddarach; y materion penodol a godwyd oedd ymglybiau ac apelïadau. Tynnodd yr Asesiadau Effaith sylw at y rhain fel meysydd risg, ond mae ymatebion ymddygiadol fel y rhain yn anodd iawn i'w rhagweld a'u mesur. Mae'n annhebygol y byddai ymchwilio'n fwy manwl yn rhoi eglurhad o ystyried yr ansicrwydd. Roedd yr effeithiau hyn yn cael eu cysylltu fwyaf â'r cynigion hygredd, a oedd yn gyffredinol yn tueddu i effeithio ar nifer llai o unigolion. Lle y cyflwynodd ymatebwyr wybodaeth ychwanegol, rydym wedi ei hystyried wrth asesu ystod a maint yr effeithiau lle bo hynny'n ddibynadwy a pherthnasol. Mae'r Asesiadau Effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen hon yn nodi asesiad cynhwysfawr o effeithiau'r cynigion, yn seiliedig ar yr ystod iawn o dystiolaeth sydd ar gael.
474. Cawsom nifer o sylwadau ynglŷn ag effaith y model arfaethedig o dendro cystadleuol yng nghyswllt gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol ar Gymru a siaradwyr Cymraeg. O ran darparu gwasanaethau yng Nghymru, nid oes unrhyw newid wedi ei gynnig ar hyn o bryd o safbwynt rhwymedigaeth darparwyr o dan y Contract Trosedd Safonol 2010. Pan fo darparwr yn cyflwyno gwaith contract yng Nghymru, dylai sicrhau ei fod yn hygyrch ac yn ddealladwy i gleientiaid y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (fel y'i diwygiwyd) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Felly, rydym o'r farn na fydd unrhyw effaith andwyol ar y gwasanaethau a ddarperir i bobl yng Nghymru. Ymdrinnir ag effeithiau'r model addasedig ar Gymru a siaradwyr Cymraeg yn Atodiad F.
475. Awgrymodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ystod o effeithiau posibl ar unigolion yn seiliedig ar eu hamgylchiadau personol, yn enwedig rhai yr ystyrir eu bod yn agored i niwed. Er bod ein dadansoddiad o effeithiau cydraddoldeb yn canolbwyntio ar y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yr ydym gydol yr amser wedi ystyried yn ofalus effaith ein cynigion ar grwpiau sy'n agored i niwed, gan roi sylw arbennig i fuddiannau gorau plant, fel yr ymdrinnir â hwy yn y penodau perthnasol, yr Asesiadau Effaith a'r datganiad cydraddoldeb.
476. Fel y nodwyd uchod, wrth gwblhau ein dadansoddiad o'r cynigion yr ydym yn eu symud ymlaen ac asesu effaith y cynigion diwygiedig yr ydym yn ceisio barn bellach arnynt, yr ydym wedi ystyried gwybodaeth ychwanegol ymatebwyr ar effeithiau posibl y cynigion gwreiddiol. Pan awgrymwyd data neu ffynonellau ychwanegol gan ymatebwyr, yr ydym wedi eu hystyried ac wedi cymryd i ystyriaeth y rhai hynny sy'n ddibynadwy a pherthnasol. Fodd bynnag, ar y cyfan, rydym yn parhau o'r farn mai ein dadansoddiad sy'n seiliedig ar ddata LSC/LAA yw'r ffordd fwyaf priodol a chadarn o asesu effaith y cynigion ar gleientiaid a darparwyr.

477. Rydym wedi defnyddio'r data sydd ar gael, a ffynonellau tystiolaeth rydym yn eu hystyried fwyaf perthnasol a dibynadwy. Yn absenoldeb data ar nodweddion gwarchoddedig penodol, rydym wedi asesu'r effeithiau ar sail yr hyn y gellir ei ragweld yn rhesymol. Er enghraifft, nid yw data ar nodweddion gwarchoddedig fel crefydd a chred yn cael ei gasglu fel mater o drefn ar gyfer cymorth cyfreithiol. Yn yr achosion hyn, rydym wedi gwneud ein gorau glas i ystyried yr effeithiau posibl. Mae ein dull gweithredu drwy gydol yr amser wedi bod yn un gofalus, ac yn cymryd i ystyriaeth ba mor gadarn yw'r dystiolaeth wrth ddod i gasgliadau am yr effeithiau y mae'r cynigion yn debygol o'u cael.
478. Mae ystyriaeth o'r modd y cafodd y diwygiadau hyn eu haddasu yng ngoleuni adborth a sut mae effaith y diwygiadau ar gyfer gweithredu yn cael ei gyfiawnhau gan yr angen i gyflawni amcanion y Llywodraeth, yn cael ei nodi yn yr adrannau perthnasol o ymateb y Llywodraeth a'r Datganiad Cydraddoldeb cyfunol sy'n cyd-fynd ag ef yn Atodiad F. Fel y nodir uchod, ar gyfer y cynigion hynny yr ydym yn ymgynghori ymhellach arnynt, ymdrinnir ag effaith debygol y cynigion diwygiedig yn yr adrannau perthnasol o'r ddogfen ac yn y Datganiad Cydraddoldeb yn Atodiad F. Mae Pennod 5 yn gofyn tri chwestiwn effaith a chydraddoldeb mewn perthynas â'r cynigion hyn, yr ydym yn ceisio barn arnynt.

Atodiad C: Cynigion Amgen

Cyflwyniad

1. Awgrymodd llawer o'r ymatebion, ac yn enwedig y rhai oddi wrth Gyngor y Bar, Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r CLSA, ffyrdd eraill o wneud arbedion mewn gwariant cymorth cyfreithiol, a dywedwyd y byddai hyn yn lleihau neu yn dileu unrhyw reidrwydd ariannol i wneud y newidiadau a gynigir yn y papur ymgynghori. Rydym yn awyddus i fanteisio ar arbenigedd y proffesiwn cyfreithiol i edrych ar ffyrdd o wneud y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y systemau cymorth cyfreithiol, yn fwy effeithlon. I gefnogi'r gwaith hwn, rydym yn sefydlu panel o gyfreithwyr amddiffyn profiadol i archwilio syniadau yn fanwl.
2. Mae nifer o themâu cyffredin y gellir eu hadnabod o'r cynigion amgen a gyflwynwyd gan ymatebwyr.

Cynigion oedd yn cynyddu effeithlonrwydd y system Cyfiawnder Troseddol

3. Roedd nifer o gynigion yn ceisio lleihau gwariant ar gymorth cyfreithiol drwy awgrymu sut i ddiwygio prosesau llys.

Cyfyngu ar dderbynioldeb tystiolaeth arbenigol

4. Cafwyd awgrymiadau y dylai cynigion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer cyfyngu derbynioldeb tystiolaeth arbenigol (sy'n debygol o arbed tua £3 miliwn y flwyddyn yn ôl amcangyfrif Comisiwn y Gyfraith) gael eu rhoi ar waith.

Newid gwrandawiadau

5. Cafwyd cynigion a oedd yn awgrymu diddymu neu newid y cyfrwng a ddefnyddir ar gyfer gwahanol wrandawiadau. Roedd llawer o'r awgrymiadau hyn yn ymwneud â 'gwrandawiadau crybwyll'. Gall gwrandawriad crybwyll gael ei orchymyn gan y llys, neu gellir gwneud cais amdano gan y naill barti neu'r llall yn yr achos, am unrhyw reswm - efallai pan fydd rhywbeth wedi digwydd a allai atal yr achos rhag symud ymlaen i dreial. Mae'r cynigion ar gyfer diwygio yn cynnwys: diddymu gwrandawiadau rhagarweiniol awtomatig; cynnal gwrandawiadau ple a rheoli achos (PCMH) dros y ffôn lle y bo'n bosibl, ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchu tystiolaeth teledu cylch cyfyng cyn gwrandawiadau PCMH a dileu gwrandawiadau crybwyll a gynhelir ar hyn o bryd ar gyfer yr unig ddiben o osod dyddiad treial newydd ar ôl i achos ddod trwy restr rhybuddio heb gael ei alw, a mireinio rhestru gwrandawiadau crybwyll eraill.

Diddymu llysoedd rhithwir

6. Awgrymwyd y dylai Llysoedd Rhithwir gael eu diddymu er mwyn arbed costau. Y rhesymeg a roddwyd am yr awgrym hwn oedd bod y dechnoleg yn torri i lawr yn aml, ceir problemau staffio yn aml sy'n atal ei ddefnyddio sy'n oedi'r gwaith o sicrhau cyfiawnder ac yn cadw llysoedd, cyfreithwyr ac yn bwysicach fyth pobl yn aros yn y ddalfa. Honnwyd hefyd bod 'data diweddar' o ardaloedd y Llysoedd Rhithwir yn dangos bod diffynyddion

heb gynrychiolaeth sy'n wynebu troseddau a allai eu hanfon i'r carchar yn fwy tebygol o gael eu hanfon i'r carchar na diffynyddion oedd yn cael eu cynrychioli.

Digido

7. Roedd amrywiaeth o arbedion sy'n gysylltiedig â digido yn cael eu cynnig yn yr ymateb i'r ymgynghoriad. Awgrymwyd y dylai fod yn ofynnol i gwmnïau dderbyn cyflenwi papurau trwy Bost Diogel Cyfiawnder Troseddol (CJSM). Gellid gwneud llawer mwy o ddefnydd o ddigido oherwydd bod llawer o gwmnïau eisoes yn defnyddio systemau digidol ond mae hyn yn cael ei rwystro oherwydd nad yw Gwasanaeth Eryl y Goron, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol na'r llysoedd yn barod eto i weithredu'n ddigidol. Mae'r llysoedd yn parhau i fod angen copiâu papur; mae diffyg WiFi diogel yn y llysoedd ac nid oes cyfleuster i gael mynediad at CJSM yn y llys, nac i rannu ffeiliau cyn achos. Ac yn groes i hynny, awgrymwyd y byddai cwmnïau nad oes ganddynt y dechnoleg yn barod yn amharod i wneud y buddsoddiad ar gontract tair blynedd i gyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol lle mae'n annhebygol o ddangos elw am faint y buddsoddiad sydd ei angen.

Cyfrif tudalennau

8. Awgrymwyd y dylid dychwelyd i'r system lle roedd cyfrif tudalennau yn cael ei gytuno gan glerc y llys yn hytrach na'r Goron yn penderfynu beth sy'n cael ei gyflenwi.

Llysoedd

9. Awgrymwyd y gallai'r llysoedd weithredu'n fwy effeithlon ac yn fwy cost effeithiol pe bai'r gofynion ymddangosiad mewn estyniadau diwrthwynebiad i derfynau ar amser yn y ddalfa (CTLs) neu geisiadau am amrywio mechnïaeth yn dod i ben; pe bai achosion yn cael eu rhestru yn fwy effeithlon; a phe bai llai o achosion o beidio â chynhyrchu diffynyddion.

Carchardai

10. Awgrymwyd bod dedfrydau di-garchar mwy effeithiol yn cael eu defnyddio i atal ail-droseddu a bod aneffeithlonrwydd ynghylch carcharu o ran caniatáu i gyfreithwyr gael mynediad i'w cleientiaid yn cael ei drin. Er enghraifft, gellid gwneud fideo-gynadleda yn fwy effeithlon drwy gael peiriant ffacs ar bob pen er mwyn gallu trosglwyddo dogfennau. Byddai mwy o ddefnydd o fideo-gynadleda yn arwain at arbedion o ran amser ac arian. Dylid caniatáu i gyfreithwyr gael mynediad trwy'r dydd at gleientiaid a dylai carcharorion allu cymryd galwadau ffôn gan eu cyfreithwyr yn ôl y gofyn.

Dychwelyd Llysoedd yr Ynadon i Gymdeithas Llysoedd yr Ynadon

11. Awgrymwyd y dylai llysoedd ynadon gael eu dychwelyd i reolaeth sefydliadau lleol yn hytrach na gweithredu fel rhan o HMCTS.

Ymateb y Llywodraeth

12. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i drawsnewid cyfiawnder troseddol yn wasanaeth cyhoeddus modern sy'n darparu ymateb cyflym, penderfynol i droseddau, yn trin dioddefwyr a thystion gyda'r gofal a'r ystyriaeth maent yn ei haeddu, ac yn darparu gwerth am arian llawer gwell i'r trethdalwr.
13. Ym mis Mehefin 2013 cyhoeddodd y Llywodraeth *Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol: Strategaeth a Chynllun Gweithredu i Ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol*. Mae'n nodi rhaglen waith gynhwysfawr a fydd yn ysgogi gwelliant ar draws y

system wrth gyflwyno cyfiawnder. Yn dilyn mewnbwn gan y gymuned amddiffyniad i ddatblygiad y ddogfen hon mae nifer o'r camau yn ymdrin â phwyntiau a godwyd drwy'r ymgynghoriad hwn. Ond mae'r Llywodraeth yn glir fod yr arbedion potensial i gael eu cyflawni trwy'r cynigion hyn yn fach iawn ac nad ydynt yn cael gwared ar y rheidrwydd ariannol i gyflawni'r newidiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad. Bydd y Llywodraeth yn parhau i wrando ar farn ymarferwyr drwy'r panel newydd o gyfreithwyr amddiffyn profiadol y bwriadwn ei sefydlu er mwyn edrych ar ffyrdd o helpu i hybu effeithlonrwydd.

14. Mae'r Llywodraeth yn ystyried unrhyw ddiwygiad i brosesau cyfreithiol yn ôl eu teilyngdod, gan gadw mewn cof y gallai newidiadau i brosesau gael canlyniadau anfwriadol. Y ffigur a ddyfynnwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yw'r "arbediad net" y maent yn amcangyfrif a fyddai'n deillio o weithredu eu "prawf dibynadwyedd" arfaethedig am dystiolaeth arbenigol yn llawn. Byddai cymhwyso'r prawf newydd yn cynnwys gwrandawiadau cyn-treial ychwanegol, gyda'r costau ychwanegol sydd ynghlwm â hynny, ond heb ddigon o gynilion dibynadwy rhagweladwy i wneud iawn am y costau hynny. Heb sicrwydd ynghylch yr arbedion gwrthbwysu y gellid eu cyflawni, o'u gosod yn erbyn cyfyngiadau o ran adnoddau ar hyn o bryd nid yw'n ymarferol gweithredu'r cynigion yn llawn ar hyn o bryd.
15. Fel y nodir yn y *Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu* byddwn yn parhau i weithio gyda'r farnwriaeth, partneriaid ehangach o fewn y System Cyfiawnder Troseddol a thrwy Bwyllgor Rheolau'r Weithdrefn Droseddol i ystyried sut i sicrhau defnydd effeithlon o amser y llys. Nid yw lleihau'r nifer o wrandawiadau crybwyll yn debygol o gynhyrchu mwy na'r arbedion lleiaf posibl. Rydym yn talu dim ond tua £3-4 miliwn y flwyddyn ar wrandawiadau crybwyll ar hyn o bryd. Rhaid cyfaddef y gallai rhywfaint o waith yn sicr gael ei wneud heb wrandawriad, mae gwrandawiadau eraill - gan gynnwys y gwrandawiadau rhagarweiniol hynny lle disgwylir ple euog neu lle mae'n ofynnol i'r diffynnydd ateb mechnïaeth oherwydd ei fod wedi methu â chydweithredu â'i gyfreithiwr - yn gofyn am bresenoldeb ffisegol y partïon.
16. Mae ffioedd graddedig eisoes yn cynnwys y pum gwrandawriad 'crybwyll' cyntaf (gan gynnwys gwrandawiadau rhagarweiniol a PCMH), felly efallai na fydd unrhyw ostyngiad yn nifer y gwrandawiadau crybwyll yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r ffi pe bai'n ostyngiad o ee pump i dri o wrandawiadau crybwyll. Er mwyn gwneud arbedion byddai'n ofynnol gostwng y ffioedd i wneud iawn am y ffaith bod llai o wrandawiadau.
17. O ran y cynnig ynghylch y llysoedd, mae'r llysoedd yn gweithredu o fewn costau sefydlog (ee staff, barnwyr a chostau ystâd). Byddai arbedion yn cael eu gwneud dim ond pe bai newid digonol yn y llwyth gwaith o ganlyniad i newid arferion gwaith i gwtogi'r costau sefydlog hynny (hy cau llys neu gwtogi ar staff). Er enghraifft, mewn perthynas â pheidio â chynhyrchu diffynyddion ni fyddai unrhyw arbedion effeithlonrwydd i lysoedd oherwydd byddai'r staff a'r ystad yn dal i gael eu defnyddio. Ond mae NOMS yn dal i weithio ar y mater hwn i gefnogi gweithrediad effeithlon y llysoedd.
18. Mae'n cael ei ddadlau y byddai cynhyrchu tystiolaeth teledu cylch cyfyng cyn PCMH yn annog pleon euog cynharach os yw diffynnydd yn gweld y dystiolaeth teledu cylch cyfyng. Mae yna nifer o ystyriaethau, gan gynnwys ynghylch yr anhawster gweithredol o alluogi tystiolaeth teledu cylch cyfyng i fod ar gael cyn PCMH, ond mae cynhyrchu CCTV yn gynnar yn dal i fod yn flaenoriaeth.
19. Mae newid yn y ffordd y cyfirir tudalennau yn annhebygol o gynhyrchu unrhyw beth heblaw mân arbedion gweinyddol. Byddai'r model amgen ar hyd llinellau cynllun ffioedd graddedig Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr ydym yn gofyn am farn yn ei gylch, yn osgoi'r

angen am gyfrif tudalennau'n union yn y rhan fwyaf o achosion pe bai yn cael ei weithredu.

20. Byddai arbedion o ran effeithlonrwydd y llys mewn rhai achosion yn golygu gostyngiad mewn ffioedd treialon aneffeithiol, er y bydd llawer o dreialon yn aneffeithiol am resymau ar wahân i beidio â chynhyrchu diffynyddion. Dim ond cyfran o ddiffynyddion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn aros treial, tra bo'r rhan fwyaf yn cael eu remandio ar fechnïaeth, felly byddai unrhyw arbedion yn fach ac yn dibynnu ar y gwelliannau sy'n cael eu gwneud.
21. Mae'r arbedion posibl o gyflwyno mwy o ddedfrydau nad ydynt yn garchar yn aneglur ac ar hyn o bryd mae niferoedd troseddau yn lleihau beth bynnag (gostyngiad o 9% yn flynyddol o 2012 i 2013).
22. Byddai mwy o fynediad gan gyfreithwyr at garcharorion yn arwain at fwy o gostau i NOMS i ddarparu'r staff i oruchwylio mynediad hirach. Nid yw bob amser yn hawdd nac yn syml ei gwneud yn bosibl i garcharor gymryd galwad ffôn gan gyfreithiwr. Mae rhesymau ymarferol pam nad yw mynediad trwy'r dydd at gyfreithwyr gan garcharorion heb egwylliau yn ymarferol, ond rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau cyfathrebu prydlon ac effeithiol rhwng y rhai sydd yn y ddalfa a'u cyfreithwyr.
23. Mae System Cyfiawnder Troseddol ddigidol yn ganolog i'r newid mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i'w chyflenwi a fydd yn cynnwys llawer mwy o ddefnydd o fideo yn ogystal â chyflwyno tystiolaeth ddigidol a rhoi Wi-Fi yn y llysoedd fel bod pawb yn yr adeilad yn gweithio'n effeithlon.
24. Yn fwy eang, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ystod o ffyrdd y bydd yn cefnogi System Cyfiawnder Troseddol mwy effeithiol ac effeithlon a ddylai ddod â manteision i'r amddiffyniad yn ogystal â phartneriaid cyfiawnder troseddol ehangach: cwtogi ar hyd treialon hir; gwneud gwrandawiadau cyntaf mor effeithiol â phosibl; cymhwyso holl Reolau'r Weithdrefn Droseddol yn gadarn; a chefnogi ymdrechion barnwrol i wella datgeliad a rheoli achosion. Byddwn yn gweithio gyda chyfreithwyr yr amddiffyniad, gan gynnwys y panel yr ydym yn bwriadu ei sefydlu, er mwyn mynd â'r syniadau hyn yn eu blaen a datblygu'r syniadau cyfiawnder troseddol a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriad hwn ymhellach.
25. Mae'r Llywodraeth o'r farn y byddai'n annhebygol o wahanu llysoedd yr ynadon oddi wrth weddill HMCTS drwy ddychwelyd rheolaeth i Bwyllgorau Llysoedd yr Ynadon oherwydd y byddai sefydliadau ar wahân yn costio mwy i'w rhedeg ac ni fyddai hyn yn caniatáu mwy o effeithlonrwydd ar draws ystad gyfan y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

B Cynigion a oedd yn awgrymu newidiadau i weinyddu a chontractio'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

26. Cynigiodd rhai ymatebwyr y gallai diwygiadau gael eu gwneud i weinyddu a chontractio'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

Diwygio slotiau dyletswydd

27. Awgrymwyd y dylai'r system o ddyrannu slotiau i'r cyfreithiwr ar ddyletswydd gael ei diwygio a'i symleiddio. Mae'r system bresennol wedi cael ei disgrifio fel un aneffeithlon a dywedir ei bod yn cynhyrchu canlyniadau anghywir. Awgrymir hefyd ei bod yn annheg

oherwydd bod cyfanswm cyfran cwmni o slotiau yn ddibynnol ar y nifer o gyfreithwyr ar ddyletswydd maent yn eu cyflogi. Po fwyaf y nifer o gyfreithwyr ar ddyletswydd, po uchaf y nifer o slotiau. Awgrymwyd bod rhai cwmnïau yn cyflogi 'cyfreithwyr ffug' - hy mae ganddynt gyfreithwyr ar eu llyfrau nad ydynt mewn gwirionedd yn gwneud unrhyw waith amddiffyn er mwyn gwneud dim ond cynyddu slotiau'r cwmni a'u cyfran o'r farchnad.

28. Mae system decach o ddyrannu dyletswydd yn cael ei chynnig ar sail dyrannu slotiau yn gymesur â faint o wariant ar droseddau is a dderbyniwyd yn ystod y 12 mis blaenorol.

Diddymu Canolfan Alwadau'r Cyfreithiwr Dyletswydd (DSCC) a CD Direct

29. Mae cael model y ganolfan alwadau ddeuol fe ddadleuir yn ychwanegu oedi a chost oherwydd bod yr heddlu yn gyntaf yn galw DSCC, sydd wedyn yn penderfynu a allai'r ganolfan alwadau CD Direct roi cyngor neu a oes angen cyflenwi cyngor wyneb yn wyneb gan gyfreithiwr. Awgrymwyd y dylai'r model presennol gael ei ddisodli gan system sy'n cymryd llawer llai o amser. Byddai'r heddlu'n cysylltu â'r cyfreithiwr dyletswydd lleol trwy system awtomataidd genedlaethol. Mae'r cyfreithiwr wedyn yn penderfynu sut yr ymdrinnir â'r alwad.
30. Awgrymodd un ymatebydd yn ôl ei ddehongliad ef o'r ffigurau yn yr ymgynghoriad, y dylai'r CDD gael ei ddiddymu gan ei fod wedi cynyddu cost y cyngor dros y ffôn ac y dylai CDD gael ei ddisodli gan ffi unfurf o £20 yr achos o roi cyngor dros y ffôn. Roedd y dehongliad hwn yn cynnwys cyfuno'r ffigurau oedd yn cyfeirio at wahanol fathau o waith.

Dileu amser aros ar gyfer cyfreithwyr dyletswydd y llys

31. Awgrymwyd bod talu am amser aros ar gyfer cyfreithwyr dyletswydd llys yn cael ei ddiddymu ar y sail nad oes ei angen yn y rhan fwyaf o lysoedd a bydd yn galluogi cyfreithwyr dyletswydd i fwrw ymlaen â gwaith arall hyd nes y maent yn cael eu galw neu oni bai eu bod yn cael eu galw.

Diddymu'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA)

32. Mae nifer o ymatebwyr wedi awgrymu y dylai'r gwaith o weithredu'r system cymorth cyfreithiol gael ei wneud gan Gymdeithas y Cyfreithwyr a/neu HMCTS. Yn ogystal â hyn argymhellwyd y gallai'r cynllun gael ei ariannu drwy osod ardoll o 1% ar drosiant ffioedd pob practis.

Trosglwyddo adeniliad i Gyllid a Thollau EM

33. Awgrymwyd y gallai adennill costau cymorth cyfreithiol gael ei drosglwyddo o'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i Gyllid a Thollau EM. Yna gallai hyn gael ei weinyddu drwy godau treth gan y byddai lefelau incwm yr hawlydd ar gael yn awtomatig.

Cynllun Ffioedd Graddedig Plws ar gyfer VHCCs

34. Cynigiwyd y cynllun hwn yn gyntaf gan Gyngor y Bar yn 2009 fel dull arall o dalu adfocadau sy'n dymuno cynnal gwaith VHCC, yng ngoleuni'r anawsterau gyda'r cynllun paneli a oedd yn bodoli ar y pryd (gweler paragraffau 365-368 am ragor o wybodaeth).

Ymateb y llywodraeth

35. O ran diwygio'r broses dyrannu slotiau cyfreithiwr dyletswydd, mae lefel yr arbedion yn aneglur. Nid oedd unrhyw arwydd o sut y byddai'r diwygiad arfaethedig yn cael ei roi ar waith. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a Chymdeithas y Cyfreithwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ymdrin â'r pryder am 'gyfreithwyr ffug'. Yn ogystal, mae'r model addasedig

o gystadleuaeth ym Mhennod 3, yr ydym yn ceisio barn yn ei gylch, yn archwilio nifer o ffactorau perthnasol ar gyfer cyflwyno Gwaith Darparwr Dyletswydd ar wahân i'r nifer o Ddarparwyr Dyletswydd y mae sefydliad yn eu cyflogi. Buom yn ystyried yr awgrym i ddyrannu slotiau dyletswydd yn seiliedig ar faint hanesyddol a phenderfynwyd y byddai dull sy'n pennu dyraniad ar y ffactor hwn yn unig yn annhebygol o fod yn hyfyw.

36. O ran y DSCC a CD Direct, byddai disodli'r systemau hyn gyda systemau newydd yn gwneud arbedion bach yn unig a gallai hyn mewn gwirionedd arwain at gost untro o derfynu contractau presennol yn gynnar. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol eisoes yn bwriadu archwilio gyda chyrrff cynrychioliadol y ffordd orau i symleiddio'r gwasanaethau presennol a ddarperir o dan y ddau gontract hwn, er enghraifft, gan archwilio dyrannu achosion gan ddefnyddio TG. Mae contract presennol CD Direct yn digolledu darparwyr yn ôl cyfartaledd o £12 yr achos. Yn ystod oes y contract, bydd hyn yn arbed £680,000 y flwyddyn o'i gymharu â data gwariant 2011/12, gan arwain at arbediad i'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol o £2.04 miliwn am dymor y contract.
37. Byddai diddymu taliadau mewn perthynas ag amseroedd aros am gyfreithwyr dyletswydd llys yn cynnig arbedion bach yn unig. Ni chaniateir i gyfreithwyr dyletswydd llys weld eu cleientiaid eu hunain oni bai eu bod yn cael eu rhyddhau yn gyntaf gan y llys rhag darparu gwasanaethau cyfreithiwr dyletswydd. Mae'r ddadl y dylai cyfreithwyr dyletswydd llys allu gwneud gwaith arall wrth aros am y cleient nesaf sy'n derbyn cymorth cyfreithiol yn hytrach na dim ond cael ei dalu am amser aros yn ddeniadol ar yr wyneb ac mae gan ddarparwyr bob hawl i wneud cais i'r llys am gael eu rhyddhau er mwyn gwneud hynny. Ond nid yw pob llys yn barod i wneud hynny, ac felly, byddai'r Llywodraeth yn amharod i diddymu'r tâl ar wahân am amseroedd aros.
38. Ynghylch gweithredu'r system cymorth cyfreithiol, mae'r llysoedd eisoes yn delio â'r grant cymorth cyfreithiol o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Mae dychwelyd cyfrifoldeb am daliadau i'r llysoedd yn debygol o gynhyrchu arbedion.
39. Mae llawer o gwmnïau yn rhai nad ydynt yn gwneud gwaith cymorth cyfreithiol ac mae'n amheus a ddylent dalu ardoll i ariannu cymorth cyfreithiol (gweler hefyd paragraff 10.55 isod).
40. Mewn perthynas ag adennill costau cymorth cyfreithiol, byddai'r awgrym i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am adennill costau cyfreithiol i Gyllid a Thollau EM yn achosi mwy o gostau gweinyddol wrth weithio ar draws dau sefydliad yn hytrach nag un.
41. Gellir gweld yr ymateb i gynnig y Cynllun Ffioedd Graddedig Plws a gyflwynwyd gan Gyngor y Bar ym mharagraff 364 o Atodiad B.

C Cynigion a oedd yn symud y baich o dalu

42. Awgrymodd nifer o gynigion amrywiadau ar thema y llygrwr sy'n talu.

Cymhwyso egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'

43. Cafwyd awgrymiadau pan fo un parti yn achosi costau diangen yna y dylent dalu'r costau hynny. Mewn achosion troseddol dadleuwyd y dylai llysoedd gael y pŵer i wneud gorchymyn costau gwastraffu diannod yn erbyn unrhyw barti a achosodd gostau ychwanegol yn y broses. Nodwyd erlynwyr, y llysoedd, gwasanaethau darparu carchardai

ac eraill fel rhai sy'n achosi'r costau ychwanegol hyn. Byddai tariff yn cael ei ddefnyddio, ac yna unrhyw adeg y byddai gwrandawriad yn cael ei achosi i fod yn aneffeithiol byddai ffi benodol y byddai'r parti a fyddai'n troseddu yn ei dalu i'r parti'n eraill dan sylw.

Ei gwneud yn ofynnol i ddiffnyddion wedi'u barnu'n euog dalu costau llys / gosod gordal costau amddiffyn

44. Awgrymwyd y gellid gwneud dros £110,000,000 o arbedion drwy gyflwyno costau llys mewn achosion troseddol. Yn 2012, daeth Gwasanaeth Erllyn y Goron ag ychydig o dan 900,000 o erlyniadau yn y llys ynadon gyda chyfanswm cyfradd euogfarnu o 86.5% - dros 750,000 o lwyddiannau. Awgrymwyd y byddai, er enghraifft, cyfradd gasglu o 70% ar gost gyfartalog o £100 yn unig yn codi rhwng £40,000,000 a £52,500,000.

Adennill arian a adenillir o orchmynion codi tâl ar dai mewn achosion sifil

45. Awgrymwyd y dylid canolbwyntio mwy ar adfer yn effeithiol y tâl statudol a roddir ar gartrefi teuluol a oedd wedi bod yn destun ymglyfreitha yn y Llysoedd Teulu, ac ar wneud asesiad o'r symiau a adenillwyd a'u heffaith ar y gronfa cymorth cyfreithiol. Dangosodd ffigurau Mawrth 2009 y gellid adennill tua £199,000,000 o dan y tâl statudol; ar ben hynny y llog ar dâl statudol y cymorth cyfreithiol yw 8%, elw i'r Llywodraeth nad yw ar gael yn unrhyw le arall yn y farchnad. Dadleuwyd y dylai'r Llywodraeth ail-fuddsoddi'r Tâl Statudol i mewn i'r gyllideb cymorth cyfreithiol oherwydd nad yw hyn yn refeniw gwirioneddol annibynnol i'r Llywodraeth, ond yn ad-daliad dros gyfnod o amser o dreuliau cyfreithiol a dalwyd gan y gronfa cymorth cyfreithiol.

Adennill arian o asedau ataliedig

46. Awgrymwyd y dylai unrhyw arian a gafwyd o ganlyniad i asedau ataliedig o dan y Ddeddf Elw Troseddau 2002 (POCA) fynd yn syth i'r gronfa cymorth cyfreithiol wrth roi collfarn.

Benthyciadau cyfreithiol

47. Awgrymodd y CLSA y dylid cael system o 'fenthyciadau cyfreithiol' tebyg i'r system benthyciadau myfyrwyr. Byddai'r rhain yn cael eu casglu drwy'r systemau treth a budd-daliadau. Honnir y dylai hyn arwain at arbediad blynyddol o tua £55.5 miliwn.

Ffioedd atodol

48. Awgrymwyd y gellid bod â system o gymhorthdal lle mae ffioedd yn cael eu talu ar gyfradd is yr awr ar draws y bwrdd, ond bod cyfreithwyr yn cael hawl i godi atodiad i'r rhai sy'n gallu ei fforddio.

Ymateb y llywodraeth

49. Cafodd y cysyniad bod y llygrwr yn talu ei godi gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad Diwygio Cymorth Cyfreithiol 2010⁶⁴. Gellir canfod hwn yn Atodiad L: Cynigion Amgen, paragraffau 17 - 20 ar dudalen 258 y ddogfen honno. Am y rhesymau a nodir yno, cadarnhaodd y Llywodraeth nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau i ymestyn egwyddor y llygrwr yn talu ymhellach. Nid oes dim wedi cael ei godi ar fater y llygrwr sy'n talu mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar hyn o bryd i newid y casgliad a wnaethom ym mis Mehefin 2011.

⁶⁴ Ystadegau Troseddu, am y cyfnod sy'n dod i ben Mawrth 2013. Ar gael yn <http://www.ons.gov.uk/ons/rel/crime-stats/crime-statistics/period-ending-march-2013/index.html>

50. Mae gennym system sefydledig i adennill costau cymorth cyfreithiol troseddol a achoswyd yn Llys y Goron, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddiffnyddion wedi'u dyfarnu'n euog dalu rhywfaint neu'r cyfan o'u costau cymorth cyfreithiol troseddol lle gallant fforddio gwneud hynny. Yn ddiweddar, rydym wedi cymryd camau i gryfhau'r system honno, gan gynnwys pwerau llymach i orfodi dyledion. Rydym yn ystyried y cyfle i gynyddu'r lefel bresennol o adennill cymorth cyfreithiol troseddol gan ddiffnyddion sydd wedi'u dyfarnu'n euog.
51. O ran gorchmynion tâl codwyd y mater hwn yn ymgynghoriad *Diwygio Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr 2010*. Nid yw ein safbwynt wedi newid yn dilyn yr ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw, hy nad oes corff cryf o dystiolaeth y gallai'r tâl gael ei gasglu yn llawer mwy llwyddiannus neu effeithiol.
52. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi gweithredu mewn ymateb i bryderon a godwyd am y rhai hynny gydag asedau sylweddol yn derbyn cymorth cyfreithiol am ddim, ac mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno cynigion a gafodd eu deddfu gan y Senedd yn Neddf Trosedd a Llysoedd 2013. Mae'r Ddeddf honno yn cynnwys pwerau i ddiwygio Deddf Elw Troseddau 2002 i adennill cyfraniadau cymorth cyfreithiol o asedau ataliedig mewn rhai amgylchiadau. Mae'r manylion am sut y byddai hyn yn cael ei weithredu yn cael ei ystyried.
53. O ran y cynllun benthyciadau a awgrymir, gallai costau casglu a gorfodi cynllun benthyciadau cyfreithiol fod yn sylweddol. Nid yw'r cynnydd posibl mewn taliadau i gyfreithwyr ar ddyletswydd yn cael ei fesur.
54. Mae gennym nifer o bryderon am y cynnig ynghylch ffioedd atodol. Os yw'r holl ffioedd yn cael eu talu ar gyfradd is, ond bod cyfreithwyr yn gallu codi cymhorthdal ar y rhai sy'n gallu ei fforddio yn unig, yna gallai fod diffyg yn yr hyn sy'n cael ei adennill. Nid oes unrhyw sôn am sut y bydd y bwch hwn yn cael ei bontio. Pe gellid codi ffioedd atodol ar bawb o bosibl, gallai hynny gael effaith sylweddol ar y rhai gyda modd cyfyngedig. Nid oes unrhyw sôn am sut y byddai'r ffioedd yn cael eu gosod nac ar ba gyfradd. Nid yw'n glir sut y byddai swm y ffioedd atodol yn cael eu penderfynu na chan bwy. Nodir bod gennym eisoes brawf modd ar waith i bennu cymhwyster Llys y Goron am gymorth cyfreithiol ac a ddylai cyfraniad gael ei wneud ac yr ydym yn edrych ar y cyfle i gynyddu'r lefel bresennol o adennill cymorth cyfreithiol troseddol oddi wrth ddiffnyddion sydd wedi'u dyfarnu'n euog.

D Cynigion ar gyfer ffynonellau eraill o gyllid

55. Roedd nifer o gynigion yn ceisio lleihau gwariant ar gymorth cyfreithiol drwy sicrhau ffynonellau eraill o gyllid. Roedd y rhain yn cynnwys cynigion i osod ardoll ar y diwydiant gwasanaethau ariannol i dalu am gostau cymorth cyfreithiol achosion o dwyll oherwydd bod llawer o dwyll yn digwydd o fewn y sector hwnnw, gan ddychwelyd y cyfrifoldeb a chost erlyn achosion dwyn o siopau i'r diwydiant manwerthu, yswiriant gorfodol i gyfarwyddwyr cwmni am amddiffyniad troseddol fel y gallai unrhyw gostau cyfreithiol gael eu talu yn hytrach na thynnu ar y gronfa cymorth cyfreithiol a chreu cynllun yswiriant cyfiawnder troseddol a ariennir gan y llywodraeth.

Ymateb y Llywodraeth

56. Byddai rhai o'r cynigion hyn yn golygu creu math newydd o dreth a pholisi'r Llywodraeth yw ystyried y rhain yn ôl eu rhinweddau eu hunain. Ni ddylai ystyriaeth o'r fath roi pwysau

ychwanegol ar y sail y gallai trethi newydd gael eu neilltuo yn erbyn meysydd gwariant penodol. Mae Canllawiau Cyllidebu cyfunol y Trysorlys yn nodi'r meini prawf a ddefnyddir i gynorthwyo i wneud penderfyniadau a ddylid neilltuo trethi yn erbyn gwariant. Mae'r rhain yn seiliedig ar y rhagdybiaeth gyffredinol na ddylai referniw treth gael ei ddefnyddio i wrthbwysu gwariant penodol. Maent wedi cael eu dyfeisio er mwyn ategu penderfyniadau bod referniw treth wedi'i neilltuo yn cael ei gytuno ar sail effeithlonrwydd yn unig. Felly, nid yw neilltuo fel arfer yn cael ei gytuno, pe byddai fe fyddai'n cynyddu grym gwario; erydu gallu'r Llywodraeth i godi treth yn effeithlon ac yn y sectorau o'i dewis, ac yn erydu ei gallu i ddyrannu gwariant yn unol â'i blaenoriaethau.

57. Yn ogystal, yr amcan macro-economaidd perthnasol yw torri gwariant cyhoeddus cyffredinol yn hytrach na chynyddu lefelau cyffredinol o drethiant ac nid yw'r ddau yn ymgynffwrdd. Mae polisi treth yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys a yw'r sylfaen treth yn eang neu yn gul, pa mor atchweliadol neu flaengar y gallai'r dreth fod, gallu trethdalwyr i dalu, a chanlyniadau ymddygiadol a chanlyniadau eraill cymhwysu treth. Yn yr achos hwn, mae'r cynnig ynghylch ardoll ar y diwydiant gwasanaethau ariannol yn ymddangos fel pe bai'n seiliedig ar ryw syniad o achosiaeth rhwng twyll a gwasanaethau ariannol.
58. Nid yw'r Llywodraeth, felly, o blaid ystyried argymhellion i gyflwyno trethi newydd i wneud iawn am gostau cymorth cyfreithiol. Yn hytrach, bydd gwariant cymorth cyfreithiol yn parhau i gael ei ariannu yn bennaf drwy drethiant cyffredinol.
59. Nid ydym yn gweld yswiriant Cyfarwyddwyr a Swyddogion (D & O) fel dewis arall ymarferol i gymorth cyfreithiol ar gyfer materion troseddol oherwydd bod arian yn y pen draw yn dibynnu ar y canlyniad ac mae canfyddiad o euogrwydd yn negyddu unrhyw fuddion ac mae dadleuon ymarferol a pholisi yn erbyn yswiriant gorfodol megis cymesuredd ac ymarferoldeb. Oherwydd rhwymedigaeth ECHR i ddarparu cymorth cyfreithiol troseddol, ni allai Yswiriant Cyfarwyddwyr a Swyddogion fod yn gyffredinol. Ymhellach, dim ond cyfran fach o achosion o dwyll cymorth cyfreithiol fyddai'n achosion sy'n ymwneud â chyfarwyddwyr cwmni.
60. Yn yr un modd, byddai polisi cyhoeddus yn erbyn creu yswiriant cyfiawnder troseddol cyffredinol a dychwelyd rôl yr erlynydd i'r diwydiant manwerthu.

E Cynigion a oedd yn awgrymu diwygio'r cynllun taliadau presennol

61. Roedd amrywiaeth o gynigion a oedd yn awgrymu y gallai'r dulliau cyfredol o ariannu gwaith cymorth cyfreithiol gael eu diwygio. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi cael eu trin yn y penodau sy'n ymwneud â ffioedd troseddol a sifil a ffioedd arbenigwyr.

Achosion o derfysgaeth

62. Mae wedi cael ei awgrymu y dylai achosion o derfysgaeth gael eu tynnu oddi ar y gronfa cymorth cyfreithiol cyffredinol ac yn hytrach y dylai'r achosion hyn gael eu hariannu o'r gyllideb a ddynodwyd ar gyfer mynd i'r afael â therfysgaeth.

Ymateb y llywodraeth

63. Ni fyddai unrhyw arbediad cyffredinol i'r Llywodraeth drwy ailddyrrannu cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion yn ymwneud â honiadau o derfysgaeth gan y byddai'r gwariant yn dal i ddigwydd, ond ni fyddai'n cael ei dynnu o'r gyllideb cymorth cyfreithiol.

F Pecynnau o ddiwygiadau

64. Awgrymodd rhai ymatebwyr becynnau o ddiwygiadau i gynhyrchu arbedion fel dewis amgen i'r model o dendro cystadleuol a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad.

Ymateb y Llywodraeth

65. Er bod llawer o'r cynlluniau yn adlewyrchu elfennau o gynigion yr ymgynghoriad, roedd yn amlwg na fyddent yn gyffredinol yn cyflenwi'r lefel o arbedion a/neu sicrhau arbedion i'r un amserlen â'n cynigion gwreiddiol.

66. Mae'r ddogfen hon yn nodi dull diwygiedig o ymdrin â thendro cystadleuol ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol (Pennod 3) a diwygiadau i'r ffoedd eiriolaeth troseddol (Pennod 4) i ymgynghori ymhellach yn eu cylch.

G Troseddau economaidd

67. Cafwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer gwneud arbedion mewn perthynas â throeddau economaidd. Roedd y rhain yn cynnwys:

Erlyniadau gohiriedig

68. Awgrymwyd y gallai cytundebau erlyn gohiriedig gael eu defnyddio fel dewis amgen i dreial. Gallai canran o'r arian a geir drwy osod cosbau ariannol sylweddol gael ei neilltuo i wrthbwysu yn erbyn y gyllideb cymorth cyfreithiol.

Cyfrifwyr Fforensig

69. Mae wedi cael ei awgrymu y dylai cynllun Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW), lle roedd grwpiau o gyfrifwyr fforensig yn gweithio gyda heddluoedd sirol ar achosion troseddau economaidd, gael ei adfywio. O dan y cynllun hwn, roedd y gost o ddefnyddio cyfrifwyr fforensig yn cael ei thalu gan heddluoedd. Awgrymodd y cynnig y dylai'r cynllun gael ei ail-lansio, ond gyda'r gost yn cael ei rhannu rhwng y llysoedd, y CPS a'r heddlu. Byddai hyn, fe honnid, yn gwella ansawdd y dystiolaeth a gyflwynir mewn treialon economaidd yn fawr.

Ymateb y Llywodraeth

70. Cyhoeddwyd Cod Ymarfer drafft ar erlyniadau gohiriedig ar y cyd gan Gyfarwyddwr y Swyddfa Twyll Difrifol a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar 27 Mehefin. Ni fyddai'n briodol i'r llywodraeth wneud sylwadau cyn i'r ymateb hwnnw i'r ymgynghori gael ei gyhoeddi.

71. Nid oes dim i atal heddluoedd barhau â'r arfer o baneli cyfrifwyr fforensig ac mae'n ymddangos bod rhai heddluoedd fel Manceinion Fwyaf wedi mynd y tu hwnt i rannu panel o gyfrifwyr fforensig ac yn cyflogi eu cyfrifwyr fforensig eu hunain yn uniongyrchol.

H Prosesau tendro cyfreithiol eraill y Llywodraeth

72. Awgrymodd rhai ymatebwyr bod cyswllt rhwng y Llywodraeth yn tendro am ddarparwyr cyngor cyfreithiol a'r lefel y gosodir y cymorth cyfreithiol. Dadleuwyd, pe bai cyngor cyfreithiol y Llywodraeth yn cael ei gyllido ar yr un lefel â chymorth cyfreithiol y byddai

arbedion sylweddol. Cynigiwyd hefyd y dylai'r cwmnïau hynny sy'n tendro am gontractau i gynghori'r Llywodraeth dalu canran o'u ffioedd i'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol.

Ymateb y llywodraeth

73. Mae'r math o gyngor cyfreithiol a ddarperir i'r Llywodraeth o dan gontractau tendro a'i raddfa yn hollol wahanol i'r math o waith a wneir dan y cynllun Cymorth Cyfreithiol. Yn unol â hynny, nid yw'r cynnig a awgrymir yn briodol.

Atodiad D: Canlyniad y tendr cymorth cyfreithiol sifil 2013

Tabl D1. Canlyniadau'r tendr contract sifil 2013 ar gyfer Teulu, Tai, Dyled, Mewnfudo a Lloches a chymhariaeth ag ymarferiadau tendro blaenorol

Categori	2010					Bidiau a darparwyr contractau 2012					2013				
	Nifer o achosion a fidiwyd ar gael	Nifer o achosion amdanyn t	Nifer o achosion ar gael	Swyddfeyd id yn bidio am gontractau cyfredol	Swyddfeyd d â chontractau cyfredol	Nifer o achosion ar gael	Nifer o achosion a fidiwyd amdanynt	Nifer o achosion ar gaels	Swyddfeyd id yn bidio am gontractau cyfredol	Swyddfeyd d â chontractau cyfredol	Nifer o achosion ar gael	Nifer o achosion amdanyn t	Nifer o achosion ar gaels	Swyddfeyd id yn bidio am gontractau cyfredol	Swyddfeyd d â chontractau cyfredol
Teulu	DIM YN	DIM YN	DIM YN	DIM YN	DIM YN	284,280	334,341	1.17	2,444	2,367	95,761	163,852	1.71	2,494	2,296
	BERTHN	BERTHN	BERTHNA	BERTHNA	BERTHNA										
	ASOL	ASOL	SOL	SOL	SOL										
Tai a Dyled (yn unig)*	296,920	538,765	1.81	815	794	DIM YN	DIM YN	DIM YN	DIM YN	DIM YN	51,889	146,820	2.83	828	533
						BERTHN	BERTHN	BERTHNA	BERTHNA	BERTHNA					
						ASOL	ASOL	SOL	SOL	SOL					
Mewnfudo a Lloches (yn unig)**	96,496	244,246	2.53	418	249	DIM YN	DIM YN	DIM YN	DIM YN	DIM YN	40,831	140,424	3.44	506	225
						BERTHN	BERTHN	BERTHNA	BERTHNA	BERTHNA					
						ASOL	ASOL	SOL	SOL	SOL					

Roedd y 2013 tendr contract ond yn cynnwys y categorïau hynny o'r gyfraith lle oedd angen contractau newydd i weithredu diwygiadau'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol a Chosbi Troseddwy'r (LASPO).

Mae'r holl ddata a gyflwynir yn y tabl uchod yn seiliedig ar fidiau ac nid yw'n adlewyrchu lle aseswyd darparwyr am fethiant neu lle lleihawyd bidiau yn unol â chapiau maint. Tra gwnaethpwyd pob ymdrech i ddileu bidiau dyblyg, gall fod nifer fach o achosion lle na adnabuwyd hyn.

Mae'r nifer o achosion a fidiwyd amdanynt yn Tai a Dyled yn 2010 yn adlewyrchu unrhyw feintiau a eglurwyd â bidwyr cyn unrhyw asesiad o faint.

* Yn yr ymarfer tendro 2010, tendrwyd tai a dyled ar y cyd â budd-daliadau lles. Mae ffigyrau 2010 felly yn cynnwys Budd-daliadau Lles nad oedd yn ffurfio rhan o ymarfer tendro 2013.

** Yn yr ymarfer tendro 2010, tendrwyd cyngor mewnfudo a lloches ar y cyd, ond ffurfiodd cyngor mewnfudo rhan fechan iawn o ymarfer tendro 2013 gan gymryd cwmpas y newidiadau.

Atodiad E: Ffioedd Newydd Sifil, Teulu ac Arbenigol

Tabl E1: Cyfraddau sefydlog o gynrychiolaeth – Adran 31 Deddf Plant 1989 achosion Gofal Goruchwyliaeth yn unig⁶⁵

Parti	Llys	Nifer o Gleientiaid	Canolbarth Lloegr	Gogledd Lloegr	Llundain a De Lloegr	Cymru
Parti ar y cyd	Arall		£930	£718	£1081	£1171
Parti ar y cyd	Uchel Lys		£1237	£1442	£1437	£1557
Plentyn	Arall	1	£1754	£1438	£2013	£1965
Plentyn	Arall	2+	£2630	£2156	£3019	£2947
Plentyn	Uchel Lys	1	£2332	£1913	£2677	£2613
Plentyn	Uchel Lys	2+	£3498	£2869	£4015	£3919
Rhiant	Arall	1	£2300	£1911	£2616	£2370
Rhiant	Arall	2	£2876	£2388	£3270	£2962
Rhiant	Uchel Lys	1	£3059	£2541	£3479	£3152
Rhiant	Uchel Lys	2	£3824	£3177	£4349	£3940

Tabl E2: Cyfraddau'r awr am gynrychiolaeth – Rhannau IV a V o Ddeddf Plant 1989, gan gynnwys achosion o dan Adran 25 o'r Ddeddf honno⁶⁶

Gweithgaredd	Llysoedd Uwch	Llys Sirol a Llys Achosion a Theulol
Adfocatiaeth (cyfradd Llundain)	£63.06 yr awr	£57.91 yr awr
Adfocatiaeth (cyfradd y tu allan i Lundain)	£59.26 yr awr	£57.91 yr awr
Mynychu llys neu gynhadledd gyda chwmsler	£33.42 yr awr	£29.40 yr awr
Paratoi a mynychu (cyfradd Llundain)	£63.06 yr awr	£55.24 yr awr
Paratoi a mynychu (cyfradd y tu allan i Lundain)	£59.26 yr awr	£52.57 yr awr
Amser teithio ac aros	£28.96 yr awr	£26.29 yr awr

⁶⁵ Gweler Tabl 2(c) o Ran 1 i Atodiad 1 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013 gweler <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2013/422/contents/made>

⁶⁶ Gweler Tabl 9(a) o Ran 3 i Atodiad 1 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl) 2013 (fel troednodyn 85).

Tabl E3: Cyfraddau taladwy i adfocatau mewn achosion sifil (heblaw am rai teulu)

Llys	Gweithgaredd		Cyfraddau safonol (£ yr awr)	Uchafswm cyfraddau uwch (£ yr awr)
Llys Sirol	Paratoi	Llundain	63.00	94.50
		Y tu allan i Lundain	59.40	89.10
	Adfocatiaeth	Llundain	59.40	89.10
		Y tu allan i Lundain	59.40	89.10
	Amser teithio ac aros		26.28	39.42
	Mynychu'r llys a chynhadledd â Chwnsler		29.25	43.88
Uwch Dribiwnlys ac Uchel Lys	Paratoi	Llundain	71.55	143.10
		Y tu allan i Lundain	67.50	135.00
	Adfocatiaeth	Llundain	67.50	135.00
		Y tu allan i Lundain	67.50	135.00
	Amser teithio ac aros		29.93	59.86
	Mynychu'r llys a chynhadledd â Chwnsler		33.30	66.60

Tabl E4: Cyfraddau taladwy mewn achosion mewnfudo a lloches Uwch Dribiwnlys

<i>Achosion mewnfudo ac Uwch Dribiwnlys lle roddir caniatâd</i>		
	Cyfradd Llundain	Cyfradd y tu allan i Lundain
Paratoi a mynychu (yr awr)	£55.08	£51.53
Amser teithio ac aros (yr awr)	£27.27	£26.51
Llythyrau allan a galwadau ffôn arferol (yr eitem)	£3.96	£3.69
Adfocatiaeth (yr awr)	£62.64	£62.64

Tabl E5: Ffioedd arbenigwyr sifil (a theulu)

Arbenigydd	Y tu allan i Lundain – Cyfradd yr awr oni nodwyd ei fod yn ffi sefydlog	Llundain – Cyfradd yr awr oni nodwyd ei fod yn ffi sefydlog
Ymgynghorydd Uned Damweiniau	£100.80	£108
Ailwneuthur damwain	£72	£54.40
Cyfrifydd	£64	£64
Cyfrifydd (staff cyffredinol)	£40	£40
Cyfrifydd (rheolwr)	£86.40	£86.40
Cyfrifydd (partner)	£108	£115.20
Anesthetydd	£108	£108
Pensaer	£79.20	£72
Cardiolegydd	£115.20	£115.20

Arbenigydd	Y tu allan i Lundain – Cyfradd yr awr oni nodwyd ei fod yn ffi sefydlog	Llundain – Cyfradd yr awr oni nodwyd ei fod yn ffi sefydlog
Dadansoddiad safle ffôn cell	£72	£72
Seiciatrydd plant	£108	£108
Seiciolegydd plant	£100.80	£100.80
Arbenigydd cyfrifiadurol	£72	£72
Peiriannydd ymgynghorol	£72	£54.40
Deintydd	£93.60	£93.60
Dermatolegydd	£86.40	£86.40
Ymgynghorydd ar anabledd	£54.40	£54.40
DNA (profi sampl)	£252 y prawf	£252 y prawf
DNA (paratoi adroddiad)	£72	£72
Doctor (Meddyg Teulu)	£79.20	£72
Ymgynghorydd cyflogaeth	£54.40	£54.40
Asiant ymholiadau	£25.60	£18.40
Llawfeddyg Clust, Trwyn a Gwddf (ENT)	£100.80	£100.80
Llawfeddyg cyffredinol	£108	£72
Genetegydd	£86.40	£86.40
Meddyg Teulu (adrodd cofnodion)	£50.40 ffi sefydlog	£72 ffi sefydlog
Gynaecolegydd	£108	£72
Haematolegydd	£97.60	£72
Arbenigydd ar lawysgrifen	£72	£72
Cyfieithydd ar y pryd	£28	£25
Darllenwr Gwefusau/Arwyddwr	£57.60	£32.80
Cyfryngydd	£100.80	£100.80
Ymgynghorydd meddygol	£108	£72
Microbiolegydd meddygol	£108	£108
Meteorolegydd	£100.80	£144 ffi sefydlog
Bydwraig	£72	£72
Neonatolegydd (y tu allan i achos o barlys yr ymennydd-esgeulustod)	£108	£108
Neonatolegydd (achos parlys yr ymennydd-esgeulustod)	£180	£180
Niwrolegydd (y tu allan i achos o barlys yr ymennydd-esgeulustod)	£122.40	£72

Arbenigydd	Y tu allan i Lundain – Cyfradd yr awr oni nodwyd ei fod yn ffi sefydlog	Llundain – Cyfradd yr awr oni nodwyd ei fod yn ffi sefydlog
Niwrolegydd (achos parlys yr ymennydd-esgeulustod)	£200	£200
Niwroseiciatrydd	£126.40	£72
Niwrrolegydd (y tu allan i achos o barlys yr ymennydd-esgeulustod)	£136.80	£136.80
Niwrrolegydd (achos parlys yr ymennydd-esgeulustod)	£180	£180
Niwrolawfeddydd	£136.80	£72
Arbenigydd nyrσιο	£64.80	£64.80
Obstetregydd	£108	£108
Therapydd galwedigaethol	£54.40	£54.40
Oncologydd	£112	£112
Llawfeddyg orthopaedig	£115.20	£115.20
Pediatrydd	£108	£72
Pathologydd	£122.40	£432 ffi sefydlog
Ffarmacologydd	£97.60	£97.60
Ffotograffydd	£25.60	£18.40
Ffisiotherapydd	£64.80	£64.80
Llawfeddyg plastig	£108	£108
Gweinyddydd prosesau	£25.60	£18.40
Seiciatrydd	£108	£108
Seicolegydd	£93.60	£93.60
Radiolegydd	£108	£108
Rhiwmatologydd	£108	£108
Arbenigydd asesu risg	£50.40	£50.40
Therapydd lleferydd	£79.20	£79.20
Syrfëwr (tai'n dadfeilio)	£85	£115
Syrfëwr (y tu allan i dai'n dadfeilio)	£40	£40
Arbenigydd telegyfathrebu	£72	£72
Tocsicolegydd	£108	£108
Wrolegydd	£108	£108
Milfeddyg	£72	£72
Adnabod llais	£93.60	£72

Tabl E6: Ffioedd Arbenigwyr Troseddol

Arbenigydd	Y tu allan i Lundain – Cyfradd yr awr oni nodwyd ei fod yn ffi sefydlog	Llundain – Cyfradd yr awr oni nodwyd ei fod yn ffi sefydlog
Adnabod llais	£93.60	£72
Adroddiad meddygol	£79.20	£72
Ailwneuthur damwain	£72	£54.40
Anesthetydd	£108	£72
Arbenigydd ar lawysgrifen	£72	£72
Arbenigydd arfau	£72	£72
Arbenigydd asesu risg	£50.40	£50.40
Arbenigydd budd-daliadau	£72	£72
Arbenigydd cyffuriau	£72	£72
Arbenigydd cyfrifiadurol	£72	£72
Arbenigydd nyrsio	£64.80	£64.80
Arbenigydd olion bysedd	£72	£37.60
Arbenigydd telegyfathrebu	£72	£72
Asiant ymchwilio	£25.60	£18.40
Bydwraig	£72	£72
Cardiolegydd	£115.20	£72
Cyfieithydd ar y pryd	£28	£25
Cyfrifydd	£64	£64
Cyfrifydd (partner)	£115.20	£115.20
Cyfrifydd (rheolwr)	£86.40	£86.40
Cyfrifydd (staff cyffredinol)	£40	£40
Cyfryngydd	£100.80	£100.80
Dadansoddiad safle ffôn cell	£72	£72
Darllenwr Gwefusau/Arwyddwr	£57.60	£32.80
Deintydd	£93.60	£72
Dermatolegydd	£86.40	£72
DNA (paratoi adroddiad)	£72	£72
DNA (profi sampl)	£252 y prawf	£252 y prawf
Doctor (Meddyg Teulu)	£79.20	£72
Ffarmacolegydd	£97.60	£72
Ffisiotherapydd	£64.80	£64.80
Ffotograffydd	£25.60	£18.40
Genetegydd	£86.40	£72

Arbenigydd	Y tu allan i Lundain – Cyfradd yr awr oni nodwyd ei fod yn ffi sefydlog	Llundain – Cyfradd yr awr oni nodwyd ei fod yn ffi sefydlog
Gweinyddydd Prosesau	£25.60	£18.40
Gwyddonydd fforensig	£90.40	£72
Gynaecolegydd	£108	£72
Haematolegydd	£97.60	£72
Llawfeddyg Clust, Trwyn a Gwddf (ENT)	£100.80	£72
Llawfeddyg cyffredinol	£108	£72
Llawfeddyg orthopaedig	£115.20	£72
Llawfeddyg plastig	£108	£72
Mapio wynebau	£108	£72
Meddyg Teulu (adroddiad cofnodion)	£50.40 ffi sefydlog	£72 ffi sefydlog
Meteorolegydd	£100.80	£144 ffi sefydlog
Microbiologydd meddygol	£108	£72
Milfeddyg	£72	£72
Neonatolegydd	£108	£72
Niwrolawfeddydd	£136.80	£72
Niwrolegydd	£122.40	£72
Niwroradiologydd	£136.80	£72
Niwroseiciatrydd	£126.40	£72
Obstetregydd	£108	£72
Ôl gyfrifiadau	£144 ffi sefydlog	£151.20 ffi sefydlog
Oncologydd	£112	£72
Pathologydd	£122.40	£432 ffi sefydlog
Pediatrydd	£108	£72
Peiriannydd ymgynghorol	£72	£54.40
Pensaer	£79.20	£72
Radiologydd	£108	£72
Rhiwmatolegydd	£108	£72
Seiciatrydd	£108	£72
Seiciatrydd plant	£108	£72
Seiciolegydd plant	£100.80	£72
Seicolegydd	£93.60	£72
Syrfëwr (tai'n dadfeilio)	£108	£72
Syrfëwr (y tu allan i dai'n dadfeilio)	£40	£40

Arbenigydd	Y tu allan i Lundain – Cyfradd yr awr oni nodwyd ei fod yn ffi sefydlog	Llundain – Cyfradd yr awr oni nodwyd ei fod yn ffi sefydlog
Therapydd galwedigaethol	£54.40	£54.40
Therapydd lleferydd	£79.20	£72
Tocsicolegydd	£108	£72
Wrolegydd	£108	£72
Ymchwilio tanau	£72	£54.40
Ymgynghorydd anabledd	£54.40	£54.40
Ymgynghorydd cyflogaeth	£54.40	£54.40
Ymgynghorydd meddygol	£108	£72
Ymgynghorydd Uned Damweiniau	£100.80	£108

Atodiad F: Datganiad Cydraddoldeb

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Llywodraeth yn sylweddoli pwysigrwydd ystyried effaith y cynigion cymorth cyfreithiol ar wahanol grwpiau, yn enwedig o safbwynt defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau sy'n derbyn cymorth cyfreithiol.
- 1.2 Yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 rydym wedi ystyried effaith y cynigion ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig er mwyn rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu ymddygiad anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol bobl a'i gilydd.
- 1.3 Yn **Rhan 1** o'r Atodiad hwn rydym yn cyflwyno'n dadansoddiad cychwynnol ac ymateb y Llywodraeth ar effaith cyflwyno cystadleuaeth i'r farchnad cymorth cyfreithiol troseddol ac ailstrwythuro'r cynigion cynllun ffi graddedig eiriolwyr. Gan ein bod ni'n ymgynghori ymhellach ar y cynigion hyn, rydym hefyd wedi datgan ein dadansoddiad cychwynnol o'r effaith y rhagwelwn y byddai'n cynigion diwygiedig yn ei gael, pe baent yn cael eu gweithredu. Gellir gweld y cynigion a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghori arnynt yn *Rhan Dau: Ymgynghori Pellach* o'r ddogfen *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: y Camau Nesaf*.
- 1.4 Yn **Rhan 2** o'r Atodiad hwn, rydym yn cyflwyno'n hymateb i'r materion allweddol a godwyd gan ymatebwyr a'n dadansoddiad terfynol o effaith y cynigion y bwriada'r Llywodraeth eu gweithredu, fel y disgrifir yn *Rhan Un: Y Rhaglen Ddiwygio* o'r ddogfen *Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol: y Camau Nesaf*.
- 1.5 Mae'r Atodiad hwn yn adeiladu ar ein dadansoddiad cychwynnol o gydraddoldeb a gynhwyswyd yn ymgynghoriad Ebrill 2013 (Atodiad K Effaith ar Gydraddoldebau). Mae'n ystyried y themâu cydraddoldeb cyffredinol ar gyfer y meysydd polisi eang mewn perthynas â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn adrannau unigol ymateb y Llywodraeth, am bob un o'r meysydd diwygio, rydym hefyd yn ystyried y materion cydraddoldeb penodol a godwyd gan ymatebwyr.

2 Dyletswyddau cyfreithiol

- 2.1 O dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf"), wrth weithredu ei swyddogaethau mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder o dan ddyletswydd cyfreithiol i roi 'sylw dyledus' i'r angen i wneud y canlynol:
 - Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erlidigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall o dan y Ddeddf;
 - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt); a
 - Meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau.
- 2.2 Y nodweddion gwarchodedig perthnasol i'r dibenion hynny yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

- 2.3 Yn gyson â'r ddyletswydd honno, a gydag amcanion statudol adran 149 o'r Ddeddf honno mewn cof, rydym wedi ystyried a yw'r polisiâu o dan sylw'n debygol o effeithio ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, ac os ydynt, sut y maent yn gwneud hynny.
- 2.4 Mae darpariaethau'r Ddeddf sydd mewn grym ar hyn o bryd yn cynnwys, ym Mhennod 2, sawl ffurf o ymddygiad gwaharddedig, sef:
- Gwahaniaethu uniongyrchol (adran 13)
 - Gwahaniaethu sy'n codi o anabledd (adran 15)
 - Gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth (adran 17 ac adran 18)
 - Aflonyddu (adran 26)
 - Erledigaeth (adran 27)
 - Torri cymal gwrth-wahaniaethu (adran 61)
 - Gwahaniaethu anuniongyrchol (adran 19)
 - Methiant i gydymffurfio â dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol (adran 20 ac adran 21)
- 2.5 Mae'r ffurfiau hynny o ymddygiad gwaharddedig yn cael eu hystyried, lle bo'n berthnasol, mewn mwy o fanylder yn y dadansoddiad sy'n dilyn.
- 2.6 O safbwynt yr ail a'r trydydd amcan statudol – hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda – amcanion y mae'n ddyletswydd ar y Weinyddiaeth, o dan adran 149, i roi sylw dyledus iddynt, rhoddir canllawiau yn adran 149(3) a (5):
- '(3) Mae rhoi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu, yn golygu rhoi sylw dyledus, yn benodol, i'r angen i – ddileu neu leihau i'r eithaf anfanteision a ddiodeffir gan bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno; cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno; annog pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall y mae cyfranogiad gan bobl o'r fath yn anghymesur o isel.'*
- '(5) Mae rhoi sylw dyledus i'r angen i feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu yn golygu rhoi sylw dyledus, yn benodol, i'r angen i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.'*
- 2.7 Mae'r darpariaethau hynny'n dangos bod y materion y mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth rhoi sylw dyledus iddynt yn cynnwys yr angen i gamau gael eu cymryd – er bod y ddyletswydd yn parhau i fod yn un o roi sylw dyledus (yn wahanol, er enghraifft, i ddyletswydd i gymryd camau gwirioneddol neu ddyletswydd i gyflawni canlyniad penodol). Rydym wedi ystyried perthnasedd ac oblygiadau'r polisiâu o dan sylw o safbwynt hyrwyddo cyfle cyfartal a'r angen i feithrin perthynas dda gan gadw'r canllawiau yn adran 149(3) a (5) mewn cof. Lle bo'n berthnasol, rydym ym rhoi sylw i'r ail a thrydydd cymal o'r ddyletswydd mewn mwy o fanylder yn y dadansoddiad sy'n dilyn.

3 Ffynonellau Data

- 3.1 Rydym wedi nodi'r ffynonellau data canlynol fel rhai sy'n darparu'r wybodaeth fwyaf perthnasol ar effeithiau posibl ar gydraddoldeb:
- Data'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol gynt) ar gleientiaid a gasglwyd drwy filiau darparwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011/2012 (Data Cleientiaid yr Asiantaeth). Mae hyn yn cynnwys cofnodion o statws rhyw, oedran, hil, a salwch neu anabledd cleientiaid.
 - Data darparwyr gan y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol, a gasglwyd i gefnogi eu hadroddiadau *Routine Diversity Monitoring of the Supplier Base*. Y tro diwethaf i'r arolwg gael ei wneud oedd yn 2010 ac mae'n cynrychioli proffil amrywiaeth y rheini sy'n rheoli swyddfeydd darparwyr cymorth cyfreithiol.
 - Cyhoeddiadau Cyngor y Bar: *Bar Barometer: Trends in the Profile of the Bar, Tachwedd 2012, a Barristers' Working Lives: A Biennial Survey of the Bar 2011*. Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth ar oedran, rhyw ac ethnigrwydd bargyfreithwyr gweithredol.
 - Data Cyfrifiad 2011 sydd wedi'i gyhoeddi, er mwyn galluogi i gymariaethau â'r boblogaeth gyffredinol gael eu gwneud.
- 3.2 Mae pob un o'r ffynonellau data hyn â rhywfaint o gyfyngiadau. Nid oes dim o'r data'n cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig. Nid yw'n dadansoddiad ystadegol felly ond yn ystyried y data sydd ar gael ar oedran, rhyw, hil ac anabledd. Yn ogystal:
- Cofnodir data cleientiaid yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol gan ddarparwyr, nid gan gleientiaid cymorth cyfreithiol eu hunain, ac mae felly'n annhebyg o fod mor gywir â data a hunan-ddiffiniwyd, yn enwedig o safbwynt anabledd / salwch a hil.
 - Fel gyda llawer o setiau data gweinyddol, effeithir ar ansawdd data cleientiaid yr Asiantaeth gan raddau'r data sydd ar goll, yn enwedig ynghylch statws salwch / anabledd a hil.
 - Mae data cydraddoldeb darparwyr y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol yn seiliedig ar arolwg o ddarparwyr sydd, o'u rhoi gyda'i gilydd, â chyfradd ymateb o 69%.
- 3.3 Mae'n dadansoddiad ystadegol o ddata demograffig cleientiaid a darparwyr yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i'w weld yn Adran 21 o'r Atodiad hwn. Nid ydym ar hyn o bryd yn gallu asesu graddau unrhyw effaith y cynigion ar incwm cymorth cyfreithiol darparwyr yn ôl nodwedd warchoddedig, gan y bydd gweithredu'r newidiadau mewn cwmpas a ffioedd o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012 yn newid gwaelodlin 2011/12 y gellir asesu lleihad mewn incwm yn ei herbyn. Gallai unrhyw asesiad, felly, fod â'r potensial i fod yn gamarweiniol.
- 3.4 Mewn rhai achosion, awgrymodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ddata neu ffynonellau o ddata ychwanegol ynghylch nodweddion gwarchoddedig pobl yr effeithid arnynt. Fel y dangosir yn adran Asesiadau o Effaith a Datganiad Cydraddoldeb Atodiad B, rydym wedi ystyried y data a'r ffynonellau a ddarparwyd a, lle barnwyd bod hynny'n ddibynadwy a pherthnasol, rydym wedi rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth yn y dadansoddiad sy'n dilyn.

4 Tystiolaeth, Ymchwil a Monitro Cydraddoldebau

- 4.1** Mae gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder raglen barhaus o ymchwil a monitro sy'n edrych ar y ffordd y cyflwynir ac y darperir cyngor cyfreithiol a ariannir yn gyhoeddus er mwyn deall nodweddion ac anghenion defnyddwyr. Mae'r gweithgareddau cyfredol yn cynnwys:

Monitro ac adolygu'r ffordd y gweithredir y porth ffôn gorfodol ar gyfer cymorth cyfreithiol

- 4.2** Rydym wedi bod yn monitro'r porth ers iddo gychwyn gweithredu ar 1 Ebrill 2013 ac wedi gwneud ymrwymiad i adolygu'r ffordd y mae'n gweithredu ac i gyhoeddi adroddiad o'r adolygiad ym mis Ebrill 2015. Bydd elfen allweddol o'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effaith y porth ar grwpiau agored i niwed a grwpiau o dan anfantais. Bydd yn cynnwys archwilio unrhyw rwystrau y gall gwahanol fathau o ddefnyddwyr eu profi wrth gael at (gan gynnwys cysylltu a defnyddio) gwasanaeth gweithredu'r porth, ac ystyried sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain.
- 4.3** Fel safon, mae'r Cyngor Cyfreithiol Sifil yn monitro'r nodweddion gwarchoddedig oedran, anabledd, hil, crefydd neu gredo, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol galwyr a'r defnydd o addasiadau rhesymol y gwasanaeth (gan gynnwys, i gleientiaid ag anableddau, Iaith Arwyddion Prydain, cyfnewid testun, a defnydd o drydydd partïon). Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio fel rhan o'r adolygiad.
- 4.4** Bydd yr adolygiad yn cychwyn fis Medi eleni (2013), gyda'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi erbyn diwedd 2014.

Archwilio Proffil Gwaelodlin Cleientiaid Cymorth Cyfreithiol

- 4.5** Ar hyn o bryd mae gennym ddata ar hil, rhyw, anabledd ac oedran y bobl hynny sy'n defnyddio'n gwasanaethau Cymorth Cyfreithiol. Bwriadwn ddadansoddi hyn i ddarparu proffil gwaelodlin o gleientiaid cyn, ac ar ôl, diwygiadau'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys gwahanol fathau o gyfraith sifil a chyfraith teulu a bydd yn cynnwys gwybodaeth sydd ar gael ar nodweddion gwarchoddedig.
- 4.6** Bydd y gwaith yn darparu proffil gwaelodlin o gleientiaid cyn gweithredu'r diwygiadau Cymorth Cyfreithiol a gyflwynwyd gan y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr. Bydd yn rhoi sylw i wahanol fathau o gyfraith a bydd yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ar gael ar nodweddion gwarchoddedig. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i ddarganfod unrhyw newidiadau i'r waelodlin hon y penderfynwyd arni, ar ôl y diwygiadau, pryd y byddwn yn dadansoddi data'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ymhellach am unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb. Rydym wedi cynnal dadansoddiad rhagbrofol o ddata'r Asiantaeth i helpu datblygu proffil o gleientiaid cymorth cyfreithiol sy'n ceisio help a chynrychiolaeth cyfreithiol cyn gweithredu diwygiadau'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn disgwyl am ddata 2012/13 gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a byddwn yn ceisio adolygu hyn yn barhaus.

Arolwg o Ddefnyddwyr Llysoedd – astudiaeth dichonoldeb

- 4.7** Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn dal i archwilio pa mor ymarferol fyddai arolygu amrywiaeth o ddefnyddwyr llysoedd er mwyn gwella'n sail dystiolaeth ar ein defnyddwyr, eu profiadau o broblemau a sut y maent yn eu datrys. Bydd y gallu i

arolygu defnyddwyr yn drylwyr yn dibynnu ar ansawdd data'r fframiau samplo sydd ar gael. Y bwriad yw cynnal arolwg peilot o ddefnyddwyr llysoedd sifil yn 2013/14.

Ymchwil i Ymglyfreithwyr Personol

- 4.8 Rydym wedi trefnu bod rhywfaint o gyllid ar gael i bum sefydliad di-elw, a ddewiswyd ar y cyd â'r Cyngor Cyfiawnder Sifil, i ddarparu cymorth ychwanegol i Ymglyfreithwyr Personol. Bydd y cyllid a ddarperir yn cyflawni argymhellion sy'n dod allan o adroddiad y Cyngor Cyfiawnder Sifil 'Access to Justice for Litigants in Person', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011. Rydym hefyd wedi darparu symiau pellach o arian ar gyfer Canolfan Ateb i Bopeth y Llysoedd Brenhinol Cyfiawnder a'r Uned Cefnogaeth Personol. Mae £90k wedi cael ei ddyrannu i'r gyntaf a £200k i'r olaf yn y flwyddyn ariannol hon, gyda £200k pellach wedi ei ymrwymo i'r Uned Cefnogaeth Personol ym mhob un o'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf.
- 4.9 Ar ben hyn, rydym wedi comisiynu prosiect ymchwil ar Ymglyfreithwyr Personol. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar achosion preifat cyfraith teulu ac mae'n ansoddol ei natur i raddau helaeth, yn seiliedig ar gyfuniad o waith arsylwi mewn llysoedd, cyfweiliadau gydag Ymglyfreithwyr Personol a gweithwyr proffesiynol o fewn y system cyfiawnder teulu, a chraffu ar ffeil y llys. Bydd yr astudiaeth yn datblygu'n dealltwriaeth o brofiadau ac anghenion cefnogaeth Ymglyfreithwyr Personol. Bydd y dystiolaeth yn helpu datblygu strategaethau i gynorthwyo gyda sicrhau cefnogaeth addas i Ymglyfreithwyr Personol. Yn wyneb natur yr astudiaeth nid ydym yn casglu tystiolaeth ystadegol ar nodweddion gwarchoddedig ymglyfreithwyr personol heblaw rhyw. Fodd bynnag, gall dynnu sylw at rai problemau penodol sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig eraill.

Arolwg o Sail Darparwyr Cymorth Cyfreithiol

- 4.10 Ar hyn o bryd mae gennym wybodaeth ar hil a rhyw perchnogion mwyafrifol cwmnïau di-elw a chwmnïau cyfreithwyr sy'n darparu. Gwyddom hefyd a yw'r cwmnïau hyn yn cyflogi rheolwyr sy'n wael neu'n anabl.
- 4.11 Rydym wedi cydweithio â Chymdeithas y Gyfraith a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol i gomisiynu ymchwil i ddarparu asesiad gwaelodlin dibynadwy o'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau cyfreithiol gan gwmnïau cyfreithwyr y stryd fawr. Cafodd ein harolwg gwaelodlin ei gynnal y llynedd gan TNS BMRB ar y cyd â thri arbenigwr academiaidd. Mae'r adroddiad sy'n deillo ohono, "A Time of Change: Solicitors' Firms in England and Wales", bellach wedi cael ei gyhoeddi ar y cyd gan Gymdeithas y Gyfraith, y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac mae'n rhoi gwybodaeth ar amryw o feysydd gan gynnwys proffil cwmnïau cyfreithwyr y stryd fawr, a rhyw a hil partneriaid cyfreithiol.
- 4.12 Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol hefyd yn bwriadu monitro proffil demograffig ei sail darparwyr. Bydd hyn yn diweddarau gwybodaeth o'r Arolygon Amrywiaeth Darparwyr a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol.

Mae gwaith ychwanegol yn y dyfodol yn cynnwys:

- 4.13 Adolygiad o ddileu cymorth cyfreithiol o apeliadau symud ymlaen mewnfudo. Bydd y gwaith yn seiliedig ar y 12 mis cyntaf o hyn mewn grym ac felly bydd yn cychwyn yn 2014/15. Bydd yn archwilio cenedligrwydd, rhyw ac oedran y rheini yr effeithir arnynt.

- 4.14 Mae'r Weinyddiaeth hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o gynnal arolwg anghenion cyfreithiol. Byddai hyn yn dilyn yn nhraddodiad arolygon domestig a rhyngwladol eraill, gan gynnwys yr Arolwg Llwybrau at Gyfiawnder a'r Arolwg Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol. Byddai'n archwilio graddau'r problemau seiliedig ar hawliau a brofir gan bobl yn y boblogaeth gyffredinol a sut yr eir i'r afael â'r problemau hyn.

5 Methodoleg

- 5.1 Yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ein dull ni o asesu'r potensial i anfantais benodol ddeillio o'r cynigion fu adnabod yr unigolion y byddai'n cynigion yn effeithio arnynt (y 'gronfa'). Gan edrych ar y gronfa, rydym wedyn wedi llunio cymariaethau rhwng effeithiau posibl pob cynnig ar y rheini sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol, ac ar y rheini nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny. Rydym yn ogystal wedi cymharu nodweddion unigolion y mae'n cynigion yn effeithio arnynt â nodweddion y boblogaeth gyffredinol (Cymru a Lloegr) ac â'r boblogaeth briodol o gleientiaid a darparwyr cymorth cyfreithiol lle bo hynny'n berthnasol. Lle bo gwahaniaethau mawr rydym wedi ystyried effeithiau hyn ar gydraddoldeb.
- 5.2 Fe wnaeth rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad gwestiynu perthnasedd asesu'r effaith ar ddarparwyr ar sail nodweddion gwarchoddedig rheolwyr sefydliad yn hytrach na'i staff. Er bod Arolwg Amrywiaeth Darparwyr y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol yn dal proffil demograffig y gweithlu cynghori a gyflogir mewn sefydliadau a gcontractir gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol/Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, rydym o'r farn ei bod yn fwy addas asesu effaith ar ddarparwyr yn ôl proffil eu Perchnogaeth a/enu Rheolaeth, yn hytrach na'u gweithlu, am y rhesymau canlynol.
- 5.3 Yn gyntaf, cafodd y rheini gyda pherchnogaeth neu reolaeth eu hadnabod fel y rhai oedd yn gosod cyfeiriad strategol sefydliadau, ac y byddent yn benodol gyfrifol am benderfynu'r meysydd o gyfraith, grwpiau o gleientiaid a'r math o wasanaeth yr oedd y sefydliad yn eu cynnig, gan gynnwys y penderfyniad ynghylch darparu gwasanaethau wedi eu hariannu â chymorth cyfreithiol ai peidio. Yn ail, mae'r berthynas rhwng yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol/Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'i sail o ddarparwyr ar y lefel drefniadol. Mae dyraniad gwaith o fewn sefydliadau felly'r tu hwnt i reolaeth yr Asiantaeth neu ei rhagflaenydd. Cyfrifoldeb y rheini sydd â pherchnogaeth neu reolaeth y sefydliad yw penderfyniadau o'r fath.
- 5.4 Mae bandio sefydliadau ar sail proffil y rheini sydd â chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau trefniadol hefyd yn fwy addas gan nad yw'n bosibl gwahanu'r gweithlu yn ôl y rheini sy'n ymwneud â chyngor sy'n cael ei ariannu gan gymorth cyfreithol a'r rheini sy'n gwneud gwaith cyfreithiol arall, nad yw'n cael ei ariannu'n gyhoeddus.
- 5.5 Wrth geisio safbwyntiau ehangach rydym hefyd wedi gofyn tri chwestiwn sy'n seiliedig ar gydraddoldebau yn yr ymgynghoriad, sef:

C34. Ydych chi'n cytuno ein bod ni wedi adnabod yn gywir yr amrywiaeth o effeithiau o dan y cynigion a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C35. Ydych chi'n cytuno ein bod ni wedi adnabod yn gywir raddau'r effeithiau o dan y cynigion hyn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

C36. A oes ffyrdd o liniaru o safbwynt yr effeithiau nad ydym wedi'u hystyried?

- 5.6 Er bod rhai ymatebwyr wedi ateb y cwestiynau hyn yn uniongyrchol, fe wnaeth llawer godi materion cydraddoldeb eraill sydd wedi cael eu hystyried yn y Datganiad Cydraddoldeb hwn sydd wedi'i ddiweddarau. Gweler Atodiad B am ddadansoddiad ychwanegol o'r tri chwestiwn uchod.

6 Casgliadau

- 6.1 Rydym wedi ystyried ein dyletswydd i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad anghyfreithlon, ac i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol bobl a'i gilydd.
- 6.2 Derbyniwyd nifer mawr o ymatebion yn ymwneud ag effeithiau ar gydraddoldeb. Ar lefel gyffredinol, thema gyffredin oedd un yn ymwneud â dyletswyddau'r Llywodraeth o dan y Ddeddf, gan awgrymu nad oedd y diwygiadau, er y gallai eu nod fod yn gyfreithlon, yn gymesur. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion hyn yn ofalus ac addasu'n cynigion lle bo hynny'n ymarferol, rydym o'r farn, yn enwedig yn y cyddestun macro-economaidd cyffredinol ac o ystyried yr angen i wneud arbedion o'r fath, fod y diwygiadau hyn yn fodd cymesur ac angenrheidiol o gyflawn'r amcanion cyfreithlon a nodir ym Mhennod 1 ac isod.
- 6.3 Prif amcan y pecyn diwygyio yw torri i lawr ar gost cymorth cyfreithiol, gan sicrhau bod cyfiawnhad dros bob agwedd o wariant a'n bod ni'n cael y fargen orau i'r trethdalwr. Oni bai fod y cynllun cymorth cyfreithiol yn cael ei dargedu at y bobl a'r achosion lle mae mwyaf o angen am gyllid, ni fydd yn ennill hyder y cyhoedd nac yn gredadwy. Yn ogystal, mae rhesymau cryf dros geisio diwygio cymorth cyfreithiol p'run bynnag. Yn unol â hyn, mae'r diwygiadau'n ceisio hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y system trwy sicrhau bod adnoddau cyhoeddus cyfyngedig yn cael eu targedu at yr achosion hynny sy'n cyfiawnhau hynny ac at y bobl hynny sydd angen hynny, annog mwy o effeithlonrwydd yn y farchnad ddarparwyr ac i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, a chefnogi'n hymdrechion ehangach i drawsnewid y system cyfiawnder.
- 6.4 Mae'r amcanion hyn o bwysigrwydd allweddol, er mwyn sicrhau y gallwn fyw o fewn ein modd gan gynnal cynllun cymorth cyfreithiol cynaliadwy a chredadwy. Rydym o'r farn eu bod yn amcanion cyfreithlon y bwriadwn eu ceisio gan roi sylw dyledus i egwyddorion statudol cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu.
- 6.5 Bydd y diwygiadau'n berthnasol i bawb, boed hwy â nodweddion gwarchoddedig neu beidio, ac nid ydym felly o'r farn y byddant yn arwain at wahaniaethu uniongyrchol na gwahaniaethu sy'n codi o anabled. Rydym o'r farn hefyd na fyddant yn debygol o arwain at angen am unrhyw 'addasiadau rhesymol' penodol. Nid ydym ychwaith o'r farn y bydd y diwygiadau hyn yn cael unrhyw effaith ar achosion o aflonyddu neu erledigaeth.
- 6.6 Gan symud ymlaen ar y sail fod y cynigion yn dod yn ddarpariaethau, meini prawf neu arferion, rydym wedi cydnabod y potensial am effeithiau anghymesur ar rai pobl gyda nodweddion gwarchoddedig. Yn yr achosion hyn rydym wedi gwneud y gorau y gallwn i ystyried effeithiau posibl. Er ein bod yn derbyn y gallai rhai o'r cynigion fod â'r potensial o gael mwy o effaith ar y rheini gyda nodwedd warchoddedig benodol, nid ydym o'r farn eu bod o angenrheidrwydd yn ffurfio anfantais benodol na sylweddol.
- 6.7 Rydym o'r farn fod y cynigion, fel cyfanrwydd ac yn unigol, yn fodd cymesur o gyflawni nod gyfreithlon am y rhesymau a nodir uchod ac yn y paragraffau isod.

- 6.8 O safbwynt y nodweddion gwarchoddedig ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gredo a chyfeiriadedd rhywiol, ni chesglir unrhyw wybodaeth, ar gyfer cleientiaid na darparwyr. Nid yw wedi bod yn bosibl, felly, asesu effeithiau'r cynigion o safbwynt y nodweddion gwarchoddedig hyn drwy ddefnyddio dadansoddiad ystadegol. Ar ben hyn, nid yw cenedligrwydd na statws mewnfudo derbynwyr cymorth cyfreithiol sifil yn cael ei gofnodi'n rheolaidd.
- 6.9 Rydym wedi defnyddio'r data sydd ar gael a'r ffynonellau tystiolaeth yr ystyriwn fel y rhai mwyaf perthnasol a dibynadwy. Yn absenoldeb data ar nodweddion gwarchoddedig penodol, rydym wedi asesu'r effaith ar sail yr effeithiau y gellir yn rhesymol eu rhagweld. Rydym o'r farn fod natur y diwygiadau o'r fath fel eu bod yn annhebyg o roi pobl gyda'r nodweddion gwarchoddedig hyn o dan anfantais benodol. Fodd bynnag, hyd yn oed petai anfantais o'r fath yn digwydd neu pe byddai effaith anghymesur ar grŵp penodol, credwn (a) fod cyfiawnhad dros y newidiadau wrth geisio'r amcanion y cyfeirir atynt uchod; a (b) na fyddai'n gymesur nac yn ymarferol i wneud unrhyw newidiadau eraill i geisio ymdrin ag effaith o'r fath.
- 6.10 O ran y diwygiadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar dâl darparwyr, nid ydym o'r farn eu bod yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar gleientiaid. Fel y trafodwyd yn yr Aseidiadau o Effaith sy'n mynd gyda'r Ymateb, gallasai fod effaith ar gleientiaid petai'r newidiadau'n cael effaith ar gynaliadwyedd y farchnad cymorth cyfreithiol gan arwain at effaith niweidiol ar ddarpariaeth gwasanaethau, fodd bynnag credwn fod hyn yn annhebygol. Mae effeithiau posibl ar gleientiaid yn debygol o ddibynnu ar ymateb y darparwyr i'r newidiadau ac o'r herwydd maent yn dal i fod yn anfesuradwy.
- 6.11 Rydym wedi ystyried oblygiadau'r diwygiadau o safbwynt hyrwyddo cyfle cyfartal a'r angen i feithrin perthynas dda rhwng pobl a'i gilydd. Er enghraifft, lle dywedwyd mewn ymateb yn yr ymgynghoriad y gallai newid penodol effeithio ar gyfranogiad pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac sy'n cael eu tan-gynrychioli mewn bywyd cyhoeddus, rydym wedi ystyried y graddau y byddai'r newidiadau arfaethedig yn gydnaws â'r angen i annog cyfranogiad o'r fath. Rydym o'r farn, lle bo hyn yn berthnasol, nad yw'r diwygiadau'n tansilio cyflawni'r amcanion hynny.
- 6.12 Bwriad y diwygiadau yw canolbwyntio adnoddau cymorth cyfreithiol ar y rheini sydd ei angen fwyaf a'r achosion hynny lle mae mwyaf o gyfiawnhad amdano, gan sicrhau gwerth am arian a system gynaliadwy sy'n deg ar dderbynwyr, darparwyr a threthdalwyr fel ei gilydd. Ar y cyfan, nid ydym o'r farn fod newidiadau mewn tâl cymorth cyfreithiol yn berthnasol i'r angen am hyrwyddo cyfle cyfartal na meithrin perthynas dda. Awgrymodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad y byddai gostyngiadau mewn lefelau tâl yn arwain at greu Bar llai amrywiol, a fyddai yn ei dro'n arwain at farnwriaeth llai amrywiol. Nid ydym o'r farn y bydd y diwygiadau hyn yn rhoi ymarferwyr sy'n ferched nac ymarferwyr sy'n ddu, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig o dan anfantais benodol o gymharu ag eraill sy'n gweithio yn y Bar ac y byddai hyn yn y pen draw'n lleihau amrywiaeth y gronfa o ymarferwyr sy'n ymgeisio am swydd farnwrol. Fodd bynnag, os oes anfantais benodol i grŵp penodol o ymarferwyr gyda nodweddion gwarchoddedig, credwn fod ein diwygiadau'n fodd cymesur o gyrraedd yr amcanion polisi cyfreithlon a nodir uchod.
- 6.13 Mae'n rheidrydd mai prif gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Cyfiawnder wrth weinyddu'r system cymorth cyfreithiol yw darparu cymorth cyfreithiol teg ac effeithiol i'r cleientiaid hynny sydd mewn mwyaf o angen. Cyfrifoldeb y Bar a Chymdeithas y Gyfraith yn bennaf yw'r lefelau penodol o gynrychioliaeth o fewn meysydd penodol o weithgaredd yn y Bar a phroffesiwn y cyfreithwyr er mwyn sicrhau cyfle cyfartal ym mhob maes o

weithgaredd. Yn wyneb yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ni fyddai'n gymesur i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder argymhell unrhyw amddiffyniad is i'r cleientiaid mwyaf anghennus er mwyn cymorthdalur proffesiwn cyfreithiol.

- 6.14 Er bod y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn derbyn yr angen i annog y rheini gyda nodwedd warchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal yn gyffredinol, ni chred y Weinyddiaeth Cyfiawnder mai tâl cymorth cyfreithiol yw'r offeryn polisi mwyaf addas ar gyfer cyflawni amrywiaeth o fewn y proffesiynau na'r farnwriaeth. Pe bai'r diwygio'n gwneud cyflawni'r amcanion yn fwy anodd, rydym o'r farn fod y newidiadau'n angenrheidiol a bod cyfiawnhad drostynt yn yr holl amgylchiadau (gan gynnwys y cyd-destun ariannol), am y rhesymau a nodir uchod.
- 6.15 Drwy gydol hyn i gyd, rydym wedi ystyried sut y gellid lliniaru effeithiau niweidiol posibl. Mewn llawer achos, rydym wedi adolygu'n cynigion o ganlyniad i ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â natur neu raddau'r effaith. Rydym felly'n ymgynghori ymhellach ar fodel diwygiedig o dendro cystadleuol am wasanaethau cyfreithiol troseddol sy'n cadw dewis i gleientiaid, cynigion diwygiedig ar gyfer tâl am waith caniatâd mewn achosion adolygiadau barnwrol a dewisiadau eraill ar gyfer lleihau ffioedd eirioli troseddol. Ar gyfraith carchar, rydym wedi diwygio'n cynigion i sicrhau bod cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer cyfraith carchar yn dal ar gael ym mhob achos gerbron y Bwrdd Parôl sydd â'r grym i orchymyn rhyddau ac achosion cyfrifo dedfrydau lle mae anghydfod ynghylch y dyddiad rhyddhau. Gan gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod system gadarn ar gyfer cwynion carcharorion ar waith, rydym yn atgyfnerthu cydymffurfiaid â'r trefniadau presennol.
- 6.16 Rydym wedi adolygu'r prawf preswyllo arfaethedig fel na byddai'n ofynnol i blant o dan 12 mis oed gael o leiaf 12 mis o breswyliaeth flaenorol cyfreithlon. Rydym yn derbyn hefyd y dylai, mewn mathau penodol o achosion, fod eithriad i'r angen i unigolyn ddangos cysylltiad cryf â'r Deyrnas Unedig. O ran ffioedd arbenigwyr rydym yn cadw'r ffioedd sy'n daladwy i arbenigwyr yn yr ardaloedd hynny lle mae codiadau diweddar wedi cael eu gwneud er mwyn ymateb i broblemau cyflenwad yn y farchnad yn ogystal â'r ffioedd cyfredol taladwy i gyfieithwyr yn Llundain a byddwn yn cyfyngu'r lleihad mewn cyfraddau sy'n daladwy i gyfieithwyr y tu allan i Lundain er mwyn sicrhau nad oes dim ohonynt yn lleihau'n is na chyfraddau a delir mewn lleoedd eraill.

Rhan Un: Ail-ymgyngoriad

7 Cyflwyno Cystadleuaeth i'r Farchnad Cymorth Cyfreithiol Troseddol

7.1 Dadansoddiad Cychwynol o'r Argymhellion Gwreiddiol

Effaith ar Unigolion

- 7.1.1 Yr oeddem yn disgwyl gall y model cystadleuaeth arfaethedig gael effaith niweidiol ar unigolion dilyn a amheuir neu a gyhuddir o drosedd ("Unigolion") ganna fyddent mwyach yn gallu dewis unrhyw ddarparwr â contract Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) i gyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol (gan gymryd at ddibenion hyn bod yr argymhelliad cystal â darpariaeth, maen prawf neu ymarfer). Gan orgynrychiolir dynion a phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) ymysg cleientiaid cymorth cyfreithiol troseddol yn gyffredinol, o'i gymharu â'r boblogaeth yn ei gyfanrwydd, casglasom gall yr argymhellion gael effaith anghymesur arnynt. Fodd bynnag, nid oeddem yn disgwyl byddai'r argymhellion yn cael effaith anghymesur ar bobl â nodweddion a ddiogelir. Lle oedd cleientiaid â nodweddion a ddiogelir angen gwneud cais i newid darparwr a ddyrannwyd, oherwydd amgylchiadau eithriadol, gan gynnwys lle mae tor-perthynas rhwng y cleient a'r darparwr, neu lle mae rheswm dilys sylweddol arall yn bodoli pam gall darparwr arall fod yn fwy priodol i anghenion arbennig y cleient, byddai'n bosibl i wneud cais am newid darparwr. Cyn belled bod unrhyw effaith anghymesur, ystyrion y cyfiawnheir bod unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a osodir allan isod.
- 7.1.2 Er y gall bod effaith anuniongyrchol ar gleientiaid os yw'r newidiadau'n cael effaith ar gynaliadwyedd y farchnad cymorth cyfreithiol yn effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaeth, dyluniwyd y symud i gystadleuaeth i sicrhau ceffir y gwasanaethau cymorth cyfreithiol ar gyfradd gallai'r farchnad ei chynnal, ac felly nid oeddem yn disgwyl effeithiau niweidiol ar gleientiaid yn nhermau cynaliadwyedd. Ar ben hynny, byddai'r controlau ansawdd yr oeddem yn bwriadu eu rhoi mewn er mwyn ennill y contract a'r mesurau ansawdd a fyddai wedi eu mabwysiadu i sicrhau y cynhelir ansawdd trwy gydol bywyd y contract yn helpu sicrhau nad oedd effaith ar ansawdd y cyngor a dderbyniwyd gan gleientiaid.

Effaith ar ddarparwyr

- 7.1.3 Seiliwyd y model a argymhellwyd gennym ar y cynsail gellir ecsbloetio arbedion maint ac aneffeithlonrwydd y farchnad gan y darparwyr hynny sy'n dymuno ehangu eu busnes a chyflenwi rhan fwy o waith yn eu maes. Derbyniom fod y gallu i ddarparwyr presennol dyfu eu busnes i'r raddfa sydd ei hangen i gwrdd ag anghenion fwy o achosion yn debygol o fod yn fwy o her i rai darparwyr llai mewn ardal gaffael o'i gymharu â rhai darparwyr mwy. I'r graddau bod cwmnïau rheoledig mwyafrif BAME yn fwy tebygol o fod yn fach, gall yr argymhelliad fod wedi cael effaith anghymesur arnynt.
- 7.1.4 Byddai rhai cyfraddau tâl ar gyfer gwaith oddi mewn i gwmpas y contract wedi ei gwblhau wedi ei osod gan y gystadleuaeth, eraill megis apeliadau ac adolygiadau a chyfraith carchardai'n weinyddol. Byddai'r argymhelliad i gynnwys cap pris o dan yr hyn y gwahoddir ymgeiswyr i gyflwyno eu bidiau pris a'r argymhelliad i leihau'r cyfraddau o dâl a osodir yn weinyddol ar gyfer pob dosbarth arall o waith yn golygu byddai darparwyr yn derbyn llai o incwm ffioedd oddi wrth gymorth cyfreithiol.

- 7.1.5 Gorgynrychiolir darparwr â mwyafrif rheoledig BAME a gwrywaidd ymysg darparwr cymorth cyfreithiol troseddol o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Gall yr argymhellion felly gael effaith anghymesur arnynt. Yr oeddem yn ystyried gellid cyfiawnhau unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a osodir allan isod.

Cyfiawnhad

- 7.1.6 Yr ydym yn credu fod y model arfaethedig yn ffordd gymesur o gyflawni'r nodau cyfreithlon a osodwyd allan. Ystyron bod cystadleuaeth gyda phris fel maen prawf dyfarnu oedd y ffordd orau o sicrhau cynaliadwyedd hir dymor y cynllun cymorth cyfreithiol troseddol. Byddai symud i ffordd o'r system gymhleth o ffioedd wedi eu gosod yn weinyddol i un lle mae darparwr yn pennu'r pris gorau y gallent gynnig eu gwasanaethau'n gyrru effeithiolrwydd yn y farchnad ddarparwr a sicrhau gwerth am arian oddi wrth y gwariant sylweddol mae'n ei gynrychioli.
- 7.1.7 Byddai unrhyw effaith niweidiol ar gleientiaid yn cael ei liniaru gan y ffaith byddai'r contract troseddol yn y dyfodol yn debygol o fod â darpariaethau tebyg, os nad yr un fath, mewn perthynas â goblygiadau ar ddarparwr i gael polisi cyfartaledd ac amrywiaeth ysgrifenedig, a fyddai, fel isafswm, yn cynnwys sut byddai'r darparwr yn cwrdd â gofynion amrywiol ei gleientiaid (gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer cleientiaid anabl). Yn ogystal, fel yr osodir allan uchod, byddai darpariaeth ar gyfer amgylchiadau eithriadol lle gall cleient ofyn am newid yn y darparwr a ddyrannwyd yn lliniaru unrhyw effaith anghymesur a godai.
- 7.1.8 Byddai unrhyw effaith niweidiol ar ddarparwr yn cael ei liniaru gan y broses arfaethedig drwy'r hyn gall cyrff llai ffurfio consortia neu ddefnyddio asiantau er mwyn datblygu'r gallu i gyflenwi mwy o waith o dan gynllun ffioedd symlach. Bwriadwyd hyn i hyrwyddo tegwch yn y dull o dendro cystadleuol i wasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol a, chyn belled mae cwmnïau rheoledig mwyafrif BAME yn debygol o fod yn fach, gallai hybu cyfle cyfartal.

7.2 Materion allweddol ac Ymateb

Materion allweddol a godwyd

- 7.2.1 Ar draws yr atebion y farn gyffredinol oedd y byddai'r argymhellion yn cael yr effaith fwyaf ar ddarparwr BAME a rhai benywaidd, y Bar iau a fyddai'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau arbenigol ar gyfer grwpiau bregus o bobl â nodweddion a ddiogelir. Canolbwyntiwyd ffocws y pryder hwn ac amgylch pedair elfen (yn unigol a thrwy effaith gronol): yr argymhelliad i ddileu dewis y cleient; yr argymhelliad i leihau'r nifer o gontractau; yr ardaloedd caffael arfaethedig; a chyfanrwydd cwmpas y gwasanaethau..
- 7.2.2 Dadleuodd nifer o ymatebwyr gall dull o un maint yn addas i bawb wedi ei gyfuno â lleihad posibl mewn ansawdd creu'r risg posibl o amddiffyniad aneffeithiol fel sy'n ofynnol o dan erthygl 6 Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR). Byddai hyn, awgrymasant yn cael yr effaith mwyaf ar bobl ag anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl, y byddar, grwpiau merched a BAME gan eu bod yn fwyaf tebygol o fod angen gwasanaethau arbenigol. Dadleuodd rhai ymatebwyr ymhellach byddai'r argymhellion yn anffafrio grwpiau socio-economaid (yn groes i Erthygl 14 ECHR) gan mai ond pobl dlotach fydd yn cael gwrthod dewis gan y cleient.

- 7.2.3 Codwyd pryderon arbennig ynglŷn â'r nifer o gyfreithwyr nad ydynt eisoes yn barod i ddarparu gwasanaethau ar gyfraddau cymorth cyfreithiol ac yr oedd pryder cyffredinol byddai'r argymhellion ond yn gwaethygu'r sefyllfa. Dadleuodd nifer sylweddol o ymatebwyr byddai'r argymhellion yn creu perygl goroesiad practisiau arbenigol llai yn arbennig (sydd yn aml yn darparu gwasanaethau i grwpiau bregus ac ymylol) gan fod ganddynt ddibyniaeth fwy ar gymorth cyfreithiol nac o waith a ariannir yn breifat. Honnodd ymatebwyr bod gan y cwmnïau hyn mo'r adnoddau i ffurfio consortiwm i fidio am gontractau fel byddai angen pe gweithredir yr argymhellion. Yr oedd hyn yn bryder nid yn unig mewn perthynas â chlieintiaid, darparwyr a chymunedau BAME ond hefyd ar gyfer cleientiaid byddar i gael cyfreithiwr byddar ac ar gyfer y rhai hynny ag anghenion ieithyddol arbennig, h.y. y gallu i gyfathrebu trwy iaith arwyddion a deall materion diwylliannol sy'n effeithio ar achos.
- 7.2.4 Aeth nifer o ymatebwyr â'r ddadl hon ymlaen trwy awgrymu trwy awgrymu byddai marwolaeth y practisiau arbenigol llai yn troi yn ôl dilyniant a wnaed mewn gwella amrywiaeth y galwedigaethau cyfreithiol ac a fyddai yn ei dro â chanlyniadau i amrywiaeth barnwyr yn y dyfodol. Mae hyn, awgrymasant, yn methu hybu cyfle cyfartal.
- 7.2.5 Aeth rhai yn bellach drwy ddadlau bod y dystiolaeth yn dangos bod cyfreithwyr BAME yn ymarfer yn anghymesur mewn cwmnïau bach, felly bydd unrhyw argymhellion sy'n effeithio'n niweidiol ar gwmnïau bach yn effeithio'n anghymesur ar gyfreithwyr BAME. Datgasant fod presenoldeb gweledol a gweithredol cyfreithwyr a bargyfreithwyr BAME yn y System Cyfiawnder Troseddol (CJS) yn hanfodol er mwyn cadw hyder y cyhoedd ymysg cymunedau BAME.
- 7.2.6 Awgrymodd rhai ymatebwyr mai oherwydd y cynnydd arfaethedig mewn pellteroedd daearyddol rhwng darparwyr byddai rhaid i gleientiaid deithio ymhellach ar gostau uwch i swyddfeydd cyfreithwyr. Byddai hyn, awgrymasant yn broblem i bobl hŷn a'r anabl, rhai ar incwm isel a chyda phroblemau iechyd meddwl. Awgrymodd rhai ymatebwyr gall cyngor dros y ffôn fod yn ateb i rai ond ni fyddai'n addas ar gyfer cleientiaid ag anawsterau dysgu, problemau ieithyddol neu iechyd meddwl ac ar gyfer llawer o gleientiaid BAME sydd â diffyg sgiliau llafar yn Saesneg.
- 7.2.7 Dadleuodd nifer o fargyfreithwyr a siambrau byddai Model Ebrill 2013 yn cael effaith sylweddol arnynt gan fyddai llai o ddarparwyr i'w cyfarwyddo a byddai'r rhai sy'n aros yn y farchnad yn debygol o gadw mwy o waith adfocatiaeth gartref i'r cwmni. Byddai hyn, meddent yn cael effaith anghymesur ar y Bar iau, yn arbennig ar fargyfreithwyr benywaidd a rhai BAME ifanc.

Ymateb y Llywodraeth

- 7.2.8 Fel yr osodir allan uchod, roeddem yn disgwyl gallai Model Ebrill 2013, yn arbennig yr argymhelliad i ddileu dewis y cleient gael effaith niweidiol ar ddynion ac Unigolion BAME gan y gorgynrychiolir hwy ymysg cleientiaid cymorth cyfreithiol yn gyffredinol, o'u cymharu â'r boblogaeth ar y cyfan. Er dileu dewis y cleient, byddai Unigolion wedi cael y cyfle i drosglwyddo i ddarparwr arall mewn amgylchiadau eithriadol. Felly, yn ein hasesiad o effaith cydraddoldeb o'r model hwnnw, credon na fyddai effaith anghymesur ar y grwpiau a adnabuwyd gan ymatebwyr fel y crynhowyd ym mharagraff 7.2.2 uchod. Yr ydym o hyd o'r farn honno ond rydym yn cydnabod gallwn gyflawni'n holl nodau ein polisi trwy gadw dewis y cleient ac ateb ansicrwydd nifer o achosion mewn ffordd wahanol, a thrwy hynny liniaru unrhyw bosibilrwydd o effaith niweidiol.

- 7.2.9 Byddai'r model diwygiedig ym Mhennod 3, yr un yr ydym yn ceisio barn arno, yn cadw'r hawl i gleientiaid ddewis eu darparwr eu hunain o unrhyw gorff sydd â chontract cymorth cyfreithiol newydd.
- 7.2.10 Mewn ymateb i faterion a godwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â chynaliadwyedd, rydym yn cydnabod o dan Fodel Ebrill 2013 gallai'r ardaloedd caffael a nifer o gontractau a gynigir ym mhob un o'r ardaloedd hynny wedi arwain at faterion cynaliadwyedd ym mhob un o'r ardaloedd hynny i ddarparwyr. Gallai hyn fod wedi cael effaith anfanteisiol ar gleientiaid yn nhermau mynediad at ddarpariaeth yn yr ardaloedd hynny. Yr ydym felly yn bwriadu cyd-gomisiynu â Chymdeithas y Gyfraith darn ychwanegol o ymchwil i gael manylion llawnach i helpu bwydo ein dadansoddiad o gynaliadwyedd a'r penderfyniad terfynol ar nifer o gontractau ar gyfer Gwaith Darparwr Dyletswydd. Byddai gwaith o'r fath yn cymryd i ystyriaeth maint arfaethedig yr ardal gaffael.
- 7.2.11 Yr ydym hefyd wedi archwilio opsiynau am setlo ardaloedd caffael llai yn yr ardaloedd hynny y pwysleisiodd ymatebwyr a godai pryderon yn eu cylch ynglŷn â mynediad digonol trwy edrych ar gyfuno ardaloedd cynllun dyletswydd gorsafoedd yr heddlu. Trwy wneud hynny, yn seiliedig ar ein dadansoddiad a osodwyd allan ym Mhennod 3, ni fyddai rhaid i ddarparydd deithio mwy na 1.5 awr rhwng dau le o gyflenwi gwasanaeth (gorsafoedd yr heddlu, llysoedd). Mae'n bwysig pwysleisio bod yn y mwyafrif o achosion troseddol, mae'r darparydd yn ymweld â'r cleient yn ei leoliad ef, ond fel mae'n digwydd mae angen i'r cleient deithio i swyddfa'r darparydd, mae hyn yn awgrymu byddai'r amser teithio a chost yn cael ei leihau.
- 7.2.12 Mewn perthynas â chwmpas arfaethedig y contract newydd, nid ydym yn derbyn byddai Model Ebrill 2013 o anghenraid yn golygu byddai darparwyr yn cadw gwaith adfocatiaeth a dewis cyflogi bargyfreithiwr hunangyflogedig. Nid ydym yn derbyn ychwaith felly byddai Model Ebrill 2013 wedi cael effaith anghymesur ar fargyfreithwyr benywaidd neu iau. Dadleuodd rhai ymatebwyr bod cyflogi bargyfreithiwr hunangyflogedig yn fwy ymarferol yn economaidd. Yr ydym yn credu byddai darparwyr yn parhau i gyflogi'r Bar hunangyflogedig lle bo hynny'n briodol i wneud hynny. Mae'r model diwygiedig felly'n berthnasol gan fwyaf i'r un cwmpas o'r contract (gyda'r eithriad a argymhellwyd o gyfraith carchardai ac apeliadau a gwasanaethau adolygiadau). I'r graddau byddai'r Bar yn cael ei effeithio'n niweidiol, fodd bynnag, rydym yn cydnabod gall yr effaith fod yn fwyaf i'r Bar iau ac felly o bosibl effeithio'n anghymesur bargyfreithwyr ifanc, marched a phobl BAME. Fodd bynnag, pe bai effaith o'r fath yn ymddangos, yr ydym yn ystyried byddai unrhyw effaith o'r fath yn cael ei chyfiawnhau am y rhesymau a osodwyd allan ym mharagraffau 7.1.6 i 7.1.8.
- 7.2.13 Yn olaf, mewn perthynas â'r lleihad mewn niferoedd o gontractau a argymhellwyd o dan fodel Ebrill 2013, roedd dull o'r fath yn angenrheidiol i ddarparu nifer digonol o achosion ar gyfer cynllun ffioedd sefydlog i weithio'n ariannol i ddarparwyr a pheidio â'u rhoi mewn perygl ariannol sylweddol. Fodd bynnag, gyda'r model diwygiedig a gyflwynwyd ym Mhennod 3, rydym wedi ymchwilio newidiadau i'r cynllun ffioedd sefydlog i leihau'r nifer o gontractau. Yr ydym hefyd wedi argymhell cynnig nifer annherfynol o gontractau Gwaith Dewis y Cleient i'r darparwyr hynny sy'n gallu cyflenwi'r gwasanaethau hynny. Fe fyddai hyn, fe gredwn, yn lliniaru'r effaith ar gyrff llai sy'n cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol wrth ganiatáu'r rhai sy'n dymuno i ymgryfhau ac ymestyn er mwyn gwneud hynny.

7.3 Dadansoddiad cychwynnol o'r model diwygiedig

- 7.3.1 O dan y model diwygiedig a osodwyd allan ym Mhennod 3 byddai gan ddarparwyr y cyfle i geisio am un o nifer annherfynol o gontractau i gyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol i'w cleientiaid eu hunain rhywle yng Nghymru a Lloegr. Ar gyfer y rheini sydd hefyd yn ceisio darparu gwasanaethau i gleientiaid nad oes ganddynt mo'u cyfreithwyr eu hunain, yr ydym yn argymhell rhedeg proses dendro gystadleuol am nifer cyfyngedig o gontractau ar gyfer mynediad i'r gwaith hwn. Yr ydym yn credu bod hyn yn cynnal y cydbwysedd priodol rhwng darparu cyfleoedd ar gyfer cyfnerthiad – a thrwy hynny sicrhau darpariaeth gynaliadwy o'r gwasanaeth darparwr dyletswydd sy'n sylfaenol i gyflenwi cymorth cyfreithiol troseddol yn effeithiol – heb gyfyngu ar fynediad i'r farchnad yn ddiangen.
- 7.3.2 O dan y model diwygiedig, byddai cyfraddau tâl ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient a Gwaith Darparwr Dyletswydd yn cael eu gosod yn weinyddol. O dan ddull o'r fath, dyfernir contractau yn seiliedig ar werthusiad ymgeisydd yn erbyn gofynion y broses dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd angenrheidiol) o ansawdd a gallu'r ymgeisydd yn unig.

Effaith ar Unigolion

- 7.3.3 Nid ydym yn disgwyl byddai'r model diwygiedig a osodwyd allan ym Mhennod 3 yn cael effaith niweidiol ar Unigolion. Mae hyn yn bennaf oherwydd cadw dewis y cleient. Byddai Unigolion yn gallu dewis unrhyw ddarparydd â chontract i gyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol.
- 7.3.4 Er y gall bod effaith anuniongyrchol ar Unigolion os yw'r newidiadau yn cael effaith ar gynaliadwyedd y farchnad cymorth cyfreithiol yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth, rydym yn credu bod hyn yn annhebygol. Dyluniwyd y model diwygiedig i gyflenwi marchnad o faint addas a strwythur yr ydym yn credu bydd yn sicrhau gwasanaeth a marchnad gynaliadwy yn yr hir dymor. Gall y nifer o ddarparwyr o le gall y cleient ddewis fod yn llai na'r ddarpariaeth bresennol; fodd bynnag, ni fyddai'r model yn cyfyngu ar y nifer o gontractau a gynigir ar gyfer Gwaith Dewis y Cleient. Fodd bynnag, gall rai darparwyr ddewis i beidio ag ymgeisio am gontract o'r fath. At ei gilydd, yr ydym yn ystyried bydd digon o ddarparwyr yn aros fel gall Unigolion ddewis darparwr sy'n ateb ei anghenion/hanghenion orau, gan gynnwys y rhai hynny sydd angen gwasanaethau arbenigol. Yr ydym felly yn ystyried bod cadw dewis y cleient yn ateb honiadau a godwyd gan ymatebwyr ynglŷn â'r effeithiau niweidiol posibl o ddileu dewis y cleient. Yr ydym hefyd yn ystyried bydd yr argymhelliad hwn yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle trwy ddileu unrhyw anfanteision i gleientiaid â nodweddion a ddiogelir, yn arbennig am hil ac anabled.
- 7.3.5 Dylai'r newidiadau i'r nifer o gontractau ar gael yn cynnwys yr argymhelliad i gynnig nifer annherfynol o gontractau Gwaith Dewis y Cleient hyrwyddo cymryd rhan gan gyrff llai, yn lliniaru ymhellach unrhyw effaith ar Unigolion. Ar ben hynny, cynhelir y controlau ansawdd rydym yn argymhell eu rhoi mewn lle er mwyn ennill contract a'r mesurau ansawdd a fydd yn cael eu mabwysiadu i sicrhau bydd yr ansawdd yn cael ei gynnal trwy gydol bywyd y contract a bydd yn helpu sicrhau nad oes effaith ar ansawdd y cyngor a dderbynnir gan Unigolion.
- 7.3.6 Er mewn rhai ardaloedd, gall bod rhaid i Unigolion, yn amodol ar leoliad amrywiol orsafoedd yr heddlu a llysoedd, deithio i weld eu darparwr ar yr achlysuron hynny pan nad yw'r darparwr yn ymweld â hwy, byddai'r argymhellion diwygiedig ar gyfer

ardaloedd caffael a'r tebygrwydd o gadw nifer sylweddol o ddarparwyr yn cyflenwi Gwaith Dewis y Cleient, rydym yn credu, yn lliniaru pryderon teithio ar gyfer Unigolion fel na ddylai fod unrhyw effaith anghymesur ar bobl hŷn neu anabl.

Effaith ar ddarparwyr

- 7.3.7 Fel gyda Model Ebrill 2013, mae'r model diwygiedig yn seiliedig ar y cynsail fod yna arbedion maint ac aneffeithlonrwydd yn y farchnad i gael eu hecsbloetio gan y darparwyr hynny sy'n dymuno ehangu eu busnesau a darparu mwy o gyfran o waith yn eu hardal. Byddai'r model newydd yn galluogi'r darparwyr sy'n dymuno tyfu eu busnesau i wneud hynny wrth ganiatáu cyrff llai i gadw eu rhan hwy o'r farchnad o Waith Dewis y Cleient a thrwy wneud hynny gallant chwilio am gyfleoedd i ymgryfhau (h.y. cyfuno â busnesau bach eraill) dros gyfnod y contract. Rydym yn derbyn bod y gallu i ddarparwyr presennol dyfu eu busnes i'r raddfa sydd ei hangen i gwrdd â gofynion swm mwy o achosion yn debygol o fod yn fwy o her i rai darparwyr llai mewn ardal gaffael o gymharu â rhai darparwyr mwy.
- 7.3.8 Tra byddai pob darparwr yn cael ei drin yn gyfartal pan y'u gwerthusir yn erbyn unrhyw Ofyniad ar gyfer y Broses Dendro (gan gynnwys y safonau ansawdd), mae'r mesur bod cwmnïau rheoledig mwyafrif BAME yn fwy tebygol o fod yn fach, gall yr argymhelliad gael effaith anghymesur arnynt. Fodd bynnag, mae'r model diwygiedig a gyflwynwyd ym Mhennod 3 yn lleihau effaith y gostyniad mewn y niferoedd o gontractau ac yn cynnig y posibilrwydd o nifer annherfynol o ddarparwyr yn cyflenwi Gwaith Dewis y Cleient. Byddai hyn, fe gredwn ni, yn lliniaru'r effaith niweidiol posibl ar gyrff llai sy'n cyflenwi cymorth cyfreithiol troseddol ac felly unrhyw effaith anghymesur ar gwmnïau wedi eu rheoli gan BAME. Yr ydym felly yn ystyried bod cynnwys contractau Gwaith Dewis y Cleient yn helpu ateb y dadleuon a godwyd gan ymatebwyr am yr effeithiau niweidiol posibl o leihau'r nifer o gontractau. Yr ydym hefyd yn ystyried bydd yr argymhelliad hwn yn helpu hybu cydraddoldeb cyfle trwy ddileu unrhyw anfanteision i gwmnïau rheoledig mwyafrif BAME.
- 7.3.9 Fel gyda Model Ebrill 2013, o dan y model newydd, byddai'r holl raddau o dâl yn ddarostyngedig i ostyngiad o 17.5%. Yr ydym yn argymhell gwneud dau ostyngiad dilynol o 8.75% (y cyntaf yn fuan yn 2014 a'r ail ar ddechrau'r contract newydd ym Mai 2015 – fel yr eglurwyd ym Mhennod 3) i bob ffi yng nghwmpas y Contract Safonol Troseddol 2010 (ac eithrio Gwaith Sifil Cysylltiedig). Bydd yr argymhelliad yn golygu bydd darparwyr ni waeth pa wasanaethau maent yn eu dewis i'w cyflenwi, yn derbyn llai o incwm ffioedd oddi wrth gymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, yr ydym yn credu byddai'r gostyngiadau ffioedd gam wrth gam yn helpu darparwyr i addasu trwy ostyngiad mwy graddol mewn ffioedd, yn eu hannog i chwilio cyfleoedd ar gyfer y lefel o gydgyfnerthiad y farchnad sydd ei angen i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy yn yr hir dymor. Mae mwy o amser i addasu i'r ffioedd gostyngol a chwilio am gyfleoedd newydd i gydgyfnerthu, yn ogystal â thyfu'r swm o Waith Dewis y Cleient yn debygol o leihau'r effaith ar y cyrff llai hynny sy'n cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol ar o hyn o bryd sy'n dewis cyflenwi Gwaith Dewis y Cleient yn unig.

- 7.3.10 Mae darparwyr rheoledig mwyafrif BAME, a rheolaeth gan ddynion wedi eu gorynrychioli ymysg darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Tra byddai pob darparwr yn cael ei drin yn gyfartal, gall yr argymhellion gan hynny gael effaith anghymesur arnynt. Efallai y bydd y cynigion yn cael effaith anghymesur arnynt, felly. Ystyriwn fod unrhyw effaith o'r fath wedi ei gyfiawnhau am y rhesymau a osodir allan isod.
- 7.3.11 Mewn perthynas â'r effaith ar y Bar, nid ydym yn ystyried byddai'r model diwygiedig o anghenraid yn golygu byddai darparwyr yn cadw gwaith adfocatiaeth a dewis peidio â chyflogi bargyfreithiwr hunangyflogedig. Fel y nodwyd uchod, dadleuodd rhai ymatebwyr bod cyflogi bargyfreithiwr hunangyflogedig yn aml yn fwy ymarferol yn ariannol. Yr ydym yn credu byddai ymarferwyr yn parhau i gyflogi'r Bar hunangyflogedig lle mae'n briodol gwneud hynny. Fodd bynnag, i'r graddau byddai effaith niweidiol i'r Bar, yr ydym yn cydnabod gall yr effaith fod fwyaf ar y Bar iau ac felly o bosibl effeithio'n anghymesur ar fargyfreithwyr ifanc, merched a phobl BAME. Fodd bynnag, pe bai effaith o'r fath yn ymddangos, yr ydym yn ystyried unrhyw effaith o'r fath wedi ei gyfiawnhau am y rhesymau a osodir allan isod.
- 7.3.12 Fel y trafodwyd uchod, o dan y model diwygiedig, byddai rhaid i ddarparwyr o hyd cyflenwi gwasanaethau ar draws ardal ddaearyddol fwy nac y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cynnal y farn bod y model yn cynnig gwell hyblygrwydd i ddarparwyr gyflenwi gwasanaethau drwy asiantau neu drwy sefydlu menter ar y cyd, a lliniaru'r posibilrwydd o effaith niweidiol.

Cyfiawnhad

- 7.3.13 Yr ydym yn credu bod yr argymhelliad diwygiedig yn ddull cymesur o gyflawni'r nodau cyfreithlon a osodwyd allan ym mharagraff 6.3. Yr ydym yn ystyried mai'r ffordd orau o sicrhau cynaliadwyedd hir dymor cymorth cyfreithiol troseddol yw trwy broses gaffael sy'n cynnwys elfen o gystadleuaeth. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod gall rai darparwyr ddymuno parhau cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn yr un symiau ag yn awr ac nad oes ganddynt mo'r awydd i ehangu eu busnesau. Gan hynny, mae'r model arfaethedig yn cyflenwi hyblygrwydd ar gyfer darparwyr mawr a bach fel ei gilydd trwy eu galluogi i ymgeisio i gyflenwi ond Gwaith Dewis y Cleient ac ymgeisio i gyflenwi Gwaith Darparwr Dyletswydd. Yn y pen draw, byddai'r model yn cyflenwi gwell effeithiolrwydd a bas darparwr cynaliadwy.
- 7.3.14 Mewn perthynas â'r effaith ar gleientiaid a darparwyr yn nhermau amser teithio rhwng gorsafoedd yr heddlu a'r llysoedd, yr ydym yn credu bod yr ardaloedd caffael diwygiedig a chadw dewis y cleient yn lliniaru'r problemau hyn. Byddai'r amser teithio rhwng y ddau bwynt cyflenwi gwasanaethau sydd y mwyaf eithriadol yn ddaearyddol mewn unrhyw ardal gaffael yn cael ei gyfyngu i 1.5 awr. Mae hefyd yn bwysig i bwysleisio mai ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol, o'i gymharu â chymorth cyfreithiol sifil, mae'r rhan fwyaf o'r cyswllt rhwng y cleient a'r darparwr yn lleoliad y cleient (boed hynny yng ngorsaf yr heddlu, y llys neu'r carchar). Yn ychwanegol, o dan y model diwygiedig yr ydym yn argymhell cadw taliad ar wahân ar gyfer treuliau teithio a chynhaliadau.
- 7.3.15 Ar ben hynny, pe bai unrhyw effaith niweidiol ar gleientiaid yn deillio, gall ei lliniaru gan y ffaith bod gan y contract troseddol yn y dyfodol yn debygol darpariaethau tebyg, os nad yr un fath mewn perthynas â goblygiadau i ddarparwyr i fod â pholis cydraddoldeb ac amrywiaeth ysgrifenedig a fydd rhaid, fel isafswm, gynnwys sut

fyddai'r darparwr yn cwrdd ag anghenion gwahanol eu cleientiaid (gan gynnwys newidiadau rhesymol ar gyfer cleientiaid ag anabledau).

8 Ailstrwythuro'r Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau

8.1 Dadansoddiad Cychwynnol

Effaith ar fargyfreithwyr

- 8.1.1 Yr oeddem yn disgwyl byddai Adfocadau oedd yn ymdrin ag achosion a arweiniodd at ble euog wedi derbyn cynnydd mewn incwm o dan yr argymhelliad ac ni fyddai'r rheiny a oedd yn ymdrin ag achosion yn arwain at dreial chwâl yn cael eu heffeithio. Fodd bynnag, byddai Adfocadau wedi gweld gostyngiad mewn incwm cymorth cyfreithiol pan oeddynt yn ymgymryd â threialon pan oeddynt yn ymgymryd ag achosion o dan Gynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau (AGFS). Mae data "Barristers' Working Lives - A Biennial Survey of the Bar 2011" ar brif faes ymarfer (lle mae bargyfreithwyr yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser gwaith) yn dangos bod dynion a rhai o ethnigrwydd Gwyn yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n ymwneud â gwaith troseddol o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. O ganlyniad, efallai y byddant yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynnig. Mae rhywfaint o dystiolaeth o'r un arolwg fod cyfran uwch o fargyfreithwyr benyw a BME ymysg aelodau iau'r Bar.
- 8.1.2 Gan fyddai'r gostyngiadau ffi arfaethedig wedi cael mwy o effaith ar dreialon hirach a gan fod treialon hirach yn debygol o fod yn fwy cymhleth, efallai y byddant yn fwy tebygol o gael eu cymryd gan fargyfreithwyr mwy profiadol. Gan fod y rhai o ethnigrwydd gwyn sydd wedi'u galw ers 15 mlynedd wedi eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol ac â bargyfreithwyr yn gyffredinol, efallai y byddant yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan yr argymhelliad. Mae dynion sydd wedi'u galw ers dros 13 blynedd hefyd wedi'u gorgynrychioli o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol ac â bargyfreithwyr yn gyffredinol. Gall bargyfreithwyr gwrywaidd a rhai o ethnigrwydd Gwyn gael eu heffeithio'n anghymesur, felly. Yn ogystal, gan y gall fod yna gydberthyniad rhwng oed a phrofiad, gall fod bargyfreithwyr hŷn wedi eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n ymgymryd â threialon hirach ac felly mae'n bosibl y cânt eu heffeithio'n anghymesur gan yr argymhellion. Yr ydym ystyried fod unrhyw effaith o'r fath wedi ei gyfiawnhau am y rhesymau a osodwyd i lawr isod.

Effaith ar Adfocatau Llysoedd Uwch:

- 8.1.3 Yr oedd gennym ddata cydraddoldeb cyfyngedig ar Adfocatau Llysoedd Uwch unigol (HCAau) yr effeithir arnynt gan yr argymhellion hyn, er yn cydnabod, yn gyffredin gyda phawb sy'n darparu cymorth cyfreithiol troseddol, mae cwmnïau yr effeithir arnynt yn fwy tebygol o gael eu rheoli gan unigolion BAME, gwryw, a rhai nad ydynt yn anabl nag sydd yn y boblogaeth yn gyffredinol. Yr ydym yn ystyried fod unrhyw effaith wedi ei gyfiawnhau am y rhesymau a osodwyd i lawr isod.

Effaith ar Gleientiaid:

- 8.1.4 Nid oeddem yn rhagweld unrhyw effaith anuniongyrchol ar gleientiaid. Nid oeddem yn gallu adnabod nodweddion cleientiaid a ddiogelir a fyddai'n cael eu heffeithio pe bai risgiau i gyflenwad cynaliadwy'n cael eu gwireddu er mwyn nodi'r posibilrwydd ar gyfer unrhyw anfantais benodol. Fodd bynnag, gan fod dynion a phobl BAME wedi eu gorgynrychioli ymysg cleientiaid cymorth cyfreithiol troseddol yn gyffredinol o'i

gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol gall yr argymhellion gael effaith anghymesur arnynt. Roedd yn anodd dod i gasgliadau cadarn ynghylch unrhyw anfanteision penodol ar gyfer pobl anabl oherwydd y nifer uchel o gleientiaid cymorth cyfreithiol troseddol nad ydym yn cadw data perthnasol amdanynt ac felly ni allwn ddiystyru effaith anghymesur posibl o gymharu â'r boblogaeth yn ei gyfanrwydd. Yr ydym yn ystyried fod unrhyw effaith o'r fath wedi ei gyfiawnhau am y rhesymau a osodwyd i lawr isod.

Cyfiawnhad:

- 8.1.5 Rydym yn cydnabod bod dynion a rhai o ethnigrwydd Gwyn wedi eu gorgynrychioli ymysg bargyfreithwyr sy'n ymdrin â gwaith troseddol ac y gall dynion a rhai o ethnigrwydd Gwyn yn ogystal ag Adfocadauhŷn fod wedi eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n ymgymryd â threialon hirach ac felly'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan yr argymhellion.
- 8.1.6 Os yw'r argymhelliad hwn yn arwain at anfantais benodol i bobl â nodweddion a ddiogelir, roeddem yn credu bod yr argymhelliad yn ddull cymesur o gyflawni'r nodau cyfreithlon a osodwyd allan. Byddai'r argymhelliad wedi bod yn berthnasol waeth beth fyddai'r nodweddion a ddiogelir. Rioedd yr argymhelliad yn targedu'r rhai sy'n ennill fwyaf, gan ailstrwythuro ffioedd i hyrwyddo datrys achosion yn effeithlon, gan gefnogi ein hymdrechion ehangach i drawsnewid y system gyfiawnder. Ar ben hynny, i'r graddau y mae cyfran uwch o fargyfreithwyr benyw a BAME ymysg y Bar iau, efallai y bod y cynnydd yn y ffioedd ar gyfer pleon euog wedi hybu hyrwyddo cyfle cyfartal.

8.2 Materion Allweddol ac Ymateb

Materion Allweddol a Godwyd

- 8.2.1 Awgrymodd yr ymgynghoreion, yn groes i'n disgwyliadau, y byddai effaith gyfunol y gystadleuaeth a chynigion ffioedd eiriolaeth droseddol yn effeithio fwyaf ar y Bar iau, gan y byddai uwch eiriolwyr yn 'dewis a dethol' yr achosion mwyaf proffidiol a byddai'r cynnig i gyflwyno cystadleuaeth pris yn peri i gyfreithwyr wneud mwy o ddefnydd o eiriolwyr cyflogedig. Awgrymodd yr ymgynghoreion hefyd y byddai cynigion y gystadleuaeth ar gyfer ymglyfreitha yn gyrru cyfreithwyr i wneud cymaint ag y bo'n bosib o waith eiriolaeth yn y llysoedd ynadon a gwaith heb dreial yn Llys y Goron yn fewnol, gan wasgu'r Bar iau. Awgrymwyd y byddai hyn yn gyrru pobl i ffwrdd o eiriolaeth ac yn effeithio'n andwyol ar gleientiaid, dioddefwyr a thystion os nad oedd digon o eiriolwyr o safon ar gael.
- 8.2.2 Awgrymwyd hefyd y byddai'r cynigion yn gyrru pobl allan o eiriolaeth droseddol a fyddai, yn ei dro, yn golygu y byddai'r farnwriaeth yn y dyfodol yn llai amrywiol gan na fyddai rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is (sy'n tueddu i fod yn fwy amrywiol) yn ymgymryd â gwaith eiriolaeth droseddol. Awgrymwyd y byddai'r effeithiau posibl hyn yn taro bargyfreithwyr benywaidd a rhai BAME yn anghymesur, sef rhai sy'n cael eu cynrychioli yn well ar y Bar iau.

Ymateb y Llywodraeth

- 8.2.3 Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai eiriolwyr cyflog uchel ymateb i'n cynigion trwy geisio ymgymryd ag achosion byrrach, symlach sy'n cael eu hystyried yn fwy gwerth chweil yn ariannol, a gallai hyn gael rhywfaint o effaith ar yr eiriolwyr cyflogau is sydd yn gyffredinol ar hyn o bryd yn gwneud gwaith o'r fath. Os yw eiriolwyr cyflog uchel yn

ymateb yn y ffordd hon, yna efallai y bydd enillwyr is sy'n bodloni'r safonau ansawdd gofynnol yn cael mwy a mwy o'r gwaith a wneir ar hyn o bryd gan rai sy'n ennill cyflogau uwch. Ond mae'r ymateb ymddygiadol i'r cynigion yn ansicr.

8.2.4 Nid ydym yn derbyn y byddai effaith gyfunol y cynigion ar gyfer ffioedd eiriolaeth droseddol a chystadleuaeth yn golygu ei bod yn anochel y byddai cyfreithwyr yn ceisio ymgymryd â mwy o eiriolaeth yn Llys y Goron, yn enwedig pledion euog, nag y maent yn ei wneud fel arall. Mae data yn adroddiad Otterburn (a gyflwynwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr) yn awgrymu mai dim ond tua 10% o'r incwm cyfredol ar gyfer cyfreithwyr sy'n dod o eiriolaeth yn Llys y Goron. Felly, ni wyddom i ba raddau y byddai cwmnïau yn amsugno swm sylweddol o waith eiriolaeth sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan fargyfreithwyr hunangyflogedig. Fodd bynnag, mae maint y sampl yn fach, felly mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau pendant o'r adroddiad. Yn achos rhai cyfreithwyr gallai fod yn fwy deniadol, yn ariannol, iddynt droi at wasanaethau eiriolwyr hunangyflogedig yn ôl yr angen, yn hytrach na chyflogi mwy o eiriolwyr o ystyried y costau sydd ynghlwm a'r angen i wneud defnydd llawn o weithiwr i sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl. Fel y nodwyd ym mharagraff 6.9 uchod, nid ydym yn ystyried ei bod yn debygol y byddai'r cynigion yn cael effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau, gan effeithio ar gleientiaid. Rydym o'r farn y byddwn yn dal i fod â digon o eiriolwyr o safon i ddarparu'r gwasanaethau angenrheidiol.

8.2.5 Nid ydym ychwaith yn derbyn y byddai'r cynigion wedi cael effaith anghymesur ar fenywod, BAME na bargyfreithwyr ifanc. Ar ben hynny, prif gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder, o reidrwydd, wrth iddi weinyddu'r system cymorth cyfreithiol, yw darparu cymorth cyfreithiol teg ac effeithiol i'r cleientiaid hynny sydd fwyaf mewn angen. Mae lefelau penodol o gynrychiolaeth mewn meysydd ymarfer penodol yn y Bar ac ym mhroffesiwn y cyfreithwyr yn bennaf yn gyfrifoldeb y Bar a Chymdeithas y Gyfraith, yn ogystal â'r angen i sicrhau cyfle cyfartal ymhob maes ymarfer. Er bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwybodol o'r angen i annog y rhai sydd â nodwedd a ddiogelir i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da yn gyffredinol, ni chred y Weinyddiaeth Gyfiawnder mai taliadau cymorth cyfreithiol yw'r offeryn polisi mwyaf priodol i sicrhau amrywiaeth.

8.3 Dadansoddiad cychwynnol o'r cynigion diwygiedig ar gyfer Ailstrwythuro Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau

Opsiwn 1: Cysoni Ffioedd Sylfaenol, lleihau a lleihau'n raddol y Ffi Presenoldeb Dyddiol

Effaith ar fargyfreithwyr

8.3.1 Bydd yr adfocadau sy'n gweithio ar achosion yn arwain at ble euog yn derbyn cynnydd mewn incwm a bydd adfocadau yn gweld gostyngiad mewn incwm cymorth cyfreithiol wrth gynnal treialon a threialon chwâl o dan yr AGFS yn y dyfodol.

8.3.2 Gan fod y gostyngiadau ffi arfaethedig yn cael mwy o effaith ar dreialon hir a chan fod y rheini'n debygol o fod yn fwy cymhleth, efallai y byddant yn fwy tebygol o fynd i fargyfreithwyr mwy profiadol. Gan fod y rhai o ethnigrwydd gwyn dros gyfnod 15 mlynedd o alwadau yn cael eu gorgynrychioli – o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol a bargyfreithwyr yn gyffredinol - efallai y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur arnynt. Hefyd mae dynion gyda dros 13 mlynedd o alwadau yn cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol a bargyfreithwyr yn gyffredinol. O'r herwydd efallai y bydd effaith anghymesur ar fargyfreithwyr gwrywaidd

a rhai ethnigrwydd Gwyn. Yn ogystal, fel y gall fod yna gydberthynas rhwng oed a phrofiad, gall bargyfreithwyr hŷn gael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n ymgymryd â threialon hir ac felly mae'n bosibl y caiff y cynigion effaith anghymesur arnynt. Rydym, fodd bynnag, wedi cynnig tapr llai serth nag o dan y cynnig gwreiddiol a llawr ar gyfer Ffioedd Presenoldeb Dyddiol, a fyddai'n lleihau'r effaith ar dreialon hir ac felly yn lleihau'r effaith niweidiol ar y grwpiau hyn. Rydym yn ystyried bod cyfiawnhad i unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a nodir isod. I'r graddau mae cyfran uwch o fargyfreithwyr benywaidd a BAME yn y Bar iau, efallai y bydd y cynnydd yn y ffioedd ar gyfer pleon euog o dan yr opsiwn hwn yn hyrwyddo mwy eto ar gyfle cyfartal.

Effaith ar adfocadau Llys Uwch

- 8.3.3 Fel gyda bargyfreithwyr, bydd HCAs sy'n cymryd achosion yn arwain at ble euog yn derbyn cynnydd mewn incwm a HCAs yn gweld gostyngiad mewn incwm cymorth cyfreithiol wrth gynnal treialon a threialon chwâl o dan yr AGFS yn y dyfodol. Er mai ychydig o ddata ar gydraddoldeb sydd gennym yng nghyswllt HCAs unigol y cafodd y cynigion hyn effaith arnynt, rydym wedi asesu yr effaith ar sail yr effeithiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol. Fel sy'n wir am bawb sy'n darparu cymorth cyfreithiol troseddol, mae'r cwmnïau y bydd hyn yn cael effaith arnynt yn fwy tebygol o gael eu rheoli gan BAME, dynion ac unigolion nad ydynt yn anabl, nag yn y boblogaeth yn gyffredinol; felly mae'n bosib y bydd y grwpiau hyn yn cael eu taro'n anghymesur. Rydym yn ystyried bod cyfiawnhad i unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar gleientiaid

- 8.3.4 Nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith anuniongyrchol ar gleientiaid am y rhesymau a nodir ym mharagraff 6.9 uchod. Er ein bod yn gallu adnabod nodweddion gwarchoddedig y cleientiaid a fyddai'n cael eu heffeithio petai'r risgiau i gyflenwad cynaliadwy yn cael eu gwireddu, rydym wedi asesu'r effaith ar sail yr effeithiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol. Gan fod dynion a phobl BAME yn cael eu gorgynrychioli ymysg cleientiaid cymorth cyfreithiol troseddol yn gyffredinol o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, efallai y bydd y cynigion yn cael effaith anghymesur arnynt. Mae'n anodd dod i gasgliadau cadarn ynghylch unrhyw anfantais benodol i bobl anabl oherwydd y nifer uchel o gleientiaid cymorth cyfreithiol troseddol nad oes gennym ddata perthnasol iddynt ac felly nid oeddem yn gallu diystyru effaith anghymesur posibl mewn perthynas â'r boblogaeth yn gyffredinol. Rydym yn ystyried bod cyfiawnhad i unrhyw effaith am y rhesymau a nodir isod.

Cyfiawnhad

- 8.3.5 Rydym yn cydnabod bod dynion a rhai o ethnigrwydd Gwyn yn cael eu gorgynrychioli ymysg bargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith troseddol a bod dynion a rhai o ethnigrwydd Gwyn yn ogystal ag adfocadau hŷn o bosib yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n ymgymryd â threialon hir ac felly'n cael eu taro'n anghymesur gan y cynigion.
- 8.3.6 Os yw'r cynnig yn arwain at anfantais benodol i bobl â nodweddion gwarchoddedig, rydym yn credu ei fod yn ddull cymesur o gyflawni'r nodau cyfreithlon a nodir ym mharagraff 6.3 uchod. Drwy ailstrwythuro ffioedd i hyrwyddo'r broses o ddatrys achosion yn effeithlon tra'n cadw cydnabyddiaeth briodol ar gyfer gwaith treial, gan gynnwys achosion hir iawn, mae'n cefnogi ein hymdrechion ehangach i drawsnewid y

system gyfiawnder wrth fynd i'r afael â phryderon yr ymatebwyr. Ar ben hynny, i'r graddau y mae cyfran uwch o ferched a bargyfreithwyr BAME ymysg y Bar iau, mae cynnydd yn y ffioedd ar gyfer pleon euog yn gyfle i hyrwyddo cyfleon cyfartal.

Opsw'n 2: Strwythur ffioedd diwygiedig yn seiliedig ar fersiwn diwygiedig o gynllun CPS

Effaith ar fargyfreithwyr

- 8.3.7 Bydd adfocadau yn gweld newid mewn incwm ffioedd o bob math o achosion. Mae ffioedd sylfaenol (a elwir yn ffioedd craidd yn y cynllun CPS), sydd yn cynnwys paratoi a'r tudalennau codi tystiolaeth, yn cael eu cyfrifo, bellach, yn ôl yr awr at drothwy tudalen naill ai fel ffi safonol neu fel un uwch. Mae gan bob achos, categori trosedd a math o eiriolwr (ee rhai iau, rhai iau arweiniol a QCs) wahanbwynt tudalen sy'n penderfynu ar y ffi briodol. Pennwyd y ffi safonol i gipio 95% o'r achosion ar gyfer unrhyw fath o drosedd. Yn ogystal, bydd y cynnig i gysoni'r ffioedd ar draws grwpiau trosedd i QCs a rhai iau arweiniol / dan arweiniad mewn dau achos eirioli yn arwain at QCs yn gweld eu hincwm ffioedd yn gostwng o 3% ar gyfartaledd, o'i gymharu â 11% i rai iau dan arweiniad a 4% i rai iau arweiniol.
- 8.3.8 Gan fod y cynllun arfaethedig yn llai graddedig na'r AGFS ar hyn o bryd, bydd y gostyngiadau uchaf o ran ffioedd yn berthnasol i achosion hir a mwy cymhleth sy'n dod o fewn yr ystod safonol a'r ystod ffi uwch. Efallai, o'r herwydd, y bydd bargyfreithwyr sy'n cymryd achosion o'r fath yn wynebu effaith andwyol. Telir mwy am achosion byrrach a symlach nag a wneir dan yr opsiwn hwn ar hyn o bryd. I'r graddau y mae cyfran uwch o fargyfreithwyr benywaidd a BAME ymysg y Bar iau, ac i'r graddau y bydd yr achosion byrrach, symlach yn fwy tebygol o gael eu cymryd gan y Bar iau, efallai y bydd rhai yn gweld cynnydd mewn ffioedd (yn dibynnu ar y cymysgedd achosion).
- 8.3.9 Mae'n debygol y bydd achosion hir a mwy cymhleth yn cael eu cymryd gan fargyfreithwyr mwy profiadol. Gan fod y rhai o ethnigrwydd gwyn gyda 15 mlynedd o alwadau yn cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol a bargyfreithwyr yn gyffredinol, efallai y byddant yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynnig. Hefyd mae dynion gyda dros 13 mlynedd o alwadau yn cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol a bargyfreithwyr yn gyffredinol. Gall bargyfreithwyr gwrywaidd a rhai ethnigrwydd Gwyn wynebu effaith anghymesur, felly. Yn ogystal, fel y gall fod yna gydberthynas rhwng oed a phrofiad, gall bargyfreithwyr hŷn gael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n ymgymryd â threialon hir ac felly mae'n bosibl y bydd yr opsiwn hwn yn cael effaith anghymesur arnynt. Mae'r cynnig i gysoni'r ffioedd ar draws grwpiau trosedd i QCs a rhai iau arweiniol / dan arweiniad mewn dau achos eiriolwr yn arwain at ychydig yn fwy o effaith ar rai iau dan arweiniad (nag ar QCs, rhai iau a rhai iau yn gweithredu'n annibynnol). Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd unrhyw ymarferwr iau yn cael ei 'arwain' ym mhob achos y mae'n ymgymryd ag ef gan fod y gyfran o achosion eiriolwr unigol yn llawer uwch na'r gyfran o achosion dau eiriolwr, ac felly byddant hefyd yn wynebu effaith fel rhai yn gweithio'n annibynnol. I'r graddau y mae rhai iau dan arweiniad yn fwy tebygol o fod yn fargyfreithwyr ifanc, benywaidd neu BAME, efallai y byddant yn cael eu heffeithio yn anghymesur. Rydym yn ystyried bod cyfiawnhad i unrhyw effeithiau o'r fath am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar Adfocadau Llys Uwch:

8.3.10 Fel sy'n wir am fargyfreithwyr, mae'n bosib y bydd yr opsiwn hwn yn cael effaith anghymesur ar HCAs sy'n ymwneud ag achosion mwy cymhleth a hwy sy'n dod o fewn yr ystod ffi safonol. Er bod gennym ychydig o ddata cydraddoldeb ar Adfocadau Llysoedd Uwch unigol yng nghyswllt effaith y cynnig hwn rydym wedi asesu effaith ar sail yr effeithiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol. I'r graddau y mae rhai dan arweiniad yn fwy tebygol o fod yn fargyfreithwyr ifanc, benywaidd neu BAME, gallent wynebu effaith anghymesur. Rydym yn ystyried bod cyfiawnhad i unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar gleientiaid:

8.3.11 Nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith anuniongyrchol ar gleientiaid am y rhesymau a nodir ym mharagraff 6.9 uchod. Er na allwn adnabod nodweddion gwarchoddedig cleientiaid a fyddai'n cael eu heffeithio os yw risgiau i gyflenwad cynaliadwy yn cael eu gwireddu, rydym wedi asesu yr effaith ar sail yr effeithiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol. Gan fod dynion a phobl BAME yn cael eu gorgynrychioli ymysg cleientiaid cymorth cyfreithiol troseddol yn gyffredinol o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol efallai y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur arnynt. Mae'n anodd dod i gasgliadau cadarn ynghylch unrhyw anfantais benodol ar gyfer pobl anabl oherwydd y nifer uchel o gleientiaid cymorth cyfreithiol troseddol nad oes gennym ddata perthnasol iddynt ac felly ni allwn ddiystyru effaith anghymesur posibl o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Rydym yn ystyried bod cyfiawnhad i unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a nodir isod.

Cyfiawnhad:

8.3.12 Rydym yn cydnabod bod dynion a rhai o ethnigrwydd Gwyn yn cael eu gorgynrychioli ymysg bargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith troseddol a bod dynion a rhai o ethnigrwydd Gwyn yn ogystal ag adfocadau hŷn o bosib yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n ymgymryd â threialon hwy a mwy cymhleth (sy'n syrthio y tu mewn i'r ddwy ystod ffi safonol ac uwch) ac felly yn wynebu effaith anghymesur dan y cynigion.

8.3.13 Os yw'r cynnig hwn yn creu anfantais benodol i bobl â nodweddion gwarchoddedig, rydym yn credu bod y cynnig yn ddull cymesur o gyflawni'r nodau cyfreithlon a nodir ym mharagraff 6.3. Byddai Opsiwn 2 yn symleiddio'r strwythur ffioedd ymhellach, gan ei wneud yn haws i'w weinyddu i'r LAA ac adfocadau a'r un pryd yn cadw effeithlonrwydd y dull cyfredol (e.e. gan gynnwys amrywiol wrandawiadau yn y ffi). Ar ben hyn, i'r graddau y mae cyfran uwch o fargyfreithwyr benywaidd a BME ymysg y Bar iau, efallai y bydd y cynnydd yn y tâl ar gyfer treialon byr a llai cymhleth yn fodd i hyrwyddo cyfle cyfartal.

8.3.14 Rydym yn croesawu unrhyw wybodaeth berthnasol i gryfhau ein dadansoddiad o effaith y cynigion yr ydym yn ymgynghori ymhellach arnynt ac rydym wedi cynnwys cwestiwn cydraddoldeb ym Mhennod 5 i ddeall yr effeithiau posibl yn well. Byddwn yn diweddarau'r Rhan hon o'r Datganiad Cydraddoldeb unwaith y byddwn wedi ystyried yr holl ymatebion perthnasol.

Rhan Dau: Ymateb y Llywodraeth

9 Cyfyngu cwmphas cymorth cyfreithiol ar gyfer cyfraith carchar

9.1 Dadansoddiad cychwynnol

Effaith ar garcharorion:

9.1.1 Effaith y cynnig hwn yw na fyddai carcharorion yr effeithir arnynt bellach yn derbyn cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer rhai hawliadau. Gall hyn fod yn andwyol mewn rhai achosion, fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai llawer hawliadau o'r fath yn medru cael eu datrys yn effeithlon ac effeithiol drwy'r system gwynion fewnol i garcharorion a gweithdrefnau disgyblu carcharorion. Er mwyn nodi'r potensial i garcharorion fod yn destun i anfantais arbennig (gan dybio i'r diben hwnnw fod y cynnig yn gyfystyr â darpariaeth, maen prawf neu arfer), gweler isod ddata LAA ar nodweddion gwarchoddedig tua 11,000 o garcharorion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y newid arfaethedig yng nghwmpas cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer cyfraith carchar. Maent yn dangos bod:

- 97% yn ddynion a 3% yn fenywod;
- 53% yn Wyn, 25% o grŵp BAME gyda 22% lle'r oedd ethnigrwydd yn anhysbys; a
- 6% gydag anabledd datganedig, 66% heb anabledd datganedig, ac roedd statws anabledd yn anhysbys mewn 29% o achosion.

9.1.2 Dangosodd y data y byddai'r rhan fwyaf o'r rhai yr effeithir arnynt yn ddynion (97%), sy'n cael eu gorgynrychioli ymhlith y grŵp cleientiaid yr effeithir arnynt o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol (lle mae 51% yn ddynion). Mae'r rhai o Grŵp (BAME) Du, Asiaidd neu Leiafrifol hefyd yn cael eu gorgynrychioli. Roedd cyfyngiadau ar argaeledd data ar nodweddion gwarchoddedig eraill defnyddwyr cyfraith carchar.

9.1.3 Nododd yr LAA o'r 11 o achosion triniaeth i gael eu cymeradwyo ymlaen llaw ers Gorffennaf 2010, roedd cyfran sylweddol yn cynnwys carcharorion ag anawsterau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl. Daethom i'r casgliad y gallai'r cynnig felly o bosibl gael effaith ar y grŵp hwn o garcharorion.

Effaith ar ddarparwyr:

9.1.4 Roeddem yn rhagweld y byddai effaith y cynnig polisi hwn yn andwyol, gan y byddai darparwyr yr effeithir arnynt yn gweld gostyngiad mewn incwm cymorth cyfreithiol. Er mwyn nodi'r potensial i ddarparwyr fod yn destun anfantais arbennig (gan dybio i'r diben hwnnw fod y cynnig yn gyfystyr â darpariaeth, maen prawf neu arfer), mae data ar nodweddion gwarchoddedig darparwyr sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig yn cael eu cyflwyno isod. Gwnaethom baru data arolwg LSRC â 187 o 351 o gwmnïau cyfreithiwr (cyfradd cyfatebol o 53%) a fyddai, ar ôl cymryd rhan mewn gwaith o'r fath yn 2011/12, o bosibl yn cael eu heffeithio gan y cynnig. Byddai'r cynnig yn cael ei gymhwyso i bob darparwr yr effeithir arnynt yn yr un modd, fodd bynnag, roeddem yn cydnabod y gallai maint yr effaith ar gwmni darparwyr ddibynnu ar faint yr oeddynt yn dibynnu ar incwm y cyfryw waith cyfraith carchar. Yn seiliedig ar y data, roedd rheolwyr y cwmnïau hyn fel a ganlyn:

- 65% Gwyn-Prydeinig, 30% BAME a 6% perchnogaeth/rheoli mwyafrif wedi'i hollti;

- 70% dynion, 13% menywod a 17% perchnogaeth/rheoli mwyafrif wedi'i hollti; a
- 4% o gwmnïau yn cyflogi rheolwr sy'n sâl neu anabl.

9.1.5 Roedd cyfyngiadau ar argaeledd data ynglŷn â nodweddion gwarchoddedig eraill y darparwyr.

9.1.6 Roedd tystiolaeth o orgynrychiolaeth o BAME, dynion a mwyafrif o ddarparwyr a reolir heb fod yn sâl neu heb fod yn anabl, o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Daethom i'r casgliad y gall y cynigion gael effaith anghymesur arnynt. Roeddem yn ystyried fod cyfiawnhad dros unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau isod.

Cyfiawnhad:

9.1.7 Roeddem yn cydnabod y gallai rhai cleientiaid gael eu heffeithio'n andwyol, yn enwedig y rhai sydd ag anawsterau dysgu, a darparwyr, yn enwedig cwmnïau a reolir gan ddynion a BAME. Petai'r cynnig yn arwain at anfantais benodol i bobl â nodweddion gwarchoddedig, roeddem yn credu bod yr effaith yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Nid oes gan achosion cyfraith carchar y tu allan i gwmpas cyngor a chymorth cyfraith droseddol ddigon o flaenoriaeth i gyfiawnhau'r defnydd o arian cyhoeddus cyfyngedig, a byddai'n cael ei drin yn fwy effeithlon ac effeithiol drwy sianelau nad ydynt yn rhai cyfreithiol, fel y system gwynion carcharorion.

9.1.8 Fel y nodwyd uchod, gallai'r cynnig effeithio ar garcharorion ag anawsterau dysgu a/neu broblemau iechyd meddwl. Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau posibl ar droseddwyr ag anawsterau dysgu, mae'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol wedi ymrwmo i ddarparu sgrinio cynhwysfawr i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer yr holl garcharorion ag anabledau dysgu - i sicrhau bod yr holl garcharorion yn gallu defnyddio'r system gwynion carcharorion.

9.2 Dadansoddiad Terfynol

Materion allweddol a godwyd

O dan 18 oed

9.2.1 Mynegwyd pryderon gan nifer o ymatebwyr ynglŷn ag effaith bosibl y cynigion ar y rhai dan 18 oed, eu gallu i ymgysylltu â'r system gwynion ac effaith materion adsefydlu. Roedd ymatebwyr hefyd yn holi a oedd y cynigion yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 37 (d)).

Carcharorion â phroblemau iechyd meddwl ac/neu anabledau dysgu

9.2.2 Roedd ymatebwyr yn pryderu bod y data a ddefnyddiwyd (data anabledau am garcharorion sy'n defnyddio cymorth cyfreithiol) yn tanamcangyfrif yn sylweddol nifer y carcharorion gyda'r problemau hyn yn y boblogaeth carchar. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch effeithiolrwydd y prosesau sgrinio mewn carchardai a'r diffyg addasiadau rhesymol a wnaed ar gyfer y carcharorion hyn, yn enwedig mewn perthynas â'r system gwynion.

9.2.3 Dywedodd ymatebwyr hefyd bod diffyg hyder ymysg carcharorion yn gyffredinol, ac yn enwedig y rhai â phroblemau iechyd meddwl a/neu anabledau dysgu, yn y system gwynion, ac nad oes ganddi annibyniaeth.

Carcharorion benywaidd

9.2.4 Nododd nifer o ymatebwyr y mater o gymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer y gyfraith carchar bellach nad yw bellach ar gael ar gyfer achosion yn ymwneud â mynediad carcharorion benywaidd i unedau mam a baban. Yn benodol, cafwyd beirniadaeth nad oedd unrhyw ymdrech wedi ei wneud i asesu natur a difrifoldeb y cynigion mewn perthynas â charcharorion benywaidd.

Carcharorion BAME

9.2.5 Cafodd effaith bosibl y cynigion ar garcharorion BAME ei amlygu gan nifer o ymatebwyr. Nodwyd y nifer uchel o'r carcharorion hyn sydd yn y boblogaeth carchar, a'r un modd yr effaith bosibl ar garcharorion nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Ymateb y Llywodraeth

O dan 18 oed

9.2.6 Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 13 o Atodiad B caiff troseddwr ifanc eu cadw mewn tri math gwahanol o sefydliad - Cartrefi Plant Diogel (SCHs), Canolfannau Hyfforddi Diogel (STCs) a Sefydliadau Troseddwr Ifanc (YOIs). Mae pob un yn destun i archwiliad annibynnol trylwyr gan naill ai Ofsted (ar gyfer SCHs ac STCs) neu HMIP ar y cyd ag Ofsted (ar gyfer YOIs).

9.2.7 Mae gan yr holl sefydliadau diogelu ieuencid systemau neu brosesau cwyno mewnol cynhwysfawr sy'n darparu dull amgen o wneud iawn am faterion sydd wedi eu tynnu o'r cwmpas cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer cyfraith carchar (gweler isod am y gofynion ar sefydliadau). Rhoddir cefnogaeth eiriolaeth i bobl ifanc (gweler isod) er mwyn eu cynorthwyo gydag unrhyw faterion y gallant eu profi tra'u bod yn y ddalfa, naill ai tu mewn neu'r tu allan i ystâd ddiogel ieuencid, gan gynnwys gwneud defnydd effeithiol o systemau cwyno, y weithdrefn gwyno neu ddisgyblu. Efallai y bydd cymorth cyfreithiol sifil ar gael ar gyfer adolygiad barnwrol i achosion sy'n ymwneud â'r rhai dan 18 oed, yn amodol ar fodd a theilyngdod, megis rhai sy'n ymwneud ag ailsefydlu.

9.2.8 Mae'r gofynion ar Gartrefi Plant Diogel o ran gweithdrefn gwynion yn cael eu nodi yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Plant⁶⁷:

9.2.9 Safon 21.1: Mae gweithdrefnau clir ac effeithiol ar gyfer monitro a rheoli gweithgareddau'r cartref. Mae hyn yn cynnwys hyfywedd ariannol y cartref, unrhyw ddigwyddiadau difrifol, honiadau, cwynion am y ddarpariaeth, ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae plant yn y cartref yn cymryd rhan yn rheolaidd trwy gyfrannu at weithrediad y cartref, ac mae eu barn ac unrhyw bryderon yn cael eu hystyried o ddifrif.

9.2.10 Gellir gweld y gofynion ar Ganolfannau Hyfforddi Diogel yn y Rheolau Canolfan Hyfforddi Diogel 1998⁶⁸, sy'n ymdrin ag ystod o faterion gan gynnwys breintiau, gohebiaeth gyda chynghorwyr cyfreithiol a llysoedd, cynnal trefn a disgyblaeth yn

⁶⁷ www.minimumstandards.org/nms_childrens_home.pdf

⁶⁸ <http://www.legislation.gov.uk/ukssi/1998/472/contents/made>

ogystal â'r gofynion a osodir ar ganolfannau hyfforddi diogel sydd wedi'u contractio allan. Mae'r rheoliadau hefyd yn amlinellu gofynion o ran y weithdrefn gwyno:

Rheoliad 8

8.—(1) Bydd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr yn cael ei sefydlu a'i gweinyddu ym mhob canolfan, wedi'i chymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol, y bydd pob hyfforddai a'i riant yn cael mynediad iddi.

(2) Rhaid i bob cais gan yr hyfforddai, i weld y Llywodraethwr neu berson annibynnol, gael ei gofnodi gan y swyddog y gwneid y cais iddo, a'i drosglwyddo yn brydlon i'r Llywodraethwr.

(3) Ar bob diwrnod, bydd y Llywodraethwr yn clywed unrhyw geisiadau i'w weld a wneir o dan baragraff (2) uchod.

(4) Os yw hyfforddai wedi gofyn am weld person annibynnol, rhaid i'r llywodraethwr sicrhau bod y person hwnnw yn cael gwybod am y cais cyn gynted ag y bo modd.

(5) Gellir gwneud cais ysgrifenedig neu gŵyn o dan y weithdrefn gwyno a sefydlwyd o dan y rheol hon yn gyfrinachol.

9.2.11 Byddai pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i wneud defnydd o'r weithdrefn gwyno mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel neu'r broses gwynion mewn Cartrefi Plant Diogel a Sefydliadau Troseddwr Ifanc gan naill ai eu swyddog personol, gweithiwr achos neu drwy gymorth eiriolaeth os nad ydynt yn gallu gwneud hynny ar eu pen eu hunain. Bydd hyn yn sicrhau bod materion sydd wedi'u tynnu o gwmpas cymorth cyfreithiol troseddol y gyfraith carchar yn cael eu datrys yn foddhaol heb yr angen am gyngor a chymorth cyfreithiol. I gael rhagor o wybodaeth am gymorth eiriolaeth, gweler isod.

9.2.12 Rydym yn cydnabod y gall pobl ifanc ei chael yn fwy heriol llywio drwy'r broses gwyno, y weithdrefn gwyno neu ddisgyblu (yn dibynnu ar y math o sefydliad), a dyna pam mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi gan wasanaethau eiriolaeth mewn sefydliadau diogel. Rhaid i bob darparwr eiriolaeth gadw at y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant⁶⁹. Bydd eiriolwyr yn helpu i sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu gan asiantaethau statudol megis yr Awdurdodau Lleol, ac fel y cyfryw byddant yn helpu i ddatrys materion a allai gael eu trin ar hyn o bryd ar ffurf cyngor a chymorth cyfreithiol.

9.2.13 Mae contract newydd ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir gan Barnardos yn cychwyn ar 1 Gorffennaf 2013 ar draws yr holl STCs a YOIs yn yr ystâd ddiogel ieuencid. Mae'r gwasanaeth hwn wedi ei gynllunio i'w ddefnyddio gan bobl ifanc. O dan y contract mae cymorth eiriolaeth annibynnol yn cael ei ddarparu i bobl ifanc er mwyn eu cynorthwyo gydag unrhyw faterion y gallant brofi tra yn y ddalfa, naill ai tu mewn neu tu allan i'r ystâd ddiogel ieuencid. Er nad yw'n rhestr gynhwysfawr, rôl yr eiriolwr yw darparu ystod eang o wasanaethau cefnogi heb fod yn rhai cyfreithiol i bobl ifanc, i ddatrys materion ar y lefel iawn gan gynnwys:

⁶⁹ http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+www.dh.gov.uk/en/Consultations/Responsestoconsultations/DH_4017049

- cefnogaeth i bobl ifanc nodi a chael mynediad i'r gwasanaethau y maent am eu defnyddio;
- gwrando ar y person ifanc i ddeall yr hyn y maent am i'r eiriolwr ei wneud;
- esbonio opsiynau posibl i bobl ifanc er mwyn iddynt wneud eu dewisiadau eu hunain;
- rhoi gwybodaeth berthnasol i bobl ifanc;
- cynrychioli pobl ifanc nad oes ganddynt yr hyder i wneud hynny eu hunain; a
- lle bo hynny'n briodol, cyfeirio pobl ifanc at asiantaethau eraill sy'n gallu cynorthwyo pobl ifanc i ddatrys eu problemau. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau eiriolaeth ddatblygu cysylltiadau gydag asiantaethau y tu allan i'r ystâd ddiogel ieuencid, megis awdurdodau lleol.

9.2.14 Bydd y darparwr gwasanaeth eiriolaeth yn mynd gyda'r person ifanc i gyfarfodydd ar gais naill ai i gefnogi'r unigolyn neu i gynrychioli eu dymuniadau. Mae cyfarfodydd o'r fath yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

- dyfarniadau;
- cyfarfodydd cynllunio dedfryd;
- dadbriffio yn dilyn ataliad;
- cyfarfodydd gydag asiantaethau allanol e.e. timau troseddau ieuencid ac awdurdodau lleol; cyfarfodydd rheoli ymddygiad; a
- chyfarfodydd sefydliad diogel ychwanegol fel sy'n ofynnol gan y person ifanc.

9.2.15 Caiff gwasanaethau eiriolaeth eu darparu o dan drefniadau lleol rhwng darparwyr gwasanaethau a darparwyr Cartrefi Plant Diogel / Awdurdodau Lleol. Rhaid i'r rhain fod yn unol â'r "Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant" perthnasol sydd ar wahân i Gymru a Lloegr.

9.2.16 Mae PSI 08/2012⁷⁰ (Gofal a rheoli pobl ifanc) yn ymdrin ag ystod eang o faterion ac yn nodi'r gofynion ar YOIs. Mae'r canlynol yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ar rai o'r meysydd a drafodir yn y PSI a'r darpariaethau y dylid eu gwneud i droseddwyr ifanc, ond nid yw'n gynhwysfawr. Am fwy o wybodaeth, gweler y PSI.

9.2.17 Delio â chwynion ac ymchwiliadau

- Rhaid i Lywodraethwyr sicrhau bod y system gwynion yn cymryd i ystyriaeth oedran, aeddfedrwydd ac amgylchiadau unigol pobl ifanc wrth ragnodi sut y gellir gwneud cwynion, a bod yr holl bobl ifanc yn gallu gwneud cwynion os ydynt yn dymuno. Wrth ragnodi sut y gall cwynion gael eu gwneud, mae'n rhaid i Lywodraethwyr gydnabod bod pobl ifanc yn aml â lefelau llythrennedd is na charcharorion hŷn. Dylai llywodraethwyr ddatblygu protocolau sy'n annog staff, wrth roi ymateb ysgrifenedig i gŵyn, hefyd i ddarparu adborth llafar adeiladol i bobl ifanc, a ddylai gynnwys cyngor ar opsiynau apêl (paragraff 2.30).

⁷⁰ <http://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2012/psi-08-2012-care-management-young-people.doc>

- Rhaid i Lywodraethwyr sicrhau bod pob person ifanc yn ymwybodol o sut i gysylltu â'r gwasanaethau eiriolaeth, yr IMB a/neu gefnogaeth arall, ac am y cymorth y gallant ei darparu wrth wneud cwyn (paragraff 2.33).
- Rhaid i Lywodraethwyr sicrhau bod cwynion a gwblhawyd yn cael eu harchwilio fel mater o drefn gan y rheolwr diogelu plant fel bod yr holl gwynion sy'n berthnasol i honiadau yn erbyn staff yn cael eu trin drwy weithdrefnau Amddiffyn Plant. Dylai Llywodraethwyr gymryd camau i sicrhau nad yw pobl ifanc yn teimlo eu bod wedi'u niweidio drwy wneud cwynion (paragraff 2.34).

9.2.18 Mae Atodiad B (ym mharagraff 26) o PSI hefyd yn darparu rhagor o wybodaeth am sut y dylai'r weithdrefn gwyno gael ei gweithredu fel ei bod yn briodol i rai dan 18 oed.

9.2.19 Mae PSI 08/2012 hefyd yn cynnwys gofynion mewn perthynas â swyddogion a gweithwyr achos personol i ddarparu ymgynghorydd i bob person ifanc y cânt gyswllt aml a phwrpasol gyda hwy:

- Rhaid neilltuo swyddog neu weithiwr achos personol priodol i bob person ifanc yn ystod y rhaglen sefydlu. Dylai swyddogion personol neu weithwyr achos, cyn belled ag y bo modd, gael eu paru'n addas i'r person ifanc, gan ystyried eu hanghenion a'u hunaniaeth unigol. Rhaid i bob person ifanc wybod pwy yw'r swyddog a bennwyd, a rhaid i'r system swyddog personol neu weithiwr achos gael ei hesbonio'n glir a llawn iddynt. Rhaid gwneud trefniadau fel bod y person ifanc yn gwybod â phwy i gysylltu pan fydd y swyddog personol neu weithiwr achos yn absennol. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw'r person ifanc yn cael newidiadau diangen i'w swyddog personol neu swyddog achos (paragraff 4.52).
- Rhaid i drefniadau swyddog personol neu weithiwr achos gael eu rhoi ar waith, sy'n sicrhau bod y canlynol yn cael eu cyflawni:
 - pob person ifanc yn deall at bwy y gallant droi, i drafod yr holl faterion sy'n peri pryder iddynt, gan gynnwys ailsefydlu
 - y swyddog personol neu weithiwr achos yn mynychu pob adolygiad o'r cynllun hyfforddi yn ystod y cyfnod gwarchodol
 - mae cyswllt ac ymgysylltiad priodol â theulu pob person ifanc a'r swyddog goruchwylio, ac mae'r cysylltiadau rhwng yr holl bartïon yn cael eu cryfhau (paragraff 4.54).

9.2.20 O ganlyniad i'r gweithdrefnau a amlinellir uchod, yn arbennig y ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth a'r gallu i gyfeirio achosion i Awdurdodau Lleol, y Monitor statudol neu PPO, rydym yn ystyried bod cefnogaeth ddigonol yn cael ei rhagnodi ac ar gael i sicrhau bod carcharorion dan 18 oed yn cael eu cefnogi a bod darpariaeth iddynt, ac y gallant ddatrys hawliadau drwy sianelau amgen, fel nad oes angen cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer cyfraith carchar, heblaw am yr amgylchiadau a nodir yn y meini prawf cwmpas, fel na ddylai dileu cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer cyfraith carchar fel y bwriedir gael effaith niweidiol arnynt.

Carcharorion â phroblemau iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu

9.2.21 Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr fod y data a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad yn tanamcangyfrif nifer yr achosion o faterion iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn y boblogaeth carchar. Roedd y data a ddefnyddiwyd yn ymwneud â chleientiaid cyfraith carchar ac nid y boblogaeth garchar

yn gyffredinol; roedd y ffigyrau a gyflwynwyd yn dangos fod 6% o gleientiaid â materion iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu, gyda 29% yn anhysbys. Rhoddodd yr ymatebwyr ddata sy'n dangos bod nifer yr achosion o garcharorion â'r materion hyn yn llawer uwch na'r hyn a nodwyd yn yr ymgynghoriad, gydag amcangyfrifon yn gyffredin tua 20-30%. Rydym yn cydnabod bod y data y dibynnwyd arno ar gyfer ein dadansoddiad cychwynnol yn adlewyrchu anghysondebau o ran adrodd am anabledd cleientiaid, gydag "anhysbys" yn cael ei ddefnyddio lle roedd data ar goll ar gyfer y cleient, neu pan fo'r cleient wedi'i nodi ag anabledd, ond fod yr anabledd hwn o natur anhysbys (heb fod yn benodol). Credwn mai'r anghysondeb hwn a arweiniodd at y gyfradd is a adroddwyd.

9.2.22 Ar ôl ystyried y data a ddarparwyd gan ymatebwyr, nid ydym yn ystyried bod nifer yr achosion o garcharorion â phroblemau iechyd meddwl ac/neu anableddau dysgu yn effeithio'n sylweddol ar gymesuredd ein dull o weithredu. Rydym o'r farn bod prosesau presennol yn ddigonol i sicrhau bod y carcharorion hyn yn gallu gwneud defnydd effeithiol o'r dulliau amgen o wneud iawn, megis y system gwynion, a bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud lle bo hynny'n briodol.

9.2.23 Mae'r Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai (PSI) 32/2011 (PSI) 32/2011⁷¹ (Sicrhau cydraddoldeb) yn datgan bod carcharorion yn cael eu hannog i ddatgelu anableddau a bod rhaid gwneud a chofnodi addasiadau rhesymol. Mae'n rhaid i garcharorion anabl hefyd gael eu lleoli'n briodol a bod llysoedd a chontractwyr hebrwng yn cael gwybod am anghenion carcharorion anabl fel y bo'n briodol. Yn benodol:

- 'Rhaid i Lywodraethwyr sicrhau bod ymdrechion yn cael eu gwneud i nodi p'un a oes gan garcharor nam meddyliol neu gorfforol o unrhyw fath. Rhaid i Lywodraethwyr sicrhau bod carcharorion yn cael eu hannog i ddatgelu eu statws anabledd a bod gweithdrefnau yn eu lle i gofnodi'r wybodaeth hon (yn y dderbynfa ac ar ôl hynny) ac i'w drin yn gyfrinachol. Ni fydd pob carcharor yn ymwybodol o'u statws anabl a rhaid i staff fod yn rhagweithiol o ran nodi anghenion penodol yr holl garcharorion' (paragraff 8.1).
- 'Rhaid i Lywodraethwyr ystyried ar sail barhaus yr hyn y gallai carcharorion ac ymwelwyr gydag ystod o anableddau fod ei angen yn rhesymol, a sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud (gwybodaeth bellach yn cael ei ddarparu ar gyfer staff yn Atodiad G y PSI) ar gyfer carcharorion ac ymwelwyr anabl. Rhaid i Lywodraethwyr ystyried a allai polisïau ac arferion carchar, yr amgylchedd adeiledig, neu ddiffyg cymhorthion a gwasanaethau ategol roi'r carcharor neu ymwelydd anabl dan anfantais sylweddol, ac os felly rhaid gwneud addasiadau rhesymol i osgoi'r anfantais. Os yw cais am addasiadau rhesymol yn cael ei wneud gan garcharor neu ymwelydd, rhaid ei ystyried a dogfennu'r canlyniad.' (paragraff 8.2).

9.2.24 Mae'r system gwynion PSI 02/2012 PSI 02/2012⁷² (Cwynion carcharorion) yn nodi nifer o gamau gweithredu y dylai carchardai eu cymryd i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud ar gyfer carcharorion â phroblemau iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu:

⁷¹ http://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2011/psi_2011_32_ensuring_equality.doc

⁷² <http://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2012/psi-02-2012-prisoner-complaints.doc?type=Finjan-Download&slot=000002FD&id=00000AFC&location=0A64420D>

- 'Rhaid i sefydliadau fod â threfniadau yn eu lle a fydd yn caniatáu i garcharor wneud cwyn ffurfiol ar lafar i aelod o staff lle mae'r carcharor yn cael trafferth gwneud hynny yn ysgrifenedig. Mewn amgylchiadau o'r fath rhaid i'r gŵyn gael ei chofnodi a rhaid i'r ateb ysgrifenedig gael ei egluro i'r carcharor maes o law (paragraff 2.1.3).
- 'Rhaid i'r system gwynion sicrhau bod unrhyw agwedd cydraddoldeb unrhyw gŵyn yn cael ei chydabod, ei chofnodi a'i hymchwilio' (paragraff 2.1.6).
- 'Os yw carcharor yn cyflwyno cwyn sy'n annarllenadwy neu â diffyg eglurder, argymhellir bod y staff yn ceisio eglurhad, o bosibl trwy siarad â'r carcharor, yn hytrach na rhoi ateb cyffredinol nad ydynt efallai yn ymdrin â'r mater penodol' (paragraff 2.2.5).
- 'Rhaid i ymatebion ddefnyddio iaith sy'n hawdd ei deall ac ystyried unrhyw anghenion unigol. Rhaid osgoi jargon' (paragraff 2.3.6).
- Mae taflen hawdd ei darllen yn cael ei chynnwys yn y PSI yn Atodiad K y PSI.

9.2.25 Yn fwy cyffredinol mae PSI 75/2011⁷³ (Gwasanaethau preswyl) yn nodi'r fframwaith gweithredol ar gyfer sefydliadau garchar wrth ddarparu gwasanaethau preswyl, sy'n cynnwys nifer o ddarpariaethau penodol ar gyfer carcharorion â nodweddion gwarchoddedig:

- 'Wrth gyflawni'r holl allbynnau a nodir yn y fanyleb/cyfarwyddyd hwn, mae'n rhaid i staff roi sylw i ystyriaethau cydraddoldeb a sicrhau bod yr holl wasanaethau yn cael eu darparu yn deg ac yn briodol, gan ystyried nodweddion gwarchoddedig a ddiffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010' (paragraff 1.14).
- 'Rhaid i staff preswyl gynorthwyo carcharorion sy'n dymuno cael mynediad i gyngor cyfreithiol trwy ddarparu rhestrau o gynghorwyr cyfreithiol, cyflenwi ffurflenni priodol a chynorthwyo carcharorion i'w cwblhau lle gofynnir am hynny oherwydd anawsterau iaith neu lythrennedd' (paragraff 2.3).
- 'Trwy eu hymgysylltu â charcharorion unigol, mae disgwyl i staff preswyl nodi carcharorion ag unrhyw anghenion penodol a gwneud addasiadau rhesymol i'w trefn ddyddiol. Byddai hyn yn cynnwys carcharorion ag anabledau, anawsterau symud, clywed, golwg neu gyfathrebu, anawsterau iaith neu lythrennedd. Rhaid ymgynghori â chydweithwyr arbenigol perthnasol fel rhan o'r broses hon.' (paragraff 2.3).

9.2.26 Yn ogystal, bydd NOMS yn datblygu strategaeth gyfathrebu i atgyfnerthu cydymffurfio â'r PSIs perthnasol mewn perthynas â'r system gwynion, gan gynnwys yr angen i wneud addasiadau rhesymol. Bydd hyn yn cynnwys llythyr i'w anfon gan Brif Weithredwr NOMS at yr holl garchardai a Sefydliadau Troseddwr Ifanc, yn amlinellu'r angen i lynu wrth PSIs a gwneud addasiadau rhesymol pan fo angen. Bydd yr un neges yn cael ei chyfleu i'r Canolfannau Hyfforddi Diogel trwy gyfrwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, a bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cysylltu ag Adran Addysg i sicrhau bod y neges hon yn cael ei lledaenu i Gartrefi Diogel i Blant. Bydd NOMS hefyd yn cysylltu â HMIP gyda golwg ar arolygiad thematig 'cwynion' yn 2014/15 neu 2015/16 i asesu effaith y newidiadau ar gyfraith carchar. Bydd NOMS yn parhau i asesu effeithiolrwydd y system gwynion ar sail barhaus yn y dyfodol.

⁷³ <http://www.justice.gov.uk/downloads/offenders/psipso/psi-2011/psi-75-2011-residential-services.doc>

9.2.27 Rydym yn ystyried bod y gofynion hyn yn ddigonol i sicrhau bod carcharorion â phroblemau iechyd meddwl ac/neu anableddau dysgu (yn ogystal â nodweddion gwarchoddedig eraill, lle bo hynny'n berthnasol) yn gallu defnyddio'r system gwynion yn effeithiol ac na fydd cyfyngu ar gwmpas cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer y gyfraith carchar yn effeithio ar y carcharor yn anghymesur. Rydym yn credu y bydd y camau gweithredu a amlinellir ym mharagraff 9.2.27 yn sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion a nodir yn PSIs a bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn ôl yr angen, fel na ddylai fod unrhyw anfantais benodol.

Carcharorion BAME

9.2.28 Yn ychwanegol at y gofynion a amlinellir mewn perthynas a charcharorion â phroblemau iechyd meddwl ac/neu anableddau dysgu (gweler uchod) mae PSI 32/2011 yn amlinellu nifer o ofynion yn ymwneud â chydaddoldeb a fyddai'n berthnasol i garcharorion BAME.

- Rhaid i Lywodraethwyr sicrhau bod gwybodaeth reoli (gwybodaeth bellach yn atodiad B o'r PSI) ar faterion cydraddoldeb o ran darparu gwasanaethau yn cael ei dadansoddi, a bod cynllun gweithredu cydraddoldeb lleol blynyddol yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi. Rhaid i'r cyfrifoldeb am weithredu'r cynllun fod yn glir a rhaid i reolwyr a staff gael eu dwyn i gyfrif am gynnydd drwy wiriadau rheoli perthnasol. Rhaid i gynnydd gael ei olrhain a rhaid i adroddiad diweddarau gael ei gyflwyno yn rheolaidd (ar amllder i'w benderfynu gan y Llywodraethwr yn seiliedig ar asesiad o risg), i'w drafod gan yr Uwch Dîm Rheoli, a'i gopïo i Ddirprwy Gyfarwyddwr y Ddalfa, a'i gyhoeddi (paragraff 3.4).
- 'Mae NOMS yn casglu data monitro (gwybodaeth bellach yn Atodiad D o'r PSI) ar yr holl faterion cydraddoldeb ac yn ei ddefnyddio ar gyfer dadansoddi sy'n gyrru camau i sicrhau tegwch i bawb' (paragraff 4.1).
- 'Rhaid i Lywodraethwyr sicrhau bod:
 - Gwybodaeth monitro cydraddoldeb am yr holl garcharorion yn cael ei chasglu a'i chofnodi;
 - Darpariaeth gwasanaeth yn cael ei monitro; a
 - Data monitro yn cael ei gyhoeddi.' (paragraff 4.2)

9.2.29 Mae PSI 02/2012 (Cwynion carcharorion) yn nodi gofyniad sy'n ymwneud â charcharorion sydd â iaith gyntaf heblaw Saesneg, er mwyn eu galluogi i wneud defnydd effeithiol o'r system gwynion:

- 'Gall carcharorion nad oes ganddynt afael dda ar yr iaith Saesneg gyflwyno cwyn yn eu hiaith eu hunain os ydynt yn dymuno' (paragraff 2.1.5)
- 'Mae ffurflenni cwyno a thafenni testun fersiwn fer a hir ar gyfer carcharorion ar gael ar y Fewnrwyd mewn 19 o ieithoedd' (paragraff 2.1.5).

9.2.30 Mae'r adroddiad archwilio ar y system gwynion y cyfeirir ato ym mharagraff 32 o Atodiad B yn cynnwys argymhelliad i sicrhau bod yr holl ffurflenni cwyno ar gael am ddim, gan gynnwys mewn ieithoedd tramor, a fydd yn cael eu symud ymlaen gan NOMS. Bydd hyn yn cryfhau ymhellach effeithiolrwydd y system gwynion ar gyfer carcharorion hynny nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Bydd y camau gweithredu y mae NOMS wedi ymrwymo i'w cynnal hefyd yn cryfhau'r system gwynion i'r holl garcharorion.

9.2.31 Felly, mae'r Llywodraeth o'r farn bod prosesau presennol yn ddigonol i sicrhau y bydd carcharorion BAME yn cael darpariaeth ddigonol ac y byddent yn gallu defnyddio'r system gwynion yn y fath fodd fel na ddylent brofi unrhyw anfantais benodol.

Carcharorion benywaidd

9.2.32 Bydd carcharorion yn gallu defnyddio'r system gwynion carcharorion i ddatrys unrhyw faterion sy'n codi (gweler PSI 02/2012) ac mae'r Llywodraeth yn ystyried bod hyn yn ddigon cadarn i ddelio â materion o'r fath (gweler paragraffau 28-35 o Atodiad B). Pe na byddai materion yn cael eu datrys yn foddhaol trwy ddefnyddio'r system gwynion, byddai carcharorion yn dal i fedru troi at yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (neu Awdurdodau Lleol/Monitor statudol yn achos pobl ifanc a gedwir mewn Cartrefi Plant Diogel/Canolfannau Hyfforddi Diogel) neu adolygiad barnwrol yn y pen draw, yn amodol ar fodd a theilyngdod.

9.2.33 Mae'r camau gweithredu mae NOMS wedi ymrwymo i'w cynnal (gweler paragraffau 34 a 35 o Atodiad B) yn cryfhau'r system gwynion ymhellach, gan gynnwys ar gyfer carcharorion benywaidd.

9.2.34 Mae'r darpariaethau yn PSI 32/2011 (Sicrhau cydraddoldeb) a PSI 75/2011 (Gwasanaethau preswyl) a amlinellir uchod mewn perthynas a charcharorion â nodweddion gwarchoddedig yn berthnasol i garcharorion benywaidd.

Casgliad

9.2.35 Ystyriwn bod prosesau digonol yn eu lle i sicrhau y bydd carcharorion/troseddwy'r ifanc yn gallu gwneud defnydd o'r dulliau gwneud iawn amgen arfaethedig, megis systemau cwynion, a bod mecanweithiau atgyfeirio yn bodoli os na ellir datrys cwynion yn foddhaol o fewn sefydliadau (gweler paragraffau 18 a 36 o Atodiad B). Fodd bynnag, fel y nodir ym mharagraffau 2.5-2.7 Pennod 2, rydym wedi addasu'r cynnig cychwynnol fel bod pob achos gerbron y Bwrdd Parôl, os yw'r Bwrdd Parôl â phŵer i gyfarwyddo rhyddhau a materion cyfrifo dedfryd, yn cael ei ariannu, gan liniaru ymhellach y potensial o effaith andwyol.

9.2.36 O ganlyniad, nid ydym yn ystyried ei bod yn debygol y bydd effaith andwyol ar bobl ifanc, menywod, pobl anabl neu bobl BAME, y nodwyd y potensial ar gyfer hynny yn y dadansoddiad cychwynnol. Rydym o'r farn y gall yr unigolion hynny ddefnyddio dulliau amgen o wneud iawn, eu bod yn gadarn, ac y bydd cydymffurfiaeth â pholisïau cyhoeddi, gan gynnwys yr angen i wneud addasiadau rhesymol, yn cael eu hatgyfnerthu drwy'r camau a amlinellir ym mharagraffau 34 a 35 o Atodiad B. Fel y nodwyd yn y dadansoddiad cychwynnol, rydym o'r farn petai unrhyw effeithiau andwyol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig, y byddai unrhyw effeithiau o'r fath yn cael eu cyfiawnhau oherwydd bod y cynnig addasedig yn cynrychioli ffordd gymesur o gyflawni'r nodau cyfreithlon a nodir ym mharagraff 6.3 uchod. Dylai dulliau eraill o wneud iawn fod yn fan galw cyntaf i'r materion a dynnir o'r cwmpas, gan sicrhau bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu targedu at yr achosion sy'n cyfiawnhau hynny.

10 Gosod trothwy ariannol yn Llys y Goron

10.1 Dadansoddiad cychwynnol

Effaith ar gleientiaid:

10.1.1 Roeddem yn rhagweld y byddai effaith y cynnig hwn yn negyddol ar y rheiny sy'n uwch na'r trothwy incwm gwario, gan na fyddai pobl yr effeithir arnynt yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol troseddol mwyach. Er mwyn dynodi'r potensial i gleientiaid fod yn destun anfantais arbennig (gan dybio i'r diben hwnnw bod y cynnig yn gyfystyr â darpariaeth, maen prawf neu arfer), cyflwynwyd data LAA ar nodweddion gwarchoddedig cleientiaid yr effeithir arnynt gan y cynnig. Roeddynt yn dangos bod llai na 200 o ymgeiswyr cymorth cyfreithiol Llys y Goron gydag incwm gwario cartrefi crynswth blynyddol o £37,500 yn 2011/12. Gwnaethom gymharu data oedd gennym ar nodweddion gwarchoddedig y grŵp yr effeithir arnynt yn erbyn yr hyn sydd gennym ar gyfer nodweddion holl gleientiaid cymorth cyfreithiol Llys y Goron ac yn erbyn y boblogaeth yn gyffredinol. Dangosodd y data ymhlith y diffynyddion Llys y Goron yn y grŵp yr effeithir arnynt fod:

- 82% yn ddynion a 7% yn fenywod (ni chafodd rhywedd ei gofnodi mewn 12% o achosion). Roedd 78% o holl gleientiaid cymorth cyfreithiol Llys y Goron yn ddynion, 10% yn fenywod a 12% yn anhysbys;
- 51% yn Wyn, 28% yn dod o gefndir BAME gydag ethnigrwydd anhysbys mewn 21% o achosion. Roedd 18% o holl gleientiaid cymorth cyfreithiol Llys y Goron yn BAME, 58% yn wyn a 25% yn anhysbys;
- 4% wedi datgan anabled, 42% heb anabled datganedig ac roedd statws anabled anhysbys mewn 53% o achosion. Roedd 15% o gleientiaid Llys y Goron wedi datgan anabled, 56% ddim yn sâl nac yn anabl a 28% yn anhysbys; a
- 4% rhwng 18-24 oed, 85% rhwng 25-64 oed a 11% yn 65 oed a hŷn. Roedd 36% o gymorth cyfreithiol Llys y Goron rhwng 18-24 oed, 63% rhwng 25-64 oed ac 1% yn 65 oed a throsodd.

10.1.2 Roedd data yn nodi bod cyfran ychydig yn uwch o ddynion yn y grŵp yr effeithir arnynt o'i gymharu â holl gleientiaid cymorth cyfreithiol Llys y Goron. Roedd data yn nodi bod cyfran uwch o bobl BAME yn y grŵp yr effeithir arnynt o'i gymharu â holl gleientiaid cymorth cyfreithiol Llys y Goron. Roedd cyfran lai o bobl yn y grŵp yr effeithir arnynt a oedd yn datgan anabled o'i gymharu â holl gleientiaid cymorth cyfreithiol Llys y Goron. Roedd y data hefyd yn dangos bod cyfran uwch o'r grŵp yr effeithir arnynt yn y grŵp oedran 25-64 oed o'i gymharu â holl gleientiaid cymorth cyfreithiol Llys y Goron. Gwnaethom drin pob un o'r asesiadau hyn yn ofalus oherwydd y gyfran uchel o unigolion yn y grŵp yr effeithir arnynt lle nad oedd unrhyw ddata arnynt.

10.1.3 Yn gyffredin â phob ymgeisydd cymorth cyfreithiol Llys y Goron, roedd dynion, y rhai o ethnigrwydd BAME a'r rhai 25-64 mlwydd oed yn cael eu gorgynrychioli o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (lle'r oedd 49% yn ddynion, 14% o ethnigrwydd BAME a 52% rhwng 25 a 64 mlwydd oed).

Effaith ar ddarparwyr

10.1.4 Gan fod y newid arfaethedig yn ymwneud â chymhwyster i ddiffynyddion, nid oeddem yn ystyried ei fod yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar ddarparwyr (gan dybio i'r

diben hwnnw bod y cynnig yn gyfystyr â darpariaeth, maen prawf neu arfer). Fel y gwnaethom drafod yn yr Aseidiadau Effaith, gallai effeithio ar ddarparwyr os byddai'r newidiadau yn cael effaith ar eu hincwm o waith cymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, efallai fod hyn yn cael ei wrthbwysu gan gynnydd yn y galw am waith amddiffyn wedi'i ariannu'n breifat. Petai unrhyw anfantais yn ymddangos, o ystyried bod darparwyr gyda mwyaf BAME ac a reolir gan ddynion wedi'u gorgynrychioli ymysg darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, efallai y byddant yn cael eu heffeithio'n anghymesur. Roeddem yn ystyried bod unrhyw effaith o'r yn gyfiawn am y rhesymau a nodir isod.

Cyfiawnhad

10.1.5 Wrth gymharu â phoblogaeth cleient cymorth cyfreithiol Llys y Goron, gwnaethom gydnabod y gallai fod effeithiau negyddol yn enwedig ar ddynion, y grŵp BAME, a'r rhai 25-64 oed. Fodd bynnag, roeddem yn credu bod y cynnig yn fodd cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Drwy osod y trothwy ar lefel resymol, y gallai pobl yn gyffredinol fforddio ei dalu am eu hamddiffyniad eu hunain, mae'n targedu adnoddau cyhoeddus prin ar y bobl hynny oedd ei angen fwyaf. Hefyd byddai mecanwaith adolygu caledi yn ei le, a fyddai ar gael i bob unigolyn yr effeithir arnynt, waeth beth fo'u nodweddion gwarchoddedig.

10.2 Dadansoddiad Terfynol

Materion allweddol a godwyd

10.2.1 Nid oedd pryderon cydraddoldeb yn nodwedd sylweddol o ymatebion mewn perthynas â'r cynnig hwn, er y codwyd y mater o incwm gwario cartrefi yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo cymhwyster ariannol. Y pryder oedd, oherwydd bod y rhan fwyaf o droseddwr yn ddynion, a'u partneriaid yn fenywod, y byddai defnyddio incwm gwario cartrefi yn effeithio ar incwm partneriaid hyd yn oed os nad oeddynt â chyswllt uniongyrchol â'r achos troseddol, ac felly byddai'n cael effaith anghymesur ar fenywod.

Ymateb y Llywodraeth

10.2.2 Er ein bod yn cydnabod y pryder hwn, incwm y cartref yw'r mesur safonol o incwm a ddefnyddir yn yr holl gyfrifiadau o amgylch cymhwyster ariannol ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol ar hyn o bryd⁷⁴. Mae cronni modd yr ymgeisydd a'u partner yn norm gyda budd-daliadau prawf modd yn y wlad hon (gweler paragraffau 66 a 67 o Atodiad B), ac ystyriwn hefyd ei fod yn llai cymhleth yn weinyddol ystyried incwm y ddau unigolyn gan fod treuliau cartref a chyfrifon banc yn aml yn cael eu rhannu. Mae'n rhaid i ni ochel hefyd rhag sefyllfa a allai godi lle byddai diffynnydd gyda phartner sydd â modd sylweddol yn derbyn cymorth cyfreithiol troseddol. Rydym yn cydnabod y gallai fod effaith ar bartneriaid diffynnyddion, ond ystyriwn y gellir cyfiawnhau hyn oherwydd y rhesymau a nodir uchod.

10.2.3 Rydym yn cydnabod y gall fod rhywfaint o botensial o effaith negyddol ar y sail a nodwyd gan ymatebwyr, ond fel y nodir ym mharagraffau 60-63 o Atodiad B, rydym yn ystyried fod y trothwy yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o achosion a grwpiau trosedd,

⁷⁴ Gweler y Llawlyfr Cymorth Cyfreithiol Troseddol: <http://www.justice.gov.uk/downloads/legal-aid/eligibility/criminal-legal-aid-manual.pdf>

ac nid ydym yn ei ystyried yn iawn nac yn angenrheidiol mewn perthynas â'r polisi hwn neu'r system cymorth cyfreithiol ehangach i ddiwygio ein dull o gynnwys incwm partner wrth gyfrifo cymhwyster ariannol. Mae'r trothwy hefyd yn cael ei osod ar oddeutu dwywaith y cyfartaledd cenedlaethol o incwm gwario cartrefi. Bydd adolygiad caledi yn bodoli i sicrhau bod cynrychiolaeth yn cael ei darparu pan nad yw unigolion yn gallu fforddio talu am eu hachos yn breifat.

Casgliad

10.2.4 Rydym yn cydnabod y posibilrwydd o effaith negyddol ar fenywod a godwyd gan ymatebwyr. Fodd bynnag, ni ellir tybio bod gan holl ddiffynyddion llys y goron sy'n ddynion bartner benywaidd y byddai ei hincwm gwario yn cael ei gynnwys yn y cyfrifiad, ac nid ydym yn ei ystyried yn gymesur nac yn ymarferol newid y dull cyffredinol o gyfrifo cymhwyster ariannol. Mae ein casgliadau terfynol, felly, yr un peth ag a nodwyd yn y dadansoddiad cychwynnol uchod. Rydym yn ystyried fod y cynnig yn ddull cymesur o gyflawni'r nodau cyfreithlon a nodir ym mharagraff 6.3. Drwy osod y trothwy ar lefel resymol, y gallai pobl yn gyffredinol fforddio ei dalu am eu hamddiffyniad eu hunain, mae'n targedu adnoddau cyhoeddus prin ar y bobl hynny oedd ei angen fwyaf.

11 Cyflwyno prawf preswyllo

11.1 Dadansoddiad Cychwynnol

Effaith ar gleientiaid

11.1.1 Roeddem yn rhagweld y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar y rhai nad oeddent yn bodloni'r prawf preswyllo (gan dybio i'r diben hwn bod y cynnig yn gyfystyr â darpariaeth, maen prawf neu arfer) oherwydd, yn destun i'r eithriadau a nodir yn y papur ymgynghori, na fyddai'r rhai yr effeithir arnynt bellach yn derbyn cymorth cyfreithiol sifil. Roeddem yn cydnabod y gallai'r cynnig hwn fod â'r potensial i roi gwladolion nad ydynt yn Brydeinig o dan anfantais benodol o'u cymharu â dinasyddion Prydeinig, gan y byddai'n haws i ddinasyddion Prydeinig fodloni'r prawf na dinasyddion eraill. Fodd bynnag, roeddem yn credu y gellir cyfiawnhau hyn am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar ddarparwyr

11.1.2 Nid oedd gennym unrhyw ddata i seilio asesiad o effaith debygol ar ddarparwyr, er ein bod yn credu bod y cynnig yn annhebygol o arwain at effeithiau cydraddoldeb negyddol ar y grŵp hwn (gan dybio i'r diben hwn bod y cynnig yn gyfystyr â darpariaeth, maen prawf neu arfer). Fodd bynnag, roeddem yn cydnabod y gallai maint yr effaith ar gwmni darparwyr ddibynnu ar faint yr oeddynt yn dibynnu ar incwm y cyfryw waith cyfraith carchar. Petai unrhyw anfantais yn cael ei wireddu, o ystyried bod y rhai sy'n rheoli cwmnïau sy'n ymwneud â gwaith yr effeithir arno gan y cynnig hwn yn fwy tebygol o fod yn ddynion nad ydynt yn anabl o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, efallai y byddant yn cael eu heffeithio yn anghymesur. Roeddem yn ystyried fod unrhyw effaith yn gyfiawn am y rhesymau a nodir isod.

Cyfiawnhad

11.1.3 Roeddem yn credu bod y cynnig hwn yn ddull cymesur o gyflawni nodau cyfreithlon. Byddai'r gofyniad am 12 mis o breswyllo cyfreithlon blaenorol ar amser gwneud y cais am gymorth cyfreithiol sifil yn berthnasol waeth beth fo cenedligrwydd, a'i fod yn

targeddu'r cronfeydd cyhoeddus cyfyngedig ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil at y rheiny sydd â chysylltiad cryf â'r DU, sy'n gwella hygyrdd y cynllun.

- 11.1.4 Byddem wedi sicrhau bod cymorth cyfreithiol yn parhau lle fo angen i gydymffurfio â rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE neu gyfraith ryngwladol, a byddai cyllid eithriadol (lle fyddai'r methiant i ddarparu cymorth cyfreithiol yn torri hawliau'r ymgeisydd o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol neu gyfraith yr UE) yn dal i fod ar gael mewn perthynas ag unigolion nad ydynt yn bodloni'r prawf preswyllo. Ar ben hynny, roedd yr eithriad arfaethedig ar gyfer ceiswyr lloches yn lleihau unrhyw effeithiau ar y rheiny sydd â nodweddion gwarchoddedig.

11.2 Dadansoddiad Terfynol

Prif faterion a godwyd

- 11.2.1 Roedd pryder eang ymysg ymatebwyr nad oedd y cynigion yn rhoi ystyriaeth briodol i'r effaith ar grwpiau o bobl agored i niwed, gan gynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid a dioddefwyr masnachu mewn pobl, priodas dan orfod a thrais domestig a thrais seiliedig ar anrhydedd. Roedd ymatebwyr o'r farn, gan fod crynodiad uwch o BAME, menywod a phlant ymysg y grwpiau hyn nad oedd y datganiad cydraddoldeb yn rhoi digon o ystyriaeth i effaith y cynigion ar y nodweddion gwarchoddedig o oedran, rhyw a hil.
- 11.2.2 Lleisiodd ymatebwyr bryderon penodol am y diffyg asesiad o'r effaith ar blant, ac yn benodol plant sydd wedi dioddef masnachu mewn pobl. Roedd llawer o ymatebion yn tynnu sylw at y warchodaeth a roddir i blant gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Roedd yr ymatebwyr yn lleisio pryderon y byddai'r cynnig yn eithrio'n awtomatig cymorth cyfreithiol i blant o dan flwydd oed. Dadleuodd yr ymatebwyr y byddai hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon.
- 11.2.3 Dadleuodd llawer o'r ymatebion bod grwpiau agored i niwed sydd â nodweddion gwarchoddedig (gan gynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid a dioddefwyr masnachu mewn pobl, priodas dan orfod a thrais domestig a thrais ar sail anrhydedd) wedi cael eu cadw'n benodol o fewn cwmpas y cynllun cymorth cyfreithiol gan y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO), ond y byddai'r grwpiau hyn yn aml yn ei chael yn anodd darparu tystiolaeth i fodloni gofynion y prawf preswyllo.
- 11.2.4 Roedd nifer o ymatebion yn dadlau y byddai'r prawf yn anghyfreithlon gan nad yw'n ystyried yr amddiffyniad ychwanegol a gynigir i grwpiau o bobl agored i niwed gan hawliau'r Confensiwn ehangach ac erthyglau penodol o'r ECHR (gan gynnwys Erthygl 6 - yr hawl i dreial deg). Dadleuodd yr ymatebwyr na fyddai argaeledd cyllid eithriadol yn lliniaru'r pwynt hwn, gan mai dim ond i faterion sydd y tu allan i gwmpas y cynllun cymorth cyfreithiol sifil fel y'i nodir yn Atodlen 1 LASPO y darperir cyllid eithriadol.
- 11.2.5 Lleisiodd llawer o ymatebwyr bryderon penodol nad oedd y cynigion yn ystyried difrifoldeb yr effeithiau ar grwpiau gyda nodweddion gwarchoddedig, neu sy'n debygol o fod â nodweddion gwarchoddedig, a gallai hyn wahaniaethu'n anghyfreithlon, gan gynnwys:

- Menywod (ac yn enwedig menywod sy'n dioddef trais domestig) (yn groes i'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac erthygl 14 ECHR, yn ogystal ag Erthyglau 1 a 15 o'r Confensiwn ar Ddileu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod);
- Plant (yn groes i Erthyglau 3, 9, 10, 12 a 13 o'r UNCRC);
- Plant sy'n dioddef masnachu mewn pobl (yn groes i Erthygl 8 o'r UNCRC);
- Dioddefwyr masnachu mewn pobl yn gyffredinol (yn groes i Gyfarwyddeb yr UE ar fynd i'r afael â masnachu mewn pobl (2011/36/EU) a'r Confensiwn Cyngor Ewrop ar Weithredu yn erbyn Masnachu mewn Pobl
- Mudwyr (felly'n gwahaniaethu'n anuniongyrchol ar sail cenedligrwydd sy'n groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac Erthygl 14 ECHR);
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches (yn groes i'r Confensiwn Ffoaduriaid 1951).

Ymateb y Llywodraeth

- 11.2.6 Rydym yn dal i gredu y dylai unigolion mewn egwyddor fod â chysylltiad cryf â'r DU er mwyn cael budd o'r cynllun cymorth cyfreithiol sifil, ac na ddylid blaenoriaethu'r rhai nad oes ganddynt gysylltiad cryf ar gyfer arian cyhoeddus yn yr un ffordd â'r rhai sydd â chysylltiad cryf. Rhaid i ni sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu targedu'n briodol. Mae hyn bob amser yn gyfrifoldeb pwysig i'r Llywodraeth, yn enwedig mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol.
- 11.2.7 Nid ydym yn derbyn y byddai'r prawf preswyllo arfaethedig yn arwain at dorri ein rhwymedigaethau cyfreithiol domestig a rhyngwladol. Fel y nodwyd yn flaenorol, byddem yn sicrhau y bydd cymorth cyfreithiol yn parhau i fod ar gael lle bo angen i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan gyfraith UE neu rhyngwladol fel y nodir yn Atodlen 1 i LASPO. Nid ydym ychwaith yn derbyn dadleuon y byddai'r cynnig yn gyfystyr â gwahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon; i'r graddau y mae'n arwain at anfantais benodol, rydym yn credu bod y prawf, a addaswyd fel y disgrifir yn Atodiad B ac isod, yn gyfiawn ac yn gymesur. Bydd argaeledd cyllid eithriadol ar gyfer rhai sydd wedi'u heithrio o'r prawf yn sicrhau, mewn unrhyw achos unigol, y byddai cymorth cyfreithiol yn parhau i fod ar gael lle y byddai methiant i wneud hynny yn arwain at dorri hawliau unigolyn i gael cymorth cyfreithiol dan y Siarter Hawliau Dynol Ewrop, neu lle mae hawl gorfodadwy i gymorth cyfreithiol o dan gyfraith yr UE.
- 11.2.8 Nid ydym yn cytuno y byddai'r cynnig o reidrwydd yn cael effaith anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchoddedig. Gydag absenoldeb data er mwyn amcangyfrif y nifer o achosion neu fathau o gleientiaid a fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig prawf preswyllo, rydym wedi asesu'r effaith ar sail yr effeithiau y gellir eu rhagweld yn rhesymol.
- 11.2.9 Rydym yn cydnabod y gallai'r prawf fel y'i cynigir effeithio'n anghymesur ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig sef gwladolion nad ydynt yn Brydeinig, menywod a phlant. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ymateb y llywodraeth, rydym wedi diwygio ein cynnig gwreiddiol felly na fyddai angen i ymgeiswyr ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil ar faterion cyfreithiol penodol (fel y nodir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i LASPO) fodloni'r prawf preswyllo (yn ychwanegol at eithriadau i geiswyr lloches a phersonél y lluoedd arfog a'u teuluoedd agos). Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r effeithiau posibl ar grwpiau agored i niwed ac achosion amddiffyn plant fel rhan o'r asesiad hwn. Ni fyddai angen felly i geisiadau am gymorth cyfreithiol sifil yn y categorïau achos canlynol (fel y nodir yn Rhan 1 o Atodlen 1 o LASPO) orfod bodloni'r prawf preswyllo:

- Achosion cadw (paragraff 5, 20, 25, 26 a 27 (a heriau i gyfreithlondeb cadw drwy adolygiad barnwrol o dan baragraff 19) o Ran 1 Atodlen 1 LASPO)
- Dioddefwyr masnachu mewn pobl (paragraff 32 o Ran 1 o Atodlen 1 i LASPO), dioddefwyr trais domestig a phriodas dan orfod (paragraffau 11, 12, 13, 16, 28 a 29 o Ran 1 o Atodlen 1 i LASPO);
- Achosion amddiffyn plant (paragraffau 1, 3⁷⁵, 9⁷⁶, 10, 15 a 23 o Ran 1 o Atodlen 1 i LASPO); a
- Comisiwn Apeliadau Mewnffudo Arbennig (paragraff 24 o Ran 1 Atodlen 1 i LASPO).

11.2.10 Byddwn hefyd yn gwneud eithriadau cyfyngedig ar gyfer achosion adolygiad barnwrol penodol i unigolion barhau i gael cymorth cyfreithiol i adolygu ardystiadau barnwrol gan y Swyddfa Gartref o dan adrannau 94 a 96 o'r Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnffudo a Lloches 2002.

11.2.11 Bwriedir hefyd na fydd yn ofynnol i blant o dan 12 mis oed gael o leiaf 12 mis o breswyllo cyfreithlon blaenorol.

11.2.12 Rydym hefyd yn parhau i gredu nad yw'r cynigion yn debygol o arwain at effeithiau cydraddoldeb negyddol i ddarparwyr. Beth bynnag, byddai'r eithriadau ychwanegol yr ydym wedi eu nodi yn cyfyngu ymhellach ar y graddau y byddai'r prawf preswyllo yn lleihau'r incwm sydd ar gael i ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil a'r effaith o gynnal y prawf. Bydd y dystiolaeth sydd ei hangen at ddibenion y prawf yn cael ei disgrifio mewn deddfwriaeth eilaidd a chanllawiau fel y bo'n briodol, fel bod y gofynion yn glir ac y bydd darparwyr yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Rydym yn parhau i gredu ei bod yn rhesymol disgwyl i ddarparwyr gynnal y prawf. Ein bwriad yw y bydd y prawf yn wrthrychol a heb fod yn rhy feichus i'w weinyddu.

Casgliad

11.2.13 Rydym yn ystyried bod y newidiadau pellach i'r prawf a amlinellir uchod yn rhoi sylw uniongyrchol i nifer fawr o'r pryderon a godwyd yn yr ymatebion i effaith cydraddoldeb y cynnig ac yn lliniaru'r posibilrwydd o effaith negyddol ar y grwpiau a nodwyd. I'r graddau y ceir effaith anghymesur (fel ar gwladolion nad ydynt yn Brydeinig), rydym yn credu bod y prawf preswyllo yn ddull cymesur o gyflawni'r nodau cyfreithlon a nodwyd ym mharagraff 6.3. Drwy dargedu cyllid at y rhai hynny sydd â chysylltiad cryf â'r DU, mae'r prawf preswyllo yn sicrhau bod adnoddau cyhoeddus prin yn cael eu gwario'n briodol.

⁷⁵ Ni fyddai eithriadau i'r prawf preswyllo ar gyfer achosion o dan baragraff 3 o Ran 1 Atodlen 1 LASPO ond yn berthnasol i achosion lle mae'r cam-drin wedi digwydd ar adeg pan oedd yr unigolyn yn blentyn.

⁷⁶ Ni fyddai eithriadau i'r prawf preswyllo ar gyfer achosion o dan baragraff 9 o Ran 1 Atodlen 1 LASPO ond yn berthnasol i achosion o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys mewn perthynas â phlant.

12 Talu am waith caniatâd mewn achosion adolygiad barnwrol

12.1 Dadansoddiad Cychwynnol

Effaith ar gleientiaid

12.1.1 Gwnaethom nodi y byddai unrhyw effaith ar gleientiaid yn dibynnu ar ymateb y darparwr i'r diwygiadau, ac i ba raddau y mae'r cynnig yn arwain at ostyngiad o argaeledd cynrychiolaeth ar gyfer (i) achosion nad yw'r llys yn caniatáu iddynt fwrw ymlaen, a (ii) achosion adolygiad barnwrol yn fwy cyffredinol. Gan fod yr effaith ar ymddygiad darparwr yn ei hanfod yn ansicr, roeddem o'r farn bod yr effeithiau cydraddoldeb tebygol ar gleientiaid yn anfesuradwy. Roedd y data cyfyngedig oedd ar gael yn awgrymu bod unigolion 18-24 oed wedi'u gorgynrychioli ymysg cleientiaid a allai ddod ag achosion gerbron y gwrthodir caniatâd iddynt gan y llys.

Effaith ar ddarparwyr

12.1.2 Roeddem yn rhagweld y byddai'r bwriad yn cael effaith negyddol ar ddarparwyr oherwydd y gostyngiad a ragwelir yn yr incwm cymorth cyfreithiol. Gwnaethom nodi y byddai'r rheiny a oedd yn rheoli cwmnïau cymorth cyfreithiol sifil a theuluol a oedd yn cael eu heffeithio gan y cynnig yn fwy tebygol o fod yn ddynion, ddim yn anabl nac yn BAME, o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Felly, roeddem yn cydnabod y gallai'r cynnig gael effaith anghymesur ar y grwpiau hyn.

Cyfiawnhad

12.1.3 Roeddem yn ystyried, i'r graddau bod y cynnig yn achosi unrhyw anfantais benodol i bobl â nodweddion gwarchoddedig, bod hyn yn cael ei gyfiawnhau fel dull cymesur o gyflawni nodau cyfreithlon o ostwng costau'r cynllun cymorth cyfreithiol a sicrhau bod y system yn ennyn hyder y cyhoedd.

12.2 Dadansoddiad

Prif faterion a godwyd

12.2.1 Roedd pryder eang ymysg ymatebwyr y byddai'r cynnig hwn (wrth gael ei ystyried ochr yn ochr â'r prawf preswyllo arfaethedig a'r bwriad i symud arian o achosion gyda rhagolygon ffiniol o lwyddiant) yn ei gwneud yn anodd iawn i'r rhan fwyaf o bobl (gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig) fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol er mwyn herio penderfyniadau a wnaed gan y wladwriaeth, gan fod ymatebwyr o'r farn y byddai darparwyr yn amharod i gymryd achosion gyda risg. Dadleuodd ymatebwyr nad oedd digon o ystyriaeth wedi ei roi i natur a difrifoldeb yr effeithiau tebygol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig.

12.2.2 Dadleuodd yr ymatebion y byddai'r cynnig yn achosi i ddarparwyr wrthod cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol i waith lle nad oedd unrhyw warant o dâl ac, o ganlyniad, na fyddai grwpiau agored i niwed sydd â nodweddion gwarchoddedig yn gallu herio penderfyniadau'r wladwriaeth neu y byddent yn wynebu anghydraddoldeb arfau os yn gweithredu fel ymgyfreithiwr drosto'i hun.

12.2.3 Mynegodd llawer o ymatebion bryderon am yr effaith ar bobl anabl yn arbennig, gan ddadlau mai adolygiad barnwrol yn aml yw'r unig ffordd sydd ar gael i bobl yn y grŵp hwn i herio penderfyniadau neu fethiannau cyrff cyhoeddus, bod y bobl yn y grŵp

hwn o bosib mewn sefyllfa anfanteisiol o ran cyfathrebu'n effeithiol gyda darparwyr, ac felly byddai darparwyr o bosibl yn llai parod i gymryd achosion gyda risg o'r fath. Nododd yr ymatebion bod person anabl yn llai tebygol o fod â'r gallu i weithredu fel ymglyfreithiwr drosto'i hun ac felly byddai'r cynnig hwn yn cael cryn effaith nodedig.

- 12.2.4 Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon am yr effaith ar y Bar Iau sy'n aml yn cael eu cyfarwyddo i ddrafftio seiliau diannod ac felly byddai naill ai angen iddynt gymryd gwaith â risg, neu na fyddai darparwyr bellach yn cyfarwyddo bargyfreithwyr ar geisiadau caniatâd. Roedd yr ymatebion yn dadlau felly y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar BAME a menywod.

Ymateb y Llywodraeth

- 12.2.5 Mae'r Llywodraeth yn parhau o'r farn na ddylid disgwyl i drethdalwyr dalu'r biliau cyfreithiol ar gyfer nifer sylweddol o achosion adolygiad barnwrol gwan na chaiff ganiatâd y llys i barhau gan eu bod yn methu'r prawf ar gyfer caniatâd mewn adolygiad barnwrol.
- 12.2.6 Rydym yn cydnabod bod ymatebwyr wedi nodi pryderon ynghylch effeithiau ar gydraddoldeb y cynnig hwn. Fel y nodwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, rydym yn cynnig cyflwyno disgrisiwn i ganiatáu i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol dalu darparwyr mewn rhai achosion sy'n dod i ben cyn penderfyniad caniatâd. Rydym yn bwriadu ymgynghori ymhellach ar y cynnig pellach hwn, a'r meini prawf a fyddai'n cael eu defnyddio i benderfynu p'un a wneir taliad disgrisiwn. Byddwn yn amlinellu rhagor o fanylion am y cynnig hwn yn fuan.

13 Prawf teilyngdod sifil - dileu cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion ffiniol

13.1 Dadansoddiad Cychwynnol

Effaith ar gleientiaid

- 13.1.1 Roeddem yn rhagweld y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar gleientiaid cymorth cyfreithiol sifil mewn rhai achosion, yn enwedig tai, teulu, mewnfudo, hawliadau yn erbyn awdurdodau cyhoeddus a chyfraith gyhoeddus lle fo'r achos â siawns o lwyddo sydd yn llai na 50%. Mae'r data LAA cyfyngedig yn ymwneud â 100 o achosion y flwyddyn (wedi'u talgrynnu) a fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig yn awgrymu bod cleientiaid anabl a'r rhai 25-64 oed yn cael eu gorgynrychioli o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, ac mae'n bosibl felly eu bod wedi'u heffeithio'n anghymesur gan y cynnig (gan dybio i'r diben hwn bod y cynnig yn gyfystyr â darpariaeth, maen prawf neu arfer). Roeddem yn ystyried unrhyw effaith o'r fath yn gyfiawn am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar ddarparwyr

- 13.1.2 Roeddem yn rhagweld y byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar ddarparwyr gan y byddent yn gweld gostyngiad mewn incwm cymorth cyfreithiol mewn cyswllt â'r achosion y cyfeiriwyd atynt uchod (gan dybio i'r diben hwn bod y cynnig yn gyfystyr â darpariaeth, maen prawf neu arfer). Mae'r cwmnïau hynny a ddynodwyd fel rhai yr effeithir arnynt gan ddata LAA a gesglir (lle mae data cydraddoldeb yn cael ei ddal) yn fwy tebygol o gael eu rheoli gan ddynion nad ydynt yn anabl na'r boblogaeth gyffredinol, ac felly o bosibl eu bod yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynnig. Roeddem yn ystyried unrhyw effaith o'r fath yn gyfiawn am y rhesymau a nodir isod.

Cyfiawnhad

13.1.3 Roeddem yn credu bod y cynnig yn ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Fel mater o egwyddor dylai arian cyhoeddus cyfyngedig gael ei gyfeirio at achosion sydd â siawns o lwyddiant sydd o leiaf 50%. Byddai'r cynnig yn sicrhau bod arian cyhoeddus cyfyngedig yn canolbwyntio ar yr achosion hynny lle mae'n bosibl dweud bod y rhagolygon o lwyddo yn 50% neu fwy.

13.2 Dadansoddiad Terfynol

Prif faterion a godwyd

13.2.1 Roedd pryder eang ymysg ymatebwyr y byddai effeithiau cronus y cynnig hwn o'i ystyried ochr yn ochr â'r prawf preswyllo arfaethedig yn ei gwneud yn llawer mwy anodd i bobl â nodweddion gwarchodedig gymhwyso am gymorth cyfreithiol i herio penderfyniadau a wnaed gan y wladwriaeth. Dadleuodd ymatebwyr na roddwyd digon o ystyriaeth i natur a difrifoldeb yr effeithiau tebygol ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

13.2.2 Dadleuodd ymatebion y byddai'r cynnig yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar bobl â nodweddion gwarchodedig gan eu bod yn cael eu hystyried yn fwy tebygol o fod angen herio penderfyniadau a wneir gan y wladwriaeth. Roedd pobl anabl yn cael eu dynodi fel grŵp gwarchodedig a allai gael eu heffeithio yn arbennig o andwyol gan y cynigion gan nad oes ganddynt y gallu i weithredu fel ymglyfreithwyr drostynt eu hunain a gallant fod yn llai tebygol o fod â digon o adnoddau i dalu am gynrychiolaeth gyfreithiol a ariennir yn breifat.

13.2.3 Roedd rhai ymatebion yn dadlau bod achosion sylweddol o ddiddordeb cyhoeddus ehangach yn fwy tebygol o gynnwys pobl anabl, plant, BAME a chleientiaid benywaidd ac felly byddai'r cynnig yn cael effaith fwy amlwg na'r hyn a nodwyd yn y datganiad cydraddoldeb ar nodweddion gwarchodedig oedran, rhyw, hil ac anabled.

13.2.4 Awgrymodd ymatebwyr eraill na fyddai cleientiaid sy'n byw bywydau anhrefnus, gan gynnwys y rhai sydd ag anabledau dysgu, problemau iechyd meddwl a phobl ddigartref, yn gallu darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i alluogi gwneud asesiad teg o'u rhagolygon o lwyddo. Maent yn ystyried felly bod gan y cynnig y potensial i effeithio'n arbennig ar bobl anabl a phobl agored i niwed.

13.2.5 Roedd un ymateb yn teimlo na fyddai'r ystod lawn o dystiolaeth sydd ei hangen mewn achosion parllys yr ymennydd ar gael yn y cam gwneud cais am gymorth cyfreithiol - yn aml, dim ond ar ôl cyflenwi dystiolaeth feddygol fanwl y mae ar gael. Felly, byddai'r cais am gymorth cyfreithiol yn methu petai achosion ffiniol bellach ddim yn cymhwyso am gyllid, a byddai hyn yn cael effaith ar blant anabl sy'n agored i niwed.

Ymateb y Llywodraeth

13.2.6 Nid ydym yn derbyn y byddai'r cynnig hwn yn ei gwneud yn llawer anos i'r rhan fwyaf o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig fod yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol i herio penderfyniadau a wnaed gan y wladwriaeth. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi cael ei ddarparu i gefnogi'r honiad hwn. Nid ydym ychwaith yn derbyn y byddai'r cynnig yn cael yr effaith fwyaf ar bobl â nodweddion gwarchodedig penodol oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn fwy tebygol o fod angen i herio penderfyniadau a wnaed gan y wladwriaeth.

- 13.2.7 Nid ydym yn derbyn y farn y bydd y rhai sy'n byw bywydau anhrefnus yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynnig. Mae cyfreithwyr wedi hen arfer nodi gwybodaeth angenrheidiol gan y cleientiaid mwyaf agored i niwed - ac nid ydym yn ystyried bod y cynnig hwn yn berthnasol i'w gallu i barhau i wneud hynny. Ymhellach at hynny, nid yw anawsterau casglu tystiolaeth gan gleientiaid penodol yn unigryw i achosion ffiniol; maent yn berthnasol waeth beth fo cryfder na math yr achos.
- 13.2.8 Rydym yn cydnabod bod yr ymatebwyr wedi nodi pryderon ynghylch yr effeithiau ehangach posib ar gydraddoldeb y cynnig hwn ar bobl anabl, plant, BAME a chleientiaid benywaidd. O'r data sydd ar gael, ni allwn fod yn sicr a fydd unigolion BAME yn cael ei effeithio yn anghymesur ac felly rydym yn cydnabod y risg hon. Rydym dal i fod o'r farn na fyddai'n gymesur nac yn ymarferol gwneud newidiadau er mwyn ceisio ymdrin ag unrhyw effaith o'r fath, a bod y cynnig yn gyfiawn am y rhesymau a nodir isod. Nid ydym yn derbyn, fodd bynnag, yn seiliedig ar y dystiolaeth, bod y cynnig yn fwy tebygol o effeithio ar blant a chleientiaid benywaidd, ac felly yn cael effaith fwy amlwg ar y nodweddion gwarchoddedig o oedran a rhyw.
- 13.2.9 Rydym yn cydnabod, ar ôl dadansoddi data achosion caeedig 2011-12, bod cleientiaid anabl a'r rhai 25-64 oed yn cael eu gorgynrychioli o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol ac felly gall gael eu heffeithio'n anghymesur. Fodd bynnag, i'r graddau bod y cynnig yn arwain at unrhyw anfantais benodol i bobl â'r nodweddion gwarchoddedig hyn, rydym wedi dod i'r casgliad na fyddai'n gymesur nac yn ymarferol i wneud newidiadau er mwyn ceisio ymdrin ag unrhyw effaith o'r fath. Rydym o'r farn bod y cynnig yn gyfiawn fel dull cymesur o gyflawni'r nodau cyfreithlon a nodir ym mharagraff 6.3. Drwy ei gwneud yn ofynnol i achosion fod â siawns o lwyddo sydd o leiaf 50%, mae'n targedu adnoddau cyfyngedig ar yr achosion sy'n cyfiawnhau hynny fwyaf.

Rydym yn ymdrin â'r potensial am effeithiau cronus yn adran 20 isod.

14 Gostwng ffioedd mewn Achosion Costus Iawn Troseddau (VHCCs)

14.1 Dadansoddiad Cychwynnol

Effaith ar ymglyfreithwyr

- 14.1.1 Rydym yn rhagweld y bydd effaith y cynnig hwn yn andwyol, gan y byddai ymglyfreithwyr VHCC (Trosedd) yn gweld gostyngiad mewn incwm cymorth cyfreithiol. Er mwyn nodi'r potensial y bydd darparwyr yn wynebu anfantais arbennig (gan dybio i'r diben hwnnw bod y bwriad yn gyfystyr â darpariaeth, maen prawf neu arfer), rydym wedi cyfatebu data arolwg LSRC i 150 o'r 224 o gwmnïau cyfreithiwr (cyfradd gyfatebol o 68%) sydd, ar ôl gwneud gwaith VHCC (Trosedd) yn 2011/12, o bosibl yn mynd i gael eu heffeithio gan y cynnig. Yn seiliedig ar y data sydd ar gael, roedd cyfansoddiad rheolaethol y cwmnïau hyn fel a ganlyn:
- 65% Gwyn-Prydeinig, 27% BAME a 7% rheolaeth mwyafrif wedi'i hollti;
 - 77% yn ddynion, 11% yn fenywod a 12% rheolaeth mwyafrif wedi'i hollti; a
 - 7% o gwmnïau yn cyflogi rheolwr sy'n sâl neu'n anabl.
- 14.1.2 Mae'r data yn dangos bod BAME a darparwyr sy'n cael eu rheoli gan ddynion mewn mwyafrif yn fwy tebygol o ddarparu gwaith VHCC (Trosedd) (o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol) ac felly gallent wynebu effaith anghymesur. Nid oedd

unrhyw ddata cyhoeddedig ar oedran ymgyfreithwyr sy'n ymgymryd ag VHCCs, fodd bynnag mae'n debygol bod cydberthynas rhwng oedran a phrofiad. I'r graddau bod VHCCs yn fwy tebygol o gael eu cynnal gan ymgyfreithwyr mwy profiadol, efallai y bydd y cynnig yn fwy tebygol o effeithio ar ymgyfreithwyr hŷn. Rydym yn ystyried bod cyfiawnhad i unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar fargyfreithwyr

14.1.3 Rydym yn rhagweld y bydd effaith y cynnig polisi hwn yn andwyol, gan y bydd bargyfreithwyr yn gweld gostyngiad mewn incwm cymorth cyfreithiol wrth ymgymryd â gwaith VHCCs (Trosedd). Roedd data ar y prif faes ymarfer (lle mae'r bargyfreithwyr yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser) ac a godwyd o "Bywydau Gwaith Bargyfreithwyr '- Arolwg Dwyflynyddol y Bar 2011" yn dangos bod dynion a rhai o ethnigrwydd Gwyn yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n ymwneud â gwaith troseddol o'i gymharu gyda'r boblogaeth yn gyffredinol. Yn ogystal, mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed fel rhan o'r 'Ymgynghoriad Achos Cost Uchel lawn (Trosedd) - 2009' yn dangos, lle nodir hynny, bod y rhan fwyaf o eiriolwyr sy'n cynnal VHCCs yn wyn, yn ddynion, yn 36-55 oed neu'n rhai nad ydynt yn anabl. Roedd hyn yn awgrymu efallai y bydd yn cael effaith anghymesur ar bobl o'r fath. Nid oedd unrhyw ddata a gyhoeddwyd ar flynyddoedd galwad ac a seiliwyd ar oedran, fodd bynnag mae'n debygol bod cydberthynas rhwng oedran a phrofiad. I'r graddau y mae VHCCs yn fwy tebygol o gael eu cynnal gan fargyfreithwyr mwy profiadol, daethom i'r casgliad y gall y cynnig fod yn fwy tebygol o effeithio ar fargyfreithwyr hŷn. Rydym yn ystyried bod cyfiawnhad i unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar gleientiaid

14.1.4 Nid oeddem yn rhagweld unrhyw effaith anuniongyrchol ar gleientiaid. Nid oeddem yn gallu adnabod y nodweddion gwarchoddedig i gleientiaid VHCC (Trosedd) a fyddai'n cael eu heffeithio petai'r risgiau i'r cyflenwad cynaliadwy yn cael eu gwireddu yng nghyswllt nodi'r potensial ar gyfer unrhyw anfantais benodol. Fodd bynnag, gan fod dynion a phobl BAME yn cael eu gorgynrychioli ymysg cleientiaid cymorth cyfreithiol troseddol yn gyffredinol o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol efallai y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur arnynt. Mae'n anodd dod i gasgliadau cadarn ynghylch unrhyw anfantais benodol ar gyfer pobl anabl oherwydd y nifer uchel o gleientiaid cymorth cyfreithiol troseddol nad oes gennym ddata perthnasol iddynt ac felly ni allwn ddiystyru effaith anghymesur posibl o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Rydym yn ystyried bod cyfiawnhad i unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a nodir isod.

Cyfiawnhad

14.1.5 Roeddem yn cydnabod yr effaith anghymesur bosib ar BAME a darparwyr dan reolaeth dynion yn bennaf a hefyd ar fargyfreithwyr gwyn ac ymgyfreithwyr hŷn. Fodd bynnag, rydym yn credu bod y cynnig yn ddull cymesur o gyflawni'r nod cyfreithlon. Drwy fynd i'r afael â chost yr achosion oedd yn rhedeg hiraf a'r rhai drutaf, daethom i'r casgliad y byddai'r gostyngiadau yn gwella hyder y cyhoedd yn y cynllun ac yn darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

14.2 Dadansoddiad Terfynol

Materion allweddol a godwyd

14.2.1 Nid oedd pryderon cydraddoldeb yn nodwedd sylweddol ar ymatebion mewn perthynas â'r cynnig hwn, er bod nifer wedi codi pryderon am effaith y pecyn cyffredinol o gynigion ffioedd troseddol ar y Bar iau. Awgrymodd yr ymgynghoreion, yn groes i'n disgwyliadau, y byddai effaith gyfunol ein cynigion ar gyfer ffioedd troseddol a chynigion cystadleuaeth yn cael yr effaith fwyaf ar y Bar iau. Awgrymwyd y byddai'r effeithiau posibl hyn yn cael effaith anghymesur ar fargyfreithwyr benywaidd a BAME, sy'n cael eu cynrychioli yn well ymhlith y Bar iau.

Ymateb y Llywodraeth

14.2.2 Byddwn yn ymdrin ag effaith gronol y diwygiadau i'r ffioedd troseddol wrth ymateb i'r ymgynghoriad pellach ar y cynigion diwygiedig ar gyfer cystadleuaeth a ffioedd eiriolaeth droseddol. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn y byddai effaith gyfunol y cynigion o reidrwydd yn cael effaith anghymesur ar fenywod, ar BAME neu ar fargyfreithwyr ifanc.

14.2.3 Ar ben hynny, prif gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder, o reidrwydd, wrth iddi weinyddu'r system cymorth cyfreithiol, yw darparu cymorth cyfreithiol teg ac effeithiol i'r cleientiaid hynny sydd fwyaf mewn angen. Mae lefelau penodol o gynrychiolaeth mewn meysydd ymarfer penodol yn y Bar ac ym mhroffesiwn y cyfreithwyr yn bennaf yn gyfrifoldeb y Bar a Chymdeithas y Gyfraith, yn ogystal â'r angen i sicrhau cyfle cyfartal ymhob maes ymarfer. Er bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwybodol o'r angen i annog y rhai sydd â nodwedd a ddiogelir i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da yn gyffredinol, ni chred y Weinyddiaeth Gyfiawnder mai taliadau cymorth cyfreithiol yw'r offeryn polisi mwyaf priodol i sicrhau amrywiaeth yn y proffesiynau neu'r farnwriaeth.

Casgliad

14.2.4 Mae ein hasesiad o effaith y cynnig hwn yn parhau i fod fel hwnnw a nodir yn ein dadansoddiad cychwynnol. Rydym yn cydnabod y potensial i gael effaith anghymesur ar BAME a darparwyr a reolir gan fwyafrif o ddynion, ar fargyfreithwyr gwyn a gwrywaidd ac ar ymglyfreithwyr hŷn. Os bydd y cynnig yn creu anfantais benodol, rydym yn ystyried nad yw'n gymesur nac yn ymarferol i newid y cynnig i liniaru'r effaith, a bod y gostyngiad yn y ffioedd yn cael ei gyfiawnhau gan y nodau cyfreithlon a nodir ym mharagraff 6.3. Drwy fynd i'r afael â chost yr achosion oedd yn rhedeg hiraf a'r rhai mwyaf drud, mae'r gostyngiadau yn sicrhau bod y cynllun cymorth cyfreithiol yn darparu gwerth am arian ac yn hyrwyddo hyder y cyhoedd ynddo.

15 Adfocadau Lluosog

15.1 Dadansoddiad Cychwynnol

Effaith ar fargyfreithwyr

15.1.1 Yng nghyswllt nifer o'r achosion lle mae dau gwmsler yn cael eu cyfarwyddo ar hyn o bryd, roeddem yn disgwyl, yn lle hynny, y rhoddid cyfarwyddyd i un person iau neu i un QC o ganlyniad i'n polisi. Mae'r penderfyniad i benodi adfocadau ychwanegol yn cael ei wneud gan y llysoedd unigol, ac nid yw gwybodaeth am gydraddoldeb yn cael ei chasglu ar gyfer adfocadau. Felly nid ydym yn cadw gwybodaeth a fyddai wedi caniatáu i ni adnabod nodweddion gwarchoddedig bargyfreithwyr yn gweithio ar yr

achosion hyn. Dangosodd data arolwg ar y prif faes ymarfer (lle mae bargyfreithwyr yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn gweithio) bod dynion a rhai o ethnigrwydd Gwyn yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y rhai sy'n ymwneud â gwaith troseddol o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod cyfran uwch o fargyfreithwyr benywaidd a BAME ymysg aelodau iau'r Bar.

- 15.1.2 Gan fod yn rhaid i QCs ddangos bod ganddynt sgiliau penodol cyn cael eu penodi i'r rheng honno, ac fel y gall fod yna gyberthynas rhwng oed a phrofiad, daethom i'r casgliad y gallai'r polisi fod o fudd anuniongyrchol i fargyfreithwyr hŷn. Mae'n debygol y bydd llai o waith ar gael ar gyfer cwnsleriaid iau, fodd bynnag, os bydd dau gwnsler iau, neu QC gyda chymorth cwnsler iau, yn cael eu cyfarwyddo mewn llai o achosion. I'r graddau y mae cyfran uwch o fenywod a bargyfreithwyr BAME ymhlith yr aelodau iau o'r Bar, gallent gael eu taro'n anghymesur. Yn ogystal, efallai bod cwnsler iau yn llai profiadol ac fel y gall fod yna gyberthynas rhwng oed a phrofiad, gall bargyfreithwyr iau gael eu taro'n anghymesur. Rydym yn ystyried bod cyfiawnhad i unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar Adfocadau Llys Uwch

- 15.1.3 Ychydig o ddata oedd gennym am gydraddoldeb yng nghyswllt Adfocadau Llysoedd Uwch yr oedd y cynigion hyn yn cael effaith arnynt, ond roeddem yn cydnabod yn gyffredin â'r cyfan o'r rheiny sy'n darparu cymorth cyfreithiol, mae cwmnïau yr effeithir arnynt yn fwy tebygol o gael eu rheoli gan BAME, dynion ac unigolion nad ydynt yn anabl, nag yn y boblogaeth yn gyffredinol. Roeddem yn ystyried bod cyfiawnhad i unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar gleientiaid

- 15.1.4 Nod y cynnig hwn yw sicrhau bod adfocadau lluosog yn cael eu cyfarwyddo mewn achosion lle bo angen hynny'n unig. Dylai achosion lle nad oes angen gwasanaethau o'r fath gael eu cymryd gan eiriolwr yn meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol. Yn unol â hynny, er ein bod yn disgwyl i'r polisi hwn arwain at lai o achosion gyda mwy nag un eiriolwr yn cael ei gyfarwyddo, nid oeddem yn rhagweld y byddai unrhyw effaith uniongyrchol na negyddol ar gleientiaid. Efallai y bydd effaith ar gleientiaid os bydd y newidiadau yn cael effaith ar gynaliadwyedd y farchnad cymorth cyfreithiol a hynny'n arwain at effaith andwyol ar ddarpariaeth y gwasanaeth yn y farchnad. Petai'r risgiau hyn yn cael eu gwireddu, daethom i'r casgliad na fyddai cleientiaid yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd unrhyw nodweddion gwarchodedig.
- 15.1.5 Nid oeddem yn gallu adnabod nodweddion gwarchodedig cleientiaid a fyddai'n cael eu heffeithio petai'r risgiau i gyflenwad cynaliadwy yn cael eu gwireddu a hynny gyda golwg ar nodi'r potensial ar gyfer unrhyw anfantais benodol. Fodd bynnag, gan fod dynion a phobl BAME yn cael eu gorgynrychioli ymysg cleientiaid cymorth cyfreithiol troseddol yn gyffredinol o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol efallai y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur arnynt. Mae'n anodd dod i gasgliadau cadarn ynghylch unrhyw anfantais benodol ar gyfer pobl anabl oherwydd y nifer uchel o gleientiaid cymorth cyfreithiol troseddol nad oes gennym ddata perthnasol iddynt ac felly ni allwn ddiystyru effaith anghymesur posibl o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Rydym yn ystyried bod cyfiawnhad i unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a nodir isod.

Cyfiawnhad

15.1.6 Roeddem yn cydnabod bod adfocadau iau yn fwy tebygol o fod dan anfantais oherwydd y cynigion, ac o ganlyniad gall bargyfreithwyr iau, menywod a BAME fod yn fwy tebygol o wynebu effaith anghymesur dan y cynigion. Petai'r cynnig yn arwain at anfantais benodol i bobl â nodweddion gwarchoddedig, roeddem yn credu bod y cynnig yn ddull cymesur o gyflawni nodau cyfreithlon. Drwy gyflawni dull mwy cymesur o ddefnyddio cyngor lluosog, roedd y cynnig hwn yn cefnogi ein nod o dargedu arian cyhoeddus prin ar yr achosion lle mae gwir angen.

15.2 Dadansoddiad Terfynol

Materion allweddol a godwyd

15.2.1 Nid oedd pryderon cydraddoldeb yn nodwedd sylweddol ar ymatebion mewn perthynas â'r cynnig hwn, er, fel y nodir hynny mewn perthynas â'r cynnig VHCC uchod, roedd nifer yn codi pryderon am effaith y pecyn cyffredinol o gynigion ffioedd troseddol ar y Bar iau, gan awgrymu y byddai effaith gyfunol ein cynigion ar gyfer ffioedd troseddol a chynigion cystadleuaeth yn cael yr effaith fwyaf ar y Bar iau, ac yn cael effaith anghymesur ar fargyfreithwyr benywaidd a BAME.

Ymateb y Llywodraeth

15.2.2 Byddwn yn ymdrin ag effaith gronol y diwygiadau i'r ffioedd troseddol wrth ymateb i'r ymgynghoriad pellach ar y cynigion diwygiedig ar gyfer cystadleuaeth a ffioedd eiriolaeth droseddol. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn y byddai effaith gyfunol y cynigion o reidrwydd yn cael effaith anghymesur ar fenywod, ar BAME neu ar fargyfreithwyr ifanc.

15.2.3 Fel y nodwyd uchod, prif gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth weinyddu'r system cymorth cyfreithiol, o reidrwydd, yw darparu cymorth cyfreithiol teg ac effeithiol i'r cleientiaid hynny sydd ei angen fwyaf. Er ei bod yn ymwybodol o'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da, nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn credu mai taliadau cymorth cyfreithiol yw'r offeryn polisi mwyaf priodol i gyflawni amrywiaeth o fewn y proffesiynau neu'r farnwriaeth. Mae lefelau penodol o gynrychiolaeth mewn meysydd ymarfer penodol yn y Bar a'r proffesiwn cyfreithwyr yn bennaf yn gyfrifoldeb y Bar a Chymdeithas y Gyfraith, yn ogystal â'r angen i sicrhau cyfle cyfartal ymhob maes ymarfer.

Casgliad

15.2.4 Mae ein hasesiad o effaith y cynnig hwn yn parhau i fod fel hwnnw yn ein dadansoddiad cychwynol. Rydym yn cydnabod bod adfocadau iau yn fwy tebygol o fod dan anfantais oherwydd y cynigion, ac o ganlyniad gall bargyfreithwyr iau, menywod a BAME fod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio yn anghymesur. Petai'r cynnig yn arwain at anfantais arbennig i bobl o'r fath, nid ydym yn credu y byddai'n gymesur nac yn ymarferol gwneud newidiadau er mwyn lleihau effaith o'r fath ac rydym yn ystyried bod y cynnig yn ddull cymesur o gyflawni'r nodau cyfreithlon a nodir ym mharagraff 6.3. Drwy sicrhau ffordd fwy cymesur o ddefnyddio cyngor lluosog, mae'r cynnig yn cefnogi ein nod o dargedu arian cyhoeddus prin ar yr achosion lle mae'r cyfiawnhad cryfaf o blaid hynny.

16. Gostwng ffioedd cynrychiolaeth sefydlog a delir i gyfreithwyr mewn achosion sy'n cael sylw yn y Cynllun Ffioedd Graddedig Achosion Gofal

16.1 Dadansoddiad Cychwynnol

Effaith ar ddarparwyr

16.1.1 Roeddem yn rhagweld y bydd effaith y cynnig hwn yn andwyol, gan y byddai cyfreithwyr yn gweld gostyngiad mewn incwm cymorth cyfreithiol o'r holl achosion hyn. Er mwyn nodi'r potensial y bydd darparwyr yn wynebu anfantais arbennig (gan dybio i'r diben hwnnw bod y bwriad yn gyfystyr â darpariaeth, maen prawf neu arfer), rydym wedi cyfatebu data arolwg LSRC i 1,403 o'r 2,103 o gwmnïau cyfreithwyr (cyfradd gyfatebol o 67%) sydd, ar ôl gwneud gwaith cynrychioli mewn achosion cyfraith teulu cyhoeddus yn 2011/12, o bosibl wedi cael eu heffeithio gan y cynnig. Yn seiliedig ar y data sydd ar gael, roedd cyfansoddiad rheolaethol y cwmnïau hyn fel a ganlyn:

- 90% Gwyn-Prydeinig, 7% BAME a 3% rheolaeth mwyafrif wedi'i hollti;
- 65% yn ddynion, 17% yn fenywod a 18% rheolaeth mwyafrif wedi'i hollti;
- 5% o gwmnïau yn cyflogi rheolwr sy'n sâl neu'n anabl.

Fel sy'n wir am yr holl ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil a theulu y mae data ar gael iddynt, roedd y rhai hynny sy'n rheoli cwmnïau sy'n ymwneud â gwaith cyfraith teulu cyhoeddus (lle mae data cydraddoldeb yn cael ei gynnal) yn fwy tebygol o fod yn ddynion, a heb fod yn anabl nac yn y boblogaeth yn gyffredinol. Daethom i'r casgliad y gallai'r darparwyr hyn wynebu effaith anghymesur ond bod cyfiawnhad i unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar gleientiaid

16.1.2 Nid oeddem yn rhagweld unrhyw effaith anuniongyrchol ar gleientiaid am y rhesymau a nodir uchod. Fodd bynnag, petai unrhyw anfantais yn codi, gan fod menywod, pobl BAME a'r rhai sy'n sâl neu'n anabl yn cael eu gorgynrychioli fel defnyddwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, daethom i'r casgliad y gallent gael eu taro'n anghymesur gan y cynnig. Fodd bynnag, rhaid i'r asesiad gael ei drin yn ofalus oherwydd y gyfran uchel o unigolion yn y grŵp y ceir effaith arno - rhai nad oes data ar eu cyfer, yn enwedig yn achos hil ac anabledd. Rydym yn ystyried bod cyfiawnhad i unrhyw effaith o'r fath am y rhesymau a nodir isod.

Casgliad

16.1.3 Roeddem yn cydnabod y gallai cwmnïau a reolir gan fwyafrif o ddynion neu bobl nad ydynt yn anabl gael eu heffeithio yn anghymesur gan y cynnig. Fodd bynnag, credwn fod y cynnig yn ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Drwy fanteisio ar yr arbedion effeithlonrwydd yn y system, mae'r cynnig yn sicrhau'n well bod gwariant cyhoeddus ar gymorth cyfreithiol yn cynrychioli gwerth am arian.

16.2 Dadansoddiad Terfynol

Materion allweddol a godwyd

16.2.1 Y pryder cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr oedd y byddai'r cynnig hwn yn effeithio ar grwpiau o bobl sy'n agored i niwed, yn enwedig plant. Roedd ymatebwyr o'r farn os yw darparwyr yn gadael y farchnad o ganlyniad i doriad ffioedd, byddai hyn yn cael effaith uniongyrchol ar argaeledd cyngor a ariennir yn gyhoeddus a datrys achosion teulu mewn modd amserol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai cyfraith teulu cyhoeddus gael ei gydnabod fel maes arbenigol cyfraith teulu gan fod toriadau ffioedd blaenorol wedi arwain at i weithwyr proffesiynol medrus iawn dynnu allan o waith cymorth cyfreithiol. Byddai toriad ffioedd ychwanegol yn gwaethygu'r broblem hon, a gallai hyn gael yr effaith fwyaf ar fenywod, BAME a chleientiaid cymorth cyfreithiol anabl.

Ymateb y Llywodraeth

16.2.2 Mae'r Llywodraeth yn anghytuno â'r farn y bydd gostyngiad yn y ffi cynrychiolaeth gyfreithiol sefydlog i gyfreithwyr mewn achosion teulu cyfraith gyhoeddus yn cael effaith andwyol ar gleientiaid, gan gynnwys plant, menywod, BAME a phobl anabl. Fel y nodwyd ym mharagraff 6.9 uchod, nid ydym yn ystyried y bydd yn cael effaith andwyol ar gynaliadwyedd y farchnad cymorth cyfreithiol gan arwain at effaith andwyol ar ddarpariaeth gwasanaeth. Petai'r math hwn o ganlyniad yn cael ei wireddu, nid ydym yn credu y byddai'n gymesur nac yn ymarferol newid y cynnig i leihau'r effaith ac rydym yn ystyried ei fod yn cael ei gyfiawnhau am y rhesymau a nodir isod.

Casgliad

16.2.3 Ar y cyfan, mae ein hasesiad o effaith y cynnig hwn yn parhau i fod fel y nodir yn ein dadansoddiad cychwynnol. Rydym yn cydnabod y gall cwmnïau a reolir gan fwyafrif o ddynion neu bobl nad ydynt yn anabl gael eu heffeithio yn anghymesur gan y cynnig. Rydym yn cydnabod ymhellach gan fod cyfran uchel o ddeiliaid contract teulu cyhoeddus yn fenywod, efallai y byddant yn cael eu heffeithio'n anghymesur (o'i gymharu â deiliaid contract teulu cyhoeddus yn gyffredinol). Petai'r cynnig yn arwain at anfantais arbennig i bobl o'r fath, nid ydym yn credu y byddai'n gymesur nac yn ymarferol gwneud newidiadau er mwyn lleihau effaith o'r fath ac rydym yn ystyried y cynnig yn ddull cymesur o gyflawni'r nodau cyfreithlon a nodir ym mharagraff 6.3. Drwy fanteisio ar yr arbedion effeithlonrwydd yn y system, mae'r cynnig yn sicrhau'n well bod y gwariant cyhoeddus ar gymorth cyfreithiol yn cynrychioli gwerth am arian.

17 Cysoni ffioedd a delir i fargyfreithwyr hunangyflogedig ac adfocadau eraill sy'n ymddangos mewn achosion sifil (heb fod yn rhai teulu)

17.1 Dadansoddiad Cychwynnol

Effaith ar fargyfreithwyr

17.1.1 Byddai Bargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith cymorth cyfreithiol sifil yn gweld gostyngiad yn yr isafswm lefel ffioedd gwarantedig a dderbynnir ar gyfer yr un llwyth achosion, ond gallant dderbyn cynnydd yn y ffi os yw'r meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Gallai bargyfreithwyr yr effeithir arnynt brofi effeithiau gwahanol gan ddibynnu ar eu lleoliad, lefel y llys lle mae'r achos yn cael ei glywed, lefel y ffioedd

maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd, a p'un a yw'r gwaith maent yn ei wneud fel rheol yn denu ychwanegiad, ac os felly, lefel yr ychwanegiad hwnnw.

- 17.1.2 Dengys data "Bywydau Gwaith Bargyfreithwyr - Arolwg Dwyflynyddol y Bar 2011" bod dynion a'r rheiny o ethnigrwydd gwyn yn cael eu gorgynrychioli ymysg poblogaeth bargyfreithwyr, o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol ac felly'n gyffredinol, effeithir arnynt yn anghymesur gan y cynnig. Fodd bynnag, mae'r cynnig hwn yn debygol o gael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar fargyfreithwyr sy'n ymddangos mewn llysoedd sirol. Er nad oes unrhyw ddata ar nodweddion gwarchoddedig bargyfreithwyr sy'n ymddangos yn benodol yn y llysoedd hynny, roeddem o'r farn ei bod yn debygol mai aelodau iau'r Bar fyddai'r rhain, ac felly mae'n debygol y byddai menywod neu BAME a bargyfreithwyr iau yn cael eu gorgynrychioli ymhlith y boblogaeth o fargyfreithwyr ar y lefel honno o'i gymharu â'r Bar sifil yn ei gyfanrwydd, ac felly byddai effaith anghymesur arnynt hwy. Byddai maint yr effaith ar fargyfreithwyr yn dibynnu ar faint maent yn dibynnu ar incwm o waith cymorth cyfreithiol sifil. Rydym yn ystyried bod unrhyw effaith o'r fath yn cael ei chyfiawnhau am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar gleientiaid

- 17.1.3 Nid oeddem yn rhagweld unrhyw effaith anuniongyrchol ar gleientiaid am y rhesymau a nodir uchod. Roeddem yn ystyried fod hyn yn annhebygol oherwydd y trefniadau sicrhau ansawdd sydd yn eu lle, gan gynnwys rôl y cyfreithiwr cyfarwyddo, y llys wrth weinyddu cyfiawnder yn effeithiol, ac argaeledd adfocadau cyfreithiwr. Fodd bynnag, petai unrhyw anfantais yn cael ei gwireddu, fel menywod, pobl BAME a'r rhai sy'n sâl neu'n anabl yn cael eu gorgynrychioli fel defnyddwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, daethom i'r casgliad y gallant gael eu heffeithio yn anghymesur gan y cynnig. Fodd bynnag, rhaid i'r asesiad hwn gael ei drin yn ofalus oherwydd y gyfran uchel o unigolion yn y grŵp yr effeithir arnynt lle nad oes unrhyw ddata, yn enwedig ar gyfer hil ac anabledd. Rydym yn ystyried bod unrhyw effaith o'r fath gael ei chyfiawnhau am y rhesymau a nodir isod.

Cyfiawnhad

- 17.1.4 Roeddem yn cydnabod bod dynion a phobl o ethnigrwydd Gwyn yn cael eu gorgynrychioli yn y boblogaeth yr effeithir arni yn gyffredinol ac y gall bargyfreithwyr benywaidd neu BAME a bargyfreithwyr iau gael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynnig. Fodd bynnag, roeddem yn credu bod y cynnig yn ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Drwy sicrhau bod cyfraddau tebyg yn cael eu talu am wasanaethau tebyg, byddai'r cynnig yn sicrhau'n well fod gwariant cyhoeddus ar gymorth cyfreithiol yn cynrychioli gwerth am arian ac yn hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y cynllun. Ar ben hynny, byddai'n hyrwyddo cyfle cyfartal.

17.2 Dadansoddiad Terfynol

Materion allweddol a godwyd

- 17.2.1 Nododd nifer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod y Llywodraeth wedi methu â chymryd i ystyriaeth y byddai'r cynnig hwn yn niweidiol i gyfansoddiad y Bar. Roedd ffioedd is yn debygol o gyfyngu gallu pobl o gefndiroedd cymdeithasol-economaid tlawd i fynd i mewn i'r Bar ac felly ni fyddai hynny'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Yn ogystal, awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y byddai gostyngiadau pellach mewn ffioedd yn arwain at i Siambrau dynnu'n ôl tymor prawf i fargyfreithwyr, rhywbeth a

oedd yn digwydd yn barod, yn enwedig y tu allan i Lundain. Byddai hyn felly yn cael effaith anghymesur ar fenywod a grwpiau BAME.

Ymateb y Llywodraeth

- 17.2.2 Mae'r Llywodraeth yn dal i fod o'r farn bod y diwygiad arfaethedig yn gynaliadwy, a'i fod yn cynnig cydbwysedd priodol rhwng yr angen i leihau gwariant i'r pwrs cyhoeddus tra'n sicrhau bod cleientiaid yn cael mynediad at wasanaethau cymorth cyfreithiol. Mae'r Llywodraeth yn cytuno y gallai bargyfreithwyr sy'n cael eu heffeithio o bosibl brofi effeithiau gwahanol gan ddibynnu ar eu lleoliad, lefel y ffioedd y maent yn eu derbyn ar hyn o bryd, a p'un a yw'r gwaith maent yn ei wneud fel rheol yn denu ychwanegiad, ac os felly, lefel yr ychwanegiad hwnnw.
- 17.2.3 Dengys dadansoddiad o broffil y proffesiwn Bar hunangyflogedig⁷⁷ bod y rhan fwyaf o fargyfreithwyr yn tueddu i fod wedi'u lleoli yn Ne Ddwyrain Lloegr, gyda phroffil rhywedd sy'n wrywaidd yn bennaf (tua 68% o'r holl fargyfreithwyr hunangyflogedig) o gymharu â menywod (sy'n cyfateb i tua 32%). O ran ethnigrwydd, mae'r proffesiwn yn tueddu i fod yn wyn yn bennaf (80%) o'i gymharu â 10% sy'n cael eu categoreiddio fel BAME a 10% lle nad oes data wedi cael ei gofnodi.
- 17.2.4 Amcangyfrifir mai'r gyfran o fargyfreithwyr sy'n gwneud gwaith a ariennir cyhoeddus yn y maes sifil yw tua 19%. Yn absenoldeb data ar nodweddion gwarchoddedig penodol y bargyfreithwyr a allai gael eu heffeithio gan y cynnig, rydym wedi asesu effaith ar sail yr hyn a ellir ei ragweld yn rhesymol. Mae'n debygol felly y gall dynion a rhai o ethnigrwydd gwyn gael eu heffeithio'n anghymesur, gan fod y grwpiau hyn yn cael eu gorgynrychioli o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, yr ydym yn cydnabod, fel o'r blaen, fod y cynnig yn debygol o gael effaith fwy arwyddocaol ar aelodau iau'r Bar (sy'n fwy tebygol o ymddangos yn y llysoedd sirol) ac felly byddai'n cael effaith anghymesur ar bobl ifanc, menywod, a phobl BAME.
- 17.2.5 Mewn ymateb i'r materion a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, mae'r Llywodraeth wedi nodi bod ymchwil a wnaed gan y Bwrdd Safonau Bar o'r enw "A comparison between the backgrounds of Pupillage Portal applicants in 2009 and registered pupils in 2011" yn dangos bod disgwyl i chwarter o ddisgyblion 2010/11 fod heb unrhyw ddyled ar ddiwedd eu tymor prawf, tra disgwylir i 12% fod â £30,000 o ddyled, sy'n is na disgyblion yn 2009. Dangosyddion eraill a ddefnyddiwyd gan y Bar wrth benderfynu ar ffactorau cymdeithasol-economaidd oedd y math o ysgol a fynychwyd ac addysg rhieni. O ran yr ysgol a fynychwyd gan ddisgyblion yn 2011, roedd 58.4% yn dod o ysgolion y wladwriaeth sydd fel petai'n awgrymu nad yw disgyblion o ysgolion y wladwriaeth yn cael eu tangynrychioli. Dylid nodi, fodd bynnag, bod nifer y disgyblion wedi gostwng ers 2007/8. Mae'r Llywodraeth o'r farn felly bod unrhyw ostyngiad pellach yn y nifer o ddisgyblion o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd is yn fwy dibynnol ar ddemograffeg y Bar, sy'n parhau i fod yn wyn a gwrywaidd yn bennaf (hyd yn oed drwy leoliadau tymor prawf).
- 17.2.6 Yn ogystal, dengys yr Arolwg Baromedr Bar bod 86% o'r ymatebwyr o'r farn bod gormod o fyfyrwyr yn cael eu recriwtio i Gwrs Hyfforddiant Proffesiynol y Bar ar gyfer nifer y lleoliadau tymor prawf sydd ar gael, a chred 49% nad oes digon o leoliadau tymor prawf i gefnogi'r galw am y gwaith i'r dyfodol. Mae hyn yn ymddangos yn

⁷⁷ Gwybodaeth wedi ei thynnu o 'Bar Barometer Trends in the profile of the Bar' (Tachwedd 2012) a 'Barristers' working lives – A biennial survey of the Bar 2011'

anghyson yn enwedig gan fod yr un arolwg yn dangos bod 90% o Siambrau yn cynnig tymor prawf. At ei gilydd, ymarferwyr unigol yw'r rhai nad ydynt yn cynnig tymor prawf. Lle cynnigir tymor prawf, y nifer cyfartalog yw 2.4 fesul Siambr, gyda rhywfaint o gydberthynas gyda maint y siambrau, yn ôl y disgwyl (mae siambrau gyda llai na 50 o aelodau yn nodweddiadol ag 1.8 tymor prawf, a'r rhai sydd â mwy na 50 o aelodau â 2.8 tymor prawf).

17.2.7 Os yw nifer y tymhorau prawf yn parhau i ostwng, fel y rhagwelwyd yn yr arolwg Baromedr Bar, ond fod 90% o Siambrau yn parhau i gynnig tymor prawf, nid ydym yn ystyried bod ailstrwythuro ffioedd yn lleihau cyfle i'r rhai sydd am fynd i mewn i'r proffesiwn. Mae nifer y bargyfreithwyr presennol sy'n gwneud gwaith a ariennir yn gyhoeddus yn y maes sifil (heb fod yn waith teulu) yn is (19%) na bargyfreithwyr teulu a throeddol gan fod gwaith sifil (heb fod yn waith teulu) yn cynnig mwy o gyfle ar gyfer gwaith a ariennir yn breifat. Felly mae llai o ddibyniaeth ar waith a ariennir yn gyhoeddus gan fargyfreithwyr yn y maes sifil (heb fod yn waith teulu). Yn ogystal, mae nifer y disgyblion benywaidd a elwir i'r Bar wedi bod yn gostwng yn raddol ers 2005/6, fel y mae nifer y disgyblion BAME. Unwaith eto, byddai hyn yn awgrymu bod hyn yn adlewyrchu demograffeg y Bar.

17.2.8 Mae lefelau penodol o gynrychiolaeth mewn meysydd ymarfer penodol y Bar a'r proffesiwn cyfreithwyr yn gyfrifoldeb i'r Bar a Chymdeithas y Gyfraith yn bennaf, fel y mae'r angen i sicrhau cyfle cyfartal i bob maes ymarfer. Er bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwybodol o'r angen i annog y rhai sydd â nodwedd warchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, ac am yr angen i hybu cyfle cyfartal yn gyffredinol, nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn credu mai taliadau cymorth cyfreithiol yw'r offeryn polisi mwyaf priodol i gyflawni amrywiaeth yn y proffesiynau neu'r farnwriaeth.

Casgliad

17.2.9 Mae ein hasesiad o effaith y cynnig hwn yn parhau fel y nodir yn ein dadansoddiad cychwynnol. Roeddem yn cydnabod bod dynion a phobl o ethnigrwydd Gwyn yn cael eu gorgynrychioli yn y boblogaeth yr effeithir arni yn gyffredinol, ac y gall bargyfreithwyr benywaidd neu BAME a bargyfreithwyr iau gael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynnig. Petai'r cynnig yn arwain at anfantais arbennig i bobl o'r fath, nid ydym yn credu y byddai'n gymesur nac yn ymarferol gwneud newidiadau er mwyn lleihau effaith o'r fath, ac rydym yn ystyried y cynnig yn ddull cymesur o gyflawni'r nodau cyfreithlon a nodir ym mharagraff 6.3. Drwy sicrhau bod cyfraddau tebyg yn cael eu talu am wasanaethau tebyg, mae'r cynnig yn sicrhau'n well bod gwariant cyhoeddus ar gymorth cyfreithiol yn cynrychioli gwerth am arian ac yn hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y cynllun.

18 Cael gwared â'r codiad mewn apeliadau mewnfudo a lloches yr Uwch Dribiwnlys

18.1 Dadansoddiad Cychwynnol

Effaith ar gleientiaid

18.1.1 Nid oeddem yn rhagweld unrhyw effaith anuniongyrchol ar gleientiaid. Fodd bynnag, petai unrhyw anfantais yn cael ei gwireddu, gan fod menywod, pobl BAME a'r rhai sy'n sâl neu'n anabl yn cael eu gorgynrychioli fel defnyddwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil o gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, daethom i'r casgliad y gallant

gael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynnig. Fodd bynnag, rhaid i'r asesiad gael ei drin yn ofalus oherwydd y gyfran uchel o unigolion yn y grŵp yr effeithir arnynt lle nad oes unrhyw ddata ar gael, yn enwedig ar gyfer hil ac anabled. Roeddem yn ystyried fod unrhyw effaith o'r fath gael ei chyfiawnhau am y rhesymau a nodir isod.

Effaith ar ddarparwyr

18.1.2 Roeddem yn rhagweld y byddai effaith y cynnig hwn yn andwyol, gan y byddai darparwyr yn gweld gostyngiad mewn incwm cymorth cyfreithiol. Yn gyffredin â holl ddarparwyr cymorth cyfreithiol sifil a theulu yr oedd data ar gael iddynt, mae'r rheiny sy'n rheoli cwmnïau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig hwn yn ddynion nad ydynt yn anabl, o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, ond yn wahanol i'r rhan fwyaf o ddarparwyr sifil a theulu, maent yn fwy tebygol o fod yn BAME o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol (48% ymhlith darparwyr yr effeithir arnynt, o gymharu â 14% yn y boblogaeth gyffredinol). Daethom i'r casgliad y gallai'r cynnig felly gael effaith anghymesur ar y grwpiau hynny. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall y maint yr effaith ar y cwmni darparwr dan sylw ddibynnu ar faint y maent yn dibynnu ar incwm o feysydd gwaith yr effeithir arnynt gan y cynnig. Roeddem yn ystyried fod unrhyw effaith o'r fath gael ei chyfiawnhau am y rhesymau a nodir isod.

Cyfiawnhad

18.1.3 Roeddem yn cydnabod y gall y cynnig gael effaith anghymesur ar y darparwyr sy'n ddynion, nad ydynt yn anabl, neu'n BAME. Fodd bynnag, roeddem yn credu bod y cynnig yn ddull cymesur o gyflawni'r nod cyfreithlon. Roeddem o'r farn ei bod yn anghyfiawn parhau i dalu cyfradd uwch (yn cynnwys codiad) yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Rhoddwyd y gyfradd uwch yn ei lle o dan hen gynllun cyllid ôl-weithredol lle'r oedd gwaith ar yr apêl gyfan 'mewn perygl'. O dan y trefniadau presennol dim ond gwaith ar y cais caniatâd sydd 'mewn perygl' a gwneir taliad ar ôl cais llwyddiannus. Fodd bynnag, mae'r gyfradd uwch o dâl yn parhau'n berthnasol. O ystyried y trefniadau gwahanol sydd wedi eu rhoi yn eu lle ers i'r gyfradd uwch gael ei chyflwyno, nid oeddem yn ystyried fod taliad parhaus y gyfradd uwch yn cael ei gyfiawnhau.

18.2 Dadansoddiad Terfynol

Materion allweddol a godwyd

